
# Adolygiad Perfformiad Blynyddol

2021/22




Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| **Rhan 1 – Sut mae'r Cygnor yn arfer ei swyddogaethau** | **Tudalen 4** |
| **Diogelu** Pobl rhag Niwed | **Tudalen 7** |
| Gwella **Addysg a Sgiliau** | **Tudalen 22** |
| Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd** | **Tudalen 33** |
| **Trechu Tlodi** | **Tudalen 57** |
| Cynnal a gwella **adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe** | **Tudalen 73** |
| **Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol** | **Tudalen 92** |
| **Rhan 2: Sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau** | **Tudalen 105** |
| **Rhan 3 – effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor** | **Tudalen 126** |
| Ble i gael gwybodaeth ychwanegol | Tudalen 144 |

**Cyflwyniad –** Yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2021/22

Mae Cynllun Corfforaethol 2021/22 y Cyngor, sef *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy*, yn disgrifio ein 5 blaenoriaeth allweddol (Amcan Lles) a gwerthoedd ac egwyddorion ein sefydliad a fydd yn sail i gyflawni ein blaenoriaethau a'n strategaeth gyffredinol; mae hyn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y 'Ddeddf') i osod Amcanion Lles.

Mae ein Hamcanion Lles yn dangos cyfraniad y Cyngor at 7 nod cenedlaethol[1] Cymru a ddisgrifir yn y Ddeddf ac yn disgrifio sut byddwn yn cynyddu'r cyfraniad hwn at y nodau cenedlaethol a lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Abertawe i'r eithaf trwy weithio yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd a amlinellir yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i fodloni ein Hamcanion Lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu sut rydym yn cynyddu ein cyfraniad at ein nodau lles a nodau cenedlaethol i'r eithaf trwy'r ffordd rydym yn gweithio, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Ystyried heriau tymor canolig a thymor hir y dyfodol.
- Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd a'u bod yn ategu amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

**Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr – ein Hamcanion Lles ar gyfer 2021/22**

Er mwyn ateb yr heriau hyn, gwnaethom flaenoriaethu chwe Amcan Lles yn 2021/22, sef:

- ***Diogelu*** *pobl rhag niwed – fel bod ein dinasyddion yn rhydd rhag niwed a chamfanteisio*.
- *Gwella* ***Addysg a Sgiliau*** – fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn cael y sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen i lwyddo mewn bywyd.
- *Trawsnewid ein* ***Heconomi a'n Hisadeiledd*** – fel bod gan Abertawe Ganol Dinas defnydd cymysg llewyrchus a fydd yn cynnal ffyniant ein dinasyddion.
- ***Trechu Tlodi*** – fel bod pob unigolyn yn Abertawe yn gallu cyflawni ei botensial.
- ***Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol*** – fel ein bod ni a'r gwasanaethau a ddarparwn yn gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.
- *Cynnal a gwella* ***adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe*** – fel ein bod yn cynnal a gwella bioamrywiaeth, lleihau ein hôl troed carbon, gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol a gwella iechyd a lles.

Yr Adolygiad Blynyddol hwn o Berfformiad 2021/22 (yr 'Adolygiad') yw Adroddiad Lles Blynyddol y Cyngor, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, ar ei gynnydd wrth gymryd y camau tuag at gyflawni ei Amcanion Lles, fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol, er mwyn cynyddu ei gyfraniad at y nodau cenedlaethol i'r eithaf trwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni ein dyletswydd o dan Ran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2001 i gyhoeddi Adroddiad

[1] Dyma'r Nodau Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Hunanasesu blynyddol. Wrth wneud hynny, mae'r Adolygiad yn ceisio disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau'n dda ac yn llywodraethu ei hun yn briodol trwy weithio yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6**

Bydd y wybodaeth a fanylir o dan yr Amcan *Cynnal a gwella Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe* yn yr adroddiad hwn yn cael ei defnyddio fel sail i Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 y Cyngor i Lywodraeth Cymru.

**Sut gallwch chi gymryd rhan?**

Gallwch gymryd rhan a lleisio'ch barn https://www.abertawe.gov.uk/dweudeichdweud. Gallwch hefyd gymryd rhan trwy baneli a Byrddau Craffu'r Cyngor, sydd ar agor i'r cyhoedd: https://www.abertawe.gov.uk/craffu. Gallwch gysylltu â'r Cyngor unrhyw bryd trwy: anfon neges e-bost at improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 637570.

## Rhan 1 – Sut mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau

Mae'r rhan hon o'r Adolygiad yn adrodd ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gynnal y camau a amlinellwyd ganddo yn ei Gynllun Corfforaethol 2021/22 i weithio tuag at fodloni pob Amcan Lles. Mae'n hunanasesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol:

- Pan fydd yn cymryd y camau a amlinellwyd i gyflawni ei Amcanion Lles.
- Pan fydd yn cynyddu ei gyfraniad at ei Amcanion Lles a'r Nodau Cenedlaethol i'r eithaf.
- Pan fydd yn gweithio'n gynaliadwy (yn unol â'r 5 ffordd o weithio).

Ar gyfer pob Amcan Lles:

- Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?
- Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?
- Tueddiadau / gofynion yn y dyfodol.
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?
- Casgliad – i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol:
    - Cynnydd wrth gymryd y camau tuag at gyflawni'r Amcan Lles.
    - Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.
    - Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i fodloni'r Amcan Lles hwn.

Mae'r rhan gyntaf hon o'r adroddiad yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol gan ddefnyddio addasiad o Offeryn Hunanfyfyrio'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi dull integredig o gasglu tystiolaeth er mwyn pennu cynnydd yn erbyn amcanion lles y Cyngor a chyflawni ei gyfrifoldebau hunanasesu newydd.

Asesir cynnydd yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Mae **'dechrau arni'** yn golygu bod hyn yn amcan newydd neu'n newid i'r cyfeiriad. Fe allai hefyd olygu bod y Cyngor wedi wynebu heriau neu rwystrau rhag cynnydd.

- Dylai **'gwneud newidiadau syml'** fod yn gyflym ac yn rhwydd eu gweithredu. Maen nhw'n aml yn gamau gweithredu syml sydd wedi cael eu profi gan eraill ac sy'n annhebygol o fethu.

- Mae **'bod yn fwy anturus'** yn golygu camu y tu hwnt i gyfeiriad meddwl 'busnes fel arfer' a gweithredu i newid sut mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach, ac fe allai gynnwys newid i strategaeth neu ymagwedd dîm wrth wneud rhywbeth ac efallai cynnwys mwy o adrannau a sefydliadau na 'newid syml'.

- Gall **'cymryd cyfrifoldeb am ein huchelgais'** fod yn gam tebyg i 'fod yn fwy anturus', wrth i fentrau ddatblygu a mwy o bobl gymryd rhan. Bydd y Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Mae'r Cyngor yn diffinio ei ddull fel un uchelgeisiol ac mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i weithio ar draws sectorau a dylanwadu ar newid.

- Gallai'r rheiny sy'n **'arwain y ffordd'** fod y bobl gyntaf neu'r Cyngor cyntaf i fod yn cymryd y camau hyn ac maen nhw'n ganllaw i bobl eraill ei ddilyn. Newid systemig, trawsffurfiol yw hyn i'r ffordd y mae pethau wastad wedi cael eu gwneud a bydd yn gofyn am ailddyrannu adnoddau, amser i roi'r newidiadau ar waith a chydweithio â chyrff eraill. Mae camau gweithredu'n arloesol, yn ysbrydoledig ac yn gydweithredol, gan roi'r Ddeddf ar waith ar draws portffolios mwy i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r ffordd hon o weithio'n cael ei hymsefydlu yn y Cyngor ac mae arfer da yn cael ei rannu ag eraill.

Mae astudiaethau achos wedi'u cynnwys hefyd i ddangos yr effaith y mae'r camau yn ei chael yn well.

**Effaith y Pandemig COVID-19**

Mae'r pandemig Covid-19 parhaus wedi creu heriau ac achosi newidiadau enfawr i'r Cyngor, ei wasanaethau a'i weithlu. Nid yw'r Cyngor erioed wedi ymgymryd â newid o'r fath o fewn cyfnod mor fyr ac mewn amgylchiadau mor heriol. Cafodd nifer o wasanaethau nad ydynt yn hanfodol eu hatal dros dro neu eu lleihau yn ystod 2020/21 a 2021/22 er mwyn ailddosbarthu adnoddau i'r meysydd lle'r oedd eu hangen fwyaf.

Mae hyn, yn anochel, wedi cael effaith sylweddol ar y meysydd arferol o berfformiad ar draws y cyngor, a dyna pam na osodwyd targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad yn 2020/21 na 2021/22. Dylai hyn gael ei ystyried hefyd wrth gymharu perfformiad â blynyddoedd blaenorol.

I grynhoi, ers mis Mawrth 2020, mae'r Cyngor wedi trawsnewid y ffordd y mae'n gweithio i reoli effaith y pandemig. Trefnwyd yn llwyddiannus i filoedd o staff weithio o bell a/neu o gartref o fewn wythnosau. Cymerodd hyn ymdrech aruthrol gan ein tîm TGCh i ddarparu'r newidiadau angenrheidiol i alluogi staff a chynghorwyr gael cysylltiadau llawn â'r rhwydwaith yn y lleoliad o'u dewis.

Mae newidiadau eraill yn cynnwys:

- Cefnogi Rhaglen Warchod Llywodraeth Cymru trwy sefydlu canolfan alwadau newydd a rhoi cymorth dyddiol i filoedd o bobl agored i niwed.
- Canolbwyntio gofal gwasanaethau cymdeithasol ar y bobl fwyaf agored i niwed, ailagor cartref gofal a chefnogi'r sector gofal preifat.
- Goruchwylio gwaith cynllunio ac adeiladu Ysbyty Maes y Bae ar Ffordd Fabian.

- Ailfodelu ysgolion yn lleoliadau gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol.
- Darparu prydau bwyd i leoliadau gofal a danfon prydau ysgol am ddim.
- Darparu banciau bwyd ar draws y ddinas a'r sir.
- Darparu cymorth ariannol o fwy na £100 miliwn i filoedd o fusnesau.
- Sefydlu swyddogaeth Profi, Olrhain a Diogelu a darparu canolfannau profi cymunedol.
- Paratoi ar gyfer brechu torfol yn ein cymunedau.

Felly, dylai perfformiad yn 2021/22 gael ei ystyried o fewn y cyd-destun ehangach hwn a dylai cyflawniadau gael eu nodi.

**Diogelu pobl rhag niwed**

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod dinasyddion yn byw eu bywydau yn rhydd rhag niwed a chamfanteisio.
- Mae angen i ddiogelu pobl agored i niwed gael ei ystyried yn fusnes pawb ym mhob gwasanaeth yn y Cyngor, gan yr holl Aelodau etholedig a chan y rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor.
- Rydym eisiau i blant fod yn ddiogel rhag niwed ac aros gyda'u teuluoedd neu gael eu cefnogi mewn lleoliadau teuluol pan fydd hynny'n ddiogel.
- Rydym eisiau sicrhau bod yr holl oedolion agored i niwed yn cael eu diogelu rhag niwed ac yn gallu byw hyd eithaf eu potensial.
- Rydym eisiau mynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu llwyr gefnogi.
- Rydym eisiau i bobl heneiddio'n dda a gallu byw mor annibynnol ac mor ddiogel â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed a blaenoriaethu gwasanaethau a chysylltiad â nhw yn ystod yr ymateb i Covid-19 a'r adferiad ohono.**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei dominyddu unwaith eto gan effaith COVID-19 ar ein poblogaeth o ran anghenion gofal a chymorth, ein gweithlu a gwasanaethau iechyd a gofal. Achoswyd her sylweddol i gyflawni ein strategaethau allweddol i gefnogi plant, teuluoedd ac oedolion ag anghenion gofal a chymorth i aros yn ddiogel ac yn iach gartref. Mae'r prinder gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau i blant, ac felly hefyd y broblem genedlaethol o ddigonolrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal. Mewn gwasanaethau i oedolion, mae'r ôl-groniadau a achoswyd gan y ffaith nad oedd unigolion yn gallu cael at wasanaethau iechyd a gofal wedi gwaethygu cymhlethdod yr anghenion a gyflwynir gan unigolion. Mae hyn, yn ei dro, wedi dwysáu'r anawsterau wrth fodloni'r angen uwch hwnnw a achoswyd gan y diffyg yng nghapasiti'r gweithlu ar draws yr holl wasanaethau iechyd a gofal i oedolion.

Mae prinder gweithlu'n arbennig o ddwys mewn gwasanaethau gofal cartref, gan danseilio ymhellach yr ymdrech i gyflawni ein huchelgais strategol i gynorthwyo mwy o unigolion yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag mewn lleoliadau mwy sefydliadol. Mae adrodd a monitro perfformiad wedi cymhlethu'r sefyllfa ymhellach yn ystod y cyfnod allweddol hwn oherwydd diffyg sefydlogrwydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Genedlaethol Cymru, a aeth yn fyw yn Abertawe yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r system yn sefydlog bellach, ond ni fydd modd rhoi adroddiad diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar rai dangosyddion o ganlyniad i'r effaith sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Mae'n berffaith ddealladwy bod yr heriau a amlygwyd uchod wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad, yn enwedig lle y bu'n rhaid newid ein pwyslais i reoli'r argyfwng a sicrhau nad oedd systemau iechyd a gofal yn chwalu. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r perfformiad cyffredinol wedi cael ei gynnal yn syndod o dda, a hynny er clod i weithlu'r cyngor.

Mae pawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chyda ac o fewn ein cymunedau, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi gan y Cyngor, yn y sector annibynnol a'r trydydd sector, ein

partneriaid statudol, yr holl ofalwyr di-dâl, gwirfoddolwyr ac aelodau eraill o'r gymuned, wedi dangos gwydnwch, arloesedd, ymroddiad a dyngarwch rhyfeddol i gynorthwyo ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydym bellach yn dysgu o'r ffyrdd gwahanol hyn o weithio i lywio modelau darparu yn y dyfodol sy'n sicrhau ein bod yn bodloni anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn y ffordd orau y gallwn. Mae rhaglen adfer y Cyngor ar ôl y pandemig – "Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd" yn drwm dan ddylanwad Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau i Oedolion a Rhaglen Wella'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd.

**Parhau i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl niwed a chamfanteisio sylweddol.**

Mae Cyngor Abertawe yn disgwyl i bobl agored i niwed yn Abertawe gael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn flaenoriaeth gorfforaethol, ac mae lles yn ganlyniad strategol yn y Cynllun Corfforaethol (2021-22). Trwy weithredu dull corfforaeth gyfan o ddiogelu pobl agored i niwed, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod llinellau clir o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ym mhob un o'i feysydd gwasanaeth, a'n bod yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner yn y gwaith hwn.

Yn y gwasanaethau i blant, mae'r pwyslais deuol ar ddarparu mwy o gymorth cynnar ar yr un pryd â chynnal arferion diogelu rhagweithiol cadarn wedi golygu bod mwy o blant wedi cael eu cefnogi i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i leihau. Mae her benodol yn ymwneud â phobl ifanc hŷn ag ymddygiad cymhleth a heriol y mae arnynt angen darpariaeth breswyl arbenigol, nad ydym wedi gallu ei darparu na'i chomisiynu. Bydd ein strategaeth i ymestyn darpariaeth leol fewnol a rhanbarthol arbenigol yn mynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig, ond yn y cyfamser rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn Lloegr neu mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Nid yw'r niferoedd yn uchel, ond mae'n achos pryder y bydd angen i ni ei fonitro'n ofalus y flwyddyn nesaf.

Yn y gwasanaethau i oedolion, mae camau atal cryfach trwy gydlynu yn yr ardal leol a gweithio gyda chydweithwyr yn y trydydd sector wedi golygu bod unigolion a'u gofalwyr nad ydynt yn gallu cael gofal a chymorth ffurfiol wedi cael rhywfaint o gymorth lliniarol. Mae hyn wedi helpu i leihau lefel y galw sy'n fwy na'r capasiti presennol, ond roedd ôl-groniadau sylweddol o asesiadau, adolygiadau a mynediad at ofal cartref ar ddiwedd y flwyddyn o hyd.

Mae gwasanaethau dydd a darpariaeth ddydd arall wedi parhau i ehangu drwy gydol y flwyddyn a chynhaliodd y Cyngor gapasiti ychwanegol yn ei ddarpariaeth breswyl fewnol i ddarparu lleoliadau gofal seibiant/tymor byr estynedig. Rydym hefyd wedi ehangu mynediad at daliadau uniongyrchol ar gyfer unigolion ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain.

**Parhau i sicrhau bod diogelu yn 'fusnes pawb' ar draws y Cyngor, o fewn ysgolion, gyda phartneriaid, a thrwy Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, i sicrhau ein bod yn cydweithio ac ymyrryd ynglŷn â materion ehangach sy'n dod i'r amlwg, fel Llinellau Cyffuriau, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Pobl, Bwlio mewn Ysgolion, Troseddau Casineb, a'r strategaeth PREVENT.**

Mae gan bolisi diogelu corfforaethol Cyngor Abertawe bwyslais cryf ar ymyrraeth gynnar ac atal, ac mae'n gosod dyletswydd ar yr holl swyddogion gwasanaeth cyhoeddus i adrodd. Mae ein polisi wedi'i ddiweddaru bellach yn cynnwys ystod ehangach o gamdriniaethau posibl, a diogelu cyd-destunol a allai fod yn fygythiad i bobl agored i niwed, fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern, radicaleiddio, ac ati. Mae diogelu bellach yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn

"fusnes pawb" gan arweinwyr y Cyngor, aelodau etholedig, ein gweithlu, sefydliadau partner ac unrhyw unigolion sy'n gwneud gwaith gyda neu ar ran y Cyngor.

Astudiaeth achos 1: Mae'r ddinas mewn 'sefyllfa gref' i barhau i gefnogi pobl ifanc

Mae Abertawe mewn sefyllfa gref i barhau i wella bywydau plant trwy atal niwed a chamfanteisio, nid yn unig yn eu cartrefi ond mewn mannau eraill lle maen nhw'n treulio amser, yn ôl arbenigwyr.

Mae'r cyngor yn arloesi dull newydd ar gyfer Cymru o'r enw Diogelu Cyd-destunol, fel bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth iawn y mae arnynt ei angen gan y bobl iawn, yn y lle iawn, ac ar yr adeg iawn iddyn nhw.

Yn ogystal â chynyddu ei waith ieuenctid gyda phum aelod ychwanegol o staff a chynyddu darpariaeth clwb ieuenctid, mae'r cyngor wedi gweithio gydag eraill – er enghraifft yr heddlu a busnesau – i gyrraedd ardaloedd fel parciau, y promenâd, y traeth, a mannau cymunedol eraill lle mae pobl ifanc yn tueddu i gasglu a gwneud y mannau hyn yn fwy diogel.

Mae prosesau ac arferion ar waith hefyd bellach i wrando ar bobl ifanc, preswylwyr a phobl yn y gymuned pan fydd pryder ynglŷn â diogelwch pobl ifanc, a chydweithio i'w wneud yn fan mwy diogel ac yn lle i bawb.

Mae'r pryderon hyn yn helpu i lywio rhan o waith panel amlasiantaethol a sefydlwyd y llynedd sydd wedi ystyried 50 o atgyfeiriadau a chymryd amrywiaeth o gamau o oleuadau stryd ac arwyddion cymorth i waith ieuenctid allgymorth, hyfforddiant mewn ysgolion, a chynorthwyo grwpiau cymunedol a busnesau i helpu i gadw mannau'n ddiogel.

Arweinir y dull Diogelu Cyd-destunol newydd hwn gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Abertawe mewn partneriaeth â mwy na 25 o asiantaethau o'r heddlu ac iechyd i'r trydydd sector a busnesau lleol.

Dyma ganlyniad gwaith a ddechreuodd ddwy flynedd yn ôl pan ddaeth Abertawe yn un o bum safle profi yn unig ledled Cymru a Lloegr i wneud cais llwyddiannus i Brifysgol Durham a Phrifysgol Swydd Bedford weithio gyda nhw i ddatblygu dull Diogelu Cyd-destunol.

Mae'n cynnig dulliau a gwersi newydd a ddysgwyd am ddiogelu pobl ifanc sy'n dod i niwed ac sydd mewn perygl o gamfanteisio y tu hwnt i'w gartref teuluol.

Mae ymchwilwyr yn dweud bod hyn wedi rhoi Abertawe mewn sefyllfa gref i barhau i wella'r ffordd y mae'n gofalu am ei holl bobl ifanc yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhaglen hefyd wedi gweld y cyngor yn datblygu ei bwynt cyswllt unigol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fel bod ganddo ystod eang o arbenigedd a gwasanaethau bellach i helpu teuluoedd.

Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ac mae ganddo staff sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig, diogelu, cymorth dwys i deuluoedd a gwasanaethau arbenigol cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio troseddol. Mae ei Arweinydd Ymarfer ar gyfer Diogelu Plant sydd mewn Perygl o Gamfanteisio wedi'i leoli yno hefyd.

Dywedodd Dr Rachael Owens, Cynghorydd Ymarfer Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Durham, mai'r hyn sydd wrth wraidd y dull Diogelu Cyd-destunol hwn yw pwysigrwydd gwrando ar bobl ifanc, preswylwyr a phobl mewn cymunedau pan fydd pryder ynglŷn â diogelwch pobl ifanc.

"Mae partneriaethau newydd gydag asiantaethau sy'n cyrraedd cyd-destunau a mannau lle mae pobl ifanc yn treulio eu hamser, ac sy'n gyfrifol am y cyd-destunau a'r mannau hynny. Ochr yn ochr â'r partneriaethau newydd hyn, mae prosesau ar waith bellach i gydlynu ymatebion i sefyllfa plentyn sydd wedi'u seilio ar les. Y syniad yw targedu cyflyrau niwed cymdeithasol fel bod gofal cymdeithasol yn ffurfio partneriaeth â'r asiantaeth neu'r asiantaethau mwyaf priodol i wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol i gadw'r plentyn yn ddiogel.

"O ran newidiadau i ymarfer, mae Gwasanaethau Plant Abertawe wedi cynyddu eu darpariaeth gwaith ieuenctid datgysylltiedig. Mae'n golygu, ochr yn ochr â newid yr amgylcheddau, bod ymrwymiad i ffurfio perthnasoedd dibynadwy sy'n cynyddu gwarcheidwaeth pobl ifanc mewn mannau awyr agored, mynd i'r afael â'u hanghenion a'u cynorthwyo i ddysgu gan ei gilydd.

"Mae hyn i gyd wedi bod yn bosibl oherwydd bod y tîm sy'n arwain Diogelu Cyd-destunol yn Abertawe wedi ymgysylltu'n frwd â'r broses.

"Maen nhw wedi gwireddu gweledigaeth ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau a gynigir a'u strwythur er mwyn cynyddu diogelwch ar gyfer pobl ifanc, ac maen nhw bellach mewn sefyllfa gref i ymgorffori hyn yn eu harferion arferol.

"Edrychwn ymlaen at weld sut mae'r hyn a ddysgir yn datblygu ac yn gallu cefnogi dulliau o ddiogelu pobl ifanc y tu allan i'r cartref ledled Cymru."

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Abertawe dros Wasanaethau Plant yn 2021/22, Elliott King: "Rwy'n falch bod penderfyniad ac ymrwymiad y cyngor i sicrhau bod yr holl bobl ifanc mor ddiogel ag y gallant fod wedi cael ei gydnabod.

"Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i newid a gwella'r ffordd rydym ni a'n partneriaid yn gweithio, ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff a'n partneriaid.

"Byddwn bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn, ond hoffwn gydnabod a diolch i bawb sy'n gysylltiedig am y cynnydd hyd yma."

**Parhau i sicrhau bod y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gadarn ac yn effeithiol wrth fodloni'r gofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod, fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, i wella canlyniadau lles i oedolion agored i niwed yn Abertawe.**

Mae'r ffordd y mae ein gwasanaethau cymdeithasol wedi addasu i'r pandemig yn dangos gwydnwch staff, eu gwaith caled parhaus a'u proffesiynoldeb. Mae'n gyfnod heriol i blant, pobl ifanc, oedolion agored i niwed, gofalwyr a theuluoedd, ac mae'r Cyngor yn ymateb yn wych i'r heriau newydd a phresennol trwy barhau i ddarparu gwasanaethau craidd yn effeithiol ac yn arloesol. Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r perfformiad presennol a sut mae canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni.

**Parhau i sicrhau bod y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gadarn ac yn effeithiol wrth fodloni'r gofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod, fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, i wella canlyniadau lles i oedolion agored i niwed yn Abertawe.**

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Ein gweledigaeth yw "Gwneud yr hyn sy'n bwysig i wella pethau i

blant, pobl ifanc a theuluoedd". Mae effaith cau ysgolion yn ystod y pandemig wedi bod yn achos pryder i ni, gan fod hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd i ystyried lles pob plentyn, ac ymyrryd pan fydd posibilrwydd y gallai plentyn brofi niwed. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu plant a gwella canlyniadau i'r niferoedd uchel o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac rydym yn llwyddo i ddod o hyd i leoliadau diogel mewn teuluoedd cefnogol ac yn fwy lleol. Mae gan Abertawe fodel ymarfer Arwyddion Diogelwch/Lles sydd wedi'i hen sefydlu, i ffurfio'r ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, er mwyn deall yr hyn sydd bwysicaf i blant a theuluoedd, ynghyd ag archwilio cryfderau a rheoli risgiau i sicrhau bod diogelwch, gofal a chymorth yn sefyllfa'r plentyn a'r teulu.

**Parhau i dargedu strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal Diogel trwy weithredu gwelliannau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a thrwy'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.**

Mae ein strategaeth leihau Plant sy'n Derbyn Gofal Diogel wedi newid bellach i ddod yn strategaeth 'Cynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel gyda theulu'. Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol Abertawe yn hyrwyddo hawliau plant sy'n derbyn gofal, ac mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio'n gydgynhyrchiol gyda'n poblogaeth sydd â phrofiad o ofal ar sut beth yw "bywyd gorau" yn Abertawe. Credwn y dylai pob plentyn fyw mewn cartref diogel a sefydlog lle y gallant gyflawni canlyniadau da a thyfu'n oedolion sy'n gallu byw bywydau llwyddiannus. Plant sy'n derbyn gofal yw'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd rhwng 0 a 18 oed na allant aros yn ddiogel yn eu teulu ac sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Ar gyfer y bobl ifanc hyn, rydym yn datblygu dull gwasanaeth cyfan o ddychwelyd plant i'w teuluoedd, lle bynnag y bo'n bosibl, neu fel arall gyflawni diogelwch a sefydlogrwydd go iawn tan iddynt gyrraedd oedolaeth trwy weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu i amlygu eu hanghenion a'r cymorth iawn iddynt ar yr adeg iawn.

**Trwy raglen Gwneud Pethau'n Iawn i Bob Plentyn, byddwn yn gweithredu dull system gyfan, integredig newydd i ganolbwyntio cymorth cynnar a gwasanaethau atal er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc, a chymorth i deuluoedd.**

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos i ganolbwyntio ar atal a chymorth cynnar. O fewn y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd drosfwaol, rydym yn datblygu'r dull Meddwl ar sail Systemau i sicrhau bod y plentyn a'r teulu iawn yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Mae mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cynorthwyo trwy'r ganolfan cymorth cynnar. Gallai Abertawe fod yn gweld buddion buddsoddi mewn cymorth cynnar ac atal, gan fod llai o blant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant a llai o blant yn derbyn gofal. Mae gwasanaeth 'Pwynt Cyswllt Unigol' newydd, sef y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gynt, yn cynnig cyngor ac eiriolaeth amlasiantaethol, gwell i helpu i ddeall beth sy'n digwydd i blentyn, ac o fewn ei deulu, er mwyn helpu i benderfynu os oes angen cymorth statudol a dod o hyd i'r cymorth gorau'n gyflym.

**Parhau i gynnwys plant wrth leisio eu barn, a chynnwys oedolion a gofalwyr ynglŷn â'r gwasanaethau a gânt, trwy wella ein model ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gryfderau ac asedau unigolyn, beth sy'n bwysig iddo, beth all ei deulu a'i ffrindiau ei wneud i helpu, a thrwy gydgynhyrchu cynlluniau i gyflawni canlyniadau gwell.**

Mae'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu sut y bydd Cyngor Abertawe yn cyflawni ein dyletswydd mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Cafodd cynllun ar dudalen o'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc ei gydgynhyrchu gyda phlant, pobl ifanc a'r Rhwydwaith Hawliau Plant wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Mae gennym Rwydwaith Cydgynhyrchu cryf yn Abertawe hefyd, a gynhelir gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, a chyda'i gilydd, mae strategaeth gydgynhyrchu'n ceisio rhoi eglurder ac adnoddau i bobl er mwyn iddynt ddatblygu eu gwybodaeth a'u harferion yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen hyfforddi er mwyn i'r staff ddeall a gweithredu arferion cydgynhyrchiol yn well. Mae cydgynhyrchu'n ganolog i'r ffordd rydym yn comisiynu gwasanaethau a datblygu polisi, er enghraifft:

- Mae'r Grŵp Cydgynhyrchu Taliadau Uniongyrchol wedi dylunio proses Taliadau Uniongyrchol newydd ar gyfer Abertawe.
- Mae'r Grŵp Cydgynhyrchu Fframwaith Ymarfer yn datblygu canllaw i gynorthwyo pobl i baratoi ar gyfer eu hasesiad.
- Mae'r Grŵp Cydgynhyrchu Anableddau Dysgu wedi cefnogi cynnwys dinasyddion wrth ddyfarnu contractau.
- Mae'r Grŵp Cydgynhyrchu Eiriolaeth wedi dylunio gwasanaeth eiriolaeth newydd.

Astudiaeth Achos 2: Rhwydwaith Hawliau Plant Abertawe

Mae Rhwydwaith Hawliau Plant Abertawe yn cynnwys dros 80 o randdeiliaid sydd â buddiant mewn hyrwyddo'r agenda hawliau plant yn Abertawe. Rydym bellach yn gwybod, ar sail adborth gan blant a phobl ifanc, mai dyma'r materion allweddol maen nhw eisiau gweithio arnynt i wneud Abertawe yn lle gwell i fyw:
1. Diogelu'r Amgylchedd a Mannau Gwyrdd
2. Lleisiau tawel – datblygu systemau ar gyfer gwrando ar blant a phobl ifanc nad ydynt eisiau 'siarad yn uchel' ond sydd eisiau lleisio'u barn, e.e. platfformau digidol a blychau awgrymiadau rhithwir
3. Cynorthwyo plant anabl – gweithio ar wneud newid fel bod plant anabl yn teimlo'n integredig ac yn gallu lleisio'u barn fel y byddai unrhyw blentyn arall
4. Cydraddoldeb i blant a phobl ifanc LHDTC+ – datblygu adnoddau sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ac sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb i blant a phobl ifanc sy'n ystyried eu bod yn LHDTC+
5. Gwleidyddiaeth – datblygu adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc i ddeall beth yw gwleidyddiaeth, pwy yw gwleidyddion lleol a sut i drefnu newid
6. Gwrando ar Ddysgwyr – cryfhau llais cyfunol disgyblion ar draws y Sir, datblygu
Children-and-Young-Peoples-Rights-Scheme 2021

**Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a rhoi ymyriadau a chymorth effeithiol ac amserol ar waith.**

Yn ystod y pandemig COVID-19, newidiodd ymateb y Cyngor i Drais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i ddull partneriaeth cyflym ac addasadwy i'r argyfwng a oedd yn dod i'r amlwg a'i effaith ar ddiogelwch menywod, ac o fewn teuluoedd. Mae ein darpariaeth VAWDASV yn gweithio ochr yn ochr â chymorth cynnar, ein canolfan diogelu a'r Pwynt Cyswllt Unigol ar gyfer Plant a Theuluoedd i sicrhau ymateb mwy cydlynol i geisiadau am gymorth. Yn ogystal, cryfhawyd y gwaith rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant a theuluoedd trwy gydweithio ar ddull system gyfan. Blaenoriaethodd Cyngor Abertawe ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth gyda neges gref fod cymorth ar gael. Gwnaethom ddatblygu ymgyrchoedd amlgyfrwng yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn cefnogi negeseuon cenedlaethol fel #youarenotalone, a sicrhau bod gwybodaeth leol am wasanaethau cymorth yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd.

Astudiaeth achos 3: Clybiau pêl-droed a rygbi'n cael eu hannog i gefnogi'r ymgyrch Rhuban Gwyn

Gofynnwyd i glybiau rygbi a phêl-droed ledled Abertawe ymuno â'r cyngor i nodi'r Diwrnod Rhuban Gwyn ddydd Iau 25 Tachwedd. Ymgyrch genedlaethol ydyw i fynd i'r afael â thrais gwrywaidd yn erbyn menywod trwy ofyn i ddynion a bechgyn sefyll yn erbyn trais a herio ymddygiad rhywiaethol ac amhriodol.
Ymunodd RFC Abertawe ac RFC Casllwchwr â'r ymgyrch a gwnaeth eu chwaraewyr addewidion fideo byr.
Gofynnwyd i glybiau eraill ymuno hefyd, gan gynnwys clybiau llawr gwlad a chymunedol, trwy bostio eu cefnogaeth ar gyfryngau cymdeithasol cyn 25 Tachwedd gan ddefnyddio'r hashnodau #AllMenCan a #SwanseaMenCan.
Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Abertawe, Andrew Stevens, sy'n chwarae dros Gasllwchwr: "Bob tri diwrnod mae menyw yn cael ei lladd gan ddyn yn y Deyrnas Unedig.
"Mae aflonyddu a chamdriniaeth yn effeithio ar fenywod bob dydd, ar y stryd, mewn gweithleoedd ac yn eu cartrefi. Mae'n broblem gynyddol a'n cyfrifoldeb ni, fel dynion, yw rhoi terfyn arni.
"Ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn eleni, rydym yn gofyn i glybiau rygbi a phêl-droed ledled Abertawe ddod at ei gilydd a gwrthod derbyn trais yn erbyn menywod. Gall dynion Abertawe wireddu newid.
"Rwy'n falch bod fy nghlwb i'n cefnogi'r ymgyrch hon a byddwn yn annog eraill – hŷn ac iau – i ymuno a dangos eu cefnogaeth i'r Diwrnod Rhuban Gwyn."

**Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd pobl hŷn, o fewn cymunedau cefnogol, trwy ymestyn cydlyniad mewn ardaloedd lleol a'r amrywiaeth o gyfleoedd cymorth ac ataliol.**

Rydym yn edrych ar fodelau cynaliadwy newydd i wella canlyniadau iechyd a lles. Rydym yn cefnogi datblygiad strategaeth wirfoddolwyr a datblygu mentrau gofal cartref bach mewn ardaloedd lle mae darparwyr traddodiadol yn cael trafferth gweithredu ac i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Mae gan Abertawe dîm Cydlynu Ardal Leol sy'n rhychwantu'r ddinas gyfan i helpu pobl i ddod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth iawn. Mae'r tîm bellach yn gweithio ym mhob ardal ac yn helpu pobl i 'Gael bywyd nid gwasanaeth'. Gall Cydlynydd Ardal Leol helpu unrhyw un i ffurfio perthnasoedd yn ei gymuned. Rydym yn cynorthwyo pobl hŷn, pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, a'u teuluoedd a'u gofalwyr i:

- greu eu gweledigaeth eu hunain o sut beth yw bywyd da;
- aros yn gryf ac wedi'u cysylltu;
- teimlo'n fwy diogel a hyderus yn y dyfodol.

Mae Tîm Cyflogadwyedd Abertawe yn parhau i gynorthwyo ystod amrywiol o gleientiaid ar draws nifer o grwpiau oedran i gael gwaith. Mae coleg Adfer CREST Abertawe yn cynnig ystod o gyrsiau sy'n canolbwyntio ar adfer iechyd meddwl, ac mae cyfleoedd dydd yn ailddechrau ar ôl y pandemig. Mae'n rhaid i ni gydnabod ymdrechion ein gweithlu a'n gwirfoddolwyr wrth sicrhau bod ein pobl fwyaf agored i niwed yn cael eu cynorthwyo, ac wrth ymateb i'r heriau newydd wrth i Abertawe groesawu teuluoedd a dinasyddion newydd o wledydd cythryblus.

Astudiaeth Achos 4: Cydlynu Ardal Leol

Penderfynodd C ffonio S, y Cydlynydd Ardal Leol, yn wreiddiol i gael ychydig o wybodaeth ynglŷn â'i mam (yr oedd yn gofalu amdani). Wrth drafod rhai opsiynau posibl ar gyfer ei mam, dywedodd C nad oedd unrhyw ffordd y byddai ei mam yn ymwneud ag unrhyw beth ar hyn o bryd ac na fyddai'n derbyn galwadau gan unrhyw un. Tra oeddent ar y ffôn, gofynnodd S sut oedd C yn ymdopi'n

bersonol. Dywedodd ei bod yn cael trafferth gofalu am ei mam yn ogystal â delio â straen a oedd yn digwydd yn ei bywyd ei hun ar y pryd. Dywedodd yn gellweirus fod angen iddi hi weithio gydag S ei hun.

**Beth ddigwyddodd:**

Sylwodd S ar hyn a chynigiodd ei drafod ymhellach. Roedd C yn werthfawrogol iawn a chytunwyd ar alwad yr wythnos ganlynol. Yn ystod yr alwad hon, esboniodd C ei bod hi yn y broses o geisio symud, a oedd yn achosi llawer o straen, a bod ganddi ei phroblemau iechyd ei hun. Roedd ei mam yn gyfrifoldeb ychwanegol, a oedd yn gwneud i bethau deimlo'n llethol weithiau.

**Dechrau o'r dechrau – mae Cydlynydd Ardal Leol yn gweithio mewn cymuned leol ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i ddatrys eu problemau eu hunain**

Gwnaethant ddadansoddi beth oedd yn bwysig ac yr oedd angen canolbwyntio arno gyntaf, sef helpu C i ddelio â materion gweinyddol oherwydd ei bod hi'n teimlo nad oedd yn gallu dechrau arni. Roedd ganddi ffurflenni yr oedd angen eu llenwi a oedd wedi bod yno ers misoedd, yn ogystal â galwadau ffôn a allai olygu ei bod hi'n gorfod aros ar y llinell am oesoedd. Ni allai wynebu ei wneud. Gyda'i gilydd, gwnaethant ystyried beth allai gwneud un o'r tasgau ei olygu a thrafod sut byddai'n teimlo i neilltuo hanner awr i wneud un ffurflen neu un alwad ffôn. Cytunodd C y gallai wneud hyn a dywedodd ei bod yn teimlo'n well gyda chynllun realistig.

**Mae Cydlynu Ardal Leol yn canolbwyntio ar wybodaeth, gan alluogi pobl i gael gwybod yr hyn y mae ei angen arnynt i'w helpu i wneud penderfyniadau**

Gwnaethant hefyd edrych ar gymorth iddi hi fel gofalwr ac mae C eisoes wedi cael rhywfaint o gymorth gan Ganolfan Ofalwyr Abertawe. Oherwydd nad oedd ei mam yn fodlon ymgysylltu, dywedodd C ei bod wedi derbyn y cyfrifoldeb hwnnw, felly gwnaethant ystyried sut gallai C fod yn rhagweithiol wrth ofalu amdani hi ei hun. Teimlai C y byddai cael ychydig o gymorth ac anogaeth i ddelio â'r pethau a oedd yn achosi straen iddi a gosod nodau bach y gallai eu cyflawni yn ei helpu i ddechrau teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn rhoi mwy o ysgogiad iddi. Tawelodd S ei meddwl y byddai'n arwain y cymorth ac y gallai bara am gyn hired y byddai arni ei angen.

**Gofyn y cwestiynau iawn – yn lle canolbwyntio ar ddiffygion, mae'r Cydlynydd Ardal Leol yn helpu pobl i ganolbwyntio ar eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer bywyd da gan adeiladu ar eu hasedau a'u perthnasoedd eu hunain**

**Beth sydd nesaf:**

Mae C wedi llenwi'r holl ffurflenni tai perthnasol a rhoi ei thŷ ar y farchnad, ac mae'n aros i glywed ar hyn o bryd. Dywedodd y bu'n "isel iawn" am gyfnod ac unwaith iddi ddechrau gwneud y pethau yr oedd angen iddi eu gwneud, daeth popeth ychydig yn haws ac yn llai llethol.

**Yr unigolyn neu'r teulu sy'n arwain, ond mae'r Cydlynydd Ardal Leol yn cynorthwyo pobl i gymryd camau ymarferol i newid**

Mae C yn credu bod pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn ac mae ganddi rif ffôn S os bydd angen iddi alw eto.

"Diolch o galon am fod yno. Mae pethau'n dechrau cael eu datrys, felly rwy'n gobeithio y bydda' i'n iawn nawr. Os na, efallai bydda' i'n cysylltu yn y dyfodol!"

**Cynorthwyo ein hoedolion mwyaf agored i niwed i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref, trwy weithredu'r model Gwasanaethau i Oedolion ac ailgydbwyso ein gwasanaethau i ganolbwyntio ar atal, ailalluogi ac adfer, gan gynnwys gwasanaethau Ailalluogi Cymunedol a Phreswyl, model newydd o ddarparu gofal cartref a gweithredu'r model 'Adre o'r Ysbyty'.**

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn cynorthwyo mwy o bobl mewn ffyrdd arloesol, ac mae'r Cyngor wedi ailfodelu mwy o'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl ag anghenion cymhleth y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae ein model gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac ailalluogi. Rydym yn rhoi'r cymorth gorau posibl i bobl trwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau cymunedol sydd ar gael, gyda chymorth ein gweithlu tra medrus sy'n cael ei werthfawrogi. Mae ein huchelgais gweddnewidiol ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion wedi'i seilio ar ein gweledigaeth:

"Bydd gan bobl yn Abertawe fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern sy'n eu galluogi i fyw bywydau boddhaus gydag ymdeimlad o les o fewn teuluoedd cefnogol a chymunedau cydnerth".

Trwy sicrhau bod cydgynhyrchu'n sail i'n gwaith cynllunio a chomisiynu, rydym yn darparu gwasanaethau gyda phobl yn hytrach nag iddynt. Mae galw uchel am gymorth gofal cymdeithasol wrth y drws blaen, ac am asesiadau gofal cymdeithasol a gwblheir gan dimau gwaith cymdeithasol rheng flaen, gyda phobl yn derbyn gofal a chymorth parhaus, gan gynnwys cymorth i ofalwyr o ganlyniad. Rydym yn herio ffyrdd hanesyddol o weithio trwy fodel ymarfer newydd, sef 'Cyfathrebu Cydweithredol', sy'n canolbwyntio ar weithio gyda hawliau, cryfderau, canlyniadau, llais, dewis a rheolaeth unigolion.

Astudiaeth Achos 5: Modelau Darparu Newydd.

Gan weithio gydag aelodau etholedig ac adeiladu ar gynllun peilot a ariannwyd trwy'r Gronfa Economi Sylfaenol, rydym wedi parhau i ddatblygu mentrau bach mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe. Gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr o asesu a rheoli gofal, comisiynu, cydlynu ardal leol a thaliadau uniongyrchol, rydym wedi helpu i ddatblygu amrywiaeth o fentrau bach sy'n bodloni ystod o anghenion. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu mentrau gofal cartref bach mewn ardaloedd o Abertawe lle mae darparwyr traddodiadol yn cael trafferth gweithredu.

Defnyddiwyd arian a gafwyd o'r Grant Adfer Covid i sefydlu mentrau bach a oedd yn gallu darparu gwasanaethau i ofalwyr di-dâl yn rhad ac am ddim am gyfnod dros dro. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn newid y naratif o fewn asesiadau gofalwyr, gan arwain at ddatrysiadau ymarferol i fodloni anghenion gofalwyr trwy daliadau uniongyrchol yn y pen draw.

Rydym hefyd yn archwilio cynllun peilot sy'n gweithio gyda darparwyr presennol gwasanaethau byw â chymorth i ystyried sut gallwn ddarparu gofal a chymorth cydweithredol ar lefel dra lleol.

Astudiaeth Achos 6: Gofal Dydd yn Abertawe: St Johns

Mae Gwasanaethau Dydd Lleol Abertawe yn trawsnewid yn hybiau arloesol a mannau lle y darperir gofal a chymorth ochr yn ochr â chynnig lles ehangach.
Mae St Johns yn enghraifft wych. Fe'i henwebwyd am wobr gofal cymdeithasol yn ddiweddar, ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i dyfu.

Mae'r Sied Ddynion wedi mynd o nerth i nerth. Mae tua 20 o aelodau sy'n ymweld yn rheolaidd, ac maen nhw wedi ffurfio cyfeillgarwch gwerthfawr sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfarfod wythnosol. Dechreuwyd grŵp menywod yn ystod Covid er mwyn i bobl gael man diogel i gyfarfod a gwneud ffrindiau, gan leddfu unigrwydd ac ynysigrwydd.
Mae banc bwyd argyfwng wedi tyfu hefyd i gynorthwyo pobl a oedd heb fwyd am amrywiaeth o resymau, ac mae'r "pantri bwyd" yn cael ei noddi gan Morrisons bellach. Trwy grant tlodi mislif, maen nhw'n gallu cynnig cynhyrchion mislif hefyd.

Mae eu gardd gymunedol bellach yn tyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau sy'n cynnal y banc bwyd, fel bod pobl yn gallu cael eitemau ffres, iachus i ategu eu parseli wythnosol. Rydym yn ystyried cynnal marchnad ffermwyr wythnosol ar hyd yr haf eleni fel y gall pobl ddewis eu cynnyrch eu hunain, ac mae'r grŵp Sied Ddynion wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ardd yn llwyddo.

Cymerodd St Johns ran mewn "prosiect barcut" y llynedd hefyd, a arweiniwyd gan oriel gelf Glynn Vivian. Cynhyrchwyd barcut enfawr gan y gymuned a wehyddwyd at ei gilydd o ddarnau unigol o ddeunydd o faint cerdyn post. Y thema oedd beth rydych chi eisiau dal gafael ynddo a beth rydych chi eisiau ei adael i fynd o'r pandemig Covid.

Mae "Llyfrgell y Bobl" wedi dechrau bellach a'i nod yw dod â phobl ynghyd a rhannu straeon. Dyma'r un gyntaf yng Nghymru ac mae'n llwyddiannus iawn. Rydym yn mynd i gynhyrchu llyfr eleni o straeon y mae pobl eisiau eu rhannu ag eraill. Mae'n profi mai pobl ydym ni i gyd ac nad ydym yn wahanol iawn ni waeth am gefndir, oedran, rhywedd neu o ble rydym ni'n dod.

Mae straeon tebyg yn dod i'r amlwg mewn gwasanaethau dydd lleol eraill.

**Gwella canlyniadau lles gofalwyr ifanc a phobl sy'n gadael gofal trwy amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a mynediad gwell at wasanaethau cymorth.**

Mae YMCA Abertawe a Chyngor Abertawe yn cydweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc. Roedd y gwasanaeth cymorth i ofalwyr ifanc yn destun proses caffael a thendro'r Cyngor yn gynnar yn 2021 i adlewyrchu graddau ac uchelgais y gwasanaeth newydd hwn sy'n dod i'r amlwg. Trwy ffurfio Bwrdd Gofalwyr Ifanc, mae gwaith ymgysylltu'n cael ei wneud ynglŷn â gweledigaeth eang i greu mudiad cynhwysol, gan weddnewid cymunedau fel bod pobl ifanc yn perthyn, yn cyfrannu ac yn ffynnu.

Ers yr adolygiad meddwl ar sail systemau y llynedd, mae'r Gwasanaeth BAYS+ wedi bod trwy lawer o newidiadau. Prif bwyslais y gwasanaeth wrth fodloni anghenion pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yw: "Bydd BAYS+ yn gwrando, yn deall, yn gofalu amdanaf ac yn fy nghynorthwyo i wneud y dewisiadau gorau yn fy mywyd. Os oes angen i mi, gallaf ddibynnu arnynt ni waeth beth." Mae Info-Nation wedi ailddylunio'r gwasanaethau drws blaen maen nhw'n eu cynnig i sicrhau gwasanaeth galw heibio mwy ymatebol, ac wedi gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth ataliol yn cael ei gydlynu.

Astudiaeth Achos 7: Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe/Rhwydwaith Cynghori Rhieni (PAN)

Mae Fforwm Rhieni-Ofalwyr Abertawe eisiau gwybod sut gall y system ddysgu gan straeon unigol. Mae'r Fforwm yn gwrando ar lais rhieni-ofalwyr ac yn ei fwydo i'r broses benderfynu. Yna mae'n rhoi adborth yn ôl i rieni-ofalwyr.

Mae'r grŵp yn aelod o weithgorau gyda'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Mae hefyd yn trefnu hyfforddiant ar gyfer rhieni-ofalwyr eraill.

https://swanseapcf.org/

Mae PAN Gorllewin Morgannwg yn grŵp o rieni a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio tuag at ymateb mwy tosturiol i rieni a allai fod mewn perygl o golli eu plant, neu sydd wedi colli eu plant i'r system ofal. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan rieni a'i gefnogi gan weithwyr proffesiynol. Mae'r Caffi Rhieni yn ymestyn ymgysylltu i hysbysu, cynorthwyo, addysgu a dylanwadu ar rieni a gweithwyr proffesiynol wrth hyrwyddo llais a chyfranogiad rhieni mewn penderfyniadau a wneir ym maes diogelu.

Astudiaeth Achos 8: Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr

Rydym wedi ymestyn y defnydd o daliadau uniongyrchol i gynorthwyo gofalwyr, ac fel dewis amgen yn lle gofal cartref. Mae'r tîm Taliadau Uniongyrchol newydd wedi bod yn gwrando ar straeon gofalwyr sydd wedi bod yn derbyn taliadau uniongyrchol i'w helpu i ofalu am anwylyd:

Dywedodd 'C' fod taliadau uniongyrchol yn wasanaeth gwych o ran rhoi hyblygrwydd iddo trwy gyflogi Cynorthwy-ydd Personol sy'n gweithio'n hyblyg yn unol â'i anghenion a'i ofynion ef a'i deulu, o gymharu â gofal cartref, efallai, sydd ag amserau a diwrnodau galw sefydlog, ac ati.

Mae taliadau uniongyrchol wedi galluogi 'K' i gael amser i wneud llawer o bethau sylfaenol y mae pawb arall yn eu cymryd yn ganiataol. Dyma bethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol, fel bwyta, teimlo'n ffres, gwella iechyd a lles. Hoffai K gael amser i ffwrdd o'i rôl ofalu yn bennaf, a chael gwyliau, seibiant, amser o ansawdd ar ei phen ei hun i orffwys, cael ei chefn ati a meddwl.

Dywedodd 'R' fod y Taliad Uniongyrchol wedi gwneud GWAHANIAETH ENFAWR i'w hansawdd bywyd. Mae'r Taliad Uniongyrchol wedi ei galluogi i wneud pethau sylfaenol mewn bywyd, fel eistedd i lawr, YMLACIO, gwneud galwadau ffôn i deulu / ffrindiau a thalu biliau'r cartref. Weithiau, mae'r Cynorthwy-ydd Personol yn gofalu am ei gŵr gartref, felly mae hyn yn rhoi rhywfaint o amser i R orwedd i lawr a gorffwys hefyd.

*Mae rhagor o enghreifftiau yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.*

**Fel Dinas sy'n Deall Dementia, a thrwy'r Siarter Pobl Hŷn a'r strategaeth Heneiddio'n Dda, byddwn yn cynorthwyo dinasyddion Abertawe yr effeithir arnynt i deimlo'n werthfawr, i gyfrannu at gymdeithas prif ffrwd a chymryd rhan ynddi, ac i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.**

Abertawe yw'r Ddinas sy'n Deall Dementia gyntaf yng Nghymru, a nod Fforwm Abertawe sy'n Deall Dementia yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r Hwb Dementia yn ganolfan wybodaeth dros dro unigryw yng Nghanolfan y Cwadrant Abertawe sy'n cael ei chynnal gan gymysgedd o wirfoddolwyr o Abertawe sy'n Deall Dementia ac unigolion a gweithwyr proffesiynol o sefydliadau lleol. Mae gwaith pontio'r cenedlaethau'n parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ddementia ledled Abertawe, o fewn ysgolion ac wrth i ddisgyblion ymwneud â phreswylwyr mewn cartrefi gofal lleol. Ysgol Gyfun Pontarddulais oedd yr ysgol gyntaf yn y ddinas i gael ei chydnabod yn swyddogol yn Ysgol sy'n Deall Dementia. Cyflwynwyd y wobr i'r disgyblion a'u hathrawon gan Gymdeithas Alzheimer's. Mae'r gwaith hwn sy'n cynnwys plant ysgol a phreswylwyr yn The Hollies ym Mhontarddulais yn parhau trwy sesiynau ymwybyddiaeth dwyieithog a gweithgareddau ar y cyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn The Hollies a gwasanaethau lleol eraill. Mae Abertawe wedi ymrwymo i

ddull o weithio gydag oedolion sydd wedi'i seilio ar hawliau. Mae ein Cynllun Ymgysylltu Heneiddio'n Dda yn sicrhau bod safbwyntiau a materion pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n dda a'u hystyried yn yr holl waith gynllunio, boed hynny trwy ddigwyddiadau'r Sgwrs Fawr, y Rhwydwaith 50+ neu drwy ein holl waith ymgysylltu. Mae ein Tîm Cyfnodau Bywyd yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad, ystod eang o weithgareddau a rhwydweithiau cymorth.

Astudiaeth Achos 9: Rhannu syniadau wrth i'r cyngor nodi'r Diwrnod Pobl Hŷn

Mae preswylwyr a grwpiau cymunedol wedi bod yn rhannu eu meddyliau a'u syniadau ynglŷn â lleihau ynysu cymdeithasol a heneiddio'n dda yn rhan o'r Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Ymunodd Aelod Cabinet Cyngor Abertawe dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2021/22, sef Mark Child, â nhw ar gyfer digwyddiad cymdeithasol yn y marina ym mis Hydref 2021.
Dywedodd y Cynghorydd Child: "Yn ystod y misoedd i ddod, bydd y cyngor, gan weithio gyda'n partneriaid, yn ceisio amlygu mentrau newydd i leihau ynysu cymdeithasol mewn ffordd sy'n ddiogel o ran Covid, annog heneiddio egnïol a hefyd mynd i'r afael â materion eraill sy'n bwysig i bobl hŷn, fel allgáu digidol.
"Roeddwn yn falch iawn bod pobl yn gallu ymuno â mi, ac rwy'n gobeithio eu bod wedi'i fwynhau cymaint â mi ac yn teimlo ei fod yn werth chweil.
"Rydym wedi penodi Rhys Thomas yn ddiweddar i rôl ein Swyddog Partneriaeth a Chynnwys Pobl Hŷn newydd, ac ymunodd Rhys â ni hefyd.
"Bydd Rhys yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned a grwpiau cymunedol i glywed llais pobl 50 oed a hŷn a gweithio gyda nhw i wella cyfleoedd i fyw a heneiddio'n dda yn Abertawe."

3. Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?

Parhaodd ein gwasanaethau cymdeithasol drwy gydol y cyfnod eithriadol o anodd hwn; darparwyd rhai gwasanaethau mewn ffyrdd newydd a bodlonodd rhai ofynion gwahanol ac ychwanegol. Byddwn yn:

- dysgu gwersi o'r ffyrdd newydd hyn o weithio i lywio modelau darparu yn y dyfodol sy'n sicrhau ein bod yn bodloni anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn y ffordd orau y gallwn.

Mae gan Gyngor Abertawe hanes balch o barchu hawliau oedolion a phlant, trwy wrando'n astud arnynt a gweithio gyda nhw wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym yn cynorthwyo pobl sydd eisiau arfer eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn ffyrdd niferus ac amrywiol ar wahanol adegau ac mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr iddynt. Byddwn yn:

- cadw ein pwyslais ar atal / cymorth cynnar ar draws y system gyfan, ac yn diogelu a bodloni anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ar yr un pryd.

Mae arnom angen gweithlu proffesiynol medrus hefyd, ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan, sy'n cael ei reoli a'i gynorthwyo'n dda i wneud ei waith i'r safonau uchaf. Byddwn yn:

- datblygu dulliau newydd, llawn dychymyg o ddenu gweithwyr cymwysedig ac anghymwysedig newydd sydd eisiau gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a chadw eu ffyddlondeb a'u hymrwymiad.

4. Casgliad – i ba raddau y mae'r Cygnor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol

| Amcanion Lles | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Diogelu Pobl rhag Niwed* | | | | X | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau yn cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gymryd y camau sy'n ofynnol i gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed. Mae Cyngor Abertawe yn parhau i hyrwyddo dull "Mae diogelu'n fusnes pawb"; diogelu ein pobl fwyaf agored i niwed trwy flaenoriaethu gwasanaethau lles a chymdeithasol ataliol, o ansawdd uchel, trwy barhau i sicrhau bod diogelu'n 'fusnes pawb' ar draws y Cyngor, o fewn ysgolion, gyda phartneriaid  thrwy Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg a phartneriaid.

Mae'r Cyngor yn arwain dull corfforaeth gyfan o ddiogelu pobl agored i niwed er mwyn sicrhau bod llinellau clir o gyfrifoldeb ac atebolrwydd yn holl feysydd gwasanaeth y Cyngor. Trwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn gweithredu'r gofynion statudol newydd a'r 'ddyletswydd i adrodd' a osodwyd ar yr holl swyddogion, aelodau etholedig, gwirfoddolwyr a phartneriaid i godi pryderon a helpu i fynd i'r afael â'r ystod ehangach o faterion diogelu sy'n bresennol bellach yn ein cymunedau. Mae Cyngor Abertawe yn pwysleisio hawliau oedolion a phlant trwy ddefnyddio'r 'hyn sydd bwysicaf iddynt' fel dinasyddion, trwy eu gosod wrth wraidd eu gofal a'u cymorth eu hunain a thrwy gydgynhyrchu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau gwell. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael at wasanaethau cymdeithasol statudol cydnerth o ansawdd uchel, a sicrhau bod Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gadarn, yn gydnerth ac yn effeithiol wrth roi'r gofal a'r cymorth iawn i'r unigolyn iawn, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.

Mae'r Cyngor yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc trwy hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc a chyfleoedd iddynt, a rhagolygon gwell mewn bywyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Rydym yn gweithredu strategaeth newydd, sef 'Cynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel gyda theulu', gan gymryd camau i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc y mae angen iddynt dderbyn gofal gan Gyngor Abertawe, pan fydd dewisiadau amgen diogel ar gael. Mae Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i ddatblygu ein harferion gwaith cymdeithasol a'r ystod o wasanaethau o ansawdd uchel i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Rydym yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn rheoli gofal ac yn cynorthwyo oedolion agored i niwed. Rydym yn gweithio'n rhanbarthol, gyda phartneriaid bwrdd iechyd a darparwyr lleol, i gynorthwyo ein hoedolion mwyaf agored i niwed i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref, gyda mynediad at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol cydgysylltiedig i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion

mwyaf agored i niwed Abertawe, a thrwy ailgydbwyso'r gwasanaethau a gynigiwn i ganolbwyntio ar atal, ailalluogi ac adfer.

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.*

Mae'r Cyngor yn gweithio i gynyddu ei gyfraniad tuag at y nodau lles cenedlaethol i'r eithaf wrth gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed:

- *Cymru lewyrchus* – mae'r farchnad iechyd a gofal cymdeithasol leol a rhanbarthol yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol a rhanbarthol, gyda gweithlu medrus a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i fodloni'r galw cynyddol.
- *Cymru gydnerth* – rydym yn cynorthwyo oedolion ag ystod o anableddau ac anghenion i ddod yn fwy annibynnol trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd lles, dysgu a phrofiad gwaith, gan gynnwys cymorth i reoli cynefinoedd arfordirol, bywyd gwyllt ac amgylcheddol.
- *Cymru iachach* – trwy gydweithio, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi ymateb i heriau'r pandemig i ddiogelu pobl rhag niwed, gan wella eu hiechyd a'u lles corfforol, emosiynol a meddyliol, a thrwy gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd drwy gydol eu hoes.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* – sicrhau mynediad cyfartal at iechyd a gofal cymdeithasol trwy wybodaeth, cyngor a chymorth ac adeiladu ar gryfderau teuluoedd ac asedau o fewn cymunedau i gynllunio eu gofal a'u cymorth eu hunain, a chyrraedd eu llawn botensial, a hynny fwyfwy trwy atal yr angen am wasanaethau statudol.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – trwy gymunedau cefnogol sy'n gyfrifol am ei gilydd yn cydweithio i ddiogelu ein pobl fwyaf agored i niwed, gyda chyflogeion y Cyngor, Aelodau etholedig a phobl yn ein cymunedau'n teimlo'n hyderus ynglŷn ag amlygu ac adrodd am eu pryderon diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – gweithio gyda phartneriaid trwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda i ddarparu'r cynnig gweithredol a defnyddio'r hyn a ddysgwyd gennym i wella gofal cymdeithasol, a thrwy waith sy'n pontio'r cenedlaethau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – mae trefniadau diogelu'r Cyngor yn cael eu llywio gan ymrwymiad y Cyngor i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a hawliau dynol pob dinesydd.

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r cyngor yn gweithio'n gynaliadwy yn unol â'r pum ffordd ganlynol o weithio wrth gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed:

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - trwy ddatblygu cymorth cynnar i helpu i sicrhau bod canlyniadau lles pobl yn cael eu bodloni cyn iddynt fynd yn fwy cymhleth, gan olygu bod angen gwasanaethau statudol.
- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* – trwy wneud gwaith ataliol i leihau'r gofynion ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn sgil newidiadau i'r boblogaeth leol, nifer y plant y mae angen iddynt dderbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, oedolion agored i niwed a'r rhai hynny sydd â chyflyrau tymor hir, fel iechyd meddwl, dementia.
- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – trwy fynd i'r afael â cham-drin domestig a helpu pobl i fyw a heneiddio'n dda gyda phartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* – trwy weithio gyda phartneriaid trwy drefniadau Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a thrwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Cynnwys pobl* – trwy gynnwys gofalwyr a dioddefwyr cam-drin domestig yn eu gofal a phlant sy’n derbyn gofal a’u teuluoedd trwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a’u hasedau a’r hyn y gallant ei gynnig sy’n cynnwys rhieni, teuluoedd a chymunedau.

## Gwella Addysg a Sgiliau

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Rydym ni eisiau i Abertawe fod yn un o'r lleoedd gorau yn y byd i blant a phobl ifanc dyfu.
- Rydym ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe gyflawni a bod yn iach, yn wydn ac yn ddiogel.
- Rydym ni eisiau i blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol yn rheolaidd oherwydd byddant yn fwy tebygol o gyflawni'r sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen i fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym ni eisiau i blant a phobl ifanc gael cymwysterau a sgiliau sy'n gweddu i anghenion economaidd y dyfodol a gallu cyfrannu'n gadarnhaol fel dinasyddion lleol gweithredol.
- Rydym ni eisiau atal plant rhag ymddieithrio o ddysgu.
- Fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal, rydym ni eisiau iddynt lwyddo yn yr ysgol a chael cyfleoedd ar gyfer addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym ni'n cydnabod bod angen i blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gael cymorth amserol ac effeithiol i ganiatáu iddo gyrraedd ei botensial llawn.
- Rydym ni eisiau i'n plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau byd-eang fel y gallant fod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol, cyflawni eu potensial a gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau.
- Rydym ni eisiau i'n plant a'n pobl ifanc fod â sgiliau Cymraeg da.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Cynorthwyo disgyblion, teuluoedd ac ysgolion i gynnal parhad dysgu a lles yn ystod yr ymateb i Covid-19 a'r adferiad ohono.**

Cyflwynodd y pandemig COVID-19 sawl her arwyddocaol i ddisgyblion, eu teuluoedd ac ysgolion ar draws dwy flwyddyn academaid yn 2021-2022. Amlygodd y Panel Craffu ar Berfformiad Ysgolion rai heriau i ddysgwyr oherwydd y pandemig, gan gynnwys: sylfeini ansefydlog ar gyfer dysgu, diffyg cynnydd ar gyfer rhai dysgwyr, rhai dysgwyr yn cael eu herio'n fwy nag eraill, gofynion ar y proffesiwn addysgu a phwysau yn y system addysg. Yn ystod 2021/22, roedd yn ofynnol i ysgolion weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru wrth i Gymru symud trwy wahanol lefelau rhybudd gyda'r nod o wneud yr amgylchedd ysgol mor normal â phosibl, pan oedd hynny'n ddiogel. Yn ogystal â gweithio gyda dysgwyr a staff yn ein hysgolion i weithredu'r canllawiau, gweithiodd ysgolion mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr hefyd i'w cynorthwyo a sicrhau eu bod yn deall y canllawiau a'u cyfrifoldebau.

Er y cafodd cyfyngiadau COVID-19 eu llacio i'r gymdeithas ehangach yn gynnar yn yr haf 2021, parhaodd mesurau rheoli COVID-19 llym mewn ysgolion tan fis Medi 2021, gyda'r tarfu sylweddol ar addysg yn parhau yn ystod hydref 2021 a gwanwyn 2022. Fel rhan o raglen adfer y Cyngor, sef Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, cyflawnodd Addysg yn dda mewn perthynas â'r ffrydiau gwaith allweddol o fewn y rhaglen, gyda phwyslais penodol ar les. Roedd ein gwaith adfer ym maes Addysg yn cyd-fynd â Chynllun Adnewyddu ac Adfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg hefyd. Disodlwyd canllawiau gweithredol cenedlaethol i ysgolion gan fframwaith cenedlaethol ar gyfer adfer ym mis Medi 2021. Yn ogystal â chanllawiau a fframweithiau cenedlaethol, gwnaethom barhau i weithio gyda'n penaethiaid a chyda phlant a phobl ifanc i wrando ar eu profiadau o'r pandemig a'u safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer adfer a chyfleoedd dysgu newydd yn y dyfodol.

Yn ystod 2021/2022, defnyddiodd ysgolion ystod eang o strategaethau er parhad addysg. Darparwyd y gefnogaeth ychwanegol i alluogi dysgwyr a'u teuluoedd ddod i'r ysgol yn llwyddiannus. Yn ogystal â

chymorth ar gyfer dysgu, gofalodd ysgolion am les dysgwyr a'u teuluoedd gyda materion iechyd meddwl, gorbryder a phrofedigaeth, gyda phwyslais penodol ar wirio lles dysgwyr agored i niwed. Defnyddiodd ysgolion strategaethau i gefnogi lles eu staff, a gwnaethant weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, Virgin Atlantic, colegau lleol a phartneriaid eraill i ddarparu cyfleoedd i groesawu plant yn ôl i ddysgu, gyda chyfleoedd a phrofiadau newydd ar gyfer dysgu galwedigaethol. Roedd cymorth ehangach a ddarparwyd gan ysgolion yn cynnwys darparu cyfleusterau gofal plant i weithwyr allweddol a darparu offer Technoleg Gwybodaeth. Roedd cyflwyno systemau talu effeithlon ar gyfer plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cefnogi anghenion dysgwyr yn dda.

**Parhau i gynorthwyo a herio ysgolion i wella presenoldeb a pherfformiad disgyblion, gyda phwyslais ar wella llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd a chymhwysedd digidol pob plentyn o bob oed, gan gynnwys y rhai hynny sy'n derbyn gofal, sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae'r pandemig wedi parhau i gael effaith negyddol ar bresenoldeb ysgol yn ystod 2021/2022. Roedd y dull arferol o gasglu data presenoldeb wedi'i atal o hyd yn 2021/2022. Mae data lleol yn dangos bod cyfraddau presenoldeb bron pob ysgol yn Abertawe o leiaf 5 pwynt canradd yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mewn ysgolion uwchradd, roedd yn ofynnol o hyd i grwpiau blwyddyn cyfan a 'swigod' o blant mewn ysgolion cynradd ynysu os oedd un o'u cyfoedion yn cael prawf COVID-19 positif, hyd at fis Medi 2021. Roedd canllawiau newydd o fis Medi 2021 ymlaen yn caniatáu i ysgolion lacio eu mesurau rheoli COVID-19, ond roedd dysgwyr a gafodd brawf COVID-19 positif a gofynion i hunanynysu yn parhau i effeithio ar bresenoldeb.

Yn ystod 2021/2022, roedd arholiadau a ddilysir yn allanol, coladu asesiadau athrawon ar gyfer asesiadau cyfnod allweddol cynharach a chategoreiddio ysgolion yn genedlaethol wedi'u hatal dros dro hefyd. Er gwaethaf diffyg gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas ag arholiadau a ddilysir yn allanol, rydym wedi parhau i asesu cynnydd yn erbyn amcanion ein Cyfarwyddiaeth Addysg, amcanion ein Huned Fusnes a'n hamcanion Perfformiad. At ei gilydd, mae perfformiad yn erbyn amcanion allweddol yn dda ac, o ran mwyafrif yr amcanion, mae'n adlewyrchu statws cynnydd addas, gan fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn y rhan fwyaf o agweddau. Parhaodd ein Cyfarwyddiaeth Addysg i fonitro ystod eang o ddata gwybodaeth am ddysgwyr, staff ysgol, adeiladau ysgol a deilliannau dysgu trwy ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Reoli (MIS), gan gynnwys SIMS a Capita ONE. Cafwyd y sicrwydd allweddol ar gyfer rheoli, llywodraethu a pherfformiad ysgolion yn bennaf trwy fonitro a gwerthuso gan swyddogion Addysg. Er bod arolygiadau Estyn wedi'u hatal dros dro yn ystod y pandemig hyd at y gwanwyn 2022, cawsom lefel dda o sicrwydd gan Estyn ynglŷn ag effeithiolrwydd ein hymagwedd a'n gweithgareddau o ran cynorthwyo dysgwyr a gofalwyr yn ystod y pandemig.

Mae cymorth i ysgolion wella dysgu ac addysgu o ansawdd uchel wedi parhau mewn ffordd effeithiol trwy rwydweithiau, digwyddiadau a chynadleddau rhithwir a ddyluniwyd i rannu arfer gorau a chanolbwyntio ar ddysgu proffesiynol wedi'i lywio gan dystiolaeth. Mae Ysgol Rithwir Abertawe yn fyw ac yn cael ei diweddaru o hyd. Mae dysgu proffesiynol yn y maes hwn wedi bod yn fuddiol ac wedi cynorthwyo ymarferwyr a swyddogion yr awdurdod lleol i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i ddefnyddio technoleg ddigidol i wella dysgu a datblygu eu sgiliau. Mae'r daith tuag at ddarparu cwricwlwm uchelgeisiol yn Abertawe wedi datblygu'n dda, ac mae nifer o ysgolion yn croesawu newidiadau i sicrhau bod dysgwyr wedi'u harfogi ar gyfer galwedigaethau yn y dyfodol.

**Bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn gymdeithasol trwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.**

Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022/2023 drafft y Cyngor ym mis Ionawr 2022. Mae'r cynllun deng mlynedd yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol, gan gynnwys cynyddu nifer y lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a chefnogi dwyieithrwydd ar gyfer plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar a thrwy gydol eu gyrfa ysgol. Mae gwaith wedi parhau i ddatblygu mwy o leoedd cyfrwng Cymraeg gydag agoriad yr adeilad a'r cyfleusterau newydd a gwell ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-Lan ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw, a ddilynwyd gan le ystafell ddosbarth ychwanegol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr ac Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i ategu hyn trwy sicrhau darpariaeth well yn ein dwy ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Rydym wedi parhau i fonitro data ar nifer y dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae ysgolion wedi cynnal asesiadau ar lefelau Cymraeg, a lywiodd ein strategaeth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru am dwf aelwydydd Cymraeg eu hiaith yn yr awdurdod lleol yn cael ei chasglu ar ôl i ddata Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 gael ei gyhoeddi.

Yn ogystal â gwella mynediad at leoedd ysgol, rydym wedi gwella'n darpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws Abertawe trwy hyfforddiant ar gyfer athrawon a datblygu cynllun achrededig ar gyfer creu siarter y Gymraeg mewn ysgolion a chefnogi defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae darpariaeth i roi cymorth i ysgolion yn cynnwys dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, broceru cymorth gan un ysgol i'r llall, datblygu ystod o adnoddau buddiol fel continwwm iaith a gwefan Dimensiwn Cymraeg, yn ogystal â chynorthwyo hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg. Rhoddir lle amlwg i'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd. Cefnogir dysgu proffesiynol i helpu i addysgu pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg gan y bartneriaeth ranbarthol newydd sef Partneriaeth. Bydd ymdrech ar y cyd rhwng y tîm lleol a chanolog o swyddogion y Gymraeg yn rhoi mynediad da at ddysgu proffesiynol ar gyfer disgwyliadau pob pwynt cynnydd yn y cwricwlwm newydd.

O ran dysgwyr agored i niwed, mae ein holl ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael cymorth ac arweiniad da i gynyddu eu capasiti wrth amlygu anghenion a chynnig darpariaeth leol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir gofyn am gymorth arbenigol ychwanegol gan seicolegwyr addysg sy'n siarad Cymraeg a thrwy gymorth wedi'i dargedu a ddarperir gan yr adnodd lleferydd, iaith a chyfathrebu cymdeithasol. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn darparu nodau tymor hir i sicrhau bod y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei chyflenwi yn yr iaith o ddewis, gan gydnabod y cynnydd tebygol yn y galw. Mae'r adolygiad parhaus o gyfleusterau addysgu arbenigol yn cynnwys ffrwd waith yn ymwneud â darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg, gan barhau ag ethos yr adolygiad trawsbynciol o ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu cynnwys yn y brif ffrwd.

**Parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg a'u cymuned trwy Gynghorau Ysgol a digwyddiadau ymgysylltu'r Sgwrs Fawr. Trwy barhau i annog ysgolion i ddod yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF yn rhan o'n hymrwymiad i CCUHP, datblygu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion sy'n ymwybodol ac yn gyfrifol yn fyd-eang.**

Rydym wedi parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg a'u cymunedau trwy ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc, gan geisio sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu bwydo i brosesau gwneud penderfyniadau a'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym wedi mabwysiadu dull Cyngor cyfan o ymgorffori lleisiau plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau. Yn ystod 2021/2022, gwnaethom ddiwygio ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc a chydgynhyrchu sawl dangosydd i lywio datblygiad y Cynllun. Pwysleisiodd plant a phobl ifanc bwysigrwydd cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu. Cyfarfu aelodau o Rwydwaith Hawliau Plant

Abertawe ym mis Ionawr 2022 i ddechrau'r broses gydgynhyrchu, gan lunio dangosyddion o amgylch pum egwyddor ein dull cytunedig wedi'i seilio ar hawliau. Hwyluswyd sesiynau gyda 233 o blant a phobl ifanc o un ar ddeg o ysgolion i benderfynu ar y camau y dylai'r Cyngor eu cymryd a mesurau llwyddiant, yn eu barn nhw. Dewisodd yr holl blant ganolbwyntio ar gydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu neu gyfranogiad fel yr egwyddorion o'u dewis. Mae aelodau'r Rhwydwaith Hawliau Plant wedi defnyddio'r gwaith hwn i lywio datblygiad dangosyddion perfformiad ar gyfer Cynllun Gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae'r Cyngor wedi parhau i adeiladu ar ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc i amlygu blaenoriaethau yn ystod yr adferiad o'r pandemig. Yn ystod 2021/2022, roedd Aelod y Cabinet dros Addysg, y Cyfarwyddwr Addysg a Chymuned Dysgu Proffesiynol Llais y Disgybl (sy'n cynnwys athrawon a disgyblion ysgolion uwchradd) wedi datblygu 'maniffesto llais y disgybl' ar gyfer Abertawe. Arweiniwyd y gwaith hwn gan Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt ac fe'i cefnogwyd gan y Gyfarwyddiaeth Addysg. Erbyn hyn, mae pob ysgol uwchradd wedi datblygu ei maniffesto ei hun ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod â'r rhain ynghyd yn un Maniffesto Disgyblion Abertawe.

Astudiaeth achos 1: Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc anabl

Mae prosiect peilot newydd wedi cael ei sefydlu yn Ysgol Pen y Bryn lle mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant mewn swydd ar yr hyn y mae'n ei olygu i ymgorffori ymagwedd egwyddorol tuag at hawliau plant yn eu cwricwlwm newydd. Gweithiwyd gyda disgyblion a staff i fapio arferion hawliau da presennol, a meysydd i'w datblygu, oherwydd bydd ymgorffori hawliau yn cael ei gydgynhyrchu gan athrawon, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ddatblygu adnodd cenedlaethol sy'n helpu ysgolion i gyflawni eu hymrwymiad i hawliau a amlinellir yn y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, h.y. hyrwyddo gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn ogystal â deall egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a/neu sy'n anabl. Mae'r gwaith hwn yn bartneriaeth â'r gwasanaeth Addysg, Partneriaeth (y bartneriaeth addysg ranbarthol newydd) a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Mae astudiaeth achos o'r prosiect hwn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i lywio pecyn cymorth ADY Cenedlaethol sy'n dangos yr arferion seiliedig ar hawliau gorau o ran ADY. Bydd hyn yn cael ei gynnal ar wefan Comisiynydd Plant Cymru.

**Sicrhau nad yw ein plant agored i niwed yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i dlodi neu ffactorau eraill sy'n eu rhwystro rhag cyflawni safonau a lles mewn addysg.**

Rydym wedi parhau i gefnogi plant agored i niwed a sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i dlodi neu ffactorau eraill sy'n effeithio arnynt o ran lles a chyrhaeddiad addysgol. Rydym wedi parhau i gyflawni ein cynllun i gefnogi dysgwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA) (2018), trwy weithredu ein Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019/2022. Er bod nifer y Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig a roddir o fewn 26 wythnos wedi bod yn faes i'w wella'n barhaus, mae'r newid i weithredu Cynlluniau Datblygu Unigol yn raddol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi datblygu'n dda. Mae'r system newydd i reoli'r broses o greu a rheoli Cynlluniau Datblygu Unigol wedi'i seilio bellach ar ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac yn mapio cymorth ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae mwy o leoedd wedi cael eu creu i fodloni anghenion plant yn ein hysgolion arbennig ac mae hyfforddiant helaeth wedi cael ei roi i athrawon sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwaith yn parhau o ran adolygu digonolrwydd lleoedd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Abertawe. Cafwyd

adborth cadarnhaol gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol sy'n cadarnhau bod Abertawe'n darparu cefnogaeth gref er mwyn rhoi'r Ddeddf newydd ADYTA ar waith.

Mae gwaith wedi cael ei wneud mewn ysgolion prif ffrwd hefyd i wella'r cymorth i blant a phobl ifanc ag Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol (gan gynnwys Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth) ac Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain ac wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau a darparu cymorth priodol.

Yn ystod 2021/2022, rydym wedi parhau i olrhain dysgwyr naill ai'n unigol ar lefel ysgol neu drwy'r Proffil Asesu Bregusrwydd i nodi dysgwyr y gallai fod arnynt angen cymorth ac ymyriadau ychwanegol. Roedd gan tua 10% o ddysgwyr sgorau Proffil Asesu Bregusrwydd o 10 neu uwch yn 2022. Mae data lleol wedi'i seilio ar Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 wedi parhau yn ystod 2021. Gwnaed cynnydd da wrth leihau'r bwlch mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai heb ADY. Mae'r data hefyd yn dangos bod y deilliannau ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt wedi parhau i wella ar draws y cyfnodau allweddol, a bod y grwpiau hyn wedi gwneud yn well na'u cyfoedion erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae data perfformiad yn dangos bod cydberthynas gref rhwng sgorau cyfartalog y Proffil Asesu Bregusrwydd a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – mae gan ddisgyblion sy'n byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig sgôr gyfartalog o 6.9 – o gymharu ag 1.6 ar gyfer y rhai sy'n byw yn y 10% o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn ystod 2021/22, gwnaethom hefyd barhau i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynorthwyo dysgwyr trwy hwyluso dysgu proffesiynol ar gyfer staff a oedd yn canolbwyntio ar elfennau fel darpariaeth lleferydd ac iaith, lles, ymlyniad a rhaglenni dal i fyny. Rydym hefyd wedi defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gyflogi staff i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd. Yn ogystal, rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn ystod o raglenni a dysgu proffesiynol a gydlynwyd gan arweinydd rhanbarthol i gynorthwyo plant a phobl ifanc y mae tlodi'n effeithio arnynt, ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod gan bob ysgol uwch arweinydd sy'n gyfrifol am hyrwyddo disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi parhau i adeiladu ar ein diwylliant cryf o ddiogelu mewn gwasanaethau addysg, gan sicrhau gweithdrefnau diogelu integredig cadarn. Mae personél allweddol, fel Swyddog Diogelu Addysg penodol, wedi gweithio'n agos gyda Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol a gwasanaethau eraill, fel y Tîm Coll, Camfanteisio a Masnachu Cyd-destunol a'r Ganolfan Cymorth Cynnar trwy'r Ganolfan Ddiogelu Integredig, i gynorthwyo gwasanaethau addysg a dysgwyr. Rydym wedi parhau i adeiladu ar waith ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i sicrhau bod dealltwriaeth a dull asesu a rennir ar gyfer dysgwyr agored i niwed sy'n gyson ar draws pob ysgol, gan alluogi monitro, cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu.

**Trawsnewid yr ystad ysgolion i fodloni'r galw ac ymateb i'r datblygiadau a amlinellir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar yr un pryd â sicrhau bod y gymuned yn elwa o gontractau. Byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon trwy ddefnyddio ein rhaglen adeiladau a chynnal a chadw ysgolion.**

Rydym wedi parhau i adolygu cyfrifiadau capasiti yn ein hysgolion yn flynyddol a rhannu gwybodaeth gyda Bwrdd y Rhaglen Addysg o Safon, ynghyd ag ystadegau eraill ar leoedd ysgolion, i fonitro ac adolygu gwasgariad lleoedd ysgolion. Mae digon o gapasiti ym mhob sector ar hyn o bryd, heblaw

am ddarpariaeth arbenigol, ac mae strategaeth tymor byr wedi cael ei rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pwysau ar leoedd arbenigol, tra bod strategaeth tymor hir yn cael ei datblygu. Mae ysgolion sydd â mwy o geisiadau na lleoedd ar gael yn destun strategaethau yn rhan o'r rhaglen amlinellol strategol tymor hir ar gyfer ysgolion i reoli'r pwysau, gwireddu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r adolygiad o Gyfleusterau Addysgu Arbenigol, neu strategaethau tymor hir gan gynnwys cysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Eleni, agorwyd adeilad a chyfleusterau newydd a gwell ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gan ddarparu 402 o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi parhau i drawsnewid ein hystad ysgolion i ateb y galw ac wrth i gyllid ganiatáu, ac wedi datblygu achosion busnes manwl yn agos i £150m.

Yn ystod 2021/2022, rydym hefyd wedi parhau â'n strategaeth o helpu ysgolion i gynnal a chadw eu hadeiladau. Gan weithio gyda'r Gwasanaethau Adeiladu, rydym wedi datblygu methodoleg fwy cadarn ar gyfer asesiadau addasrwydd, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ffurflenni cyflwr ac addasrwydd.

Mae gwybodaeth am ein hysgolion, ynghyd â fframwaith asesu cynhwysfawr a dadansoddiadau eraill, wedi llywio Rhaglen Amlinellol Strategol gymeradwy'r awdurdod ac wedi arwain at flaenoriaethu anghenion y presennol a'r dyfodol yn gadarn. Mae ysgolion wedi parhau i elwa fwyaf o raglen cyfalaf cynnal a chadw flynyddol y Cyngor, sydd wedi'i blaenoriaethu ar sail risg ac yn gyson â chynlluniau'r Rhaglenni Addysg o Safon/Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Yn ystod cylch oes cyllid Band B, mae mwy na 63 o ysgolion yn Abertawe wedi elwa o gyfalaf cynnal a chadw. Mae pob prosiect o fewn Band A y Rhaglenni Addysg o Safon/Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a thri phrosiect (yr Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ac adeiladu dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg) o Fand B wedi cael eu cyflawni. Disgwylir i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gael ei chwblhau ym mis Mai 2022, ac ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg erbyn mis Mai 2023.

**Alinio ein system addysg a pharhau i ddatblygu a gwella partneriaethau er mwyn sicrhau ein bod yn creu'r bobl iawn â'r sgiliau iawn i gyflenwi'r economïau newydd ac ateb heriau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Byddwn yn annog ysgolion i gynorthwyo ei gilydd.**

Mae'r rhaglen Sgiliau a Thalent yn rhaglen unigryw o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n ceisio darparu datrysiad hyfforddi sgiliau a datblygu isadeiledd sgiliau cynaliadwy i ddatblygu gweithlu'r rhanbarth yn y dyfodol. Arweinir y rhaglen gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, sef partneriaeth o gyflogwyr diwydiant a darparwyr hyfforddiant ac addysg y sector cyhoeddus. Yn ystod 2021/2022, cwblhaodd y Bartneriaeth achos busnes ar gyfer y rhaglen Sgiliau a Thalent, sydd bellach wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Penodwyd Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol i ddatblygu prosiectau wedi'u seilio ar ysgolion, ymgysylltu a mentrau eraill yn lleol. Diben hyn yw creu llwybr gyrfaol clir o addysg ysgol i addysg bellach ac uwch ym meysydd allweddol digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a gwyddor bywyd a lles. Yn benodol, mae'r rhaglen Sgiliau a Thalent yn ceisio dylanwadu ar ddatblygu a darparu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o bobl ifanc sydd â'r sgiliau iawn. Disgwylir y bydd y prosiect yn creu o leiaf 3,000 o brentisiaethau newydd ac yn darparu 2,200 o gyfleoedd datblygu ychwanegol, yn ogystal â chreu canolfannau rhagoriaeth o fewn sectorau fel Digidol, Ynni, Adeiladu a Lles.

Mae ein Partneriaeth Sgiliau Abertawe wedi parhau i adeiladu ar hyrwyddo, cynnal a datblygu Abertawe fel Dinas sy'n Dysgu UNESCO a datblygu cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar allu digidol ac arweiniad i ddysgwyr er mwyn ysbrydoli dysgwyr i ystyried y mathau o swyddi a chyfleoedd o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Partneriaeth Sgiliau Abertawe wedi datblygu gwaith pellach yn y meysydd hyn gyda phwyslais ar gymhwysedd digidol addysgwyr a dysgwyr, yn ogystal â sicrhau bod disgyblion yn gallu canfod gwybodaeth am

yrfaoedd digidol. Darparwyd cyllid i bob ysgol uwchradd hefyd i hyrwyddo pontio "digidol" o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac fe'i defnyddiwyd i ddylunio prosiect pontio digidol ar y cyd â'u hysgolion cynradd bwydo. Mae sesiynau hyfforddi ychwanegol wedi cael eu darparu ym mhob ysgol hefyd i geisio gwella sgiliau digidol athrawon, gan gynnwys dulliau dysgu cyfunol a bellach dulliau hybrid i sicrhau bod dysgwyr sy'n ynysu/gwella o salwch yn gallu cael eu haddysgu'n effeithiol. Mae athrawon hefyd wedi cael eu hyfforddi trwy gynllun Prentisiaeth Dysgu Digidol a chan Brifysgol Abertawe trwy Technocamps.

Astudiaeth achos 2: Ysgolion yn datblygu synhwyrydd hinsawdd

Mae un clwstwr o ysgolion yn treialu dyfais synhwyrydd hinsawdd gan gwmni lleol. Mae TASK, sy'n rhan o Vindico, yn cynnig dyfais addas i ddysgwyr sy'n cynnwys synwyryddion tymheredd, gronynnau, sain a golau. Dylai'r ddyfais weddu'n dda i'r maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys: elfen dylunio a thechnoleg (dylunnir y cit gan ddefnyddio Lego a bydd angen dylunio'r casin), elfen wyddoniaeth (trafod darlleniadau a'u hystyron. Gall ysgolion ymchwilio i'r gronynnau o bob ysgol sy'n cymryd rhan a pham mae rhai'n uwch nag eraill, e.e. ardaloedd mwy adeiledig neu ardaloedd amaethyddol) ac elfen gyfrifiadurol (dadansoddi'r data o'r dangosfwrdd mewn taenlen a chreu algorithmau).

**Codi dyheadau galwedigaethol a lefelau sgiliau yn y gweithlu, gan gyfrannu at ddatblygu pobl ifanc uchelgeisiol a medrus trwy ddarparu prentisiaethau.**

Rydym wedi parhau i godi dyheadau galwedigaethol a sgiliau yn y gweithle ar gyfer pobl ifanc trwy weithio gyda'n colegau Addysg Bellach yn Abertawe ac ardaloedd cyfagos a darparwyr dysgu a hyfforddiant eraill. Mae gyrfaoedd a phrofiad gwaith yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ystod 2021/2022, parhaodd ein holl ysgolion uwchradd i ddarparu cyrsiau galwedigaethol i bobl ifanc 14 i 16 oed yn yr ysgol neu oddi ar y safle mewn colegau neu mewn gweithleoedd. Rydym wedi parhau i weithio gyda Choleg Gŵyr a cholegau cyfagos i ddarparu opsiynau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 16 oed, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dilyn cwricwlwm amgen. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi Academi Iau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig llwybrau galwedigaethol i bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ac rydym wedi parhau i weithio gyda Choleg Gŵyr trwy ein cyrsiau Cynnydd, sy'n darparu ystod o gyfleoedd cymorth a dysgu i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio, gan gynorthwyo dros 1,000 o ddysgwyr ers iddynt ddechrau. Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae ein darpariaeth gwaith ieuenctid wedi parhau i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cynorthwyo i gael dysgu pellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ystod 2021/2022, cynhaliodd y gwasanaeth 466 o sesiynau, gan gysylltu ag 894 o bobl ifanc hysbys a 6185 o bobl ifanc anhysbys.

Astudiaeth achos 3: Yr Academi Iau

Mae'r Academi Iau wedi'i bwriadu ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed sydd â syniad clir iawn o'r llwybr galwedigaethol maen nhw'n dymuno ei ddilyn ac a fyddai'n elwa o lwybr llai traddodiadol. Mae'r rhaglen yn arbennig o addas i'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r system ysgolion a dod yn NEET. Mae 13 o ddysgwyr o bedair ysgol uwchradd wahanol yn dilyn llwybrau galwedigaethol mewn Tirweddu a Garddwriaeth a Gwallt a Harddwch ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â'u hastudiaethau, mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cysylltiedig â gwaith trwy ystod o weithgareddau parodrwydd ar gyfer gwaith a phrofiadau cysylltiedig â sector. Symudodd yr holl ddysgwyr a gwblhaodd yr Academi Iau yn llwyddiannus yn 2021 ymlaen i astudiaethau galwedigaethol lefel uwch, prentisiaethau neu gyflogaeth. Mae'r Academi Iau yn brosiect partneriaeth rhwng Coleg Gŵyr

ac ysgolion uwchradd, ac mae cydlynydd lles a chynnydd yn gyfrifol am gynorthwyo a chamu ymlaen i lwybrau addas wrth adael.

Mae'r platfform gwe Fy Newis wedi'i hen sefydlu bellach ac wedi'i diweddaru'n llwyr â'r prosbectws mwyaf diweddar. Eleni, mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol a Gyrfa Cymru wedi darparu gwybodaeth gyfredol am y farchnad lafur mewn sawl sector blaenoriaeth ar gyfer y wefan Fy Newis. Eleni, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i gefnogi ymgysylltiad â chyflogwyr a threfnu ymweliadau gan gyflogwyr i roi cyflwyniadau, gweithdai a ffug gyfweliadau. Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i gynorthwyo dysgwyr i wneud cais am brentisiaethau (a gwblheir trwy Yrfa Cymru). Mae llawer o'n hysgolion uwchradd yn Abertawe wedi cymryd rhan ym menter "Troi Eich llaw" Llywodraeth Cymru hefyd, sy'n caniatáu i ysgolion fenthyca citiau diwydiant i gefnogi dysgu galwedigaethol. Yn ystod 2021/2022, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a darparu ystod o gyfleoedd hyfforddi galwedigaethol ôl-16 mewn chweched dosbarthiadau, colegau, darparwyr hyfforddiant neu drwy brentisiaethau gyda chyflogwyr lleol. Yna, cynorthwyir pobl ifanc i symud ymlaen i astudiaethau alwedigaethol pellach, prentisiaethau a chyflogaeth.

**Datblygu sgiliau dysgu annibynnol ar gyfer dysgu gydol oes i adlewyrchu natur newidiol gwaith ac i gefnogi lles a chreadigrwydd a lleihau ynysu cymdeithasol.**

Yn ystod 2021/2022, rydym wedi adeiladu ar ein haelodaeth o Rwydwaith Byd-eang UNESCO o Ddinasoedd sy'n Dysgu trwy ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol yn sgil ein haelodaeth i rannu syniadau ac arfer gorau. Rydym wedi cynnal 3 Gŵyl Ddysgu ers 2019 mewn amrywiaeth o wahanol gymunedau ledled y ddinas, a gynhaliwyd gan ddarparwyr dysgu, grwpiau cymunedol, yr YMCA ac ysgolion. Cydlynwyd y gwyliau gan Wasanaeth Dysgu Gydol Oes Abertawe, ac roeddent yn cynnwys ystod eang o sefydliadau gan gynnwys cyflogwyr mawr fel yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), y Gwasanaeth Addysg mewn Carchardai, Coleg Addysg Bellach, dwy Brifysgol a phob ysgol yn Abertawe. Mae dros 10,000 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn mwy na 400 o ddigwyddiadau ar gyrsiau fel Dysgu fel Teulu, Sgiliau Hanfodol, Gitâr, Caligraffeg, Celf, Gwniadwaith, Ffotograffiaeth Ddigidol, TG, Blodeuwriaeth, Coginio ac Ioga yn rhan o'r gwyliau.

3. Beth gallwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?

Fel rhan o'n diwylliant gwella, mae rhai meysydd i'w gwella wedi cael eu hamlygu o ran canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r meysydd allweddol i'w gwella o ran canlyniadau yn cynnwys:

- dadansoddi effaith y pandemig ar ganlyniadau dysgwyr ymhellach gydag ysgolion, gan gynnwys sgiliau sylfaenol yn y blynyddoedd cynnar a chyn ysgol, sgiliau Cymraeg, iechyd meddwl a lles, dylunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, ac asesu;
- datblygu strategaeth i hyrwyddo cynhwysiant er mwyn cynorthwyo grwpiau agored i niwed o ddysgwyr a sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn goruchwylio'r broses o olrhain cynnydd dysgwyr yn unigol;
- datblygu Strategaeth Cynhwysiant ar gyfer Dysgwyr, canolbwyntio ar yr ambell elfen o'r strategaeth ADY lle mae angen mwy o gynnydd a chwblhau diwygio'r strategaeth a'r cynllun hygyrchedd;
- datblygu mwy o leoedd arbenigol digonol ar gyfer dysgwyr ag ADY, gan gynnwys cyfleusterau addysgu arbenigol ac ysgolion arbennig, a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu capasiti i fodloni anghenion dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol er mwyn eu hatal rhag cael eu gwahardd neu eu hatgyfeirio i addysg heblaw yn yr ysgol, ac ymgorffori strategaethau cyffredinol ar gyfer pob maes ADY;

- datblygu strategaeth gydlynol i gefnogi canlyniadau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ac asesu effaith cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfraddau geni sy'n gostwng yn y sector cyfrwng Saesneg ymhellach;
- gwerthuso'r ddarpariaeth mewn ysgolion sydd â niferoedd llai;
- o ran darpariaeth (gwasanaethau), cynnal a gwella effeithiolrwydd ymgysylltu ag Aelodau/Swyddogion er mwyn llywio'r cam nesaf o ddatblygu buddsoddiad cyfalaf tymor hwy a chynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae'r meysydd i'w gwella o ran arweinyddiaeth yn cynnwys:

- datblygu cynllun strategol Abertawe 2027 i ddisodli Abertawe 2023 ar gyfer gwella addysg yn Abertawe;
- cynnal ansawdd arweinyddiaeth ar draws y system addysg (arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, aelodau a swyddogion) ac ymsefydlu partneriaeth wella ranbarthol newydd sy'n gyson ac o ansawdd uchel;
- sefydlu cydweithio mwy effeithiol â'r Bwrdd Iechyd Lleol fel bod gofyniad statudol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) yn cael ei fodloni i sicrhau bod dysgwyr agored i niwed yn cyflawni canlyniadau da.

Meysydd arwyddocaol eraill i'w gwella yw'r angen i wella canlyniadau addysgol a sgiliau ymhellach i fanteisio ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, cyllid, symud ymlaen â phrosiectau sydd yng nghamau olaf Band B y Rhaglenni Addysg o Safon/Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a dechrau cynllunio ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi ac ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol.

4. Casgliad – i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol

Mae adolygiad o'r dystiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol mewn perthynas â'i flaenoriaeth Addysg a Sgiliau yn awgrymu ei fod yn gwireddu ei uchelgais.

| *Amcanion Lles* | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Gwella Addysg a Sgiliau* | | | | *x* | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau yn cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei amcan lles Gwella Addysg a Sgiliau. Er bod casglu data ar gyfer llawer o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi'i atal dros dro o hyd ac nad oedd modd cymharu â blynyddoedd blaenorol nac ardaloedd eraill, gwnaed cynnydd da o ran cyflawni amcanion y Gyfarwyddiaeth Addysg, amcanion

yr Uned Fusnes a dangosyddion perfformiad. Mae proses herio mewnol a sicrwydd ansawdd gadarn o fewn Addysg ac yn gorfforaethol yn y Cyngor, gyda phroses a ddiffiniwyd yn dda ar gyfer amlygu risgiau a thangyflawni. Er bod Estyn wedi atal ei threfn arferol o arolygiadau yn ystod y pandemig, yn rhan o adolygiad thematig cenedlaethol, archwiliodd Estyn ymateb y Cyngor i'r pandemig (o ran Addysg) a chafodd sicrwydd bod ystod o fesurau effeithiol wedi cael eu rhoi ar waith i gynorthwyo dysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac ysgolion. Mynegodd rhieni a gofalwyr lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gefnogaeth a gynigiwyd gan ysgolion yn ystod y pandemig hefyd.

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau llesiant cenedlaethol.*

Mae'r Cyngor yn gweithio i gynyddu ei gyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol i'r eithaf wrth gyflawni ei amcan lles o wella addysg a sgiliau:

- *Cymru lewyrchus* – Ymateb i'r Fargen Ddinesig trwy sicrhau bod pobl ifanc yn llwyddo mewn pynciau STEM a sgiliau digidol, fel codio cyfrifiadurol.
- *Cymru gydnerth* – Mae ysgolion yn Abertawe yn defnyddio offeryn dadansoddi ynni ar-lein a rhaglen addysg ynni a ddyluniwyd i helpu ysgolion i ddefnyddio llai o drydan a nwy a lleihau allyriadau carbon eu hysgol a gwneud cyfraniad go iawn at fynd i'r afael â'r 'argyfwng hinsawdd'.
- *Cymru iachach* – Parhau i gynnwys plant yn eu haddysg trwy Lais y Disgybl, Cynghorau Ysgol a digwyddiadau'r Sgwrs Fawr. Mae'r pynciau wedi cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, bwlio, digartrefedd a pherthnasoedd iach. Mae ysgolion Abertawe yn ymgysylltu'n dda â menter ysgolion iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo maeth, gweithgarwch corfforol, perthnasoedd, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau, iechyd a lles emosiynol, diogelwch, hylendid a'r amgylchedd.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* – Sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i dlodi neu ffactorau cyfyngol eraill wrth gyflawni safonau a lles mewn addysg.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – Trawsnewid yr ystad ysgolion i fodloni'r galw ac ymateb i'r datblygiadau a amlinellir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion trwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – Addysgu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ymwybodol ar lefel fyd-eang trwy barhau i gynorthwyo ysgolion i ddod yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r cyngor yn gweithio'n gynaliadwy yn unol â'r pum ffordd ganlynol o weithio wrth gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed:

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - Sefydlwyd Partneriaeth Sgiliau Abertawe i edrych ar y cyfleoedd cyflogaeth tymor hir sy'n deillio o Fargen Ddinesig Bae Abertawe a'r sgiliau tymor hir eraill sy'n ofynnol. Bydd hyn yn helpu i lywio'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i ddysgwyr allu cyflawni'r rolau hyn. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfleoedd i wella a chreu amgylcheddau dysgu sy'n addas i'r dyfodol.
- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* – Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Er enghraifft, mae'r prosiect Cynnydd yn cynorthwyo dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn unol â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

(ALNET), mae'n bwysig amlygu anghenion yn gynnar er mwyn cynorthwyo dysgwyr i gael addysg. Mae addysgu o ansawdd da yn ffactor allweddol mewn addysg lwyddiannus. Os byddwn yn sicrhau bod athrawon ac arweinwyr yn Abertawe yn cael datblygiad proffesiynol a gyrfaol sy'n cydweddu â pholisïau a strategaethau adnewyddu a diwygio cenedlaethol, gallwn gynnal gweithlu cryf i fodloni anghenion newydd ac amrywiol plant ym mhob ysgol yn Abertawe.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – Mae perthnasoedd gweithio sydd wedi'u hen sefydlu â meysydd eraill ar draws yr awdurdod lleol; mae'r rhain yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer sawl gwasanaeth sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc. Mae'r Fforwm Rhieni-Ofalwyr wedi bod yn ymwneud yn agos â'r rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol i helpu'r awdurdod i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd.
- *Cydgysylltu pethau ac osgoi gwrthdaro* – Parhau i ddatblygu ein gwaith gyda'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i ychwanegu at ddealltwriaeth a rennir o fregusrwydd ac amlygu'r rhai hynny sydd yn y perygl mwyaf o niwed wrth i ni adfer o Covid-19.
- *Cynnwys pobl* – Mae gan y Gyfarwyddiaeth Addysg swyddogaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid o fewn ei Thîm Perfformiad sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar draws y gyfarwyddiaeth ar sicrhau bod dulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu defnyddio ar y cyfle cynharaf.

## Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Rydym eisiau gwella perfformiad economaidd a chreu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth i wella lles economaidd dinasyddion Abertawe.
- Sicrhawyd y buddsoddiad mwyaf erioed ar gyfer de-orllewin Cymru yn dilyn cymeradwyo'r cynllun arloesol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar 20 Mawrth 2017.
- Mae'r Fargen Ddinesig yn werth £1.3 biliwn a bydd yn trawsnewid cyd-destun economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn cynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf.
- Yn Abertawe, bydd 100,000 o droedfeddi sgwâr o le swyddfa newydd hyblyg a fforddiadwy yn cael ei adeiladu ar Ffordd y Brenin yng nghanol y ddinas ar gyfer busnesau technoleg yn rhan o bentref digidol a fydd yn elwa o isadeiledd digidol o'r radd flaenaf.
- Bydd y Fargen Ddinesig yn arwain at ddatblygu mwy o eiddo yn Ardal Arloesi'r Glannau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn SA1, gan ddarparu lle fforddiadwy ar gyfer cwmnïau cychwynnol.
- Bydd y Fargen Ddinesig hefyd yn cefnogi digidoleiddio'r arena dan do â 3,500 o seddau sydd wedi'i chynllunio ar gyfer safle datblygu Canol Abertawe yng nghanol y ddinas, yn ogystal â datblygu sgwâr digidol i gynnwys sgriniau digidol a gweithiau celf digidol.
- Bydd y Fargen Ddinesig yn sbarduno adfywio canol y ddinas yn ffisegol ymhellach yn unol â'n Fframwaith Strategol diwygiedig ar gyfer Canol y Ddinas – yn arbennig, datblygu a gwella eiddo a gwelliannau cysylltiedig i drafnidiaeth, gan ddarparu isadeiledd galluogol i gefnogi adfywio.
- Rydym eisiau manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig ac adfywio canol y ddinas trwy greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar trwy gymalau budd cymunedol mewn contractau a darparu cymorth cyflogadwyedd mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y cyngor a phartneriaid allanol.
- Rydym eisiau fframwaith polisi cynllunio sy'n cefnogi twf ac adfywio ac sy'n sicrhau bod gan gymunedau ddigon o dai o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy i fodloni anghenion cymunedol a chefnogi twf economaidd cynaliadwy.
- Rydym eisiau manteisio ar botensial heb ei gyffwrdd ar gyfer twf i gynhyrchu ynni cynaliadwy, diogelu'r amgylchedd a hybu'r economi, gan gynnwys parhau i bwyso ar y llywodraeth i gymeradwyo'r Morlyn Llanw.
- Rydym eisiau manteisio ar asedau naturiol, diwylliannol ac adeiledig Abertawe, a'i hisadeiledd, i ddatblygu'r economi ar yr un pryd â diogelu'r amgylchedd a gwella lles.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Paratoi a gweithredu Strategaeth Adferiad Economaidd Covid-19.**

Mae Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe yn ymhelaethu ar Gynllun Adferiad Covid ehangach y Cyngor. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth ag Adfywio Abertawe (ein partneriaeth adfywio economaidd leol) i helpu'r economi leol i adfer o'r pandemig Covid-19. Mae'n amlygu camau gweithredu allweddol a all gynorthwyo busnesau ac unigolion, gan wella cydnerthedd yr economi leol.

Mae'r Cynllun yn ategu rhaglenni a phrosiectau a oedd eisoes ar waith cyn Covid-19. Mae'n amlinellu camau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar gynyddu hyder, cefnogi busnesau, hyrwyddo bwyd lleol, cefnogi twristiaeth, datblygu sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer adferiad economaidd

cynaliadwy. Mae'n cael cyllid ac adnoddau gan Gyngor Abertawe, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Mae camau gweithredu mentrau i ysgogi gweithgarwch economaidd a gwydnwch o fewn economi leol Abertawe yn parhau i gael eu cyflawni, gyda chymorth cronfa adferiad economaidd y Cyngor.

Ym mis Mai 2021, cytunodd y Cabinet i neilltuo swm o £20m i gefnogi'r adferiad economaidd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23. Roedd hyn wedi galluogi cynlluniau adfer i gael eu hariannu'n llawn a'u cychwyn yn syth. Ystyrir ceisiadau ar sail teilyngdod gan y Bwrdd Cyllideb a Strategaeth Ailffurfio. Erbyn mis Ebrill 2022, roedd 84 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo. Roedd y rhain yn cynnwys Grantiau Busnes Lleol, Teithio ar Fysiau am Ddim – Disgowntiau Bws yr Haf, Lle Cyhoeddus Awyr Agored Am Ddim ar gyfer Lletygarwch, Cymorth Sector ar gyfer Twristiaeth a Diwylliant, Gwaith Meysydd Chwarae hanfodol, Canolfan Cyngor ar Ynni Dros Dro Beilot, a chyfleusterau Mannau Newid.

Astudiaeth Achos: Cynnig i deithio ar fysiau am ddim yn cynyddu brwdfrydedd dros drafnidiaeth gyhoeddus

Darparodd Cyngor Abertawe drafnidiaeth fysiau am ddim ar y penwythnos i bawb yn y ddinas yn ystod gwyliau'r haf i geisio helpu'r ddinas i adfer o effaith ariannol y pandemig. Roedd hefyd eisiau annog mwy o bobl i ystyried defnyddio bysiau yn lle eu car i fynd o gwmpas yn y dyfodol.
Mae arolwg a gwblhawyd gan y cyngor wedi dangos y bydd llawer o'r rhai a deithiodd ar y gwasanaeth am ddim yn defnyddio bysiau eto ac y gallai arwain at gynnydd mewn niferoedd teithwyr yn y dyfodol. Cymerodd mwy na 450 o bobl ran yn yr arolwg a phan ofynnwyd iddynt a fyddai'r cynnig i deithio ar fysiau am ddim yn eu hannog i ddefnyddio bysiau'n fwy rheolaidd, dywedodd fwy na 75% y byddent. Dangosodd niferoedd teithwyr a gyflenwyd i'r cyngor gan weithredwyr trafnidiaeth ar hyd cyfnod y cynnig fod 220,000 o deithwyr wedi defnyddio'r gwasanaeth am ddim yn ystod yr haf 2021.
Ailadroddwyd y fenter #BysusAmDdimAbertawe yn llwyddiannus ar adegau pwysig drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y Nadolig a gwyliau'r ysgol.

**Arwain y broses o baratoi Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru.**

Mae Cyngor Abertawe wedi arwain y broses o gynhyrchu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth a Llywodraeth Cymru.

Y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol gorffenedig yw'r fframwaith strategol newydd ar gyfer adfywio economaidd ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'n amlinellu sut byddwn yn adeiladu ar ein cryfderau unigryw a chyfleoedd yn ystod y deng mlynedd nesaf i ddatblygu economi fwy ffyniannus a chydnerth yn ne-orllewin Cymru. Mae'r strategaeth a'i chynllun gweithredu cysylltiedig yn amlygu buddsoddiad prosiect gweddnewidiol yn y rhanbarth a fydd yn denu ffrydiau cyllido yn y dyfodol o bob lefel o'r llywodraeth, fel rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae gan y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ddylanwad mawr ar ddatblygu polisi ehangach, felly mae'n hollbwysig i sicrhau darpariaeth integredig yn y dyfodol.

Roedd y broses o baratoi'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn cynnwys dadansoddiad trwyadl o'r sylfaen dystiolaeth ynglŷn ag economi, marchnad lafur ac isadeiledd y rhanbarth i bennu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau. Ymgynghorwyd yn helaeth â rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth. Roedd datblygiad y cynllun hefyd yn cynnwys ystyried y cyd-destun polisi cenedlaethol,

rhanbarthol a lleol, gan gynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datgarboneiddio a chyflawni sero net erbyn 2050, newid technolegol a demograffig a Brexit.

Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn amlinellu tri 'Uchelgais':

- Cydnerth a chynaliadwy
- Mentrus ac uchelgeisiol
- Cytbwys a chynhwysol

Ategir yr uchelgeisiau hyn gan dair 'Cenhadaeth' gyflenwol, a fydd yn arwain gweithgarwch yn ystod y deng mlynedd nesaf:

- Cenhadaeth 1 – Sefydlu De-orllewin Cymru fel arweinydd yn y Deyrnas Unedig ym maes ynni adnewyddadwy a datblygu economi sero net: Datblygu prosiectau ynni mawr y rhanbarth a lledaenu'r buddion trwy'r rhanbarth (trwy ddatgarboneiddio diwydiannol, cyfleoedd cadwyn gyflenwi, arloesedd cysylltiedig â phrifysgol, ac ati).

- Cenhadaeth 2 – Creu sylfaen fusnes gref a chydnerth sydd wedi'i hymwreiddio: Deall a thyfu'r stoc fusnes, cefnogi entrepreneuriaeth gymdeithasol a masnachol helaeth, creu cadwyn gyflenwi gryfach a rhwydweithiau arloesedd, gwneud cymorth sector cyhoeddus yn gynaliadwy; sbarduno mabwysiadu a lledaenu technoleg.

- Cenhadaeth 3 – Tyfu a chynnal y cynnig o 'brofiad': Cysylltu ansawdd amgylchedd, ansawdd bywyd a chymeriad cymunedol i greu rhanbarth sy'n cadw ac yn denu talent a buddsoddiad, a hyrwyddo hyn yn gyson ac yn rymus i'r byd y tu allan.

Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn amlinellu rhai meysydd gweithredu allweddol cychwynnol i gyflawni'r uchelgeisiau a'r cenadaethau. Mae'r camau gweithredu hyn, sy'n cynnwys prosiectau datblygu economaidd ac isadeiledd allweddol, yn ffurfio'r sail i ddogfen cynllun gweithredu 'fyw' a fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan bartneriaid rhanbarthol ac a fydd yn esblygu i groesawu cynigion buddsoddi newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae'r broses o ddatblygu'r Cynllun wedi'i chwblhau bellach ac fe'i mabwysiadwyd gan y pedwar Awdurdod Lleol, gan gynnwys Cyngor Abertawe, ym mis Ionawr 2022 a Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ym mis Mawrth 2022.

**Manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig a pharhau i adfywio canol y ddinas a gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r Fargen Ddinesig er mwyn buddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd.**

Ym mis Mawrth 2022, dathlwyd Pum Mlynedd o Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe mewn digwyddiad arbennig a fynychwyd gan fuddsoddwyr, partneriaid a busnesau ym Mharc y Scarlets. Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yw'r unig Fargen Ddinesig yng Nghymru y mae ei holl brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ac wrthi'n cael eu cyflawni ac sydd hefyd wedi dyrannu 99% o'r cronfeydd, gyda £1.296B o'r £1.3B wedi'i neilltuo.

Eleni, cymeradwywyd y prosiect Campysau Gwyddor Bywyd, Lles a Chwaraeon, sef prosiect fesul cam wedi'i leoli ar ddau safle yn Singleton a Threforys. Y weledigaeth yw integreiddio gwyddorau bywyd, technoleg feddygol, chwaraeon a lles i weddnewid gwasanaethau presennol, sbarduno twf economaidd gan gyfrannu £150m arall at werth ychwanegol gros rhanbarthol, creu 1000 i 1200 o swyddi, a denu mewnfuddsoddiad sylweddol i'r rhanbarth. Bydd y buddsoddiad £15m gan y Fargen Ddinesig yn helpu i gyflawni cam 1 y prosiect gan gydleoli gwaith ymchwil masnachol, clinigol ac

academaidd yng nghanolfan Ysbyty Treforys gyda mynediad i'r safle trwy'r M4 a chreu 2,000 o fetrau sgwâr o le ymchwil ac arloesedd penodol o fewn Parc Chwaraeon Lôn Sgeti.

Mae cynllun busnes y Rhaglen Sgiliau a Thalent wedi cael ei ddatblygu a bydd yn ariannu prosiect Baromedr Sgiliau a fydd yn amlygu'r bylchau sgiliau sy'n bodoli yn y rhanbarth ac yn nodi'r sgiliau newydd sy'n ofynnol i fodloni anghenion yr wyth prosiect Bargen Ddinesig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws y pum thema allweddol, sef Adeiladu, Digidol, Ynni, Iechyd a Lles, a Gweithgynhyrchu Clyfar.

Mae cymeradwyo prosiect isadeiledd digidol gwerth £55 miliwn Bargen Ddinesig Bae Abertawe i hybu cysylltedd â'r rhyngrwyd yn cyflwyno cysylltedd ffeibr llawn i ganol y ddinas, parciau busnes ac ar draws y rhanbarth. Bydd galluogi technoleg fel 4G Uwch, 5G, Rhyngrwyd Pethau (IoT), Rhwydwaith Arloesedd Digidol ac ati, yn caniatáu i wasanaethau digidol o ansawdd da gael eu darparu a'u defnyddio dros rwydweithiau llinell sefydlog neu rwydweithiau di-wifr sydd wedi'u diogelu at y dyfodol.

Astudiaeth Achos: Hwb Wi-Fi Cyflym i'r Bae Copr

Mae technoleg Wi-Fi gyflym a dibynadwy yn cael ei chyflwyno yn ardal Bae Copr newydd Abertawe, gan ganiatáu i filoedd o bobl ffrydio cynnwys ar yr un pryd i'w dyfeisiau symudol. Bydd partneriaeth rhwng Cyngor Abertawe a Vodafone yn darparu'r gwasanaeth am ddim mewn ardal sy'n cynnwys y parc arfordirol 1.1 erw nesaf at Arena Abertawe, y ramp newydd yn hen safle Canolfan Siopa Dewi Sant sy'n arwain at y bont dirnod newydd dros Heol Ystumllwynarth a'r bont ei hun.

Mae gwaith y Bae Copr gwerth £135m wedi parhau i wneud cynnydd gweladwy sylweddol yn sgil cwblhau adeiladu arena sydd â 3,500 o seddau ochr yn ochr â chwblhau safle'r Bae Copr. Dyfarnwyd y contract i weithredu'r Arena i Grŵp Theatr Ambassador ac agorodd actau fel Alice Cooper, Rob Brydon, Diversity a Katherine Ryan raglen yr Arena ar gyfer 2022. Yn dilyn digwyddiad prawf a oedd yn proffilio cerddorion lleol, cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 8 Mawrth 2022 gydag enwau proffil uchel fel John Bishop a Royal Blood yn perfformio mewn sioeau y gwerthwyd pob tocyn ar eu cyfer.

Mae'r bont newydd dros Heol Ystumllwynarth, maes parcio aml-lawr newydd a'r parc arfordirol 1.1 erw wedi agor i'r cyhoedd hefyd. Roedd elfennau eraill o'r cynllun, gan gynnwys y bloc preswyl, maes parcio aml-lawr y gogledd, a neuadd yr eglwys, i gyd wedi datblygu'n sylweddol neu wedi'u cwblhau. Mae sgwâr digidol sy'n cynnwys gwaith celf digidol a chysylltiad tra chyflym â'r rhyngrwyd yn cael ei ddatblygu y tu allan i'r arena. Mae Grŵp Cairn wedi cael ei amlygu fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer gwesty pedair seren arfaethedig â 150 o ystafelloedd.

Mae prosiect Isadeiledd 12m Ffordd y Brenin, sy'n gwella tir y cyhoedd, wedi cael ei gwblhau. Mae'r cynllun yn cynnwys ardaloedd caled a meddal newydd wedi'u tirweddu, llwybrau beicio a llwybr un lôn dwyffordd i gerbydau, ynghyd â chreu llwybrau mwy llydan i gerddwyr. Mae gwelliannau sylweddol i'r isadeiledd gwyrdd ar gyfer canol y ddinas yn cynnwys waliau byw, parcdir wedi'i dirweddu a dros 200 o goed newydd. Bydd y lle a geir yn sgil datblygu yn darparu mwy o le cyhoeddus a gwell llwybrau i gerddwyr a beicwyr.

Mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo yn 71 – 72 Ffordd y Brenin. Bydd hyn yn darparu swyddfeydd hyblyg, rhad o fewn amgylchedd masnachol o ansawdd uchel gyda band eang cyflym iawn, a bydd yn gartref i fusnesau technoleg Abertawe sy'n tyfu a busnesau sy'n canolbwyntio ar TGCh sy'n ymestyn o gyfleusterau deori Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r datblygiad pentref digidol yn gweithredu fel sbardun ar gyfer datblygiad newydd a arweinir gan y sector preifat

ac adnewyddu eiddo arall ar Ffordd y Brenin ac Ardal Fusnes Ganolog newydd yn Ninas Abertawe erbyn 2023. Bydd y swyddfeydd newydd yn darparu lle ar gyfer 600 o swyddi yn y sectorau technoleg, digidol a chreadigol, a fydd yn werth £32.6m y flwyddyn i economi Abertawe pan fyddant yn weithredol. Mae cysylltiad newydd rhwng Ffordd y Brenin a Stryd Rhydychen yn rhan o'r cynllun hefyd, gan wella llif ymwelwyr yng nghanol y ddinas.

Mae'r ymyriadau hyn yn dangos llwyddiant y Cyngor wrth arwain yr ymdrech i sicrhau newid cadarnhaol yng Nghanol Dinas Abertawe a'i byrth allweddol. Mae'r mentrau'n dangos ymagwedd 'canol trefi yn gyntaf' yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru.

Mae gan Gyngor Abertawe weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dinas sy'n gyrchfan byw, gweithio a hamdden fywiog, 24 awr. Mae pwyslais cryf ar ffordd o fyw, ymwybyddiaeth amgylcheddol, creu lleoedd cryf a chysylltedd digidol yn gwneud Abertawe yn fwy deniadol nag erioed, a brofir gan y lefelau parhaus o fuddsoddiad sy'n dod i'r ddinas ar draws pob sector.

Astudiaeth Achos: Mae Abertawe wedi cael ei henwi'n un o'r pum dinas werdd orau yn y Deyrnas Unedig i fuddsoddi ynddynt.

Yn ôl ymchwil annibynnol a arweiniwyd gan arbenigwyr, cafodd Abertawe sgôr wych mewn meysydd gan gynnwys nifer yr adeiladau swyddfa ecogyfeillgar. Ystyriodd y grŵp bancio rhyngwladol BNP Paribas ffactorau gan gynnwys allyriadau CO2 a llygrwyr aer ymyl ffordd hefyd yn rhan o astudiaeth eiddo tirol o'r enw Next X a oedd yn canolbwyntio ar ddata amgylcheddol. Abertawe yw'r unig ddinas yng Nghymru yr oedd ei sgorau amgylcheddol ymhlith y deg uchaf yn yr astudiaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe: "Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd, felly mae'r cyngor a'n partneriaid yn gwneud llawer iawn o waith er mwyn i Abertawe ddod yn ddinas sero net erbyn 2050. "Mae hefyd angen i ni greu Abertawe wyrddach i ddenu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a buddsoddiad sector preifat, sy'n cynnwys datblygiadau swyddfa di-garbon, cyflwyno llawer mwy o wyrddni ar draws y ddinas, a gosod mwy a mwy o fannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. "Bydd hyn yn parhau i leihau ein hôl troed carbon ac yn gwneud y ddinas yn fwy bioamrywiol, a bydd hefyd yn codi proffil Abertawe fel lle i fuddsoddi ynddo ar yr un pryd â chynnig swyddi i bobl leol. Dyna pam mae mor braf cael ein henwi'n un o'r pum dinas werdd orau yn y Deyrnas Unedig i fuddsoddi ynddynt."

Caffaelodd y Cyngor Theatr y Palas, sy'n hanesyddol ond yn adfeiliedig, gan achub rhan o dreftadaeth Abertawe a gweithredu fel sbardun adfywio ar gyfer y Stryd Fawr Uchaf. Sicrhawyd cyllid grant ac mae gwaith dylunio ac adnewyddu yn mynd rhagddo. Bydd y lleoliad gwaith digidol arloesol yn cynnig cartref i fusnesau sy'n tyfu yn y sectorau technoleg, digidol a chreadigol. Mae Penawdau Telerau eisoes wedi cael eu llofnodi gyda'r tenant arweiniol, Tramshed Tech.

Bydd adeilad pwysig arall, sef Neuadd Albert, adeilad gradd II a agorodd ym 1864, yn destun gwaith adnewyddu gwerth £7m o ganlyniad i gymorth gan y Cyngor. Roedd Loft Co yn gallu buddsoddi yn yr hen neuadd gerdd yn sgil cymorth i sicrhau cyllid grant a chyllid benthyciad gan y Cyngor trwy'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi. Mae cynlluniau ar gyfer datblygiad hamdden, masnachol a phreswyl cymysg yn symud ymlaen, gan warchod y proffil pensaernïol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y gwaith adfer ac adnewyddu gwerth £8 miliwn i'r Neuadd Albert hanesyddol gan Loft Co yn creu lleoliad cerddoriaeth ac adloniant ag 800 o seddau, ynghyd â mannau newydd penodol ar gyfer busnesau ffordd o fyw a swyddfeydd.

Mae penderfyniadau i fuddsoddi mewn adfywio Canol y Ddinas cyn ac ar ôl y pandemig yn dangos hyder mewn adfywio'r Ddinas. Mae'r datblygiad llety myfyrwyr gwerth £39.8m gyferbyn â'r orsaf drenau bron â'i gwblhau. Bydd yr adeilad yn gartref i gannoedd o fyfyrwyr ac mae'n cynnwys lle masnachol ar y llawr gwaelod. Arweiniwyd gwaith adnewyddu adeilad Potter's Wheel, sydd wedi'i ddominyddu gan wal werdd, gan Coastal Housing. Bydd yr 'adeilad byw' arloesol sydd i ddod dan arweiniad Hacer Developments o Abertawe yn cynnwys tŷ gwydr tebyg i fferm drefol dros bedwar llawr, gerddi, clos a chyfleuster addysgol, yn ogystal â fflatiau preswyl, siopau a swyddfeydd. Mae waliau a thoeon byw, ynghyd â phaneli solar pen to a batris storio ynni, yn cwblhau'r eco-ddatblygiad.

Mae ymarfer caffael Adfywio Abertawe wedi dod i ben bellach, a phenodwyd Urban Splash yn bartner datblygu sector preifat y Cyngor ar gyfer cam nesaf datblygu safle strategol. Mae'r penodiad yn dod ag adnoddau newydd ac arbenigedd datblygu i'r Ddinas.

Mae syniadau cynnar ar gyfer safleoedd Cam 1 wedi cael eu cynnig, ac mae cysyniad dylunio'n cael ei ddatblygu fel bod pobl leol yn gallu rhoi adborth a helpu i ffurfio'r cynlluniau. Mae'r cynigion cynnar, sydd i'w darparu gan y sector preifat, yn cynnwys:

- Trawsnewid safle 23 erw'r Ganolfan Ddinesig ar lan y môr yn ardal glannau dinesig newydd ar gyfer Abertawe. Cynigir cyrchfan defnydd cymysg wedi'i hangori gan y traeth, gyda chartrefi newydd a phwyslais cryf ar hamdden a lletygarwch, mannau dinesig hael a digon o wyrddni. Mae cynigion eraill yn cynnwys rhodfa newydd i'r traeth a chymysgedd o ddigwyddiadau a defnyddiau parhaol a thymhorol i greu cyrchfan i ymwelwyr ym mhob tymor.

- Adeiladau swyddfa newydd, fflatiau newydd i breswylwyr a lleoliadau gwaith a rennir ar safle 5.5 erw Gogledd Canol Abertawe sydd wedi'i leoli yn hen safle Canolfan Siopa Dewi Sant. Gan fanteisio ar y twf mawr ledled y Deyrnas Unedig yn y galw am nwyddau crefft, fe allai gynnig lle i fusnesau creadigol bach wneud a gwerthu eu cynhyrchion hefyd.

- Adfywiad preswyl yn bennaf ar safle 7.5 erw ar lan yr afon yn St Thomas, yn cynnwys cartrefi i deuluoedd, fflatiau, mannau cyhoeddus newydd a rhodfa afon newydd â theras a fydd yn darparu mynediad uniongyrchol i'r afon am y tro cyntaf mewn mwy na 150 o flynyddoedd.

Gan gydnabod yr angen i ymyrryd yn gyflym a rheoli cyfangiad y sector manwerthu mewn dinasoedd o ganlyniad i ysgytwadau economaidd Brexit a Covid-19, comisiynodd Cyngor Abertawe RivingtonHark a BDP i adolygu'r cynnig manwerthu a hamdden presennol gyda'r nod o lywio ac adfywio prif gynllun lefel uchel ar gyfer y ddinas gyfan.

Mae Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe yn bwriadu cydgrynhoi'r Ardal Ganolog yn Ardal Ffordd o Fyw gyda chymysgedd ehangach o ddefnyddiau, yn enwedig yng nghraidd canolog Dewi Sant/y Cwadrant. Cedwir y cylch manwerthu ac fe'i cryfheir trwy gydgrynhoi'r cynnig a chyflwyno defnyddiau cyflenwol i ddenu ymwelwyr. Un o'r nodau allweddol yw integreiddio canol y ddinas yn well â chymdogaethau preswyl Abertawe a'i hisadeiledd ehangach o gyrchfannau diwylliannol a hamdden, lleoliadau, mannau gwyrdd a glannau, ac amlygu 'calon' Canol y Ddinas sy'n dathlu unigrywiaeth Abertawe a'i threftadaeth drefol.

Mae pedair thema gyflenwol yn diweddaru'r weledigaeth ar gyfer datblygu ac adfywio canol y ddinas:

- Cymysgedd Canol y Ddinas: Ailffurfweddu cymysgedd a dosbarthiad presennol defnyddiau i gynnwys defnyddiau hyblyg ac amrywiol ar gyfer economi gymysg yng nghraidd y ddinas (manwerthu, cyflogaeth, bwyd a diod, hamdden, addysg, cymunedol, a thai).
- Diwylliant Trefol: Hwyluso twristiaeth a arweinir gan ddigwyddiadau a darparu cynnig diwylliannol cynhwysol, hygyrch a hyblyg, trwy gysylltu cyfres o fannau agored amlswyddogaethol (presennol ac arfaethedig), mannau o ddiddordeb diwylliannol a hanesyddol, ac atyniadau hamdden yn y ddinas.
- Craidd Gwyrdd: Manteisio ar y rhwydwaith presennol o fannau gwyrdd a glas agored i greu amgylchedd iach sydd hefyd yn allweddol i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Hygyrch a Chysylltiedig: Creu dinas 15 munud o lonydd rhyng-gysylltiedig sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn cerddadwy ac yn rhyngweithiol trwy greu lleoedd o ansawdd uchel ac isadeiledd digidol a sbardunir gan ddata.

Amcanion Strategol Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe yw:

1. Creu Craidd Canol Dinas Bywiog a Chynaliadwy
2. Newid Canfyddiadau a Gwneud Abertawe'n Gyrchfan
3. Galluogi Cyfleoedd Byw a Gweithio Newydd yng Nghanol y Ddinas
4. Hyrwyddo Dinas Iach, Gynhwysol a Chysylltiedig y Gellir Byw Ynddi

Mae'r ymyriadau hyn yn dangos llwyddiant y Cyngor wrth arwain yr ymdrech i sicrhau newid cadarnhaol yng Nghanol Dinas Abertawe a'i byrth allweddol. Mae'r mentrau'n dangos ymagwedd 'canol trefi yn gyntaf' yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru.

**Hyrwyddo a gwella economi leol amrywiol a chynaliadwy. Er enghraifft, gweithio ar y cyd trwy Bartneriaeth Adfywio Abertawe i fwrw ymlaen ag agenda adfywio economaidd Abertawe, gan gynnwys cyflawni'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, a thrwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n cefnogi adfywio Abertawe ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.**

Er gwaethaf cefndir y pandemig byd-eang, mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi gweithio'n ddiflino i adfywio'r ardal. Mae Partneriaeth Adfywio Abertawe yn cydweithio i gynyddu buddion economaidd prosiectau adfywio i'r eithaf i wella ffyniant yr ardal leol a'i phobl.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer y cyfnod hyd at 2025. Mae ei bolisïau'n hyrwyddo agenda creu lleoedd clir sy'n pwysleisio bod rhaid i ddatblygiad yn y dyfodol gyd-fynd â'r nodau trosfwaol, sef gwella ansawdd bywyd a lles.

Abertawe yw'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer 'Dyfarniad Creu Lleoedd' rhanbarth de-orllewin Cymru, gyda mynediad at ddyfarniadau cyllid o £6.5m ar gyfer y rhanbarth. Mae'r rhaglen creu lleoedd Trawsnewid Trefi yn adeiladu ar lwyddiant y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio flaenorol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu tîm buddsoddiad a thwf penodol i gynyddu ffyniant economaidd a chymdeithasol ehangach a lles ein holl gymunedau yn Abertawe. Mae dros £1m o grantiau (Trawsnewid Trefi) Llywodraeth Cymru wedi cael eu dyrannu i fusnesau lleol.

Mae gwasanaeth menter yn cynorthwyo busnesau cychwynnol / hunangyflogaeth, gan ddarparu mynediad at gyllid a ffynonellau cyngor. Mae'r ffigurau ar gyfer mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022 yn dangos bod 87 o fusnesau cychwynnol wedi cael cyfanswm o oddeutu £80,000 o gyllid i helpu i dalu am gostau cychwynnol fel dylunio gwefan, cyrsiau hyfforddi ac offer. Mae cynlluniau cyllido a ddefnyddiwyd yn cynnwys Grant Cychwyn Busnes Cyngor Abertawe a Grant Cychwyn Busnes UK Steel Enterprise. Mae tîm cymorth busnes Cyngor Abertawe yn cynnal Clwb Menter Dechrau Busnes

Abertawe hefyd, sy'n trefnu gweithdai misol a siaradwyr arbenigol i roi sgiliau i fusnesau newydd mewn meysydd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cyfraith cyflogaeth a rhwydweithio.

Dathlwyd Dydd Sadwrn Busnesau Bach, sef ymgyrch ar lawr gwlad ledled y Deyrnas Unedig sy'n annog pobl i gefnogi busnesau bach yn eu cymunedau, ar 4 Rhagfyr 2021. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi busnesau lleol trwy weinyddu cymorth ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru ac wedi sicrhau cynnig Kickstart gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cynnig lleoliadau gwaith mewnol ac allanol.

Rydym yn ceisio gwneud y ddinas yn fwy atyniadol a hygyrch i gerddwyr a siopwyr ar hyd y flwyddyn, trwy annog datblygu mwy o gartrefi â chymysgedd o ddeiliadaethau, creu ardaloedd bwyta newydd y tu allan ac annog busnesau annibynnol i sefydlu yn Abertawe. Mae'r Grant Byw'n Gynaliadwy wedi darparu 97 o unedau preswyl yng nghanol y ddinas ac wedi cwblhau datblygiad defnydd cymysg syn cynnwys llety myfyrwyr a adeiladwyd i'r pwrpas (780 o ystafelloedd gwely) gyda chyfleusterau cymunedol atodol. Ac mae'r Grant Datblygu a Gwella Eiddo wedi gwella 3667$m^2$ o le masnachol yng nghanol y ddinas.

Sicrhawyd cyllid ar gyfer adfywio Sgwâr y Castell gyda chynlluniau ar gyfer ffynnon/jetiau dŵr newydd sy'n galluogi defnydd hyblyg o le, ychwanegu man gwyrdd ac ystod o gaffis a bwytai newydd sy'n edrych dros y sgwâr. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn 2023. Yn y dyfodol, bydd unedau masnachol sy'n gweithredu yn y Sgwâr yn rhannu elfen o gyfrifoldeb am lanhau / cynnal a chadw a fydd yn cael ei hegluro mewn cytundebau. Mae costau cynnal a chadw wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb y prosiect hefyd.

Mae cwblhau'r prosiect £3m Ailddychmygu Wind Street wedi gwella tir y cyhoedd a chreu lle sy'n ystyriol o deuluoedd. Mae dodrefn stryd, seddau, cerrig palmant, goleuadau a gwyrddni newydd unigryw wedi cael eu hychwanegu ac mae hygyrchedd wedi cael ei wella.

Astudiaeth Achos: Enfysau ffyrdd trawiadol yn ychwanegu lliw a bywiogrwydd i Wind Street, cyrchfan newydd Abertawe ar gyfer pob awr o'r dydd.

Mae'r dyluniadau amryliw yn rhychwantu ffordd newydd sy'n cael ei gosod yn rhan o brosiect Cyngor Abertawe i adfywio'r stryd. Mae'r stryd unffordd 20mya – sydd ar agor i draffig busnes yn unig (a hynny o 7-11am yn unig bob dydd) – hefyd yn cynnwys tair croesfan anffurfiol i gerddwyr gydag ymyl cwrbyn cyffyrddol i bobl ag anabledd.

Dywedodd Elliott King, hyrwyddwr LHDTC+ y cyngor: "Mae Abertawe'n ddinas groesawgar ac amrywiol. Bydd Wind Street yn ychwanegu at ei hapêl ymhellach – a bydd ein hardaloedd lliwgar o ffordd enfys yn cryfhau'r neges. "Byddant yn adlewyrchu'r negeseuon cadarnhaol sy'n gysylltiedig â dyluniadau a ddefnyddir gan y rhai hynny sy'n dathlu bywyd LHDTC+." Dechreuodd y gwaith uwchraddio £3m ar y stryd ar ôl i fusnesau a phreswylwyr roi eu barn am ddyfodol yr ardal. Mae'r cyngor yn parhau i ymgynghori â grwpiau, masnachwyr a phreswylwyr lleol.

Mae buddsoddiad o fwy na £400,000 wedi rhoi gwedd newydd i farchnad Abertawe. Mae'r gwaith yn cynnwys tai bach cyhoeddus newydd ac ardal gymunedol amlbwrpas, Wi-Fi cyhoeddus am ddim, arwyddion LED rhyngweithiol newydd a gwelliannau i'r mynedfeydd i'r farchnad, gan gynnwys uwchraddio mynedfeydd i dir y cyhoedd, agor gardd farchnad a chomisiynu gweithiau celf.

Astudiaeth Achos: Ardal Gwella Busnes Abertawe

Mae Ardal Gwella Busnes Abertawe yn bartneriaeth a arweinir ac a reolir gan y preifat sector y mae Cyngor Abertawe'n bartner ynddi. Ar hyn o bryd, mae mwy na 320 o Ardaloedd Gwella Busnes sy'n darparu buddsoddiad gwerth £136 miliwn gan eu 87,000 o fusnesau/sefydliadau mewn canol trefi a dinasoedd ledled y Deyrnas Unedig. Ardal Gwella Busnes Abertawe yw un o'r rhai hŷn yn y Deyrnas Unedig a'r un gyntaf yng Nghymru.
Fel yn 2011 a 2016, pleidleisiodd fusnesau/sefydliadau dros adnewyddu Ardal Gwella Busnes Abertawe ar 25/6/21. Sicrhaodd Ardal Gwella Busnes Abertawe bleidlais am bedwerydd tymor, sy'n record yng Nghymru, gyda phleidlais o 77.4% o blaid yn gyffredinol a 76.9% yn seiliedig ar Werth Ardrethol. Dechreuodd dymor newydd yr Ardal Gwella Busnes ar 1 Awst 2021 a bydd yn para am 5 mlynedd tan 31 Gorffennaf 2026. Rôl yr Ardal Gwella Busnes yw helpu i wneud yr ardal y mae'n gweithredu ynddi'n lle gwell i siopa, aros, astudio a chynnal busnes ynddi, ac ymweld â hi, ac mae'n gwneud hyn gan ddefnyddio'r arian a gesglir trwy ardoll 1%.
Mae Ardal Gwella Busnes Abertawe yn gweithredu ymhlith yr 20% gorau o Ardaloedd Gwella Busnes yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar ei pherfformiad a'i rheolaeth asesir yn annibynnol gan sefydliad Ardaloedd Gwella Busnes cenedlaethol. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae mwy na 30 o fusnesau newydd wedi agor, gan fuddsoddi yng nghanol y ddinas a chreu swyddi a gyrfaoedd newydd. Mae ystod o ddigwyddiadau a gwelliannau arloesol wedi cael eu cynnal ac mae mwy yn yr arfaeth. Mae Ardal Gwella Busnes Abertawe yn awyddus i fanteisio ar yr ysbryd cadarnhaol hwn a gweiddi'n uwch fyth gyda'i gilydd am yr hyn sy'n digwydd yng nghanol dinas Abertawe.

Mae prosiect y Cyngor i adnewyddu 277-278 Stryd Rhydychen (hen adeilad BHS) yn sicrhau nad yw adeilad mawr yn cael ei adael yn wag yng nghanol y ddinas. Yn lle hynny, bydd gwasanaethau'r Cyngor, a allai gynnwys y llyfrgell, gwasanaethau archif neu ganolfan gyswllt a leolwyd yn flaenorol yn y Ganolfan Ddinesig, yn cael eu darparu ochr yn ochr â gwasanaethau a gynigir gan wasanaethau trydydd sector a sector cyhoeddus eraill. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod gan breswylwyr fynediad haws at wasanaethau nag erioed o'r blaen ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ailfywiogi canol y ddinas trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr ac annog buddsoddiad manwerthu a phreswyl.

Bydd yr hwb cymunedol yn darparu mynediad i bawb ac yn cynnig ystod o wasanaethau mewn amgylchedd croesawgar lle y gall pobl gyfarfod a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, dysgu a grwpiau cymorth. Bydd yn ceisio hyrwyddo cydlyniad cymunedol, cyfleoedd i hunanddatblygu a thyfu, yn cefnogi cynhwysiant digidol, yn gwella lles ac yn uno a chryfhau ein cymuned amrywiol.

Bydd yr hwb hefyd yn darparu llety ystwyth i gwmnïau o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n cefnogi ethos hwb cymunedol. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer lle swyddfa hyblyg a chydweithredol sy'n annog dull cydlynol o gefnogi'r gymuned i ganfod a darparu datrysiadau i wella ansawdd bywyd. Mae'r rhaglen gyllido Trawsnewid Trefi yn cynnwys mesurau i gynyddu nifer yr ymwelwyr trwy sicrhau bod y sector cyhoeddus yn lleoli gwasanaethau yng nghanol trefi, yn mynd i'r afael ag adeiladau a thir gwag er mwyn helpu i'w hailddefnyddio, ac yn gwyrddu canol trefi.

Disgwylir i hwb sector cyhoeddus arall gael ei leoli yng Ngogledd Canol Abertawe, ac mae Asiantaeth Eiddo Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried cynigion. Yn y cyfamser, bydd safle'r Hwb yn cael ei orchuddio â glaswellt a'i ddefnyddio dros dro (gan unedau masnachol) tra bod y cynllun terfynol yn cael ei gadarnhau.

Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar adeilad Hwb Cyflogaeth Ffordd y Brenin i adeiladu datblygiad swyddfa uwch-dechnoleg newydd mawr a fydd yn darparu lle ar gyfer 600 o swyddi yng nghanol dinas Abertawe. Bydd y datblygiad pum llawr, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn gynnar yn 2023, yn cynnwys 114,000 o droedfeddi sgwâr o le llawr masnachol, gan ddarparu cyfleoedd cydweithio a swyddfa hyblyg i fusnesau technoleg, digidol a chreadigol arloesol.

**Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar trwy gymalau budd cymunedol mewn contractau.**

Mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu gwerth y Bunt yn Abertawe i'r eithaf trwy ystod o ddulliau caffael a datblygu'r Economi Sylfaenol. Mae cymalau Budd Cymunedol yn cael eu cynnwys mewn contractau y tu allan i adeiladu bellach, e.e. yn ein tendr gofal cartref diweddar, i ymestyn yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael. Mae Gwasanaethau Masnachol wedi gweithio'n agos gyda'n tîm Budd Cymunedol i fapio'r flaenraglen waith er mwyn sicrhau bod contractau priodol yn cael eu hamlygu.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan yng nghynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Economi Sylfaenol – Sylfeini ar gyfer Llwyddiant Lleol ac yn ceisio datblygu contractau gyda chyflenwyr lleol i gyflenwi a gosod paneli solar ffotofoltaig, cyflenwi a gosod pympiau gwres ffynhonnell aer a chynnal gwaith amgylcheddol allanol. Rydym yn gwario bron £180m y flwyddyn yn uniongyrchol yn Abertawe a'r rhanbarth amgylchynol ac yn datblygu rheolau newydd ar gyfer caffael contractau i ganiatáu ar gyfer dethol cyflenwyr a chontractwyr lleol yn uniongyrchol hyd at £140k. Mae rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru yn cyfrannu'n sylweddol tuag at fuddion cymunedol.

Astudiaeth Achos: Hwb i swyddi a'r economi yn y Bae Copr

Mae adeiladu cyrchfan Bae Copr newydd £135m Abertawe wedi rhoi hwb mawr i weithwyr a busnesau lleol. Mae ffigurau newydd yn dangos bod dros 8,000 o wythnosau cyflogaeth, prentisiaethau a lleoliadau i hyfforddeion wedi cael eu sicrhau trwy adeiladu'r ardal newydd, sy'n cynnwys Arena Abertawe.

Datblygwyd y Bae Copr gan Gyngor Abertawe a rheolir y datblygiad gan RivingtonHark, ac mae hefyd yn cynnwys y parc arfordirol 1.1 erw, y bont newydd dros Heol Ystumllwynarth, lle newydd i barcio ceir, fflatiau newydd a mannau newydd ar gyfer busnesau bwyd a diod. Prif gontractwyr y cynllun yw Buckingham Group Contracting Ltd, ac mae'r arena'n cael ei hariannu'n rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.3bn.
Mae'r ffigurau newydd hefyd yn dangos bod gan y prosiect wariant cadwyn gyflenwi o 41.5% yn Ninas-Ranabrth Bae Abertawe, gyda 64% o'r gwariant yn aros yng Nghymru.

O ganlyniad i hyn, curodd tîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter y cyngor gystadleuaeth gan weddill y wlad i ennill y categori gwerth cymdeithasol yng Ngwobrau GO Cymru, sy'n dathlu'r cyflawniadau caffael gorau oll gan sefydliadau sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector.

Mae polisi adfywio a chaffael Cyngor Abertawe, Y Tu Hwnt i Frics a Morter, yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu hymgorffori ym mhob contract mawr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o gyfleoedd cadwyn gyflenwi a gweithio i sicrhau lleoedd prentisiaeth, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar.

**Gwella, ymestyn ac amrywiaethu cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth, gwella lles, hyrwyddo cydlyniant cymunedol a darparu buddion economaidd.**

Mae'r nifer fwyaf erioed o ymweliadau (o gymharu â 2019) â visitswanseabay.com a mwy o ymgysylltu wedi helpu i orffen y flwyddyn ar nodyn cadarnhaol i'r sector twristiaeth gyda nifer yr ymweliadau â thudalennau'n cynyddu 56% i 2.7M, defnyddwyr yn cynyddu 28% i 608K a nifer y sesiynau'n cynyddu 32% i 829K. Mae'r wefan yn parhau i werthu mwy o docynnau ar gyfer

digwyddiadau mawr, Theatr y Grand a Neuadd Brangwyn. Roedd cymorth marchnata ar gyfer digwyddiadau'n cynnwys Gorymdaith lwyddiannus y Nadolig a'r digwyddiad Croeso (Dydd Gŵyl Dewi) yng nghanol y ddinas. Roedd ein hymgyrchoedd tymhorol Mwynhewch yn ystod y cyfnod wedi cefnogi gwasanaethau a digwyddiadau eraill hefyd ac mae'n parhau i gael ei chydnabod fel ymgyrch ymwelwyr dydd y Cyngor i hysbysu ac annog preswylwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol. Mae'r tîm yn gynyddol 'draws-sector', gan helpu i gyflawni Strategaeth Gelfyddydau canol y ddinas a gweithio gyda darparwyr digwyddiadau mawr yn barod ar gyfer yr haf 2023, gan arwain at ddatblygu 'brand digwyddiad' newydd i fanteisio ar y 3 digwyddiad chwaraeon mawr sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr haf hwn, a amlygir isod.

Roedd cyfnod Nadolig prysur a oedd yn cynnwys Gwledd y Gaeaf ar y Glannau newydd a ffres, a ddenodd dros 150,000 o ymwelwyr, wedi rhagflaenu blwyddyn newydd yr un mor heriol yn chwarter 4. Ochr yn ochr â'i raglen reolaidd o ddigwyddiadau, a goruchwyliaeth gymunedol a thrydydd sector, gan gynnwys cefnogi agoriad Gweinidogol swyddogol y Bae Copr a'r Arena, ei digwyddiadau cyhoeddus cyntaf ac ymweliad Brenhinol, ymgymerodd y Tîm Digwyddiadau Arbennig â rheoli'r Croen Digidol o amgylch Arena Abertawe, a fynnodd gryn dipyn o amser ac ymdrech i ddeall ei ymarferoldeb, ei allu a'r defnydd gorau ohono. Mae'r ased hwn eisoes yn boblogaidd gydag artistiaid sy'n ymweld a chyfryngau cymdeithasol, a bydd yn ategu'r asedau digidol eraill sydd wedi cael eu datblygu / sydd wrthi'n cael eu datblygu yng nghanol y ddinas a fydd, yn unigol a chyda'i gilydd, yn gallu darparu profiad digwyddiadau cwbl ymdrwythol yn y dyfodol.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio yn ystod rhan ganol Chwarter 4, roedd drysau'n gallu ailagor yn ddiogel, ac roedd lleihau cyfyngiadau wedi arwain at ailagor Theatr y Grand yn llwyddiannus, gyda chefnogaeth gref gan gynulleidfaoedd. Mae gwaith wedi parhau yn y cefndir ar adnewyddu'r Cyntedd i gyflwyno Swyddfa Docynnau a chynnig Coffi/Arlwyo cyfunol, mewn partneriaeth â Gower Brewery, ochr yn ochr â meddiannu mannau allweddol gan Gyngor Hil Cymru, gyda'r nod o amrywiaethu defnydd, a chwmni cynhyrchu preswyl newydd ar gyfer yr Awditoriwm a ffrydiau datblygu talent – 'Uchelgais Grand'. Bydd yr anawsterau rhaglennu sy'n gysylltiedig ag aildrefnu sioeau, a diffyg argaeledd o ganlyniad i'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig yn parhau i fod yn heriol yn ystod y rhan fwyaf o 22/3. Trwy reolaeth dda a gwelliannau ffisegol i'r adeilad a'r rhaglen, disgwylir y bydd yr adferiad yn sefydlogi ac yn ategu'r cynnig cynyddol gyffrous ar draws y ddinas.

Fel y crybwyllwyd uchod, dychwelodd y digwyddiad deuddydd poblogaidd Croeso yn ystod y cyfnod, sy'n dathlu popeth yn ymwneud â Dydd Gŵyl Dewi a diwylliant Cymru - gydag adloniant byw yn dychwelyd i ganol y ddinas unwaith eto, ynghyd â marchnad brysur yn gwerthu cynnyrch o Gymru a gorymdaith. Gan adlewyrchu sut y bydd angen i ganol y ddinas wedi'i adfywio gael cydweithrediad traws-sector, ariannodd Cymru Greadigol greu Hwb Creadigol newydd ar gyfer y De-orllewin, i'w leoli yn Abertawe. Ar y cyd â busnesau lleol a Phrifysgol Abertawe, mae cam cyntaf hyn wedi cael ei osod yn hen siop gerddoriaeth Cranes, yr oedd y tîm Digwyddiadau wedi goruchwylio'r broses o'i haddasu'n 'labordy' digidol a diwylliannol sy'n darparu hyfforddiant ac ymgysylltiad ar gyfer artistiaid lleol. Mae cyfnodau artistiaid preswyl ar waith ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gau'r bwlch sgiliau rhwng y sector creadigol lleol a'r rhai sy'n gweithio yn y byd digidol fel y gallwn gyflawni potensial canol y ddinas ar ei newydd wedd fel dinas greadigol wrth symud ymlaen. Ategir hyn gan sawl prosiect Cronfa Cadernid Economaidd sy'n cael eu comisiynu, gan gynnwys llwyfan symudol a gwelliannau i'r Amffitheatr yn y Bae Copr, ochr yn ochr â pharhau i gefnogi digwyddiadau cymunedol, gosod eiddo, a masnachu a defnyddio lle awyr agored yn barhaus ar gyfer adferiad Covid. Rydym mewn sefyllfa dda i sicrhau hyn gyda rhaglen brysur a chyffrous wedi'i chynllunio ar gyfer 2022, gan gynnwys Sioe Awyr boblogaidd Cymru, Cyngherddau Parc Singleton a rhai digwyddiadau newydd sbon gan gynnwys Ironman 70.3, y gwerthwyd pob tocyn ar ei gyfer yn yr amser byrraf erioed, a Gŵyl Para-Chwaraeon a Phencampwriaethau Para-Driathlon y Byd.

Roedd cynnydd o ran ein cyfranogiad yn yr Ŵyl 'Unboxed' yn cynnwys amlygu adeiladau a straeon allweddol yn y gymuned ar gyfer llwybr llenyddiaeth/hanes ar y cyd â Llyfrgelloedd Abertawe ac, yn yr un modd, ar gyfer The World Reimagined, gwnaethom gynnal digwyddiadau wedi'u noddi, a sesiynau briffio artistiaid a chymunedau i gynyddu ymgysylltiad i'r eithaf. Rydym bellach yn y broses o ddarparu hyfforddiant a chymorth adnoddau i athrawon, artistiaid a grwpiau cymunedol, a chytunir ar y llwybr a straeon 'hanes cymdeithasol' i gyd-fynd â'r llwybr celfyddydau cyhoeddus hwn yn ystod y misoedd i ddod.

**Gweithio gyda phartneriaid i wella ein cyfleusterau hamdden a diwylliannol, fel y bartneriaeth â Phrifysgol Abertawe ar gyfer pentref chwaraeon rhyngwladol a chanolfan ragoriaeth chwaraeon; atyniadau ffordd o fyw fel cyfleusterau Skyline, Gondola a Cheir Llusg; cwblhau'r gwaith ar goridor glan yr afon; a goruchwylio'r broses o reoli a datblygu economi min nos a nos Canol y Ddinas, gan gynnwys cadw'r Faner Borffor, i sicrhau bod Abertawe'n lle diogel, glân a chroesawgar i weithio ynddo ac ymweld ag ef.**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni hefyd ym mhrosiect Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod, gyda tharged i gwblhau gwaith cragen a chraidd ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Peiriandy Musgrave eiconig wedi cael ei adfer ac mae atgyweiriadau'n cael eu gwneud i Beiriandy Vivian. Mae gwaith wedi parhau hefyd ar y Bont Wrthbwys 110 mlwydd oed, gan weithio'n agos gyda Cadw.

Mae gwaith wedi parhau hefyd gyda Skyline Enterprises sy'n bwriadu creu atyniad gondola gyda llwybrau ceir llusg, llinellau sip a chyfleusterau i ymwelwyr ar Fynydd Cilfái. Mae'r cwmni wedi datblygu cynigion, sy'n cynnwys gwella mynediad ac ecoleg yr ardal. Mae Penawdau Telerau wedi cael eu llofnodi gan y Cyngor a bwrdd Skyline ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar waith tirfesur. Er bod y pandemig Covid-19 wedi achosi i Skyline atal eu holl brosiectau ledled y byd dros dro, mae'r cwmni'n bwriadu bwrw ymlaen â'u datblygiad arfaethedig ar Fynydd Cilfái – yn amodol ar sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'w cynnig.

Astudiaeth Achos: Y Cyngor i barhau i gefnogi grŵp y Bont Slip

Bydd Cyngor Abertawe yn parhau i weithio gyda chefnogwyr Pont Slip y ddinas i'w helpu i wireddu eu dymuniad i roi bywyd newydd i'r strwythur. Mae'r cyngor yn cynnal swm cyfalaf o £139,000 i helpu i hwyluso cynlluniau Cyfeillion Pont Slip Abertawe yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys cefnogi gwaith dylunio arbenigol a gomisiynwyd gan y Cyfeillion. Byddai angen cyllid arall i gyflawni'r cynllun.
Dywedodd Arweinydd y Cyngor, Rob Stewart: "Rydym yn cefnogi dymuniad y grŵp i adfer y bont ac yn deall eu barn ei bod yn bwysig i dreftadaeth Abertawe.
"Rydym wedi eu cefnogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel ffynhonnell arweiniad, a byddwn yn eu cefnogi'n weithredol wrth iddynt weithio trwy gamau cychwynnol eu cynllun a chwilio am gyllid allanol.
"Mae treftadaeth y ddinas yn bwysig i ni, fel y gellir gweld trwy ein gwaith gydag eraill i adfywio lleoliadau fel Gwaith Copr Hafod-Morfa, adeilad Theatr y Palas a Neuadd Albert."
Adeiladwyd y Bont Slip ym 1915 pan oedd trenau – ac yna tramiau – yn mynd ar hyd glan môr Heol Ystumllwynarth. Roedd yn helpu pobl i ymweld â'r traeth yn ddiogel. Mae'r bwa'n nodwedd amlwg o hyd yn rhan o lwybr beicio poblogaidd glan y môr. Mae ei ategweithiau cerrig gwreiddiol yn parhau ac mae croesfannau cyfagos a reolir gan oleuadau yn caniatáu i gerddwyr a beicwyr groesi'r ffordd yn ddiogel. Mae cynllun Cyfeillion Pont Slip Abertawe yn cynnwys copi o'r bwa mewn dur nad oes angen llawer o waith cynnal a chadw arno, caffi a chyfleusterau chwaraeon newydd i ymwelwyr â'r traeth.

Dechreuodd waith yn ystod y chwarter trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu asesiad o anghenion ac arfarniad o opsiynau gan ymgynghorwyr mewn perthynas â Pharc Chwaraeon Bae

Abertawe ym meysydd chwarae'r Brenin Siôr V. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n hymdrechion i ddatblygu opsiynau i wella'r safle a'r cynnig hamdden, mewn partneriaeth â'r Brifysgol, ar gyfer gwell chwaraeon cymunedol, perfformiad a myfyrwyr/addysgol, a ddarperir o dan un model partneriaeth. Yn gysylltiedig â hyn, cwblhawyd gwaith i osod arwyneb newydd wedi'i seilio ar ddŵr ar y maes Hoci isaf yn y Parc Chwaraeon, sydd bellach o safon Olympaidd o Tokyo 2020, a ariannwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Clwb Hoci Abertawe ac ar y cyd â Hoci Cymru.

Astudiaeth Achos: Y ddinas yn bwriadu parhau i chwifio'r faner dros ddiogelwch yn y nos

Mae Abertawe yn barod i chwifio'r faner borffor unwaith eto. Mae bywyd nos Abertawe yn gwneud cais i sicrhau bod y Faner Borffor yn parhau i chwifio dros y ddinas am yr wythfed flwyddyn yn olynol.
Mae'n u o ddau le yn unig yng Nghymru sy'n gallu chwifio'r faner, sy'n dangos sut gall ymwelwyr ddisgwyl noson allan ddifyr, amrywiol, ddiogel a phleserus bob amser. Abertawe oedd y lle cyntaf yng Nghymru i ennill y wobr.
Bellach, mae partneriaeth o sefydliadau wedi cyflwyno cais i gynnal statws Baner Borffor yn 2022. Mae'r cynnig yn amlygu ystod eang o resymau pam mae canol y ddinas yn gyrchfan o ddewis yn awr ac ar gyfer y dyfodol.
Mae statws Baner Borffor, sy'n fenter genedlaethol a gynhelir gan y Gymdeithas Rheoli Trefi a Dinasoedd (ATCM), yn gwobrwyo canol trefi bywiog, amrywiol a diogel. Mae'r marc ansawdd yn cyfateb i'r Faner Las ar gyfer traethau a'r Faner Werdd ar gyfer parciau.
Dyfarnwyd y statws i ganol dinas Abertawe am y tro cyntaf yn 2014 i gydnabod rhagoriaeth ei heconomi min nos a nos rhwng 5pm a 5am.
Mae'r cynnig newydd yn cyfeirio at lwyddiannau fel agor busnesau newydd, ymgyrchoedd diogelwch a'r ymgyrch Mwynhewch Abertawe'n Gyfrifol i atgyfnerthu mesurau diogelwch Covid allweddol.
Mae prosiectau i ddod i gryfhau statws Baner Borffor yn cynnwys adfywio pellach, gan gynnwys agor Arena Abertawe, ymestyn y gwasanaeth ceidwaid canol y ddinas i'r economi min nos a nos a gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO).
Mae'r partneriaid sy'n ymwneud â rheoli economi min nos a nos Abertawe yn cynnwys Cyngor Abertawe, Ardal Gwella Busnes Abertawe, Heddlu De Cymru, Bugeiliaid Stryd Abertawe, Ambiwlans Sant Ioan, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, llawer o fusnesau canol y ddinas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a sawl datblygwr lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod Cabinet y Cyngor dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth: "Mae canol dinas Abertawe yn lle bywiog a hyfyw sy'n denu ymwelwyr yn ôl droeon. Bydd ein rhaglen adfywio £1bn yn cryfhau ei apêl.
"Mae mentrau gwych gan ein partneriaeth economi min nos a nos yn cael cyfle i ffynnu fel bod pawb yn cael amser da mewn amgylchedd diogel.
"Rydym yn obeithiol iawn ynglŷn â chadw statws Baner Borffor, ond nid yw cyflawni'r marc ansawdd hwn yn beth hawdd; mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n galed i gadw pobl yn ddiogel ar hyd y pandemig – a bydd yn parhau i wneud hynny."
Mae enghreifftiau o welliannau i ganol y ddinas a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys man cymorth meddygol ar y Strand i ddelio ag anafiadau a'r rhai sydd mewn perygl o ganlyniad i feddwdod, a man gollwng ar y Strand sy'n darparu man i gerbydau ollwng teithwyr a gwasanaeth cyfarfod a chyfarch ymwelwyr. Mae cynllun Mannau Diogel yn cynnig gwybodaeth a chymorth i gwsmeriaid i helpu i ddelio â bregusrwydd. Mae Best Bar None bellach wedi achredu 24 o safleoedd am safonau gwasanaeth cwsmeriaid.
Mae'r cyngor wedi trawsnewid Ffordd y Brenin yn gyrchfan wyrddach sy'n ystyriol o gerddwyr, mae'n datblygu Wind Street yn ardal letygarwch drwy'r dydd ac mae'n bwriadu gwella Sgwâr y Castell gyda gwyrddi newydd a rhesymau eraill i ymweld.

Bydd partneriaid y Faner Borffor yn cael gwybod yn ddiweddarach eleni p'un a yw'r ddinas wedi cadw ei Baner Borffor ai peidio.
Dywedodd Russell Greenslade, Prif Weithredwr Ardal Gwella Busnes Abertawe: "Mae'r Faner Borffor yn arwydd o'r gwaith caled y mae ein busnesau lletygarwch a nos yng nghanol y ddinas yn ei wneud i sicrhau noson allan ddiogel a phleserus; rydym yn falch o gyfrannu at hyn yn Ardal Gwella Busnes Abertawe.
"Fel Ardal Gwella Busnes, rydym newydd fuddsoddi mewn marsialiaid nos ychwanegol, i helpu pethau i redeg yn ddidrafferth wrth i'n myfyrwyr ddychwelyd i Abertawe, yn ogystal â thimau diogelu a glanhau yn flaenorol.
"Rydym yn falch o reoli a chyflawni'r cynllun Best Bar None, sy'n helpu i wella safonau trwy gyfuniad o reolaeth gyfrifol, gwelliannau parhaus a chyfrifoldeb cymdeithasol.
"Rydym hefyd yn cynnig, gyda'n partneriaid yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, cyrsiau hyfforddi am ddim ar gyfer gweithluoedd yn yr Ardal Gwella Busnes. Gobeithiwn y bydd y mentrau hyn yn helpu'r ddinas i gadw ei Baner Borffor."

**Adeiladu ar waddol cynnig Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig trwy gyflawni Strategaeth Gelfyddydau Canol y Ddinas a gweithredu canlyniadau ein cyfranogiad yn y rhaglen beilot Ewropeaidd Diwylliant 21 trwy ymgorffori'r naw ymrwymiad polisi ar gyfer Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy a'r Addewid Amrywiaeth ar gyfer Diwylliant.**

Mae'r sector Hamdden a Diwylliannol wedi wynebu heriau digynsail eleni. Yn ystod y pandemig, datblygodd ein hamgueddfa, orielau a llygrfelloedd ffyrdd arloesol o weithio i ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd, gan ddarparu digwyddiadau a deunyddiau ar-lein, ar yr un pryd â chynnal safleoedd a chasgliadau. Mae ein cynnwys ar-lein wedi cynnwys datblygu rhaglenni ar-lein wythnosol, darlithiau, adrodd straeon, edrych yn ôl ar arddangosfeydd blaenorol, cadwraeth, cynllunio arddangosfeydd ar gyfer y dyfodol a dewis hoff wrthrychau o'r casgliad trwy fideos, negeseuon trydar a delweddau. Rydym hefyd wedi hwyluso nifer o weithdai a digwyddiadau ar-lein ac ymuno â phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i archwilio a dathlu eiconau a themâu diwylliannol. Eleni, gwnaethom barhau i gefnogi'r mis hanes LHDT, y mis hanes Pobl Dduon a'r Wythnos Rhyng-ffydd trwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau, sgyrsiau a gweithdai ar-lein.

Arweiniodd ein gwaith ar gyfer y rhaglen beilot Ewropeaidd 'Agenda21: Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy' at wireddu partneriaeth â Chyngor Hil Cymru i greu Hwb amlddiwylliannol a digidol newydd yn Adain y Celfyddydau yn Theatr y Grand, a'r ymrwymiad i Amrywiaeth yn y gwasanaeth trwy 'Addewid'. Roedd yr addewid i amrywiaethu a chydnabod ein holl gymunedau yn ein rhaglennu diwylliannol hefyd wedi gosod y fframwaith ar gyfer adolygiad, a gynhaliwyd gan y gwasanaeth, o enwau strydoedd a lleoedd, cofadeiladau, cerfluniau a choffadwriaethau eraill wrth ymateb i'r ymgyrch Mae Bywydau Du yn Bwysig a chynnig dilynol gan y Cyngor.

Astudiaeth Achos: World Reimagined yn Dod i Abertawe

Daeth prosiect addysg gelfyddydau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n cynnwys artistiaid byd-enwog i Abertawe i weddnewid y ffordd rydym yn deall y Fasnach Drawsatlantig mewn Caethweision a'i heffaith arnom ni i gyd.
Mae The World Reimagined, a lansiwyd ym mis Mai 2021, yn brosiect addysg gelfyddydau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n gweithio i weddnewid ein dealltwriaeth o'r Fasnach Drawsatlantig mewn Caethweision a'i heffaith arnom ni i gyd er mwyn ein helpu i wireddu cyfiawnder hiliol.
Bydd mwy nag 1 filiwn o bobl yn dilyn llwybrau cerfluniau mewn dinasoedd sy'n croesawu, a fydd yn cynnwys Birmingham, Bryste, Leeds, Llundain ac Abertawe, a bydd mwy yn cael eu cyhoeddi.

Mae'r artistiaid a'r eiconau sy'n cymryd rhan yn cynnwys Yinka Shonibare CBE, sef Artist Sefydlol The World Reimagined a enwebwyd am Wobr Turner yn 2004, yn ogystal â Lina Viktor; Zak Ové; Syr Trevor McDonald; Lakwena Maciver; Maxim (The Prodigy); Nicola Green a Kimathi Donkor.
Gweithredodd Abertawe fel dinas groesawu ar gyfer y prosiect uchelgeisiol hwn, a fydd yn gweld cymunedau ledled y Deyrnas Unedig yn cydweithio ac archwilio ystod o themâu a dylanwadau diwylliannol. Bydd y themâu hyn yn uno cyfranogwyr a chynulleidfaoedd i ddeall ein dylanwadau diwylliannol mewn ffordd gadarnhaol, a dathlu'r cyfleoedd i ni i gyd yn y presennol a'r dyfodol, trwy ddealltwriaeth ddyfnach o hanes a'r hyn sy'n ein cysylltu fel cymunedau.
Dywedodd Michelle Gayle, cyd-sylfaenydd The World Reimagined:
"Os ydym am wireddu cyfiawnder hiliol i bawb, mae'n rhaid i ni wynebu ein hanes a rennir yn ddewr gyda gonestrwydd, empathi a rhadlonrwydd. Os gwnawn ni hynny, gallwn greu dyfodol lle mae pawb yn gallu dweud ei fod yn cael ei weld. Dyna genhadaeth The World Reimagined ac rydym mor falch o weithio gyda phobl a chymunedau Abertawe."
Dywedodd Arweinydd Cyngor Abertawe, Rob Stewart:
"Mae Abertawe'n ddinas groesawgar sy'n ffynnu ar amrywiaeth. Rydym yn falch iawn o fod yn bartneriaid â'r prosiect The World Reimagined.
"Byddwn yn helpu i greu llawer o gyfleoedd i gymunedau, ysgolion, colegau, sefydliadau lleol ac artistiaid gymryd rhan – fel arweinwyr a hwyluswyr, cyfranogwyr, ymarferwyr, cynulleidfaoedd a buddiolwyr.
"Bydd ein gweithgarwch lleol yn cynnwys cydweithio helaeth i greu llwybr celfyddydau unigryw ar draws y ddinas a'i chymunedau."

**Parhau i wella a datblygu ein cyfleusterau Hamdden mewn partneriaeth â'n partneriaid cyflawni, Freedom Leisure a Parkwood, a sicrhau parhad ein gwasanaethau Diwylliannol 'mewnol' trwy ddatblygu strategaethau ar gyfer buddsoddi a modelau cyflawni arloesol ar gyfer Digwyddiadau Arbennig, Llyfrgelloedd, Archifau, Theatrau, Orielau ac Amgueddfeydd.**

Mae monitro gofalus yn galluogi'r Cyngor i gynorthwyo partneriaid sy'n gweithredu cyfleusterau allweddol y Cyngor. Mae Adroddiad Blynyddol Partneriaethau Hamdden 2020/2021 a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mawrth 2022 yn disgrifio sut mae perthnasoedd agos ar draws economi gymysg yn golygu y gellir rheoli perfformiad yn hyblyg a rhannu arfer gorau, gan arwain at wasanaethau gwell i ddinasyddion. Parhaodd y pandemig i effeithio ar wasanaethau hamdden, ond mae'r dull cydweithredol hwn wedi sicrhau bod gweithgareddau o ansawdd da sy'n hanfodol i les yn cael eu darparu'n ddiogel.

Mae cerrig milltir prosiect Sgubor 3G a gwell cyfleusterau Hamdden Cymunedol ac Addysg Gorfforol Cefn Hengoed yn parhau i gael eu cyflawni, gyda chynigydd a ffefrir wedi'i nodi, mwy o fuddsoddiad Cyfalaf a chefnogaeth lethol gan y Cabinet ym mis Mawrth, a disgwylir cais terfynol am gyllid gan y Sefydliad Pêl-droed tua chanol/diwedd mis Ebrill.

Roedd cyfyngiadau parhaus ar niferoedd cyfranogwyr mewn gweithgareddau ar draws canolfannau hamdden wedi ymestyn yr heriau a wynebwyd gan y lleoliadau hyn. Roedd hyn, yn ogystal â chyfradd uchel o Covid yn y gymuned a gostyngiad cyffredinol mewn hyder cwsmeriaid, wedi effeithio ar elw net o ran incwm a gwerthiannau aelodaeth newydd ar hyd y cyfnod ar ôl y Nadolig, a fydd yn parhau i gael effaith yn ystod rhan gynnar 2022/23. Perfformiodd safleoedd cymunedol yn gryfach nag atyniadau canol y ddinas fel yr LC o ran aelodaeth â champfeydd, ac roedd ffactorau fel parhau i weithio gartref a'r datblygiadau sylweddol yng nghanol y ddinas a effeithiodd ar fynediad a pharcio wedi cyfrannu at hyn hefyd. Agorodd meysydd parcio'r Arena newydd yn hwyr yn ystod y chwarter, a dylai'r ychwanegiad hwn, ynghyd â thramwyfeydd a gwblhawyd i Ardal y Glannau o'r Arena, fod o fudd i'r LC o ran argaeledd parcio a mynediad cyffredinol.

Parhaodd Freedom Leisure i fuddsoddi yn y cyfleusterau hyn ar hyd chwarter 3, gyda chynlluniau arwyddocaol ar gyfer Penlan a'r LC, gan gynnwys gosod clorineiddiad electronig Hyprolyser, sy'n cynnig ffordd fwy diogel, glân ac ecogyfeillgar o glorineiddio'r pyllau. Bydd mesurau lliniaru fel hyn yn paratoi'r cyfleusterau i fod yn fwy cynaliadwy wrth symud ymlaen, ac mae prinder clorin ar draws y byd a chynnydd sylweddol mewn costau yn golygu bod y buddsoddiad yn cael ei ystyried yn hollbwysig bellach. Mae prisiau ynni'n parhau i achosi pryder i gyfleusterau hamdden, sy'n defnyddio llawer o nwy a thrydan, ac er bod buddsoddiad eisoes wedi'i wneud mewn mesurau lliniaru i leihau ynni, mae'r cynnydd yn y gyfradd fesul uned yn achosi risg sylweddol i'r costau gweithredol, ac mae ystod o fodelau lliniaru a buddsoddi ychwanegol yn cael eu datblygu gan Freedom Leisure i'w cyflwyno i'r Cyngor maes o law.

**Datblygu safleoedd tai a datblygiad cymysg strategol i fodloni'r angen am dai a darparu cyflogaeth.**

Mae gan Raglen Mwy o Gartrefi'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar adeiladu tai Cyngor newydd, uchelgais o ddarparu 1000 o gartrefi newydd fforddiadwy ymhen 10 mlynedd. Ar ôl cwblhau 34 o gartrefi yn 2020/21, mae gwaith yn parhau ar 25 o gartrefi ar Hill View Crescent yn y Clâs, y disgwylir eu cwblhau yn y gwanwyn 2022. Mae'r cynllun hefyd wedi cael £1.5m o Gyllid Tai Arloesol, a fydd yn ariannu'r technolegau adnewyddadwy i barhau â'r thema Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.

Yn rhan o waith cynllunio Cam 2 Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd, mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu 8 cartref ag un ystafell wely mewn hen safle Addysg yn Uplands. Mae'r adeilad presennol wedi cael ei drawsnewid ac mae bellach yn cael ei feddiannu, a bydd y 4 pod a weithgynhyrchwyd oddi ar y safle yn barod i'w meddiannu ym mis Ebrill 2022. Mae 20 o gaffaeliadau eraill ag 1 ystafell wely wedi'u cynllunio ar gyfer 22/23, yn ogystal â 6 chaffaeliad gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig. Mae gwaith wedi dechrau yn West Cross hefyd i ddatblygu 6 byngalo, sydd wedi cael cyllid y Rhaglen Tai Arloesol i gynnwys y technolegau adnewyddadwy ychwanegol.

Mae cais cynllunio wedi cael ei gymeradwyo i drawsnewid hen eiddo gwasanaethau cymdeithasol yng Ngorseinon yn 2 gartref â 3 ystafell wely, a disgwylir i waith ddechrau ym mis Gorffennaf. Mae'r hen safle Addysg yn Nhŷ Brondeg wedi cael ei gaffael hefyd i'w ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy, a bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddymchwel i wneud lle ar gyfer tai fforddiadwy newydd. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo meddiannu 3 safle o'r Gronfa Gyffredinol i'w datblygu ar gyfer tai fforddiadwy, ac mae cynlluniau cysyniad bellach yn cael eu datblygu ar gyfer y safleoedd hyn. Mae hen Swyddfa Dai Ranbarthol y Clâs wedi cael ei ddymchwel bellach, yn rhan o ddatblygu 9 cartref newydd ar Creswell Road.

Mae'r Cyngor hefyd yn symud ymlaen i gaffael partner neu bartneriaid datblygu i ddarparu tai deiliadaeth gymysg ar 2 safle y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ym Mhenderi, ar yr un pryd â darparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl i fodloni anghenion lleol. Mae'r Cyngor hefyd wedi caffael tîm amlddisgyblaethol i gyflawni prif gynllun ar gyfer adfywio safle mawr a berchnogir gan yr adran Dai. Mae'r gwaith hwn yn datblygu, ond mae'r amserlen wedi cael ei hymestyn oherwydd gohiriwyd y digwyddiadau ymgynghori â phreswylwyr, yr ymweliadau safle a'r arolygon a gynlluniwyd o ganlyniad i Covid. Mae'r Cyngor hefyd wedi penodi tîm amlddisgyblaethol i ddatblygu prif gynllun ar gyfer 4 safle yn agos i'w gilydd, a ddylai gyrraedd y cam cais cynllunio erbyn diwedd 2022.

**Diogelu a hyrwyddo iechyd, lles, diogelwch a buddiannau defnyddwyr ar gyfer pobl sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld â hi trwy weithio gydag eraill i gynnal diogelwch cyhoeddus ar draws yr ystod o wasanaethau rheoleiddiol, fel llygredd, sgamiau a masnachu annheg, iechyd y cyhoedd a materion tai, ac ati.**

Mae timau diogelu'r cyhoedd dan bwysau o hyd yn sgil cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig. Mae swyddogion gorfodi wedi helpu busnesau i sicrhau diogelwch eu staff a'u cwsmeriaid ac wedi cymryd camau gweithredu yn erbyn masnachwyr anghyfrifol sy'n rhoi'r cyhoedd mewn perygl.

Fodd bynnag, mae'r timau'n parhau i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau newidiol a chynyddol ddigidol. Defnyddiodd Safonau Masnach ddull rhagweithiol trwy rybuddio'r cyhoedd am sgamiau yn ymwneud â materion amserol fel y coronafeirws, danfoniadau a'r cyfrifiad. Mae'r Cyngor yn creu llyfrgell o sgamiau gyda Safonau Masnach. Rhoddir gwybod i'r cyhoedd am y rhain trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy Dîm Cyfathrebu'r Cyngor. Mae ymgyrch a hyfforddiant gwe-rwydo yn ceisio gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r mater a helpu i'w atal. Gwnaed mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i addysgu'r cyhoedd, gydag ymgyrchoedd feirol fel '12 Sgam y Nadolig' yn codi ymwybyddiaeth yn ogystal â rhybuddion traddodiadol am dwyll ar stepen y drws ac ati.

Mae tîm canfod twyll Cyngor Abertawe yn dod o hyd i bobl sy'n ceisio camddefnyddio'r system trwy hawlio arian neu wasanaethau'r cyngor nad oes ganddynt yr hawl i'w derbyn. Roedd galw uchel parhaus am y gwasanaeth y llynedd, gyda channoedd o honiadau newydd ynglŷn â thwyll yn cael eu gwneud i'r cyngor. Roedd y rhain yn amrywio o dwyllwyr cyfundrefnol yn ceisio twyllo'r cyngor o grantiau'r pandemig a grantiau busnes eraill, i'r rhai hynny a oedd yn hawlio budd-daliadau neu ryddhad y dreth gyngor yn dwyllodrus neu'n camddefnyddio'r system barcio bathodyn glas ar gyfer pobl anabl. Bu cyfanswm o 49 o achosion grant yn destun ymchwiliad manwl yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a arweiniodd at wrthod dwsin o geisiadau am grantiau, gan arbed £27,000. Adroddwyd cyfanswm o 379 o achosion o dwyll posibl i'r cyngor yn 2021/22, sy'n fwy na'r 302 y flwyddyn cynt. Gwelwyd mwy o achosion o dwyll honedig budd-daliadau, y dreth gyngor, tai cymdeithasol a thwyll bathodyn glas. O'r honiadau hyn, mae cyfanswm o 72 naill ai'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd neu'n dal i gael eu gwerthuso ar gyfer camau pellach.

Yn ogystal â chynnal profion prynu o eitemau bwyd, mae Tîm Diogelwch Bwyd y Cyngor yn gweithio gyda busnesau'n rheolaidd, gan archwilio safleoedd i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer paratoi a storio bwyd yn cyrraedd safonau hylendid bwyd cenedlaethol. Mae archwiliadau Safonau Masnach o siopau manwerthu wedi arwain at gymryd camau yn erbyn siopau sy'n gwerthu bwydydd sydd wedi dod i ben. Ers y cyfnodau clo, mae defnyddwyr wedi bod yn defnyddio mwy o fusnesau cludfwyd, felly cynhaliwyd profion prynu i sicrhau bod rheoliadau sy'n cadw defnyddwyr yn ddiogel yn cael eu cymhwyso. Rhoddwyd dirwy i bedwar busnes a oedd yn gwerthu alergenau heb eu datgan.

Astudiaeth Achos: Canol y ddinas ar fin dod yn gyrchfan fwy croesawgar fyth

Mae rheolau newydd ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn helpu canol dinas Abertawe i ddod yn lle mwy croesawgar i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. O fis Rhagfyr 2021 ymlaen, bydd Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) yn berthnasol i ymddygiad fel cymryd cyffuriau a meddwdod – a gofynnir i bawb gydymffurfio.
Bydd pobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i amgylchiadau fel digartrefedd yn cael eu trin mewn ffordd ystyriol; bydd gwasanaethau tai ac allgymorth yn cymryd rhan. Dyluniwyd y PSPO – sy'n rhan o ddull ehangach a chydlynol yn Abertawe i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd stryd – i hybu canol y ddinas, sydd eisoes yn cael ei wella. Mae'r PSPO – a gafodd gefnogaeth helaeth gan y cyhoedd mewn ymgynghoriad diweddar – yn golygu bod alcohol a chyffuriau sy'n cael eu hyfed a'u cymryd ar y strydoedd yn gallu cael eu hatafaelu cyn i'r sefyllfa achosi problem. Gall hysbysiadau cosb benodedig gael eu rhoi ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rhegi ac ymddygiad ymosodol. Gallai camau eraill gael eu cymryd hefyd i ddelio â'r rhai sy'n creu trafferth yn barhaus.

Ar 1 Rhagfyr, dechreuodd gyfnod treialu tri mis o'r PSPO mewn ardaloedd sy'n cael eu goruchwylio gan geidwaid canol y ddinas ar hyn o bryd, yn ogystal â'r Marina a pharc arfordirol y Bae Copr, gyda 120 o ymgysylltiadau'n digwydd. Nid oes unrhyw gamau gorfodi'n cael eu cymryd i ddechrau – dim ond cyfle i'r cyhoedd ddysgu am y cynllun. Os bydd yn llwyddiannus, gallai PSPOs gael eu cyflwyno mewn ardaloedd fel SA1, Traeth Abertawe a chanol Treforys.

Dywedodd Robert Francis-Davies, Aelod Cabinet y Cyngor dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth: "Mae pobl wedi cael digon ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac eisiau i rywbeth gael ei wneud yn ei gylch – bydd y cynllun PSPO yn helpu i fynd i'r afael â'r mater. Ni ddylai pobl deimlo'n ofnus neu dan fygythiad oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y PSPO hefyd yn galluogi'r ceidwaid i fynd i'r afael â chardotwyr "proffesiynol" y gwyddys eu bod yn targedu'r ardal i ofyn am arian gan y cyhoedd trwy dwyll.

Roedd timau diogelu'r cyhoedd dan bwysau o hyd yn 2021/22 yn sgil cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, parhaodd y timau i ddarparu gwasanaethau yn unol â rheoliadau a risg gyhoeddus ganfyddedig, gan ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau newidiol a chynyddol ddigidol. Mae'r Cyngor yn creu llyfrgell o sgamiau gyda Safonau Masnach. Rhoddir gwybod i'r cyhoedd am y rhain trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy Dîm Cyfathrebu'r Cyngor. Bydd ymgyrch a hyfforddiant gwe-rwydo yn cael eu darparu a fydd yn gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r mater a helpu i'w atal. Cydnabuwyd nad yw rhai pobl yn hoffi gwneud trafodion ar-lein oherwydd eu pryderon ynglŷn â diogelwch.

**Ar ôl i'r Cyngor fabwysiadu'r Siarter Newid yn yr Hinsawdd ym mis Tachwedd 2020, cyflawni'r Strategaeth Ynni i leihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ein hôl troed carbon, fel gweithio gydag eraill i ddarparu trafnidiaeth ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel sy'n darparu cysylltedd a symudedd gwell a rhatach a buddion economaidd cysylltiedig am lai o gost i'r amgylchedd a gwell ansawdd aer.**

Rhoddwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021 yn rhestru cynnydd yn dilyn 'Datganiad Argyfwng Hinsawdd' y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlinellu bod trefniadau llywodraethu wedi cael eu ffurfioli'n fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byrddau rhaglen rheolaidd a chyfarfodydd grŵp llywio, gan sicrhau cynnydd da drwy gydol y llynedd. Yn rhan o'r agenda ranbarthol, gweithiodd y Cyngor gyda thri awdurdod lleol arall i ddatblygu strategaeth ynni rhanbarthol newydd, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut bydd y cyngor yn parhau i adeiladu ar y perthnasoedd gweithio allanol i ddatblygu strategaeth carbon sero net 2050 ar gyfer y sir. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i ddwyn ynghyd yr holl waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar draws y maes gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth i ddatblygu amryw strategaethau, gan gynnwys Fflyd Werdd (strategaeth eisoes wedi'i chymeradwyo), Fflyd Lwyd, Goleuadau Stryd, trafnidiaeth arall e.e. tacsis, ysgolion ac ati, a theithio Llesol. Bydd gan y dull arfaethedig strategaethau penodol ar gyfer pob maes, ac yna dogfen drosfwaol fer sy'n alinio ymagwedd y gwasanaeth cyfan tuag at Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy. Amlinellodd yr adroddiad feysydd ychwanegol i'w datblygu a gweithredu arnynt, gan gynnwys Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a'r Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy drosfwaol erbyn mis Mawrth 2022.

Astudiaeth Achos: Golau gwyrdd ar gyfer gweledigaeth ynni a datblygu economaidd ranbarthol

Mae golau gwyrdd wedi cael ei roi i gynlluniau a strategaethau rhanbarthol sydd â'r nod o hybu ffyniant economaidd ar yr un pryd â helpu de-orllewin Cymru i gyrraedd ei thargedau ynni sero net.

Cymeradwywyd y cynlluniau a'r strategaethau gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer De-orllewin Cymru mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 15 Mawrth 2022.
Mae'r cynllun cyflawni economaidd rhanbarthol, sy'n rhychwantu Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, yn ceisio adeiladu ar astudiaeth fawr sydd wedi amlygu cryfderau a chyfleoedd rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys potensial ar gyfer ynni gwyrdd, hunaniaeth ddiwylliannol gref, golygfeydd trawiadol, ansawdd bywyd a chysylltiadau sydd wedi'u hen sefydlu rhwng prifysgolion a diwydiant.
Ar sail y cryfderau a'r cyfleoedd hyn, mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu ac ymyriadau ar gyfer y ffordd orau o ddatblygu economi'r rhanbarth yn ystod y degawd nesaf. Mae hefyd yn amlinellu sut gall busnesau, llywodraeth, addysg, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a phartneriaid eraill weithio gyda'i gilydd yn y ffordd orau i wireddu nodau'r cynllun.
Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer De-orllewin Cymru: "Mae wyth mlynedd wedi mynd heibio ers i Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe gael ei chreu, ac mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid cymaint ers hynny, yn enwedig yn sgil Brexit ac effaith y pandemig.
"Mae hyn yn golygu bod angen cynllun newydd bellach os ydym am wneud y mwyaf o gryfderau a chyfleoedd de-orllewin Cymru, cynyddu potensial y rhanbarth i'r eithaf a chau'r bwlch cynhyrchedd ymhellach â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sy'n fwy cyfoethog.
"Mae llawer iawn o waith adfywio eisoes wedi'i gwblhau, yn mynd rhagddo neu wedi'i gynllunio yn ne-orllewin Cymru, felly bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw i greu hyd yn oed mwy o swyddi sy'n talu'n dda a chyfleoedd i bobl leol, ar yr un pryd â denu mwy o fuddsoddiad. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu economi ranbarthol fwy cydnerth, cynaliadwy, mentrus a chytbwys er budd ein preswylwyr a'n busnesau."
Roedd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer De-orllewin Cymru hefyd wedi cymeradwyo gweledigaeth strategol ar gyfer ynni rhanbarthol, sy'n ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd, nodau lleihau carbon a'r chwyldro diwydiannol gwyrdd.
Mae'r weledigaeth strategol, sy'n cynnwys camau gweithredu i helpu de-orllewin Cymru i gyrraedd ei tharged sero net erbyn 2050, yn rhoi pwyslais penodol ar nifer o feysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, dosbarthu gwres, datgarboneiddio trafnidiaeth, cynhyrchu a pherchen ar ynni'n lleol, ac ynni clyfar.
Dywedodd y Cynghorydd David Simpson, Arweinydd Cyngor Sir Penfro: "Mae'r weledigaeth strategol hon yn dilyn ymlaen o gymaint o waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn ne-orllewin Cymru i ddatgarboneiddio ein hynni a chyfrannu at y frwydr fyd-eang yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.
"Bydd y strategaeth yn manteisio ar botensial ynni carbon isel ein rhanbarth, ar y tir ac ar y môr, i gyflawni economi carbon sero net fwy ffyniannus a theg sy'n diogelu ein hamgylchedd yn well ac yn gadael rhanbarth mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
"Bydd hefyd yn ein helpu i wireddu ein targed sero net 2050 yn gyflymach yma yn ne-orllewin Cymru."
Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer De-orllewin Cymru, a gyfansoddwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, yn cynnwys Arweinwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag uwch gynrychiolwyr Awdurdodau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.
Fe'i cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae'n un o bedwar corff o'r fath sy'n cael eu sefydlu yng Nghymru.

**Rheoli a diogelu mannau gwyrdd, morlin a pharciau Abertawe ar gyfer hamdden a chwarae, i hyrwyddo iechyd a lles, gwell ansawdd dŵr ymdrochi a chynnal statws Baner Las yn nhraethau Abertawe er mwyn annog twristiaeth, diogelu'r amgylchedd a chefnogi lles.**

Amlygir bod dros 50% o ardal y Sir o ddiddordeb ecolegol arwyddocaol. Mae bron 70% o'r cynefinoedd ac o leiaf 20% o'r rhywogaethau y nodwyd eu bod yn bwysig ar gyfer cadwraeth fioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig yn bodoli yn y Sir, ac mae oddeutu 17% o ardal y Sir wedi'i diogelu gan ddynodiadau ar lefel Ewropeaidd (Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), RAMSAR) neu genedlaethol (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG)). Mae tirwedd y Sir yn hollbwysig, gan ei bod yn darparu cyd-destun trawiadol ar gyfer y Ddinas ac mae o leiaf 40% o'r Sir (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr) wedi'i chydnabod fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o forlin yr AHNE wedi'i dynodi'n Arfordir Treftadaeth hefyd, sy'n ymestyn am 59km. Mae Gŵyr yn denu niferoedd mawr o ymwelwr ac mae twristiaeth yn bwysig iawn i'r economi leol.

CEEQUAL yw'r cynllun asesu, graddio a gwobrwyo cynaliadwyedd sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ar gyfer prosiectau peirianneg sifil, isadeiledd, tirweddu a thir y cyhoedd. Mae Academi'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) wedi dilysu a chadarnhau bod Parc Trefol Ffordd y Brenin wedi ennill gwobr CEEQUAL. Mae'r Sir yn cynnal rhwydwaith helaeth o fannau gwyrdd, sy'n allweddol i les economaidd, amgylcheddol a chymunedol, ac mae angen isadeiledd gwyrdd ychwanegol i fodloni canllawiau cenedlaethol a gofynion lleol ar gyfer gwella hygyrchedd i fannau agored. Yn arbennig, mae angen gwella'r cysylltiadau rhwng mannau agored, hawliau tramwy cyhoeddus a chyrchfannau allweddol er mwyn cynyddu hygyrchedd a hyrwyddo gweithgarwch corfforol.

Mae Bae Caswell, Bae Langland a Phorth Einon i gyd wedi cael statws rhyngwladol mawreddog y Faner Las ar gyfer 2021. Mae Marina Abertawe wedi cadw ei statws hefyd fel un o'r Marinas prin yng Nghymru sydd â Baner Las. Mae Bae Breichled hefyd wedi derbyn y Wobr Arfordir Gwyrdd a chwenychir yn fawr i gydnabod ei harddwch digyffwrdd a garw. Mae'r wobr yn disodli'r wobr Baner Las, ond gall ymwelwyr fod yn sicr bod y traeth ac ansawdd y dŵr ym Mae Breichled o ansawdd Baner Las o hyd.

Mae ein hymdrechion i wneud Bae Caswell yn fwy hygyrch wedi cael eu cydnabod yng Ngwobrau Dathlu Cymru Wledig. Roedd ein huned Changing Places yn un o bump a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y categori Bwyd a Thwristiaeth ac fe'i canmolwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths. Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dwy uned Changing Places arall yn y Mwmbwls a Rhosili.

Parhaodd y galw am wasanaethau fel cabanau traeth i gynyddu ar ôl y pandemig, gyda thua 1000 o geisiadau am lai nag 80 o gabanau traeth sydd ar gael yn dymhorol. Mae Strategaeth Bae Abertawe yn cael ei diwygio ar hyn o bryd i ddiweddaru dogfen bresennol 2008, sy'n canolbwyntio ar leoliadau strategol ar y blaendaeth.

Mae rhaglen Gwobr y Faner Werdd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae safleoedd yn cael eu barnu yn erbyn wyth maen prawf llym, gan gynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol a chynnwys y gymuned. Mae cyfanswm o 13 'gwobr gymunedol' wedi cael eu rhoi i erddi a mannau gwyrdd cymunedol llai hefyd, gan gynnwys dau enillydd newydd – Gardd Gymunedol Clydach a Gardd Gymunedol Blaenymaes.

Yn Abertawe, mae Gerddi Clun, Gerddi Botaneg Singleton, Parc Brynmill, Parc Llewelyn, Parc Cwmdoncin a Pharc Victoria y Cyngor i gyd wedi ennill statws y faner fawreddog. Mae ein hymdrechion i wneud Bae Caswell yn fwy hygyrch wedi cael eu cydnabod yng Ngwobrau Dathlu Cymru Wledig. Roedd ein huned Changing Places yn un o bump a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y categori Bwyd a Thwristiaeth ac fe'i canmolwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths.

Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dwy uned Changing Places arall yn y Mwmbwls a Rhosili.

Astudiaeth Achos: Baner werdd wedi'i rhoi i barciau Abertawe

Mae chwech o'r prif barciau yn Abertawe wedi cael statws Baner Werdd, sy'n cydnabod eu rôl allweddol wrth hybu lles preswylwyr a gwella'r amgylchedd naturiol.
Mae Gerddi Clun, Gerddi Botaneg Singleton, Parc Brynmill, Parc Llewelyn, Parc Cwmdoncin a Pharc Victoria i gyd wedi ennill statws y faner fawreddog.
Mae'r holl barciau'n cael eu rheoli gan Gyngor Abertawe ac yn croesawu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn.
Mae rhaglen Gwobr y Faner Werdd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae safleoedd yn cael eu barnu yn erbyn wyth maen prawf llym, gan gynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol a chynnwys y gymuned.
Mae parciau Abertawe ymhlith y 265 o barciau a mannau gwyrdd ledled Cymru i ennill y wobr.
Dywedodd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth: "Mae ein dinas wedi'i bendithio gan rai barciau hardd yr ydym yn falch ohonynt ac yn gweithio'n galed i'w cynnal.
"Maen nhw i gyd yn darparu mannau lle y gall teuluoedd ac ymwelwyr ymlacio, cael hwyl a mwynhau'r awyr agored. Rwy'n falch iawn bod y lleoliadau hyn wedi cael eu cydnabod ar lefel genedlaethol."
Mae dwy Wobr Baner Werdd arall wedi cael eu rhoi i Gampws Singleton Prifysgol Abertawe a Choed Cwm Penllergare.
Ac mae cyfanswm o 14 'gwobr gymunedol' wedi cael eu rhoi i erddi a mannau gwyrdd cymunedol llai yn Abertawe hefyd, gan gynnwys Gardd Gymunedol Clydach, Parc Polly yn St Thomas a Pharc Coed Bach.

**Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r tri Chyngor rhanbarthol arall i ddatblygu datrysiad Metro a fydd yn gwella cysylltedd â'r Ddinas a'r rhanbarth ehangach ac ar eu traws.**

Mae syniadau cynnar ar gyfer gwelliannau posibl i wasanaethau trenau a bysiau i deithwyr ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe wedi cael eu trafod. Roedd cyflwyniad gan benaethiaid trafnidiaeth awdurdodau lleol rhanbarthol yn ymdrin â dyheadau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â phrosiectau trafnidiaeth presennol sy'n cael eu darparu yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Bydd y cyflwyniad, a roddwyd yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer De-orllewin Cymru, yn helpu i baratoi ar gyfer datblygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol pan fydd y syniadau cynnar wedi cael eu harchwilio ymhellach a phan fydd canllawiau manwl ar gael gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni. Byddai gwaith partneriaeth ychwanegol gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a darparwyr trafnidiaeth yn cael ei wneud hefyd i amlygu blaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth. Pan fydd wedi'i ddatblygu'n fanwl, bydd cyfleoedd ar gael i bobl leol, busnesau lleol a sefydliadau eraill ledled de-orllewin Cymru roi adborth a helpu i ffurfio'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol a fyddai - yn amodol ar gymeradwyaeth - yn galluogi cynigion ar gyfer cyllid. Yn ogystal â gwella gwasanaethau trenau a bysiau, gallai blaenoriaethau gynnwys datgarboneiddio'r fflyd trafnidiaeth gyhoeddus ymhellach, cyflwyno mwy o fannau gwefru cerbydau trydan, a chreu mwy fyth o lwybrau beicio a cherdded o ansawdd uchel. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau ôl troed carbon y rhanbarth ymhellach.

Trafodwyd cynigion ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn y cyfarfod hefyd. Yn amodol ar gymeradwyaeth, cyllid ac ymgynghori, maen nhw'n cynnwys gorsafoedd trenau newydd posibl

mewn sawl cymuned yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, a allai ddilyn ymlaen o waith presennol i ailagor yr orsaf drenau yn Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin. Mae gwelliannau i orsafoedd wedi'u cynnig hefyd yn rhan o weledigaeth y metro ar gyfer Castell-nedd, Abertawe, Llanelli, Caerfyrddin, Hendy-gwyn ar Daf, Hwlffordd ac Aberdaugleddau, ynghyd â threnau amlach i gysylltu Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn well ag Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a thu hwnt. Mae dyheadau eraill y metro yn cynnwys llwybrau bysiau gwell a mwy cysylltiedig mewn sawl ardal wledig a threfol o'r rhanbarth. Diben Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yw sbarduno ffyniant economaidd ymhellach ar draws y rhanbarth. Mae wedi'i ffurfio o Arweinwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag uwch gynrychiolwyr Awdurdodau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

3. Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?

- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol – Arwain wrth weithredu Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn Abertawe a phecynnau gwaith a ffrydiau cyllido cysylltiedig fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ffynonellau Llywodraeth Cymru.
- Economi leol amrywiol a chynaliadwy – Hyrwyddo a gwella economi leol amrywiol a chynaliadwy trwy rwydweithiau lleol cryf fel Partneriaeth Adfywio Abertawe, y partner datblygu Urban Splash a'r partneriaid darparu hamdden Freedom Leisure a Parkwood, i ddatblygu agendâu adfywio economaidd a diwylliannol Abertawe, gan gynnwys cyflawni rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cymru Greadigol, a thrwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n cefnogi adfywio Abertawe ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy wedi'u seilio ar gysylltedd trafnidiaeth gynaliadwy.
- Cymalau Budd Cymunedol – Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar trwy gymalau budd cymunedol mewn contractau.
- Cymorth busnes – Ysgogi cymorth, cyngor a chyllid ar gyfer busnesau newydd a'n busnesau presennol trwy Fusnes Abertawe a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i arloesi rhaglenni cymorth fel defnyddiau masnachol yn y cyfamser, ac ymyriadau cymorth eraill yng Nghanol y Ddinas ac mewn Canolfannau Dosbarth a Lleol.
- Rhwydwaith Creadigol – Parhau i weithio trwy Rwydwaith Creadigol cryf a chydnerth i gefnogi gwead presennol, datblygol a dyfodol asedau diwylliannol a hamdden sydd wedi'u hymgorffori ar draws Canol y Ddinas a Chanolfannau Dosbarth a Lleol.
- Tai - Bwrw ymlaen â safleoedd tai a datblygiad cymysg strategol i fodloni'r angen am dai a darparu cyflogaeth.
- Diogelu'r cyhoedd – Diogelu a hyrwyddo iechyd, lles, diogelwch a buddiannau defnyddwyr ar gyfer pobl sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld â hi trwy weithio gydag eraill i gynnal diogelwch cyhoeddus ar draws yr ystod o wasanaethau rheoleiddiol, fel llygredd, sgamiau a masnachu annheg, iechyd y cyhoedd a materion tai, ac ati.

4. Casgliad – i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol

Mae adolygiad o'r dystiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol mewn perthynas â'i flaenoriaeth Economi ac Isadeiledd yn awgrymu ei fod yn gwireddu ei uchelgais.

| *Amcanion Lles* | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* | | | | *x* | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau'n cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

Bu cynnydd gweladwy sylweddol ar brosiectau adfywio ac isadeiledd mawr Cyngor Abertawe er gwaethaf cyfnod heriol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo adnoddau sylweddol i gyflawni ei flaenoriaethau adfywio ac mae canlyniadau i'w gweld yn amlwg ar y safle ar hyn o bryd. Mae'r pwyslais hwn nid yn unig yn sicrhau bod bwriad strategol tymor hir y Cyngor yn cael ei wireddu, ond bod y ddinas yn cael ei chynorthwyo'n briodol i ddod allan o gyfnod anodd yn gryfach ac yn fwy cydnerth i ysgytwadau yn y dyfodol.

Mae datblygiadau'n dilyn y rhaglen i raddau helaeth ac yn sbarduno buddsoddiad yn y dyfodol gan y sector preifat. Gwelir tystiolaeth o hyn yn sgil penodi partner datblygu tymor hir yn ddiweddar i gyflawni camau adfywio yn y dyfodol trwy'r prosiect caffael Adfer Abertawe. Mae gwaith wedi dechrau ar gamau dylunio'r gyfres gyntaf o brosiectau.

Yn ogystal, mae gwaith datblygu strategaeth wedi amlygu prosiectau, ymyriadau a mentrau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y bydd momentwm yn cael ei gynnal yn y dyfodol mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol eisoes yn cael ei ddefnyddio i ysgogi cyllid i ddatblygu cam nesaf adfywiad Abertawe, gan adeiladu ar y gwaith sylfaenol cryf a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

At ei gilydd, mae canlyniadau perfformiad yn gadarnhaol i raddau helaeth. Er bod rhai dangosyddion yn dangos tueddiadau ar i lawr, mae sylwadau esboniadol perthnasol wedi cael eu rhoi yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol. Mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol o ran yr Economi ac Isadeiledd.

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.*

Mae Cyngor Abertawe yn cynyddu ei gyfraniad at ei Amcanion Lles a'r Nodau Cenedlaethol i'r eithaf.

- *Cymru lewyrchus* – Gweithredu'r Fargen Ddinesig gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd. Ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y broses o ailddatblygu canol y ddinas trwy gynnwys gofynion ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau (gwastraff ac ynni), ynni adnewyddadwy, gwella bioamrywiaeth / isadeiledd gwyrdd a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n cefnogi economi gynhyrchiol a charbon isel ac addasu / lliniaru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Cynyddu buddion i'r eithaf o geisiadau am gyllid grant.
- *Cymru gydnerth* – Hyrwyddo'r 'Economi Werdd', gan gynnwys ynni adnewyddadwy, i ddarparu diogeledd ynni, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a buddion economaidd. Hyrwyddo dulliau isadeiledd gwyrdd mewn datblygiadau.
- *Cymru iachach* – Hyrwyddo bioamrywiaeth a diogelu mannau gwyrdd Abertawe, gan gynnwys parciau ar gyfer hamdden a chwarae ac i hybu iechyd a lles. Rheoli morlin Abertawe

a hyrwyddo gwell ansawdd dŵr a statws Baner Las i annog twristiaeth, diogelu'r amgylchedd a chefnogi lles.

- *Cymru sy'n fwy cyfartal* – Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar trwy gymalau budd cymunedol yng nghontractau'r Cyngor.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – Rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy.
- *Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Gwella, ymestyn ac amrywiaethu cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth a gwella lles.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – Ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y broses o ailddatblygu canol y ddinas, yn enwedig o ran effeithlonrwydd adnoddau a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gyfrannu at economi carbon isel ac addasu / lliniaru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Annog ymgeiswyr am grantiau i fabwysiadu mesurau isadeiledd gwyrdd wrth adnewyddu adeiladau.

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r Cyngor yn gweithio i gynyddu ei gyfraniad at y nodau lles cenedlaethol i'r eithaf wrth gyflawni ei amcan lles Economi ac Isadeiledd:

- *Mynd i'r afael â heriau neu dueddiadau tymor hir* – Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhanbarthol, gan arwain y broses o gynhyrchu Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru. Mae'r Cynllun yn fframwaith tymor hir wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd. Mae'r Cynllun bellach wedi cael ei fabwysiadu gan y 4 awdurdod a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer rhaglenni, prosiectau a cheisiadau am gyllid wrth symud ymlaen.
- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* – Mae strategaeth ailbwrpasu wedi cael ei pharatoi i fynd i'r afael ag effaith newidiadau cysylltiedig â Covid i'r sector manwerthu yng Nghanol y Ddinas, a helpu i'w gwrthdroi. Mae'r strategaeth bellach wedi cael ei chymeradwyo gan y Cabinet ac mae prosiectau wrthi'n cael eu datblygu.
- *Integreiddio – cysylltu pethau ac osgoi dyblygu / blaenoriaethau croes* – Mae strategaeth adferiad economaidd Covid wedi cael ei pharatoi gyda rhanddeiliaid trwy Bartneriaeth Adfywio Abertawe i sicrhau bod ystod o flaenoriaethau'n cael eu cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae cyllid wedi cael ei ddarparu trwy Gronfa Adferiad Economaidd y Cyngor. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud wrth gyflawni'r cynllun gweithredu trwy'r Cyngor a rhanddeiliaid ym Mhartneriaeth Adfywio Abertawe.
- *Cynnwys pobl* – gan gynnwys y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid: Mae strategaeth adferiad economaidd Covid wedi cael ei pharatoi gyda rhanddeiliaid trwy Bartneriaeth Adfywio Abertawe i sicrhau bod ystod o flaenoriaethau'n cael eu cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'r holl brosiectau mawr yn cynnwys dinasyddion amrywiol o'r cam cynharaf ac yn defnyddio mewnbwn i wella datblygiad.
- *Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio â sefydliadau eraill* – Mae'r Cyngor yn arwain y broses o gydlynu Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru yn rhanbarthol, gan ddarparu'n lleol mewn partneriaeth â sefydliadau sector preifat. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ddefnyddio'r dull hwn o ddarparu'n rhanbarthol ar gyfer cyfleoedd cyllido eraill.

**Trechu Tlodi**

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i leihau tlodi ac effeithiau tlodi ar ei breswylwyr. Mae tlodi'n cyfyngu ar ddyheadau, yn niweidio perthnasoedd ac yn sicrhau bod cyfleoedd mewn bywyd yn cael eu colli.
- Rydym eisiau Abertawe lle nad yw tlodi'n rhwystr rhag gwneud yn dda yn yr ysgol, cael deiet iach a bywyd bywiog, datblygu sgiliau a chymwysterau a chael swydd ac incwm da.
- Rydym eisiau herio mynediad annigonol at wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da trwy dargedu adnoddau lle maen nhw'n cael yr effaith fwyaf, gyda phenderfyniadau am hynny'n cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau.
- Rydym eisiau i'n holl breswylwyr gael cyfle ac adnoddau i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phenderfyniadau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden.
- Rydym eisiau i bobl gynyddu eu hincwm i'r eithaf a chael y mwyaf o'r arian sydd ganddynt.
- Rydym eisiau i bobl osgoi talu'r 'Premiwm Tlodi', sef y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion fel tanwydd a thrafnidiaeth.
- Rydym eisiau sicrhau bod rhwystrau rhag cyflogaeth, fel trafnidiaeth a gofal plant, yn cael eu dileu.
- Rydym eisiau sicrhau bod pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe yn cael eu cynnwys fel ein bod yn lleihau anghydraddoldebau rhwng ac o fewn cymunedau.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Darparu ymateb ar y cyd a chyfannol i dlodi, iechyd y boblogaeth a digartrefedd yn ystod ymateb y Cyngor i COVID-19 a'i adferiad ohono.**

Cyflwynodd y pandemig COVID-19 heriau digynsail i'r Cyngor, ei wasanaethau a'r gweithlu. O ran ymateb i heriau uniongyrchol y pandemig, ataliwyd nifer o wasanaethau nad oeddent yn hanfodol er mwyn aildrefnu adnoddau a sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y meysydd lle'r oedd eu hangen fwyaf. Ers dechrau'r pandemig, mae'r Cyngor wedi trawsnewid y ffordd y mae'n gweithio, gan ddatblygu ymateb ar y cyd a chyfannol i'r pandemig yn ystod y cyfnod adfer.

Gan weithio gydag Iechyd a phartneriaid eraill, ymatebodd y Cyngor i'r blaenoriaethau uniongyrchol a gyflwynwyd gan y pandemig yn ein hysbytai, cartrefi gofal, ysgolion a chymunedau. Gwnaethom sefydlu llinell gymorth i roi cymorth dyddiol i filoedd o bobl, aildrefnu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed, adeiladu ysbyty maes newydd, caffael cyfarpar diogelu personol ar draws y rhanbarth, sefydlu hybiau bwyd a chefnogi banciau bwyd, dosbarthu parseli bwyd a darparu prydau poeth i bobl agored i niwed, darparu cymorth ariannol i fusnesau ar draws y rhanbarth a sicrhau llety brys ychwanegol. Gwnaethom hefyd sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain Diogelu, cefnogi'r paratoadau ar gyfer brechu torfol a gorfodi rheoliadau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl yn ddiogel.

Roedd ein hymateb cyfannol ac ar y cyd i flaenoriaethau uniongyrchol y pandemig yn bosibl dim ond trwy ailganolbwyntio ac aildrefnu staff, gwell gweithio ar y cyd rhwng adrannau'r Cyngor a chydweithio â'n partneriaid a gwirfoddolwyr yn ein cymunedau. Er enghraifft, aildrefnwyd cannoedd o aelodau staff y Cyngor i rolau ymateb i argyfwng fel y llinell gymorth COVID-19, y tîm gweinyddu bwyd, a'r tîm Cydlynu Ardal Leol. Roedd adrannau'r Cyngor fel Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwella gweithio ar y cyd trwy ddatblygu meini prawf a rennir a deall bregusrwydd gyda Phwynt Cyswllt Sengl mewn perthynas â phlant agored i niwed sy'n defnyddio darpariaeth ar y safle. Trwy weithio gyda'n partneriaid Trydydd Sector a channoedd o wirfoddolwyr, gwnaethom

sefydlu canolfannau dosbarthu bwyd, danfon parseli bwyd brys a darparu llety dros dro i'r aelwydydd hynny na fyddent ag angen blaenoriaethol fel arfer.

Yn ystod 2021/22, gwnaethom ddosbarthu dros £293k i 97 o brosiectau trwy'r Grant Tlodi Bwyd, y Grant Urddas Mislif yn y Gymuned, y Gronfa Gymorth i Aelwydydd a chyllid Siediau Dynion i fynd i'r afael â thlodi ac ynysu cymdeithasol. Mae gwaith partneriaeth a chydweithio wedi bod yn gryf a dangoswyd hynny trwy ddatblygu mentrau partneriaeth newydd, fel Cynllun Taleb Tlodi Tanwydd gyda Chyngor ar Bopeth, Prosiect Galw Cymunedol gyda Hubbub, O2 a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, Rhaglen Cydlynu Cymunedol gyda Chymdeithas y Plant ac amryw bartneriaid ledled Abertawe, a chefnogi lansio'r Ap 'Gobaith yn Abertawe' a arweinir gan Dŷ Matthew.

Astudiaeth achos 2: Galw Cymunedol

Mae Cyngor Abertawe a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe wedi cefnogi datblygiad ymgyrch Galw Cymunedol a gynhelir gan Hubbub ac O2. Mae tua 700 o ffonau a roddwyd wedi cael eu dosbarthu i bobl yn Abertawe a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a darparodd O2 12 mis o ddata am ddim a galwadau a negeseuon testun diderfyn.
Hyd yma, mae tua 500 o breswylwyr yn Abertawe wedi elwa o'r prosiect. Mae'r ffonau wedi cael eu defnyddio gan bobl i'w helpu i aros mewn cysylltiad â ffrindiau a gwasanaethau cymorth, i chwilio am swyddi a hyfforddiant, i gael mynediad at gyrsiau iaith Saesneg ar-lein a mynediad at wasanaethau eraill fel bancio ar-lein ac apwyntiadau iechyd.
Mae'r ffonau wedi cael eu dosbarthu trwy broses atgyfeirio i Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe. Mae'r partneriaid atgyfeirio presennol yn cynnwys YMCA Abertawe, Uned Cefnogi Tenantiaid Abertawe, Hafal, Pobl, Cefnogi Ceiswyr Lloches Abertawe, Platfform, Tŷ Matthew, y Gymdeithas Tai Teuluoedd, Cymorth i Fenywod Abertawe, Gweithredu dros Blant, y Wallich, Gwasanaeth Cyflogadwyedd y Cyngor, Gweithio Abertawe a Chydlynwyr Ardal Leol y Cyngor.

Astudiaeth achos 2: Yr Ap Gobaith yn Abertawe

Lansiwyd yr Ap Gobaith yn Abertawe ym mis Awst 2021. Ap rhad ac am ddim ar gyfer ffonau clyfar ydyw sy'n cyfeirio defnyddwyr at amrywiaeth o wasanaethau cymorth hanfodol yn ymwneud â thai, iechyd meddwl, tlodi bwyd, ynysigrwydd, camdriniaeth, caethiwed a materion eraill y mae pobl yn eu hwynebu mewn argyfwng. Fe'i sefydlwyd gan Dŷ Matthew ac fe'i hariennir gyda chymorth gan Gyngor Abertawe, Cymdeithas y Plant a chynllun Cyfeillion Tŷ Matthew. Mae'r Ap yn cynnwys manylion mwy na 60 o ddarparwyr gwasanaethau ac mae'n gyfeirlyfr cynhwysfawr o wasanaethau sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol, lleoliadau, amserau agor a chysylltiadau mewn argyfwng. Gall darparwyr lleol gofrestru a lanlwytho neu newid eu manylion am ddim, gyda'r nod o sicrhau bod y manylion bob amser yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r Ap hefyd wedi'i ddylunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr lleol ac unrhyw un sy'n dod ar draws rhywun ar y stryd y mae arno angen cymorth.

Astudiaeth achos 3: Addo gwely i bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe

Addawodd y Cyngor gynnig gwely i bawb sy'n cysgu allan yn Abertawe, os oeddent ei eisiau. Ailadroddwyd yr addewid hirsefydlog ym mis Tachwedd 2021 i bobl agored i niwed sy'n byw yn y ddinas wrth i nosweithiau'r gaeaf oeri, a rhoddwyd hwb o £370,000 arall o gymorth iddo. Cyflawnwyd yr addewid lle i gysgu gan y cyngor ochr yn ochr ag elusennau lleol, gwasanaethau iechyd a chymdeithasau tai.

A daeth wrth i nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe leihau i'r lefel isaf a gofnodwyd yn ystod y pandemig. Er bod heriau sylweddol o'i flaen, addawodd y Cyngor barhau â'r ymdrech a wnaed i gynorthwyo pobl sy'n cysgu allan trwy'r pandemig a'u helpu i aros yn ddiogel ac yn iach.

Dywedodd y Cynghorydd Andrea Lewis, Dirprwy Arweinydd ar y Cyd ac Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau yn 2021/22, fod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig wedi helpu'r cyngor i gyflymu ei waith i ddiogelu pobl sy'n cysgu allan.
Dywedodd: "Ein haddewid yw bod gwely i unrhyw un sydd ei angen. Ochr yn ochr â'n partneriaid, rydym yn cyfleu'r neges i bobl sy'n cysgu allan ni waeth ba mor agored i niwed y gallent deimlo, fod gwely ar gael iddynt.
"Diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru a gwaith partneriaeth cryf rhwng elusennau lleol, iechyd, cymdeithasau tai a darparwyr sector preifat, mae unrhyw un y canfuwyd ei fod yn cysgu allan wedi cael cynnig llety a'r cymorth angenrheidiol i gynnal y llety hwnnw, a bydd hynny'n parhau.
"Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi helpu mwy na 400 o bobl ddigartref sengl allan o lety dros dro i dai â chymorth neu eu cartref parhaol eu hunain.
"Mae'r £370,000 ychwanegol o gyllideb y cyngor yn golygu y gallwn gadw pobl yn ddiogel rhag cysgu ar y strydoedd a rhoi cymorth i gael datrysiadau tai mwy parhaol."
Yn rhan o strategaeth ddigartrefedd y cyngor, mae gwasanaethau wedi cael eu hymestyn yng ngwasanaeth tai â chymorth dros dro Tŷ Tom Jones, a ddarperir ar hyn o bryd gan elusen Wallich ac a gefnogir gan Dai Pobl a'r Cyngor.
Dywedodd y Cynghorydd Lewis: "Mae Tŷ Tom Jones arobryn wedi bod yn llwyddiant mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth gynorthwyo pobl sy'n cysgu allan a phobl ddigartref sengl trwy'r pandemig.
"Ein nod yw ei wneud yn rhan o raglen ailgartrefu cyflym a fydd yn helpu i annog pobl sy'n cysgu allan y mae'n anodd eu cyrraedd a phobl ddigartref sengl i gael y cymorth y mae arnynt ei angen trwy gynyddu'r gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, seicolegol a lles eraill a gynigir yno.
"Cyn i'r pandemig daro, roedd y Cyngor eisoes yn gweithio'n galed i roi terfyn ar gysgu allan. Mae'r cyllid ychwanegol wedi ein galluogi i adeiladu ar lwyddiant yr hyn a gyflawnwyd gyda'n partneriaid, gan arwain at leihau cysgu allan yn Abertawe i'r lefel isaf a gofnodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
"Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi dysgu llawer mwy am sut gallwn barhau i ddatblygu ein gwasanaethau i fodloni anghenion rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn uniongyrchol.
"Gyda'r cyllid ychwanegol, byddwn yn ceisio gwneud popeth y gallwn i barhau i atal pobl rhag cysgu allan."

Rydym wedi adeiladu ar ffyrdd newydd o weithio yn ystod ein cyfnod adfer o'r pandemig trwy "Abertawe – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, Strategaeth a Fframwaith Rhaglen Drawsnewid 2022 – 2026." Dau o nodau allweddol cam ailganolbwyntio'r rhaglen, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2021, oedd adeiladu ar gydweithio â chynghorau eraill, sefydliadau, grwpiau cymunedol a phreswylwyr, a gwella ymgysylltu â'n preswylwyr a'n cymunedau. Mae'r rhaglen yn cynnwys ffrwd waith ymateb cymunedol sy'n ceisio cynyddu cydweithrediad ac ymgysylltiad ystyrlon â sefydliadau lleol, grwpiau cymunedol a phreswylwyr trwy annog perthnasoedd cymunedol a sefydlwyd cyn Covid i barhau. Mae gwaith hyd yma wedi cynnwys datblygu proses i Aelodau Wardiau adrodd ar faterion mewn cymunedau, cefnogi digwyddiadau cymunedol fel Arwyr Di-glod, rhaglen Gaeaf Lles i bobl 50+ oed, rhaglen Haf o Hwyl a datblygu Strategaeth Wirfoddoli Gorfforaethol. Er bod y rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd megis dechrau cael ei gweithredu, mae tîm archwilio mewnol y Cyngor wedi ei harchwilio a dyfarnu lefel sicrwydd "uchel" iddi, gan nodi "bod system gadarn o reolaeth fewnol wedi'i dylunio i gyflawni amcanion y rhaglen a bod y rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson", heb unrhyw argymhellion.

**Parhau i weithredu'r Strategaeth Dlodi a sicrhau bod trechu tlodi yn fusnes pawb.**

Rydym yn parhau i weithredu ein Strategaeth Dlodi a sicrhau bod trechu tlodi'n fusnes pawb. Mae Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe yn cyfarfod bob mis i hwyluso gwaith trawsadrannol ac i rannu gwybodaeth ac arfer da. Mae'r Fforwm wedi cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr gyda chynrychiolaeth dda ar draws y cyfarwyddiaethau yn y Fforwm Tlodi. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i leihau ac atal effaith tlodi trwy hwyluso Fforwm Partneriaeth Dlodi Abertawe, y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol, Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe a Chomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe. Yn ogystal â Gwasanaeth Trechu Tlodi'r Cyngor, mae gweithgareddau i fynd i'r afael â thlodi yn cael eu cynnal gan wasanaethau ar draws y Cyngor fel Prydau Ysgol am Ddim gan Addysg, y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Adnoddau a Thu Hwnt i Frics a Morter gan y Gyfarwyddiaeth Lleoedd.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r strategaeth i ystyried yr hyn a ddysgwyd o'n hymateb i COVID-19 a'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol presennol. Mae blaenoriaethau drafft wedi cael eu cynhyrchu a'u trafod â'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi, gyda'r nod o gydgynhyrchu strategaeth newydd gyda'r holl randdeiliaid allweddol yn y dyfodol agos. Mae croestoriad o Gynghorwyr wedi bod yn ymwneud â datblygu polisïau newydd a ddyluniwyd i drechu tlodi, fel Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy a Pholisi Dyled Gorfforaethol.

Mae ein hymagwedd at sicrhau bod trechu tlodi yn fusnes pawb wedi cael ei chryfhau trwy weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a sicrhau bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei hystyried ym mhob penderfyniad strategol a wneir gan y Cyngor. Yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i Swyddogion a Chynghorwyr, rydym hefyd wedi diwygio ein proses a'n harweiniad Asesu Effaith Integredig i sicrhau bod y goblygiadau i bobl sy'n byw mewn tlodi yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

**Targedu adnoddau i gynyddu mynediad at gyfleoedd a ffyniant i'r eithaf a chanolbwyntio ar ddefnyddio data i dargedu cymorth, cyflogadwyedd a chynhwysiant ariannol.**

Rydym yn parhau i dargedu cymorth er mwyn cynyddu cyflogadwyedd a chynhwysiant ariannol. Mae mwy o bobl wedi sicrhau cyflogaeth yn 2021/22 ($n$ = 481) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol trwy ein porth Gweithio Abertawe. Mae gwaith partneriaeth rhwng Gweithio Abertawe, Dysgu Gydol Oes, Rhaglenni Cyflogadwyedd a phartneriaid wedi parhau i gynnig hyfforddiant a chymwysterau achrededig i gyfranogwyr i fodloni cyfleoedd cyflogaeth. Mae nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnwyd gan oedolion gyda chymorth yr Awdurdod Lleol wedi cynyddu yn 2021/22 i 620 o gymharu â 450 yn 2020/21; er nad yw wedi cyrraedd lefelau cyn y pandemig eto. Roedd 1250 o ddysgwyr unigryw ar gyrsiau Dysgu Gydol Oes achrededig ac anachrededig yn ystod 2021/22, gyda 1792 o bobl wedi'u cofrestru ar gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau llythrennedd digidol, Sgiliau Hanfodol a Dysgu am Oes (ieithoedd, lles a'r celfyddydau).

Astudiaeth achos 4: Gweithffyrdd +

Eleni, yn rhan o Gynllun Adferiad Economaidd y Cyngor ac wrth ymateb i effaith y pandemig, cynigiodd y Cyngor fwy na 300 o gyfleoedd lleoliad gwaith gyda thâl i bobl ddi-waith trwy Weithffyrdd+ a'r cynllun cyflogaeth Kickstart. Roedd y cyfleoedd hyn ar gael ar draws amrywiaeth o rolau mewn busnesau a sefydliadau lleol, ac roedd mwy na 100 o swyddi wedi'u lleoli yn y Cyngor ei hun. Roedd y cynllun Gweithffyrdd+ yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant, profiad gwaith gyda thâl a gwirfoddoli i bobl ddi-waith dros 25 oed i'w helpu i wella eu bywydau a chael gwaith. Mae eisoes wedi cynorthwyo mwy na 1,000 o bobl sy'n byw yn Abertawe. Mae rhai wedi elwa o gyfleoedd profiad gwaith gyda thâl yn Adran Wastraff y Cyngor. Mae mwy nag 20 o recriwtiaid newydd wedi

ymuno â thimau fel parciau, gwasanaethau adeiladu, rheoli gwastraff a diogelwch trwy gynllun Kickstart Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

O ran cynhwysiant ariannol, mae ein Tîm Hawliau Lles wedi parhau i gynnal ymgyrch hawlio Credyd Pensiwn i sicrhau bod pensiynwyr cymwys yn manteisio i'r eithaf ar y budd-daliadau sydd ar gael iddynt. Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a phartneriaid eraill, lansiodd ein Gwasanaeth Hawliau Lles rif ffôn am ddim a chefnogodd fwy na 113 o hawliadau am fudd-daliadau, sydd wedi arwain at gynnydd wythnosol cyfartalog o £44 fesul hawliad ar gyfer pob pensiynwr cymwys. Mae ein Gwasanaeth Budd-daliadau wedi parhau i reoli grantiau ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru hefyd. Proseswyd dros 18,000 o geisiadau am daliadau tanwydd y gaeaf, gan arwain at daliadau a ddaeth i gyfanswm o £2.7m. Roedd y tîm hefyd yn gyfrifol am weinyddu Taliadau Ynysu Covid yr aseswyd dros 18,000 o geisiadau amdanynt ac y rhoddwyd dros £5.6m o daliadau ar eu cyfer. Dechreuwyd rhoi'r taliad £150 Costau Byw i aelwydydd cymwys ym mis Ebrill 2022 a'r taliad Gofalwyr Di-dâl ym mis Mai 2022.

**Cynorthwyo i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi i ddod â phenderfynwyr allweddol a phobl sydd â phrofiad bywyd uniongyrchol o dlodi at ei gilydd i gydweithio er mwyn creu newid.**

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i hwyluso datblygu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe. Mae'r Comisiwn yn rhoi pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau a datblygu polisi. Mae egwyddorion allweddol y Comisiwn wedi'u seilio ar yr hyn a ddysgwyd o'r broses creu heddwch ar ôl apartheid yn Ne Affrica, a'i nod yw creu man diogel i bobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi adrodd eu straeon a ffurfio perthnasoedd â'i gilydd a chyda phenderfynwyr allweddol yn yr ardal leol. Mae gan Gomisiynwyr Cymunedol (pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi) statws cyfartal i Gomisiynwyr Dinesig a Busnes o ran penderfynu ar bwyslais a blaenoriaethau'r Comisiwn Gwirionedd Tlodi. Mae Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a'i gefnogi gan ddau hwylusydd. Mae Comisiynau Gwirionedd Tlodi yn bodoli am gyfnod o rhwng 18 mis i 2 flynedd, fel arfer.

Er bod cynnydd wrth ddatblygu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe wedi cael ei lesteirio gan y pandemig COVID-19, mae gwaith i ddatblygu'r Comisiwn wedi parhau'n rhithwir ar-lein ac wyneb yn wyneb pan oedd y rheoliadau'n caniatáu hynny. Mae'r holl Gomisiynwyr Cymunedol wedi cael eu recriwtio ac mae digwyddiad lansio wedi'i gynllunio ar gyfer 2022. Er ei bod yn rhy gynnar gwerthuso canlyniadau Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe, mae'r model a ddefnyddiwyd yn Abertawe wedi'i seilio ar fodelau tebyg Comisiynau Gwirionedd Tlodi eraill ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwerthusiadau a gynhaliwyd gan Gomisiynau Gwirionedd Tlodi eraill wedi dangos eu bod wedi helpu i greu newid ar gyfer unigolion, sefydliadau ac ar lefel polisi.

**Gweithio gyda'n partneriaid Iechyd i sicrhau, trwy ein Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, bod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni eu datblygiad ieithyddol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol disgwyliedig a'u bod yn barod ar gyfer dysgu a'r ysgol.**

Rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid Iechyd i sicrhau bod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni eu potensial. Yn ystod 2021/22, mae gwaith wedi cynnwys datblygu System Cymorth Blynyddoedd Cynnar gydlynol, mynediad gwell at gymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar gyda hyfforddiant i gynorthwyo dealltwriaeth ddyfnach o Lythrennedd Corfforol ar gyfer hyfforddiant Cyn-ysgol, ynghyd â Hybiau Cymorth Cynnar, gan sicrhau adnabod ac ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol i blant yn eu blynyddoedd cynnar.

Mae data o'n rhaglen Dechrau'n Deg yn dangos bod cyfran y plant sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol wedi cynyddu o 40% wrth ddechrau'r rhaglen i 72% wrth adael y rhaglen. Yn yr un modd, ym maes Iaith a Chyfathrebu, cynyddodd gyfran y plant a gyflawnodd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran wrth ddechrau'r rhaglen o 22% i 51% wrth adael y rhaglen. O ran Datblygiad Mathemategol, roedd cynnydd 29% yng nghyfran y plant a gyflawnodd ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran wrth adael y rhaglen o gymharu â dechrau'r rhaglen, a chynnydd 20% yng nghyfran y plant a gyrhaeddodd y cerrig milltir disgwyliedig ym maes Datblygiad Corfforol wrth adael y rhaglen, o gymharu â dechrau'r rhaglen.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn un o bedwar amcan lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Yr amcan tymor hir yw sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn datblygu i'w potensial. Eleni, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i adeiladu ar ein Rhaglen Fraenaru - Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar a chynnal ymarfer mapio gwasanaeth ar draws meysydd Gofal Plant, Chwarae, Cymorth i Deuluoedd, Addysg ac Iechyd, yn ogystal â chynnal adolygiad Vanguard o systemau gyda'r bwriad o integreiddio gwasanaethau'n well a'u gwneud yn fwy effeithiol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein prosiect Jig-so amlasiantaethol (cymorth i deuluoedd a babanod yn ystod y 1001 o ddiwrnodau cyntaf), mentrau bwydo ar y fron a mynediad at gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Rydym hefyd wedi ailffurfio gwasanaethau cymorth i deuluoedd a datblygu Hybiau Cymorth Cynnar y Blynyddoedd Cynnar mewn pum hwb cymunedol ledled Abertawe. Nod Hybiau Cymorth y Blynyddoedd Cynnar yw rhoi cymorth ataliol gwell i deuluoedd trwy ddarparu un pwynt cyswllt a "thaith ddi-dor" i deuluoedd.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg, ac elfennau, modelau ac offer y prosiect, wedi cael eu profi a'u gwerthuso'n drwyadl yn genedlaethol ers iddi ddechrau, a dangoswyd ei bod yn rhaglen effeithiol. Gwerthuswyd darpariaeth leol hefyd a dangoswyd ei bod yn effeithiol; amlygir hyn gan ddata perfformiad blynyddol a chanlyniadau'r rhaglen. Er nad yw gwaith arall yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar wedi cael ei werthuso i'r un graddau â Dechrau'n Deg, mae llawer o'r dulliau newydd a ddefnyddiwyd, fel Jig-so, wedi cael eu llywio gan ddatblygiad modelau a dulliau profedig eraill. At ei gilydd, mae ein gwaith ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd wedi ymsefydlu diwylliant o hunanasesu a gwelliant, fel y dangosir gan ein hadolygiadau Vanguard o systemau ac adolygu adborth yn barhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau a phrosesau sicrhau ansawdd.

**Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl cyrraedd 16 oed.**

Yn ystod 2021, sefydlwyd Partneriaeth Atal NEET Abertawe o dan nawdd Partneriaeth Sgiliau Abertawe. Diben y Bartneriaeth NEET yw rhoi cydlyniad ac eglurder i'r cynnig addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc. Mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio ar gefnogi gwaith atal ac ymyrraeth gynnar. Eleni, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ddiwygio proffil asesu bregusrwydd a gwaith wedi'i dargedu gydag ysgolion i gynorthwyo dysgwyr agored i niwed wrth iddynt bontio o'r ysgol.

Eleni, rydym wedi parhau i amlygu'r bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o ddod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a rhoi'r cymorth personol y mae ei angen arnyn nhw (a'u teuluoedd), trwy'r prosiect Cynnydd, i barhau i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd 1.6% o'r bobl ifanc a adawodd yr ysgol yn 2021/22 yn NEET, sydd ychydig yn fwy na'r 1.5% yn y flwyddyn flaenorol.

Astudiaeth achos 5: Kickstart

Mae'r cynllun Kickstart yn fenter £2 biliwn ledled y Deyrnas Unedig a ddyluniwyd i greu lleoliadau gwaith 6 mis newydd i bobl ifanc 16-24 oed a oedd ar Gredyd Cynhwysol ac mewn perygl o fod yn ddi-waith tymor hir. Telir y Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol perthnasol i bobl ifanc am hyd at 25 awr yr wythnos ac maen nhw'n cael hyfforddiant a phrofiad wrth wneud y gwaith, gyda'r nod o sicrhau cyflogaeth ar ddiwedd y lleoliad. O ddechrau'r cynllun hyd at fis Rhagfyr 2022, mae'r rhaglen wedi darparu mwy na 60 o leoliadau i bobl ifanc yn y Cyngor a mwy na 250 o leoliadau gyda chyflogwyr eraill ar draws ardal Abertawe.

Ar ôl i gyllid Kickstart ddod i ben, cyflwynodd y Cyngor gais llwyddiannus i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dyluniwyd y prosiect peilot Llwybrau at Waith i ddarparu cymorth cyn-ymgysylltu, cymorth cyflogadwyedd, cymorth sgiliau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau digidol. Nod y prosiect yw darparu ymagwedd fwy hyblyg at gyflogadwyedd na rhaglenni rhagflaenol ac mae'n cynnwys 6 phartner cyflwyno, gan gynnwys yr YMCA, Barnardo's, Coleg Gŵyr Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Technocamps. Disgwylir i'r prosiect ddatblygu llwybrau wedi'u teilwra, gan gynnwys llwybrau digidol i gyflogaeth. Dyluniwyd y prosiect i brofi sut gallai darpariaeth trwy bartneriaethau gael ei ffurfio, cyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ynglŷn â chyllid ar gyfer darpariaeth o'r fath gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd.

**Helpu i fynd i'r afael ag effeithiau diwygio Lles, fel cynorthwyo pobl i hawlio'r budd-daliadau llawn sydd ar gael iddynt fel y gallant gynyddu eu hincwm i'r eithaf a hyrwyddo mynediad at gredyd fforddiadwy.**

Mae ein Tîm Hawliau Lles wedi parhau i roi cyngor a chymorth ar ystod o fudd-daliadau lles, gan ddarparu llinell gyngor, cynnal apwyntiadau ar y cyd ar gyfer gwaith achos cymhleth a chynrychioli apeliadau. Sicrhawyd £1,139, 249m o fudd-daliadau lles ar gyfer preswylwyr Abertawe yn 2021/22. Mae hyn 24% yn llai na'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r pandemig a newidiadau i'r System Fudd-daliadau. Er y sicrhawyd llai o fudd-daliadau lles yn 2021/22, mae ymchwil ynglŷn â'r effaith luosydd yn awgrymu bod pob £1 yn fwy mewn incwm budd-daliadau lles yn werth £5 i'r economi leol. Felly, roedd swm y budd-daliadau lles a sicrhawyd ar gyfer preswylwyr Abertawe yn 2021/22 yn cynrychioli £5,696,245m i'r economi leol.

Yn ystod y pandemig, estynnwyd y Llinell Gyngor Hawliau Lles i bum niwrnod yr wythnos am 157 o ddiwrnodau. Yn ogystal, cynhyrchodd y Tîm Hawliau Lles 14 o ddiweddariadau ar fudd-daliadau i staff a sefydliadau partner yn amlinellu newidiadau i fudd-daliadau; gan gynnwys diweddariadau arbennig yn ymwneud â newidiadau penodol i fudd-daliadau. Yn ystod 2021/22, ymatebodd y tîm i 817 o ymholiadau ynglŷn â budd-daliadau. Er y bu llai o apeliadau mewn tribiwnlys o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r pandemig, roedd y Tîm wedi darparu 75 o apwyntiadau ar gyfer achosion cymhleth a chynrychioli 47 o bobl mewn apêl gyda chyfradd lwyddo 91%. Gwnaethant hefyd hyfforddi 231 o weithwyr cymorth, gan gynnwys 176 o weithwyr cymorth ar fudd-daliadau anabledd a Thaliadau Annibyniaeth Personol, a chynorthwyo preswylwyr i fynd i'r afael â mwy na £77k o ddyled bersonol.

Yn ystod 2021/22, roedd Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi y Cyngor wedi datblygu Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy a ddyluniwyd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o opsiynau credyd fforddiadwy a rhybuddio pobl yn erbyn risgiau benthycwyr llog uchel. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol, sy'n ceisio annog pobl i ymgysylltu â'r

Cyngor yn gynnar ynglŷn â dyledion a sicrhau bod y Cyngor yn trin pawb sydd â dyledion personol iddo mewn ffordd deg a chyson.

**Cynorthwyo unigolion i oresgyn eu rhwystrau rhag cyflogaeth trwy gymorth cyflogadwyedd cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

Rydym wedi parhau i gynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth trwy ddarparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn. Mae Gweithio Abertawe yn borth unigol sy'n cydlynu cyflogadwyedd ar draws rhaglenni cymorth cyflogadwyedd cysylltiedig, gan gynnwys Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Gweithffyrdd Di-waith Tymor Byr, Gweithffyrdd a Mwy a Cham Nesa. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys brysbennu ac asesu cychwynnol, datblygu cynllun gweithredu personol, mentora dwys, cymorth i oresgyn rhwystrau e.e. magu hyder, cyfeirio at hyfforddiant a chymwysterau, lleoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd gwaith gyda thâl, cymorth i chwilio am swydd a mynediad at ddigwyddiadau a gweithdai cyflogadwyedd ar-lein.

Ers 2017, mae 2,504 o bobl wedi cael eu cynorthwyo gan Gymunedau am Waith / a Mwy, mae 994 o bobl wedi cael eu cynorthwyo i gael gwaith trwy Gymunedau am Waith / a Mwy, mae 1,186 o bobl wedi cael eu cynorthwyo gan Weithffyrdd, mae 433 o bobl wedi cael eu cynorthwyo i weithio mwy nag 16 awr trwy Weithffyrdd ac, ers mis Ebrill 2018, mae 6,842 o bobl wedi cael eu cynorthwyo trwy Weithio Abertawe. Yn ystod 2021/22, cynyddodd nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn Cymorth Cyflogadwyedd i 481, o gymharu â 453 yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae Gweithio Abertawe a Chymunedau am Waith wedi gweithio mewn partneriaeth hefyd i ddarparu mentrau wedi'u teilwra gydag ac ar ran cyflogwyr, y rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n gadael y carchar, gan arwain at gyflogaeth gynaliadwy. Maen nhw hefyd wedi rhoi cyngor a chymorth ar hawliau lles a chynhwysiant ariannol i gleientiaid cyflogadwyedd i'w paratoi ar gyfer cyflogaeth.

Astudiaeth achos 6: dau gynllun gwaith newydd

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo dau gynllun gwaith newydd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer graddedigion a phobl ddi-waith. Bydd y ddau gynllun, sy'n werth £1.1m gyda'i gilydd, yn darparu hyfforddiant a lleoliadau gwaith yng Nghyngor Abertawe i raddedigion a phobl ddi-waith. Bydd y cynlluniau'n cael eu hariannu gan Gronfa Adferiad Economaidd £25m y Cyngor, sydd â'r nod o helpu preswylwyr, busnesau a chymunedau'r ddinas i adfer o effaith economaidd y pandemig. Bydd y prosiect hyfforddi graddedigion gwerth £500,000, a fydd yn cael ei gynnal am y ddwy flynedd nesaf i ddechrau, yn ariannu recriwtio i amrywiaeth o gynlluniau hyfforddi, gan arwain at gymwysterau proffesiynol a chyflogaeth amser llawn, o bosibl, mewn meysydd fel cynllunio strategol, adfywio a threftadaeth, strategaeth wastraff, iechyd y cyhoedd, priffyrdd a thrafnidiaeth, diwylliant a thwristiaeth, a rheoli asedau. Mae cynllun gwerth £600,000 a fydd yn cael ei gynnal tan 2024 wedi'i gynllunio hefyd i greu rhaglen dreigl o leoliadau cyflogaeth chwe mis ar gyfer pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar o bob oed. Mae hanner cant o leoedd wedi'u cynllunio, gan alluogi'r rhai sy'n cymryd rhan nid yn unig i ennill incwm ond hefyd elwa o sgiliau newydd a phrofiad gwaith newydd.

**Darparu cyfleoedd celfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead.**

Rydym wedi parhau i gefnogi a darparu ystod eang o gyfleoedd celfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder a hunan-barch. Cynhaliwyd ein cynnig trwy bartneriaethau

cryf ac economi gymysg o fodelau gweithredu amrywiol, lle mae cyfleusterau a ariennir gan y Cyngor wedi cael eu hategu gan amrywiaeth o gyfleusterau a berchnogir ac a weithredir yn breifat, ochr yn ochr ag asedau a gynhelir gan y gymuned ac a hunanreolir. Cafodd y pandemig COVID-19 effaith fawr ar ein cynnig; ym mis Mawrth 2020, caewyd yr holl leoliadau diwylliannol, adeiladau hamdden ac ardaloedd hamdden a chwarae am ddim, yn ogystal ag adeiladau cymunedol, ac adleolwyd llawer o'n staff i rolau argyfwng rheng flaen. Er y newidiwyd pwyslais ein cynnig yn ystod y pandemig ac fe'i darparwyd ar-lein ac wyneb yn wyneb pan oedd hynny'n ddiogel, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y sector. Mae ein strategaeth ddiwylliannol newydd yn ceisio lleihau'r anghydraddoldebau sy'n ehangu rhwng gwahanol grwpiau, a waethygwyd gan y pandemig.

Yn ogystal â'n cynnig cyffredinol, rydym wedi darparu nifer o wasanaethau wedi'u targedu. Mae ein cynllun Pasbort i Hamdden ar gael i'r rhai hynny sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau â phrawf modd ynghyd â theuluoedd yn y system ofal, fel teuluoedd maeth, gan ganiatáu cyfraddau consesiynol mewn ystod o leoliadau diwylliannol a chwaraeon. Yn ystod 2021/22, roedd 1,255 o gardiau Pasbort i Hamdden gweithredol. Mae'r cerdyn HYNT yn gynllun Cymru gyfan sy'n galluogi pobl anabl i fynd â gofalwr gyda nhw, am ddim, wrth fynychu digwyddiadau. Er bod y cynllun yn cael ei weinyddu gan CREU Cymru, mae cost ariannol defnyddio'r cerdyn yn ein lleoliadau a'n cyfleusterau yn cael ei hariannu gan y Cyngor. Mae cyfanswm o 2,451 o gardiau HYNT wedi cael eu rhoi yn Abertawe ers 2017; mae mwy na 10,000 o docynnau HYNT wedi cael eu defnyddio yn Theatr y Grand a Neuadd Brangwyn am gost o fwy na £250,000.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi parhau i gyflwyno Cyfuno – rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru – a ddyluniwyd i drechu tlodi trwy ddeall ein cymunedau difreintiedig yn well gan fynd i'r afael â rhwystrau rhag ymgysylltu er mwyn cynorthwyo pobl i wella eu lles eu hunain ar yr un pryd ag ennill sgiliau ar gyfer bywyd a chyflogaeth. Mae'r rhaglen yn Abertawe yn cael ei chydlynu trwy bartneriaeth rwydweithio o'r enw Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe, a chyfeirir ati'n rheolaidd fel enghraifft o arfer gorau. Mae gweithgareddau wedi cynnwys cymorth i gael cyfleoedd gwirfoddoli, profiad gwaith, gwella sgiliau digidol, cymorth i blant yn y blynyddoedd cynnar, dysgu fel teulu a dulliau dysgu a lles. Dangosodd ciplun o gyfranogiad cyn i'r pandemig ddechrau (mis Mawrth 2020) fod mwy na 25,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y rhaglen, gan gynnwys pobl ddi-waith, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac ystod o bobl eraill â nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi parhau i weithredu ein haddewid Amrywiaeth, sy'n cynnwys pawb sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Rydym wedi adeiladu ar gynnig y Cyngor i fynegi undod â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn Abertawe, trwy adolygu enwau strydoedd, lleoedd a cherfluniau yn Abertawe, ac rydym wedi ymrwymo i gydnabod y cyfraniad a wnaed at fywyd dinesig gan amrywiaeth ehangach o gyn-breswylwyr Abertawe.

Astudiaeth achos 7: Plac Glas i Jessie Donaldson, ymgyrchydd atal caethwasiaeth

Mae Jessie Donaldson, ymgyrchydd atal caethwasiaeth a frwydrodd yn ddewr yn erbyn caethwasiaeth yn America tua 170 o flynyddoedd yn ôl, wedi cael ei hanrhydeddu gan Abertawe, ei dinas enedigol. Ar ôl symud o Abertawe i America, rhoddodd noddfa i gaethweision a oedd yn dianc o daleithiau deheuol y wlad i gyrraedd rhyddid yn y gogledd. Ymfudodd Jessie i Cincinnati yn ei 50au a helpodd gaethweision a oedd yn ffoi yn ystod Rhyfel Cartref America. Cynhaliodd gartref diogel i gaethweision ar ffo a oedd yn rhan o'r rhwydwaith dianc enwog y Rheilffordd Danddaear. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, ymwelodd gorau a bandiau o gaethweision a ryddhawyd ag Abertawe i berfformio caneuon ymgyrchu, emynau Negroaidd ac emynau hwyliog diddymol.
Mae plac glas wedi cael ei osod gan Gyngor Abertawe y tu allan i adeilad Dinefwr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng nghanol y ddinas i ddathlu gweithredoedd yr ymgyrchwr.

Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi datblygiad Hwb Digidol a Diwylliannol yn Theatr y Grand Abertawe, sy'n cynnwys 24 o sefydliadau lleiafrifoedd ethnig ac sy'n ceisio sicrhau rhaglennu diwylliannol teg a chyfartal ar gyfer ein cymunedau. Yn 2021, daeth Cyngor Abertawe yn bartner yn The World Reimagined, sef prosiect addysg gelfyddydau ar draws y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i weddnewid ein dealltwriaeth o'r Fasnach Drawsatlantig mewn Caethweision a'i heffaith arnom ni i gyd er mwyn helpu i wireddu cyfiawnder hiliol. Mae'r prosiect yn ceisio cynorthwyo cymunedau i archwilio ystod o themâu a dylanwadau diwylliannol er mwyn uno cyfranogwyr a chynulleidfaoedd i ddeall ein dylanwadau diwylliannol mewn ffordd gadarnhaol, a dathlu'r cyfleoedd i ni i gyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau eraill o waith wedi'i dargedu yn cynnwys gwaith a wnaed gan Ganolfan Dylan Thomas mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf Gorllewin Morgannwg i gydgynhyrchu prosiectau a dehongliadau a datblygu bagiau synhwyraidd. Mae Canolfan Dylan Thomas hefyd wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Awtistiaeth Genedlaethol i ddarparu cymhwyster Amgueddfeydd achrededig newydd ar gyfer pobl awtistig. Mae'r Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gydag Ysgol Pen-y-Bryn ar brosiectau, gan gynnwys Diwrnod y Llyfr, datblygu deunyddiau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru, a phrosiectau ffilm ac animeiddio.

Ers iddi ailagor ym mis Mai 2021, mae Oriel Gelf Glynn Vivian wedi arddangos ystod amrywiol o arddangosfeydd a rhaglenni o uchafbwyntiau gan gynnwys arddangosfa a raglennwyd mewn partneriaeth â Pride Abertawe a chyfranogwyr o Ddinas Noddfa Abertawe i ddathlu 10fed pen-blwydd Abertawe fel Dinas Noddfa. Yn 2021, Oriel Gelf Glynn Vivian oedd yr oriel gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei dyfarnu'n Oriel Gelf Noddfa am ei gwaith gyda ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches. Yn ystod, 2021/22, parhaodd yr Oriel â'i gwaith gyda grwpiau wedi'u targedu ar gyfer pobl â nam ar y golwg, plant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg ffurfiol ac oedolion hŷn sydd wedi'u hynysu, yn ogystal ag ailddechrau gweithdai penwythnos. Mae Amgueddfa Abertawe a'n llyfrgelloedd wedi hwyluso gweithgareddau fel cynhyrchu fideos hefyd, gan weithio gyda gofalwyr ifanc a phobl ifanc ag anableddau yn rhan o'n digwyddiad Gaeaf Llawn Lles a darparu lleoliadau i grwpiau gyfarfod eto.

Mae ein gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno prosiectau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Dinas a Sir Abertawe a helpu i ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol a chydlyniant cymunedol trwy annog oedolion i gymryd rhan mewn chwaraeon yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Trwy weithio gyda phartneriaid fel Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gemau Stryd, rydym wedi parhau i dargedu grwpiau â lefel isel o gyfranogiad, fel menywod ifanc, pobl anabl a phobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym hefyd wedi parhau i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu capasiti mewn cymunedau lleol a datblygu isadeiledd, cefnogi gwirfoddoli a rhannu adnoddau. Yn ystod yr haf 2021, ymestynnwyd ein rhaglen gwyliau ysgol i gynnwys gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed ac oedolion hŷn, yn ogystal â darparu gweithgareddau i'r teulu cyfan gymryd rhan ynddynt, a dreialwyd cyn Covid trwy raglenni fel Us Girls, Parklives a Streetgames. Yn ystod 2021, croesawodd ein rhaglen gwyliau ysgol yn yr haf dros 1400 o ddefnyddwyr i fwy na 150 o sesiynau ar draws 21 o wahanol leoliadau, gan gynnwys canolfannau hamdden, parciau, traethau, afonydd a chamlesi.

Astudiaeth achos 8: Ardaloedd chwarae newydd i blant

Yn ystod 2021, rydym wedi buddsoddi tua £5m mewn cenhedlaeth newydd o ardaloedd chwarae i blant mewn dros 30 o wahanol gymunedau ac ardaloedd poblogaidd ledled Dinas a Sir Abertawe. Gwnaed y buddsoddiad gan Gyngor Abertawe gyda chefnogaeth ar gyfer cyllid gan Aelodau Wardiau, cyllid gan grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill, cytundebau adran 106 gyda datblygwyr

a Llywodraeth Cymru trwy grantiau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Roedd y cynllun yn cynnwys gosod cyfleusterau newydd ac uwchraddio ac adnewyddu cyfleusterau presennol. Mae nodweddion pob ardal chwarae yn amrywio ac wedi cael eu dylunio mewn ymgynghoriad â phlant lleol a'u teuluoedd. Mae enghreifftiau o offer newydd yn cynnwys llinellau sip, trampolinau bach, fframiau dringo, unedau aml-chwarae ar gyfer plant iau a hŷn, amrywiaeth o siglenni, trogylchau, sbringwyr a phaneli chwarae. Mae offer penodol i blant anabl wedi cael ei gyflwyno hefyd.

Mae ansawdd ein cynnig diwylliannol, celfyddydau, treftadaeth, hamdden a chwaraeon yn gyffredinol dda ac fe'i dangosir gan y ffaith ein bod wedi cyflawni amryw fathau o achrediad, marciau ansawdd a gwobrau cenedlaethol. Er enghraifft, ni yw un o'r cynghorau sy'n arwain y ffordd yng Nghymru trwy gyflawni 18 gwobr Baner Werdd ar gyfer ein parciau a 4 gwobr Baner Las ar gyfer ein traethau. Mae ein dwy Archif a'n holl Amgueddfeydd ac Orielau Celf wedi cyflawni Safon Achrediad y Deyrnas Unedig. Yn 2020, enillodd menter Llenyddiaeth a Thrawma Canolfan Dylan Thomas wobr yng ngwobrau Mae Amgueddfeydd yn Newid Bywydau y Gymdeithas Amgueddfeydd, a chafodd Abertawe ei chynnwys mewn adroddiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel un o'r amgueddfeydd yng Nghymru sy'n rhagori mewn casglu straeon gan ei chymunedau. Yn ogystal, enillodd ein prosiect Us Girls, a ddyluniwyd i gynyddu a chynnal cyfranogiad menywod ifanc mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, y wobr Ymgysylltu â Menywod a Merched yn y Gwobrau Gemau Stryd Cenedlaethol yn 2020. Dangosir effeithiolrwydd ein cynnig hefyd gan lefel dda o bresenoldeb, cyfranogiad ac ymweliadau.

**Buddsoddi i wella tai ac adeiladu tai Cyngor sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, a chefnogi'r broses o adeiladu tai fforddiadwy i helpu i fodloni'r angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio ystadau a sicrhau buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.**

Mae'r galw am dai cymdeithasol yn uchel o hyd ac mae cyflenwad annigonol i fodloni anghenion yr holl aelwydydd ar y rhestr aros. Dangosodd ciplun o restr aros y Cyngor ym mis Medi 2021 fod 4,639 o aelwydydd ar y rhestr aros (roedd 26% yn aelwydydd a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, roedd gan 43% fathau llai difrifol o anghenion tai ac roedd 31% yn denantiaid y cyngor a oedd wedi gwneud cais am drosglwyddo i eiddo/ardal arall). Mae'r sector rhentu preifat yn gynyddol anfforddiadwy i bobl ar incwm isel ac, yn aml, nid yw'r Lwfans Tai Lleol yn talu am gost rhentu preifat i lawer o aelwydydd.

Mae'r Cyngor, ar y cyd â'i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, wedi gosod targed uchelgeisiol i ddatblygu 5,000 o unedau o dai fforddiadwy newydd yn Abertawe dros gyfnod o 10 mlynedd (1,000 i'w darparu gan y Cyngor trwy raglen adeiladu uniongyrchol, 4,000 i'w darparu gan Gymdeithasau Tai). Rydym wedi parhau â'n Rhaglen Datblygu Tai Cyngor ac adeiladu cartrefi Cyngor newydd, gydag ymrwymiad i adeiladu cartrefi di-garbon sy'n arbed ynni, ac i Safonau Cartrefi Gydol Oes, i sicrhau eu bod yn addas i anghenion tymor hir tenantiaid.

Yn ystod 2021/22, darparwyd cyfanswm o 60 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol (sy'n fwy na'r 44 yn y flwyddyn flaenorol) a darparwyd 129 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (sy'n llai na'r 203 yn y flwyddyn flaenorol). Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy newydd ac arafwyd cyflymder darparu o ganlyniad i heriau yn y gadwyn gyflenwi adeiladu a phrinder deunyddiau a llafur.

Ar hyn o bryd, mae Safon Ansawdd Tai Cymru – sef y safon statudol ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru – yn mynnu bod yr holl dai cymdeithasol yn cyflawni sgôr Proffil Asesu Safonol (SAP) o 65 neu uwch. O ganlyniad i fuddsoddiad i wella effeithlonrwydd thermol ac inswleiddio eiddo'r cyngor, cyflawnodd 100% o eiddo sgôr SAP gyfartalog o 69 (band C). Nid oes gwybodaeth gadarn am gyflwr tai yn y sector rhentu preifat / perchen-feddianwyr. Fodd bynnag, mae amcangyfrif o ddata a

gafwyd o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) rhwng 2008 a 2021 yn awgrymu mai cyfran gymharol isel o gartrefi yn y sector rhentu preifat/perchen-feddianwyr sydd â sgôr SAP o 69 (band C) neu uwch (amcangyfrifir bod 40% yn unig o eiddo rhentu preifat/perchen-feddianwyr yn cyrraedd y sgôr hon).

**Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gynnal eu tenantiaethau er mwyn helpu i ddarparu sefydlogrwydd a diogelwch i deuluoedd a chymunedau trwy weithredu Strategaeth Ddigartrefedd 2018-22 y Cyngor.**

O ganlyniad i'r pandemig Covid-19, mae nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Abertawe wedi gostwng i'r lefelau isaf a gofnodwyd erioed, o ganlyniad i gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llety dros dro yn cael ei ddarparu i bawb yr oedd arno ei angen yn ystod y pandemig. Roedd gwaith partneriaeth da rhwng ein gwasanaeth digartrefedd, gwasanaethau cymorth a darparwyr llety, a ddangoswyd gan yr ymateb digartrefedd a chymorth tai effeithiol i'r pandemig, fel datblygu Tŷ Tom Jones.

Mae tua 2,500 o geisiadau digartrefedd yn cael eu gwneud yn Ninas a Sir Abertawe bob blwyddyn. Pan na ellir atal digartrefedd, darperir llety dros dro. Mae gan y Cyngor ei lety dros dro ei hun sy'n addas i deuluoedd, a defnyddir llety gwely a brecwast fel dewis olaf yn unig pan nad oes unrhyw opsiynau eraill ar gael. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae nifer flynyddol y teuluoedd sydd mewn llety dros dro yn Abertawe wedi amrywio rhwng 22 a 41. Er bod nifer y teuluoedd mewn llety dros dro wedi gostwng yn 2020/21, mae'r nifer wedi cynyddu yn ystod y ddau chwarter cyntaf yn 2021/22.

Rydym wedi parhau i weithredu ein Strategaeth Ddigartrefedd 2018-22 ac wedi mabwysiadu dull newydd i gyfuno cynllunio strategol ar gyfer digartrefedd â'r Rhaglen Grant Cymorth Tai a chynhyrchu strategaeth newydd ar gyfer 2022-2026. Rydym wedi derbyn mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau digartrefedd ychwanegol a dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, trwy ychwanegiad £4m at y Grant Cymorth Tai a ddyrannwyd i Abertawe. Rydym yn cynnal adolygiad meddwl ar sail systemau ar raddfa fawr o'r holl Brosiectau Llety â Chymorth Dros Dro, a fydd yn amlygu sut bydd y sector a gwasanaethau digartrefedd yn Abertawe yn newid i ddull Ailgartrefu Cyflym yn ystod y 5 mlynedd nesaf, h.y. lleihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro i'r eithaf cyn symud ymlaen i lety parhaol.

**Archwilio creu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni cost isel i gartrefi, gan helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd. Cefnogi mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a helpu i ddileu tlodi tanwydd a hybu datblygiad economaidd trwy'r cynllun ARBED a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol.**

Er ein bod wedi llwyr archwilio sefydlu cwmni ynni i reoli'r cyfleusterau cynhyrchu ynni newydd, mae anwadalrwydd yn y farchnad ynni ynghyd â therfynau ar brisiau yn golygu bod yr opsiwn yn anhyfyw yn ariannol. Mae cwmnïau ynni sector cyhoeddus blaenorol eraill wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac wedi cael eu gwerthu i gwmnïau preifat, ac mae'r opsiwn yn anhyfyw ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, rydym wedi bwrw ymlaen â'r cysyniad ac wedi parhau i archwilio'r gwaith hwn trwy gynnig diwygiedig i ddatblygu Morlyn Llanw yn yr ardal. Mae trafodaethau cyn-gynllunio wedi dechrau ynglŷn â phrosiect Eden Las. Yn wahanol i'r cysyniad Morlyn Llanw blaenorol, ni fydd angen i'r prosiect gael cymhorthdal cyhoeddus a bydd bellach yn cynnwys nodweddion ychwanegol newydd fel Tai, Ffatri Fatris, Canolfan Ymchwil Cefnforol a Newid yn yr Hinsawdd, Canolfan Ddata a Fferm Solar. Mae'r prosiect Eden Las yn cael ei arwain gan y cwmni DST Innovations, sydd wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a'i bartneriaid busnes o'r sector preifat. Disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni mewn tri cham dros 12 mlynedd ac y bydd yn creu

mwy na 2,500 o swyddi parhaol ac yn cefnogi 16,000 o swyddi ychwanegol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â chreu swyddi ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Yn ystod 2021/22, rydym yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy ddosbarthu ein talebau tanwydd gyda phartneriaid, adeiladu cartrefi Cyngor newydd sy'n arbed ynni, ôl-osod ein heiddo presennol a sicrhau bod holl gartrefi'r Cyngor yn cyflawni'r sgôr effeithlonrwydd ynni band C. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy a berchnogir gan y gymuned i ddarparu ynni glân er budd ysgolion lleol ac adeiladau cymunedol, ac wedi mabwysiadu Siarter Newid yn yr Hinsawdd yn rhan o gyfres o fesurau i weithio tuag at ddod yn garbon niwtral.

**Parhau i weithredu'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.**

Yn ystod 2021/22, mae ein tîm Cydlyniant Cymunedol wedi canolbwyntio ar effeithiau cymdeithasol Brexit, yn ogystal â'r agenda cydlyniant cymunedol ehangach. Mae elfen allweddol o'r gwaith wedi cynnwys ymgysylltu ag unigolion a chymunedau i sicrhau bod y nifer fwyaf o bobl yn manteisio ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (EUSS). Mae mwy na 9,000 o ddinasyddion yr UE yn Abertawe wedi cael eu cynorthwyo i wneud cais ar gyfer yr EUSS. Ochr yn ochr ag ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid, mae gwaith wedi parhau ar fonitro tensiwn o fewn cymunedau lleol, yr adroddwyd arno trwy'r system monitro tensiwn wythnosol. Ymgysylltwyd yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth a phryderon gan, er enghraifft, fyfyrwyr, preswylwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) a ffoaduriaid, ac arweinwyr grwpiau ffydd lleol. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym wedi parhau i fonitro ac ymateb i achosion o droseddau casineb trwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Troseddau Casineb a'r Bartneriaeth Abertawe Fwy Diogel.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi darparu nifer o raglenni hyfforddi i staff a rhanddeiliaid allweddol i ddeall arwyddion cynnar dylanwad adain dde eithafol a dulliau adrodd. Cwblhaodd oddeutu 100 o aelodau staff y cwrs e-ddysgu Troseddau Casineb a mynychodd 44 o bobl hyfforddiant rhithwir Cymorth i Ddioddefwyr a drefnwyd gan y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau perthnasol i fynd i'r afael â thensiynau / mannau problemus a chynyddu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb trwy helpu i gyflwyno'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a rhaglen ymwybyddiaeth yn ein hysgolion yn Abertawe. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym hefyd wedi cefnogi ymgyrchoedd arloesol i herio mythau a chamdybiaethau, hyrwyddo negeseuon cadarnhaol, dathlu amrywiaeth, a hybu ymdeimlad o berthyn, gan gynnwys Eid yn y Parc, prosiect Cyfnewid Ysgolion, Wythnos Ryng-ffydd, Diwrnod Coffáu'r Holocost, Diwali, mis LHDT+, Windrush, Wythnos Ffoaduriaid a'r mis Hanes Pobl Dduon. Rydym wedi cynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi adrodd am atal caethwasiaeth / masnachu pobl yn Abertawe trwy sefydlu Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) Atal Caethwasiaeth i gefnogi dioddefwyr masnachu pobl. Rydym wedi parhau i gynorthwyo ein cymunedau mwy agored i niwed trwy ein hymgyrch "Dywedwch Fwy Wrthyf" a ddyluniwyd i ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol am y pandemig COVID-19.

3. Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?

Er bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â threchu tlodi, mae nifer o feysydd posibl i'w gwella. Yn gyntaf:

- argymhellodd Pwyllgor Rhaglen Graffu'r Cyngor ym mis Tachwedd 2021 y dylai'r Cyngor egluro ei nodau a'i amcanion o ran trechu tlodi a gwella'r ffyrdd y mae'n monitro ac yn mesur canlyniadau gwaith.

Efallai bod egluro rôl a swyddogaethau'r Cyngor o ran trechu tlodi a darparu gwasanaethau effeithiol i'r bobl y mae arnynt eu hangen fwyaf, yn fwy arwyddocaol o ystyried y sefyllfa economaidd bresennol a'r argyfwng costau byw, a'r tebygolrwydd y bydd mwy o alw am gymorth yn y dyfodol. Er bod achosion tlodi ac effaith tlodi yn amlweddog, mae angen gwneud mwy o waith i *ddangos* y gwahaniaeth a wneir o ran canlyniadau a bod gwasanaethau'n cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

- Yn ail, mae llawer o weithgareddau'r Cyngor i drechu tlodi yn dibynnu ar gyllid grant, a hynny'n bennaf gan Lywodraeth Cymru. Os bydd grantiau'n dod i ben, ni fydd y Cyngor yn gallu darparu'r un ystod o wasanaethau'n effeithiol. Mae nifer o fentrau'n cael eu hariannu gan gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd o hyd, gan gynnwys y rhaglen gyflogadwyedd Cymunedau am Waith gwerth dros £732,000 y flwyddyn y disgwylir iddi ddod i ben yn 2023. Yn ogystal â gorddibyniaeth ar gyllid grant, mae angen mwy o hyblygrwydd hefyd o ran defnyddio cyllid mewn ffordd sy'n bodloni anghenion lleol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae meysydd eraill i'w gwella yn cynnwys yr angen i:

- gwblhau'r diwygiad o Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor, cwblhau a gweithredu'r Adolygiad o Gyflogadwyedd a'r Adolygiad o Gynhwysiant Ariannol, a datblygu a gweithredu'r Polisi Gwirfoddoli Corfforaethol. Mae meysydd eraill a nodwyd i'w gwella gan y Gwasanaeth Trechu Tlodi yn cynnwys adolygu tlodi bwyd a gweithgareddau coginio a thyfu cymunedol, adolygu cymorth cyflogaeth a mynediad at ddysgu gydol oes, datblygu modelau canlyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ar gyfer prosiectau a datblygu fframwaith ansawdd / bodlonrwydd ar gyfer gwasanaethau.

4. Casgliad – i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol

Mae adolygiad o'r dystiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol mewn perthynas â'i flaenoriaeth Trechu Tlodi yn awgrymu ei fod yn gwireddu ei uchelgais.

| *Amcanion Lles* | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Trechu Tlodi* | | | | *x* | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau'n cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu i drechu tlodi. Mae nifer o fforymau a grwpiau sydd wedi'u hen sefydlu ac a fynychir yn dda yn gweithio ar draws y Cyngor ac yn yr ardal leol gyda phartneriaid allanol o'r sector statudol a'r

trydydd sector. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth i fanteisio ar weithredu cymunedol a'i gefnogi. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod tlodi'n cael ei ystyried yn "fusnes pawb".

Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod nifer fawr o blant yn eu blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd wedi elwa o ymyrraeth gynnar a chymorth cydlynol i gyrraedd canlyniadau a cherrig milltir priodol i'w hoedran. Mae ymagwedd y Cyngor at gyflogadwyedd hefyd wedi darparu un porth cydlynol sy'n cynnig dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i deilwra iddo o ran hyfforddiant, parodrwydd ar gyfer cyflogaeth a sicrhau cyflogaeth sefydlog. Mae llawer o breswylwyr hefyd wedi elwa o gymorth i sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi gweithio mewn ffyrdd cyflym ac arloesol i sicrhau grantiau a gweinyddu cronfeydd i grwpiau cymorth a phobl sydd mewn argyfwng o ganlyniad i effaith uniongyrchol tlodi, fel tlodi bwyd a chanlyniadau tymor hwy.

Mae cymorth ehangach wedi bod yn dda hefyd, fel Tai Cymdeithasol (gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni), ein cynnig diwylliannol a hamdden a defnydd arloesol o grantiau a gweithio gyda'r trydydd sector.

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.*

Mae'r Cyngor yn gweithio i gynyddu ei gyfraniad tuag at y nodau lles cenedlaethol i'r eithaf wrth gyflawni ei amcan lles o drechu tlodi:

- *Cymru lewyrchus* – cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau ac sydd â hawl i fudd-daliadau i'r eithaf, a darparu un porth tuag at gymorth cyflogaeth.
- *Cymru gydnerth* – adeiladu mwy o gartrefi Cyngor a thai fforddiadwy sy'n arbed ynni i fodloni'r angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio ystadau a sicrhau buddion amgylcheddol, economaidd a chyflogaeth eang.
- *Cymru iachach* – darparu digwyddiadau celfyddydau, diwylliannol a threftadaeth rhad ac am ddim neu gost isel ar gyfer cymunedau wedi'u targedu trwy ystod eang o sgyrsiau, gweithdai a gweithgareddau gyda'r nod o fynd i'r afael ag iechyd a lles.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* – creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar trwy gymalau budd cymunedol yng nghontractau'r Cyngor.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – gweithredu'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.
- *Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – helpu'r cymunedau tlotaf yn Abertawe i drechu tlodi trwy gael mynediad at gelfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyhead.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – mesurau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai ac adeiladu mwy o dai Cyngor sy'n arbed ynni.

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r cyngor yn gweithio'n gynaliadwy yn unol â'r pum ffordd ganlynol o weithio wrth gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed:

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir*. Mae ein gwaith gyda phlant yn eu blynyddoedd cynnar a'u rhieni a'u gofalwyr wedi'i seilio ar ddull sy'n ceisio gwella'r canlyniadau tymor hir i blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â heriau tymor hir lleihau ôl troed carbon Abertawe trwy sicrhau

bod cartrefi newydd y Cyngor yn cael eu hadeiladu yn unol â Safon Abertawe, ac rydym wedi bod yn ôl-osod cartrefi presennol â mesurau effeithlonrwydd ynni. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i helpu pobl i sicrhau cyflogaeth a safon weddus o fyw yn y tymor hir trwy eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth a dychwelyd pobl i waith.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu*. Rydym yn parhau i atal digartrefedd ar gam cynnar trwy annog preswylwyr i ymgysylltu â'n tîm Cymorth Tenantiaeth yn gynnar a thrwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan seicoleg i ddelio ag ôl-ddyledion rhent a defnyddio'r gronfa Atal mewn ffordd arloesol i gynorthwyo tenantiaid yn y sector rhentu preifat. Rydym hefyd yn gweithio i helpu i atal biliau tanwydd uchel a'r 'premiwm tlodi' trwy adeiladu cartrefi Cyngor sy'n arbed ynni ac ôl-osod cartrefi presennol.
- *Integreiddio – cysylltu pethau ac osgoi dyblygu*. Mae ein dull un porth tuag at gyflogadwyedd yn helpu i integreiddio nifer o wahanol ffrydiau cyllido a rhaglenni, gan ddarparu llwybrau unigol a chlir tuag at hyfforddiant, cyflogaeth a mathau eraill o gymorth. Mae ein gwaith gyda phlant yn eu blynyddoedd cynnar a'u rhieni a'u gofalwyr wedi'i ddylunio i ddarparu pecyn integredig a chyfannol o gymorth i fynd i'r afael ag ystod o anghenion addysgol, iechyd, cymdeithasol a datblygiadol.
- *Cynnwys pobl*. Mae ein Comisiwn Gwirionedd Tlodi yn rhoi pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi wrth wraidd datblygu polisi ac ad-drefnu gwasanaethau. Mae gan y Comisiynwyr hyn statws cyfartal i Gomisiynwyr Dinesig o ran penderfynu ar feysydd i ganolbwyntio arnynt a blaenoriaethau. Rydym hefyd yn gweithio'n gydgynhyrchiol i adolygu a datblygu ein strategaeth Trechu Tlodi.
- *Gweithio mewn partneriaeth* a chydweithio â sefydliadau eraill. Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd ein dull o drechu tlodi, gan gydnabod bod tlodi'n "fusnes pawb". Rydym yn gweithio ar draws pob adran yn y Cyngor a chydag ystod o bartneriaid allanol i liniaru achosion ac effaith tlodi.

**Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe**

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Byddwn yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol ar draws cyfrifoldebau amrywiol y Cyngor, fel y bo'n briodol, gan felly wella ein hiechyd a'n lles.
- Abertawe yw un o'r siroedd mwyaf ecolegol gyfoethog ac amrywiol yn y Deyrnas Unedig. Mae angen i'w hamrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau a'i hystod wych o barciau, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau gael eu cynnal, eu gwella a'u rheoli'n gynaliadwy er budd pawb yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae ein goroesiad a'n hansawdd bywyd yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol iach a'i amryw fuddion i gymdeithas.
- Mae ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth dan fygythiad ac yn dirywio o ganlyniad i weithgareddau dynol anghynaliadwy. Mae cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu colli ar gyfradd frawychus ac anghynaliadwy.
- Mae angen i ni fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar frys trwy ddefnyddio llai o garbon a thrwy gynnal a gwella ecosystemau cadarn a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd cryf i'n helpu i liniaru pwysau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- Mae Cyngor Abertawe wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, gan gydnabod yn ffurfiol yr angen i weithredu ac adrodd ar gynnydd trwy'r amcan lles hwn.
- Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (nod Cymru Gydnerth) i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chynnal ecosystemau cadarn, ac i adrodd ar ein cynnydd i Lywodraeth Cymru.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad â natur yn fuddiol iawn i iechyd corfforol a meddyliol pobl; cadarnhawyd hyn gan dystiolaeth anecdotaidd sy'n dod i'r amlwg o'r pandemig Covid-19.
- Mae ein ffyniant a'n lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol iach a chadarn.
- Mae angen i ni weithio gyda natur i wella ansawdd ein haer, ein dŵr a'n priddoedd.
- Rydym eisiau i bawb ddeall a gwerthfawrogi gwerth unigryw a bregusrwydd amgylchedd naturiol eithriadol Abertawe a chyfrannu at ofalu amdano a'i wella.
- Ein huchelgais yw i bawb yn Abertawe gael mynediad at amgylchedd naturiol ecolegol amrywiol, deniadol a chadarn a reolir yn dda, ac elwa ohono.
- Rydym eisiau atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth fel nad yw ei chyfraniad at les economaidd a chymdeithasol Abertawe yn cael ei golli na'i leihau.
- Ein nod yw creu sir wyrddach sy'n fwy cynaliadwy, ecolegol amrywiol a chadarn, y mae ei hamgylchedd naturiol unigryw yn cael ei gydnabod fel un o'i hasedau mwyaf gwerthfawr ac arbennig.
- Mae gennym gyfrifoldeb moesol i ofalu am fioamrywiaeth er ei gwerth cynhenid ei hun.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Datblygu a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol (Adran 6), a'i roi ar waith.**

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu yn unol â chylch adrodd 3 blynedd Llywodraeth Cymru yn ystod 2022. Wraidd y cynnydd hwn oedd ymgorffori'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yng Nghynllun Lles Abertawe y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Ymchwiliad Craffu ar yr Amgylchedd Naturiol, a'i argymhellion, wedi cael effaith sylweddol o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd ac amlygu meysydd i'w gwella.

Trwy'r amcan 'Gweithio gyda Natur' yng Nghynllun Lles Abertawe, cyflawni gan randdeiliaid allweddol a gweithio mewn partneriaeth, mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud: mae'r Cyngor wedi cynnwys blaenoriaeth ar gyfer adfer natur yn ei Gynllun Corfforaethol ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur i sicrhau bod y ddau fater yn cael eu hystyried yn llawn ar draws pob maes gwasanaeth. Mae Partneriaeth Natur Leol Abertawe yn weithredol ac mewn sefyllfa dda gyda dros 97 o aelodau o sefydliadau bywyd gwyllt lleol a sefydliadau eraill sy'n dymuno cyfrannu at adfer natur a, chyda'i gilydd, maen nhw'n paratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur lleol.

Fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithredu'r Cabinet: Ymchwiliad Craffu i'r Amgylchedd Naturiol, caiff cynnydd ar gyflawni camau gweithredu'r amcan bioamrywiaeth corfforaethol ei fonitro ac adroddir amdano'n rheolaidd trwy sefydlu Gweithgor Bioamrywiaeth Gorfforaethol (sydd bellach wedi'i ffurfio fel Bwrdd y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur). Byddai'r Grŵp hwn yn fwy effeithiol wrth gefnogi ac annog yr holl feysydd gwasanaeth i gymryd cyfrifoldeb am ddyletswyddau Adran 6. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl feysydd gwasanaeth perthnasol ac yn cael ei gadeirio ar lefel uwch. O dan y drefn cynllunio ac adrodd busnes newydd, bydd yn ofynnol i bob maes gwasanaeth adrodd ar y cynnydd a wnaed a chamau gweithredu a gynllunnir ar gyfer y dyfodol i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol newydd ar gyfer yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.

**Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Datblygu**

Mae'r canllawiau hyn, a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021, yn egluro sut i ddehongli polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn sicrhau bod datblygiad yn Abertawe yn cynnal a gwella bioamrywiaeth y Sir ac yn cyflawni ecosystem gref yn y tymor hir. Mae hyn yn cyd-fynd â dyletswyddau'r Cyngor o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r nod Cymru Gydnerth yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac mae'n gyson â pholisi'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol).

Maen nhw'n rhoi arweiniad i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio ar sut i ystyried bioamrywiaeth ar bob cam o'r broses rheoli datblygu. Maen nhw'n darparu fframwaith i ddangos bod cynigion wedi ymateb i ddealltwriaeth ecolegol gadarn o safle, ac y bydd mesurau lliniaru, digolledu, gwella ac ôl-ofal ecolegol priodol yn cael eu darparu. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cydnabod y dylai ymgeiswyr ddarparu mesurau yn ymwneud â bioamrywiaeth ac ecosystem gadarn sy'n gymesur â graddfa'r datblygiad a gynigir.

Mae Tîm Cadwraeth Natur y Cyngor yn ymgynghorai yn y broses ceisiadau cynllunio a bydd yn rhoi cyngor i'r Tîm Rheoli Datblygu ynglŷn â materion bioamrywiaeth.

**Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflawni Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd (IG) ar gyfer Abertawe.**

Gan weithio ar y cyd, cyflogodd Is-adran Amgylchedd Naturiol Cyngor Abertawe a Cyfoeth Naturiol Cymru Green Infrastructure Consultancy (arbenigwr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn y diwydiant isadeiledd gwyrdd) i ddatblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd, sef *Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwyllt*. Fe'i defnyddiwyd ers hynny i gyflawni cynlluniau gwella tir y cyhoedd yn yr ardal ganolog, fel toeon a waliau gwyrdd ar adeiladau a strwythurau eraill.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu gweledigaeth i ardal ganolog Abertawe fod yn wyrddach o lawer ac yn fwy bioamrywiol, gan greu mannau gwyrdd a defnyddio cyfuniad o nodweddion ar lefel y stryd

fel coed stryd a gerddi glaw, yn ogystal â llystyfiant ar adeiladau, gan gynnwys toeon a waliau gwyrdd. Bwriedir dyblu'r IG (heblaw am ddŵr agored) o fewn 10 mlynedd. Mesurir llwyddiant trwy nifer o ddangosyddion perfformiad, a fydd yn gweithio tuag at dargedau i ddyblu isadeiledd gwyrdd (o 13% i 26%) erbyn 2030 a chynyddu gorchudd canopi coed i 20-25% erbyn 2044. Mae'r strategaeth yn cynnwys offeryn Ffactor Lle Gwyrdd, sef offeryn syml i ddefnyddwyr a ddyluniwyd i arwain gwelliannau i ansawdd ac ymarferoldeb mannau gwyrdd. Mabwysiadwyd y strategaeth ym mis Chwefror 2021. Mae Cynllun Gweithredu'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r broses o gyflawni'r strategaeth a mynd i'r afael â'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith ymgysylltu: 1) llywodraethu ac arweinyddiaeth, 2) datblygu sgiliau a gwybodaeth, a 3) cynnal a chadw.

Mae Cyngor Abertawe a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau ymgysylltu ynglŷn â datblygu strategaeth ar gyfer y sir gyfan hefyd. Bydd y ddogfen hon yn dilyn llwybr datblygiadol tebyg i strategaeth Ardal Ganolog Abertawe, gan ganolbwyntio ar ymagwedd strategol at isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol ar draws y sir. Fe'i cefnogir gan ddeddfwriaeth genedlaethol, polisi a chanllawiau lleol, sgiliau a gwybodaeth, a'r nod yw sicrhau bod isadeiledd gwyrdd yn egwyddor arweiniol sy'n cael ei hymgorffori yn yr holl waith datblygu a gwella yn Abertawe.

Mae rhai enghreifftiau lleol o brosiectau isadeiledd gwyrdd trefol y dylanwadodd y Strategaeth arnynt yn cynnwys:

Canolfan yr Amgylchedd Abertawe – Gosodwyd to gwyrdd helaeth ar Ganolfan yr Amgylchedd ym mis Mawrth 2021 gan The Urban Greening Company, a ariannwyd gan grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Plannwyd a hadwyd y to gwyrdd gyda 48 o flodau gwyllt brodorol a dyfwyd yn lleol gan Celtic Wildflowers a staff Canolfan yr Amgylchedd.

Swyddfa Coastal ar y Stryd Fawr – Gosododd The Urban Greening Company do gwyrdd lled-ddwys ar adeilad swyddfa Coastal ar y Stryd Fawr ym mis Mawrth 2021, a ariannwyd gan Grant Trawsnewid Trefi: Isadeiledd Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r to gwyrdd, a ddyluniwyd i gyflwyno cynefin arfordirol i'r ddinas, yn enghraifft wych o greu man yng nghanol y ddinas i bobl a natur.

Coastal Housing, Potter's Wheel: Fe'i dyluniwyd a'i gosodwyd gan Scotscape, gan ddefnyddio Grant Trawsnewid Trefi: Isadeiledd Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Roedd y wal werdd yn rhan o adnewyddu 85-86 Ffordd y Brenin. Mae'r plannu a'r cydau pridd y gall aer fynd trwyddynt yn hidlo gronynnau, ac mae llystyfiant yn darparu bwyd a chysgod i adar a phryfed ynghyd â gwerth amwynder.

Parc Arfordirol: Mae parc arfordirol 1.1 erw y Bae Copr yn do gwyrdd dwys. Dyma'r to byw mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys wal fyw â ffasâd gwyrdd sy'n mynd ar hyd ochr Heol Ystumllwynarth y maes parcio newydd. Mae'r wal fyw yn rhoi lliw a gwerth amwynder ar hyd y flwyddyn, yn cynnig cysgod a bwyd i adar a phryfed, yn amsugno llygredd a bydd dŵr wyneb sy'n llifo oddi arni yn oeri pethau yn yr haf.

**Datblygu a mabwysiadu polisi coed y Cyngor.**

Mae cyfres o bolisïau/protocolau coed wedi cael eu mabwysiadu yn ystod 2021/22, gan gynnwys: Canllawiau Cynllunio Atodol Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd, Safon Ailblannu Coed Abertawe, Canllawiau Plannu Coed a Strategaeth Reoli ar gyfer coed ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno.

Nodau Strategaeth Rheoli Coed 2021 Cyngor Abertawe o ran tir y mae'r Cyngor yn berchen arno yw:

- Sicrhau bod risgiau sy'n deillio o goed a risgiau i goed yn cael eu rheoli'n ddigonol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau bioamrywiaeth o ran coed.

- Gwarchod coed gwerthfawr.
- Cynnal ac ymestyn y gorchudd canopi coed.

Yn 2021, roedd tua 43,000 o goed unigol ym mherchnogaeth y Cyngor wedi cael eu harolygu, ac roedd mwy na 1439 o goetiroedd a grwpiau o goed wedi'u plotio a'u harolygu a oedd yn cynnwys tua 100k o goed ychwanegol. Fodd bynnag, mae ardaloedd sylweddol o dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor yn aros i'w harolygu o hyd.

**Dechrau mapio asedau Isadeiledd Gwyrdd presennol a darparu gwasanaeth ecosystem, ac amlygu ardaloedd sy'n cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer gwella/cysylltedd cynefin a gwell mynediad hamdden, gyda buddion iechyd a lles cysylltiedig.**

Ym mis Medi 2021, comisiynwyd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBReC) gan Gyngor Abertawe (y Timau Cadwraeth Natur ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr yn benodol) i ymgymryd â phrosiect i gynhyrchu map o gadernid ecosystem ar gyfer ardal Cyngor Abertawe.

Un o ddefnyddiau posibl allweddol yr allbynnau wedi'u mapio yw amlygu lleoliadau lle y gellid cynyddu cadernid ecolegol trwy waith wedi'i dargedu i adfer neu greu cynefinoedd mewn lleoliadau sy'n dangos llai o gadernid ecolegol ar hyn o bryd. Gallai gwaith o'r fath fod yn elfen bwysig iawn o greu "Rhwydwaith Adfer Natur" yn ardal Abertawe ac fe allai gael ei gefnogi a'i gyfeirio trwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol.

**Cynnal archwiliad bioamrywiaeth rhagarweiniol o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno a, lle y bo'n bosibl, rheoli ein hasedau corfforaethol er budd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.**

Mae prosiect peilot ar gyfer rheoli asedau corfforaethol yn well er budd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol wedi ystyried yr holl safleoedd tai Cyngor Mwy o Gartrefi ac wedi cynghori ar arolygon ecolegol sydd i'w cynnal. Mae brics gwenoliaid duon (brics sy'n darparu lle i wenoliaid duon greu nythod mewn bricwaith) wedi cael eu gosod a byddant yn parhau i gael eu gosod yn yr holl eiddo newydd Mwy o Gartrefi.

Yn dilyn ymlaen o'r cynllun peilot Passivhaus cyntaf yn Colliers Way, mae ail gam y prosiect Mwy o Gartrefi wedi cael ei gwblhau ym Mharc yr Helyg, a Colliers Way Cam 2. Yn rhan o'r cam hwn, mae 34 o gartrefi wedi'u dylunio fel 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' gan ddefnyddio arian o grant Rhaglen Tai Arloesol £1.5m gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y cartrefi nodweddion arloesol fel paneli solar ac ynni a bwerir gan fatri, ac maen nhw hefyd yn cynnwys brics gwenoliaid duon i gynnal bioamrywiaeth.

Mae dau swyddog Natur a Mannau Gwyrdd Cymunedol a ariennir gan grant wedi cael eu penodi i ddechrau'r broses o fapio asedau bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd presennol ym mhob ward ac amlygu cyfleoedd ar gyfer gwaith gwella gyda buddion iechyd a lles cysylltiedig.

**Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol.**

I gefnogi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth, mae pedair swydd barhaol a thair swydd dros dro a ariennir gan grant wedi cael eu creu yn Nhîm Cadwraeth Natur y Cyngor yn ystod 2021/22, gan gynnwys Swyddog Partneriaeth Natur Leol, Swyddog Bioamrywiaeth (Adran 6), Swyddog Coetir, Ecolegydd Cynllunio, dau Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur a Chydlynydd Gwirfoddol. Yn ogystal, sicrhaodd y Tîm Cadwraeth Natur fwy nag

£1 filiwn o gyllid grant i gyflawni prosiectau bioamrywiaeth ac Isadeiledd Gwyrdd yn ystod 2021/22, a chyflwynwyd cynigion ychwanegol gwerth £1.5 miliwn ar gyfer 2022/23. Mae gwaith wedi dechrau ar baratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Leol a Chynllun Adran 6.

Fel yr amlinellir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Datblygu, mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi cael ei lywio gan asesiad o gysylltedd ecolegol ar draws y Sir gyfan. Yn ogystal â mapio'r rhwydwaith cysylltedd ecolegol presennol yn Abertawe, mae'r asesiad hwn hefyd yn amlygu lleoliadau lle y gallai cysylltedd ecolegol gael ei wella.

Astudiaeth Achos 1: Plantasia

Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyllid gan Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru i hybu'r fioamrywiaeth yn y gwlyptir hir a thenau hwn ym Mharc Tawe. Plannwyd dros 30 o rywogaethau blodau gwyllt yn y ffos gyda chymorth plant o Leonard Cheshire a gwirfoddolwyr o Admiral. Darparwyd y planhigion hyn, a goruchwyliwyd y diwrnod, gan y busnes lleol arbenigol Celtic Wildflowers. Bydd y ffos newydd a gwell yn darparu carreg sarn bywyd gwyllt bwysig i beillwyr a rhywogaethau eraill, gan helpu Abertawe i ddod yn ddinas fwy cydnerth ar gyfer pobl a natur.

**Gweithio tuag at greu economi carbon isel, sy'n hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac yn gweithredu i leihau ein hôl troed carbon.**

Wrth weithredu i leihau ein hôl troed carbon, mae ffrydiau gwaith wedi cael eu rhannu'n darged 2030 o allyriadau sero net ar gyfer Cyngor Abertawe a 2050 ar gyfer Abertawe yn ei chyfanrwydd. Mae Siarter Hinsawdd a Wal Addewidion wedi cael eu datblygu i annog grwpiau, cyrff cyhoeddus, busnesau, ysgolion ac unigolion yn Abertawe i ymrwymo i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a hyfforddiant wedi dechrau gyda staff mewnol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhaglen ymwybyddiaeth ar gyfer y sector busnes. Mae Hwb Ymwybyddiaeth Ynni wedi cael ei dreialu yng nghanol y dref, a gynhelir gan Ganolfan yr Amgylchedd, gan roi cymorth ac arweiniad i ddinasyddion ar ddarparu ynni, talu biliau, ynni adnewyddadwy, ac ati.

Rydym yn parhau i roi dulliau gweithio ystwyth ar waith fel bod ein gweithlu'n gallu lleihau teithio diangen ac mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i adael y Ganolfan Ddinesig a sefydlu Hwb Sector Cyhoeddus Canolog; cyflymwyd y broses hon yn sgil y cyfnodau clo.

Mae Cyngor Abertawe yn ceisio cael achrediad ar gyfer y gwaith y mae'n ei wneud i leihau ei ôl troed ecolegol cyffredinol. Yn ogystal â datgarboneiddio, mae hyn yn cynnwys adeiladau, teithio, defnydd o dir a gwastraff, yn ogystal â bioamrywiaeth a'r effaith ar adnoddau naturiol. Mae'r *Safon Un Blaned* yn cydnabod sefydliadau sy'n ceisio parchu ffiniau a chapasiti naturiol y Ddaear trwy addasu effeithiau eu gweithgareddau i lefel sy'n gymesur â'r hyn y gall y blaned ei ddarparu. Ar yr un pryd, mae'n gallu helpu i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd ac ailgyflwyno mwy o fioamrywiaeth a natur i'n hamgylchedd.

Astudiaeth Achos 2: Y Cyngor yn dadorchuddio ei Siarter Gweithredu ar yr Hinsawdd ac Adfer Natur

Aelodau ar draws pleidiau gwleidyddol Cyngor Abertawe fu'r cyntaf i lofnodi Siarter Gweithredu ar yr Hinsawdd y Cyngor. Bydd pobl eraill a sefydliadau ledled y ddinas yn cael cyfle i lofnodi'r siarter ar-lein yn fuan. Mae'n atgof cyhoeddus gweladwy bod y Cyngor yn bwriadu bod yn ddi-garbon net erbyn 2030 – a'i fod yn bwriadu gwneud y ddinas yn sero net erbyn 2050. Arweinwyr gwleidyddol

oedd y bobl gyntaf i lofnodi'r siarter mewn seremoni lle cadwyd pellter cymdeithasol yn Neuadd y Ddinas. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Rob Stewart: "Mae'r siarter yn dangos ymrwymiad y cyngor hwn i wneud popeth y gallwn i helpu i gywiro problemau'r newid yn yr hinsawdd y mae cenedlaethau diweddar wedi'u creu."
"Fel Cyngor, rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth leihau ein hôl troed carbon flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan arbed bron 24,000 o dunelli y flwyddyn o gymharu ag allyriadau 2009 – gostyngiad o fwy na 55%."
"Rydym wedi bod ar lwybr uchelgeisiol o leihau carbon ers 2012, a bellach yn arwain Cymru mewn cynifer o feysydd newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon, cynaliadwyedd a bioamrywiaeth, ond rydym yn bwriadu gwneud llawer mwy."

**Cyflawni'r Strategaeth Ynni i leihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ein hôl troed carbon.**

Cymeradwywyd Strategaeth Ynni a Chynllun Rheoli Carbon ym mis Rhagfyr 2021 ac mae Cynllun Gweithredu ar waith i gefnogi'r broses o'u cyflawni i leihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ôl troed carbon y Cyngor.

Mae Strategaeth Ynni a Rheoli Carbon Cyngor Abertawe wedi'i seilio ar Hierarchaeth Ynni, sy'n dangos mai lleihau'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni yw'r mannau cychwyn gorau (dull Adeiladwaith yn Gyntaf). Mae camau effeithlonrwydd ynni yn lleihau'r galw am ynni ac yn ein galluogi i ddefnyddio ynni'n ddoeth. Bydd sicrhau'r arbedion ynni a'r effeithlonrwydd ynni mwyaf yn hanfodol i ymarferoldeb dibyniaeth ar ffynonellau ynni carbon isel.

Mae Cyngor Abertawe yn caffael ei ynni gan ddefnyddio Cytundebau Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron, trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS), ar gyfer y mwyafrif helaeth o gyflenwadau. Mae'r holl drydan a gaffaelir trwy'r fframwaith NPS yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy 100%; mae 41% yn dod o Gymru (Ebrill 20 – Mawrth 21); Nwy – Cyfanswm Nwy a Phŵer (TGP) wedi'i gaffael fel cyflenwr nwy newydd (Ebrill 21 – Mawrth 22); tariffau Nwy Gwyrdd – yn dibynnu ar hyfywedd ac effaith costau; opsiwn prisio ar gael gyda TGP yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Astudiaeth Achos 3: Cynlluniau i sefydlu fferm solar a weithredir gan y cyngor yn Nhir John

Trwy gynllun Tir John, byddai'r cyngor yn gwerthu trydan gwyrdd a gynhyrchwyd i'r grid cenedlaethol ac yn helpu i leihau ei ôl troed carbon 3% y flwyddyn tan o leiaf y flwyddyn 2050. Byddai'r cynllun 17 erw yn cynhyrchu 3MW y flwyddyn ac yn defnyddio hen ardaloedd tirlenwi ar y safle. Gan ei fod yn safle tirlenwi, nid yw cyflwr y tir yn addas i'w ddatblygu. Fodd bynnag, gallai'r 'ardaloedd wedi'u gorchuddio', nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer tirlenwi mwyach, fod yn addas ar gyfer y fferm solar. Dywedodd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni yn 2021/22, y byddai'r prosiect yn enghraifft arall o ymrwymiad y cyngor i gyfrannu at gefnogi darparu ynni glân i gymunedau lleol. Dywedodd: "Mae cynghorau ledled Cymru yn defnyddio cronfeydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau ynni gwyrdd sy'n talu amdanynt eu hunain ac yn helpu i leihau olion traed carbon." "Gallai'r Fferm Solar hon fod yn allweddol i'n galluogi i gyflawni ein nod o fod yn Gyngor Carbon Niwtral." "Dylai'r prosiect gynhyrchu 101,302,731kw o ynni ar hyd ei oes. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais y dylai 70% o'r ynni a ddefnyddir yn y wlad hon ddod o adnoddau adnewyddadwy erbyn 2030. Bydd y prosiect hwn yn helpu i wireddu'r uchelgais hwnnw."

Mae cydweithio rhanbarthol wedi cael ei sefydlu i gefnogi gostyngiadau ar draws rhanbarth gorllewin Cymru. Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy a berchnogir

gan y gymuned i ddarparu ynni glân er budd ysgolion a chymunedau lleol, gan osod 900 kW o systemau Solar Ffotofoltaig pen to yn llwyddiannus mewn nifer o ysgolion.

Astudiaeth Achos 5: Ysgolion Abertawe yn Gweithredu ar yr Hinsawdd

Mae Egni wedi sefydlu rhaglen addysg uchelgeisiol mewn partneriaeth ag EnergySparks a'r rhaglen Llysgenhadon STEM. Mae porth EnergySparks yn defnyddio data gwirioneddol am ddefnyddio trydan a nwy, yn ogystal â chynhyrchu solar, ac yn galluogi disgyblion a staff i wneud gwelliannau ynni y gallant eu mesur wedi hynny yn y data.
Dywedodd Rosie Gillam, cydgyfarwyddwr Egni: "Mae'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni trwy weithredu ar y cyd. Mae gennym 88 o safleoedd ledled Cymru bellach, ac maen nhw'n arbed tua £108k y flwyddyn ar eu costau trydan – ac yn atal dros 1,000 o dunelli o CO2 rhag cael eu hallyrru. Mae disgyblion a staff Abertawe wedi bod mor gefnogol a brwdfrydig wrth helpu i wireddu'r prosiectau hyn yn ystod cyfnod anodd.''

**Gweithredu wrth ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd.**

Ar ôl i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Mehefin 2019, datganwyd Argyfwng Natur yn 2021 ac Argyfwng Ynni ym mis Chwefror 2022. Cymeradwywyd Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur ym mis Tachwedd 2021 ac mae Cynllun Gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Roedd Arolwg Hinsawdd y cyngor, a fwriadwyd ar gyfer pob preswyliwr o bob oed a sefydliadau o bob math, yn cynrychioli dechrau'r sgwrs, wrth i'r cyngor geisio creu dull dinas gyfan strategol o gyflawni Abertawe ddi-garbon net. Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg ym mis Tachwedd 2021, ac roeddent yn cynnwys yr agweddau canlynol:

- Bylchau Covid – mae mwy o ymgysylltiad wedi'i dargedu â phlant, pobl ifanc, busnesau a chyfleoedd all-lein wyneb yn wyneb wedi'i gynllunio. Trafododd Aelodau'r angen parhaus am ymgysylltu'n well â phlant a phobl ifanc, a sut gall y Cyngor ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn well.
- Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 15 Chwefror a 29 Mawrth 2021. Ar ôl glanhau'r data, mae 967 o ymatebion a 396 o ymatebion i arolwg barn Twitter wedi llywio'r adroddiad. Mae nifer uchel o sylwadau ansoddol ynglŷn â phob pwnc yn dangos cymaint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yn yr agenda hon, gyda'r mwyafrif helaeth o sylwadau'n mynnu camau gweithredu cadarnhaol a lleiafrif bach yn mynegi barn negyddol, pryderon neu ddewisiadau amgen.
- Roedd ymateb cadarnhaol iawn i ddeg prif gam gweithredu arfaethedig y Cyngor i sicrhau ei fod yn sefydliad Sero Net erbyn 2030. Roedd y gefnogaeth gadarnhaol i bob un o'r camau gweithredu arfaethedig yn amrywio o rhwng 80% a 98% (lle'r oedd ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno). Roedd y cytundeb cryfaf o blaid 'gorchudd ceod a bioamrywiaeth', sef cytundeb 85%.

Astudiaeth Achos 6: Marchnad Abertawe.

Mae mwy na 40 o baneli ffotofoltaig wedi cael eu gosod ar y to i gynyddu rhinweddau gwyrdd y lleoliad, gan helpu'r ddinas i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
Disgwylir i'r arwyneb 80 metr sgwâr o baneli ddarparu mwy na 5% o bŵer y farchnad – a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol gan dair tunnell.

Mae mesurau lleihau carbon eraill sydd eisoes ar waith yn y cyfleuster a gynhelir gan Gyngor Abertawe yn cynnwys goleuadau LED yn y swyddfeydd ac mewn lleoliadau eraill ac amwynderau ailgylchu i drin gwastraff.

**Parhau i gymryd rhan yn y fenter Abertawe Carbon Isel a'i chefnogi.**

Mae'r Cyngor wedi parhau i fod yn aelod ymroddedig o rwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel. Amharodd y pandemig ar weithgareddau a digwyddiadau unwaith eto eleni, ond cynhaliwyd gweminarau ar-lein a'r pwyslais allweddol i bartneriaid Bae Abertawe Carbon Isel eleni oedd paratoi Siarter Teithio Iach Bae Abertawe ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Fforwm Amgylcheddol Abertawe.

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydanol. Mae gan Gyngor Abertawe tua 60 o gerbydau trydan yn ei fflyd yn barod. Bydd 200-300 o rai eraill yn cael eu cyflwyno yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae prosiectau eraill sy'n cael eu cyflwyno gan y cyngor i helpu'r ddinas i leihau allyriadau carbon yn cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan. Ar hyn o bryd, mae 12 o feysydd parcio'r cyngor yn cynnig mannau gwefru cerbydau trydan i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae'r holl fannau gwefru ym meysydd parcio'r cyngor yn darparu trydan adnewyddadwy 100% i ddefnyddwyr. Mae'r 12 safle gyda'i gilydd yn cynnig cyfanswm o 32 o fannau gwefru 'cyflym', sy'n golygu bod y mannau gwefru'n cynnig 7-22kW o bŵer.

Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i osod mannau gwefru cerbydau trydan ar draws ardal yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o newid i system drafnidiaeth garbon isel, allyriadau isel yng Nghymru, ac yn cyd-fynd â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru, a Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru.

Astudiaeth Achos 7: Siarter Teithio Iach Bae Abertawe.

Yn dilyn ymlaen o waith a wnaed yn ystod 2021/22, lansiwyd Siarter Teithio Iach Bae Abertawe ym mis Mai 2022, a lofnodwyd gan 11 o sefydliadu blaenllaw o bob rhan o'r rhanbarth.

Cadarnhaodd Dirprwy Arweinydd ar y Cyd Cyngor Abertawe, y Cynghorydd Andrea Lewis, gefnogaeth y Cyngor i Siarter Teithio Iach Bae Abertawe a'r ymrwymiad i gymryd camau ymarferol i hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Dywedodd y Cynghorydd Lewis: ''Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y siarter. Mae gwaith rhagorol eisoes yn cael ei wneud, gan annog pobl leol i ystyried opsiynau trafnidiaeth mwy llesol a chynaliadwy, fel cerdded, beicio, defnyddio cerbydau allyriadau isel a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus."

Mae'r camau gweithredu yn y Siarter yn cynnwys sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy ym mhob sefydliad, datblygu ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu ar gyfer staff, cynnig a hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith a hyrwyddo gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r sector cyhoeddus yn Abertawe yn cyflogi dros draean o'r oedolion sy'n gweithio (dros 42,000 o bobl), felly gallai'r ymrwymiad hwn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd yn ogystal â buddion iechyd cysylltiedig.

**Cefnogi mentrau a fydd yn cynyddu'r gorchudd coed trefol yn Abertawe.**

Mae prif wythïen werdd wedi cael ei chreu trwy Ganol Dinas Abertawe gyda nifer o fannau gwyrdd â choed ar bob ochr iddynt wedi'u hintegreiddio o fewn ailddatblygiad Ffordd y Brenin, gan ddyblu nifer y coed yn yr ardal hon o ganol y ddinas, ac ychwanegu ardaloedd glaswelltog mawr gyda phlanhigion a llwyni ychwanegol. Mae'r coed newydd (tua 170) yn cynnwys coed gwern, bedw, ceirioswydd, leimwydd, masarn a gellyg blodeuol.

Yn rhan o brosiectau plannu coed eraill yng nghanol y ddinas, fel y Boulevard a Westway, mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer sylweddol fwy o goed stryd ac ardaloedd gwyrdd eraill nag a oedd yn bresennol yn flaenorol. Mae hyn wedi creu strydlun deniadol a bydd yn annog mwy o fioamrywiaeth.

Mae mwy o waith plannu coed helaeth wedi cael ei wneud ar dir y Cyngor ledled y Sir, gan gynnwys hyd at 1000 o goed a 5600 o goed chwip, ac mae'r Cyngor wedi cael ei ddatgan yn Ddinas Hyrwyddo Gwyrdd Y Frenhines i gydnabod ei brosiectau plannu coed helaeth.

Astudiaeth Achos 9: Canopi Gwyrdd Y Frenhines

Cyhoeddodd Canopi Gwyrdd y Frenhines y byddai Abertawe'n ymuno â deuddeg dinas arall o amgylch y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Manceinion a Chaerlŷr, i helpu i ddathlu 70fed pen-blwydd Ei Mawrhydi Y Frenhines ar yr orsedd.
Dywedodd Rob Stewart, Arweinydd y Cyngor: "Mae'n fraint fawr i Abertawe gael ei henwebu i fod yn Ddinas Hyrwyddo Canopi Gwyrdd Y Frenhines.''
"Mae'n cydnabod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth greu parc trefol newydd yng nghanol y ddinas – y cyntaf yn Abertawe ers canrif – a phlannu miloedd o goed ar hyd llwybrau allweddol yn Abertawe.''
"Rydym hefyd yn cael ein cydnabod am y gwaith rydym wedi'i wneud gyda phartneriaid i blannu hyd yn oed mwy o goed o amgylch y ddinas, gan gynnwys miloedd o goed newydd mewn safleoedd gan gynnwys Caeau Chwarae Mynydd Newydd ac ardaloedd preswyl fel Penlan.''
Mae Ffordd y Brenin wedi cael ei hail-lunio'n fan gwyrdd bywiogol yng nghanol y ddinas sy'n cynnwys mwy na dwywaith cymaint o goed a gwyrddni nag o'r blaen. Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgynghori ynglŷn â gwneud rhywbeth tebyg yng Ngerddi Sgwâr y Castell, a disgwylir newyddion ar gynigion yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.
Dywedodd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd: "Mae'r newyddion bod y ddinas yn cael y teitl hwn yn cydnabod y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hefyd y cynlluniau sydd gennym ar gyfer y dyfodol.
"Mae'n amlwg yn cydnabod ein hymdrechion i wella isadeiledd gwyrdd y ddinas a gwella ein hamgylchedd lleol.
"Mae ein holl lwybrau beicio newydd yn elwa o blannu coed ychwanegol. Rydym wedi plannu mwy o goed mewn llawer o'n parciau yn ddiweddar. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cydnabod y gwaith i reoli ein coed presennol a chael gwared ar goed afiach a pheryglus a'u disodli â rhywogaethau mwy addas rydym yn gwybod eu bod yn ffynnu mewn ardaloedd trefol."
Dechreuodd y tymor plannu coed fis diwethaf a'r ardaloedd a fydd yn cael coed newydd fydd yr ardal o amgylch cyffordd Broadway ar ei newydd wedd uwchben Tycoch, Pontybrenin, Parc Sgeti, Parc Ynystawe, Wind Street, Townhill ac yng Ngorseinon. Disgwylir i lwybrau beicio oddi ar y ffordd a llwybrau i gerddwyr elwa o blannu coed ychwanegol hefyd.

Mae Cyngor Abertawe hefyd yn bwrw ymlaen â chysyniad newydd ar gyfer Sgwâr y Castell yng nghanol y ddinas, gan gyflwyno mwy o wyrddni. Byddai'r un faint o le i bobl ymgasglu, eistedd allan

ac ymlacio. Byddai'r lle gwyrdd yn tyfu o'r 25% presennol i fwy na 40%. Byddai bioamrywiaeth yn cynyddu a byddai'r rhan fwyaf o goed presennol yn aros, gyda choed newydd yn cael eu plannu.

**Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol trwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a digwyddiadau.**

Mae rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau amgylcheddol yn cael ei chyhoeddi ar-lein i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol lleol. Dathliad blynyddol o fywyd gwyllt godidog Cymru gyda llu o ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol ac ar-lein sy'n tynnu sylw at wahanol gynefinoedd – coetiroedd, gwlyptiroedd, dolydd, mawndiroedd, a chynefinoedd morol, arfordirol a threfol.

Mae digwyddiadau diweddar wedi cynnwys:

- Celf Natur yng Nghoed yr Esgob: Bore o ddarganfod a chreadigrwydd gan ddefnyddio'r hyn y mae natur yn ei ddarparu.
- Bore Gwirfoddoli ym Mynwent Babell: Helpu i greu lle i natur a phobl yng nghalon Cwmbwrla yn y fynwent hon sydd wedi'i hesgeuluso. Mae'r tasgau'n cynnwys torri a diwreiddio mieri, casglu sbwriel a datblygu ardal ardd.
- Darganfod Gwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich: Taith gerdded a arweinir gan warden o amgylch y twyni, ar draws llwybrau pren i weld adar gwyllt, lliaws o weision y neidr ac efallai dyfrgi, hyd yn oed, cyn chwilio am nadroedd yng nghlawdd y gwiberod ac yna teithio trwy'r dwyni ac yn ôl ar hyd y traeth.
- Sesiwn Wirfoddolwyr Fferm Gymunedol Abertawe: Cyfleoedd i ddysgu pethau newydd, cysylltu â phobl a bod yn egnïol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys glanhau ar ôl yr anifeiliaid, garddio organig, cymryd rhan mewn tasgau natur a chadwraeth, adeiladu neu gynnal a chadw'r safle.
- Ymlusgiaid a Blodau Gwyllt gydag Ieuenctid Cymdeithas Gŵyr: Archwilio'r lloches bywyd gwyllt yng Nghae Nitten i weld ymlusgiaid a blodau gwyllt yn y lleoliad unigryw hwn.

Astudiaeth Achos 10: Hyfforddiant arbenigol yn helpu Cyngor Abertawe i gymryd mwy o gamau gweithredu nag erioed i atal y newid yn yr hinsawdd Case Study 10: Expert tuition is helping Swansea Council take more action than ever to help curb climate change.

O ganlyniad i gyfres o wersi a gweithdai "llythrennedd carbon", mae Aelodau a swyddogion wedi cymryd camau allweddol wrth i'r cyngor weithio i wneud Abertawe yn ddi-garbon net erbyn 2050. Mae'r cyngor ei hun yn bwriadu bod yn sero net erbyn 2030.
Dywedodd Andrea Lewis, Dirprwy Arweinydd ar y Cyd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau yn 2021/22: "Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i fynd i'r afael ag argyfwng hinsawdd a natur y byd – ac rydym eisiau i weddill Abertawe ymuno â ni.
"Mae cynnig cyrsiau llythrennedd carbon i'n staff a'n Haelodau yn gam bach ond pwysig. Rydym yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant ar yr hinsawdd ar draws y cyngor."
Mae llythrennedd carbon yn golygu ymwybyddiaeth o gostau carbon ac effeithiau gweithgareddau pob dydd a'r gallu i leihau allyriadau.

**Darparu cyfleoedd i blant ysgol gael mynediad i'w hamgylchedd naturiol a dysgu amdano.**

Mae rhaglen o gymorth i ysgolion, a ohiriwyd o ganlyniad i Covid, i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, gan gynnwys gweithgareddau ar y safle a mentrau ymarferol, wedi ailgychwyn.

Mae’r Cyngor yn cynorthwyo disgyblion y Cyfnod Sylfaen i astudio a dysgu yn yr awyr agored, gan sicrhau parch at natur, bioamrywiaeth ac ecosystemau. I gefnogi hyn, mae Tîm Cadwraeth Natur y Cyngor wedi darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â natur trwy ystod o fentrau, fel:

- Gweithgareddau awyr agored a ddarperir yng Nghanolfannau Gweithgarwch y Cyngor ym Mhorth Einon, Rhosili a Choed yr Esgob, Caswell.
- Ymweliadau astudiaethau maes rheolaidd a digwyddiadau cyhoeddus niferus yng Ngwarchodfa Natur Leol Coed yr Esgob.
- Mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd wedi cael eu darparu i gynyddu gallu athrawon i weithio gyda disgyblion yn yr awyr agored.
- Darparwyd cymorth hefyd ar gyfer gweithgareddau Ysgol Goedwig a Cherflun ar Lan y Môr.

Mae gwaith mewn ystafelloedd dosbarth, trwy bynciau trawsgwricwlaidd sy’n cyd-fynd â’r cwricwlwm gwyddoniaeth a daearyddiaeth, yn nodwedd allweddol o addysg gynaliadwyedd. Mae datblygu’r amgylchedd awyr agored a sefydlu cysylltiadau â phrosiectau ac ysgolion ar lefel ryngwladol hefyd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth well o fioamrywiaeth leol yn ogystal â dinasyddiaeth fyd-eang. Mae nifer o ysgolion Abertawe wedi ennill achrediad y Wobr Blatinwm ar gyfer eco-ysgolion (mae gan 42% o ysgolion wobr Blatinwm a 23% wobr Baner Werdd).

Mae gweithgareddau datblygu’r amgylchedd naturiol o fewn tiroedd ysgol Abertawe wedi cynnwys tyfu gerddi llysiau, agor gwestai pryfed, hau gwelyau blodau uchel, plannu coed a pherllannau a sefydlu llwybrau llythrennedd. Mae lleihau defnydd a gwastraff yn thema allweddol yn ysgolion Abertawe hefyd. Mae parodrwydd cryf gan ysgolion i ailgylchu ac ailddefnyddio yn cael ei hyrwyddo gan aelodau pwyllgor eco-ysgolion ledled Abertawe. Mae bron pob ysgol yn Abertawe wedi datblygu eu côd eco eu hunain i gefnogi cynaliadwyedd ac mae thema datblygu ‘dinasyddion moesegol’ yn nodwedd gref o’r Cwricwlwm newydd i Gymru (2022).

Astudiaeth Achos 11: Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt

Mae Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe yn falch o gyhoeddi ei chefnogaeth i’r prosiect Ardal Natur ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored sy’n cael ei ddarparu gan Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt.
Mae’r Bartneriaeth wedi dyrannu £5,000 o gyllid yn llwyddiannus trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.
Dywedodd Hamish Osborn, o Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe: “Mae’r Grŵp Gweithredu Lleol yn falch o fod yn cefnogi’r prosiect Ardal Natur ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored. Gwelwn werth datblygu mannau a fydd nid yn unig yn annog bioamrywiaeth, ond hefyd yn darparu offeryn dysgu gwerthfawr i’n cenhedlaeth iau er mwyn iddynt ddeall pwysigrwydd gofalu am ein hamgylchedd”.
Mae’r prosiect Ardal Natur ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored yn ymateb i ddisgyblion Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt a’r gymuned leol sydd eisiau annog Dysgu yn yr Awyr Agored, trwy greu ardal natur benodol y gellir ei defnyddio bob dydd fel ardal weithio i blant.
Bydd yr ysgol yn cyfrannu at nodau Strategaeth Cyflawni Lleol Abertawe trwy wella iechyd, cynnal a gwella bioamrywiaeth; lleihau eu hôl troed carbon; ac, yn hollbwysig, gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o’n hamgylchedd naturiol.

**Gweithio tuag at wella mynediad i’n parciau a’n mannau gwyrdd a chynnal eu hansawdd.**

Mae’r parc trefol cyntaf i’w greu yn y ddinas ers y cyfnod Fictoraidd wedi cael ei gwblhau yn 2022, sy’n cyffinio ag Arena newydd Abertawe. Mae’r parc arfordirol, a adeiladwyd uwchben maes parcio newydd, wedi cael ei ddylunio mewn siâp twyni i ddathlu ei agosrwydd i draeth Abertawe. Mae wal fyw ar ochr Heol Ystumllwynarth y maes parcio newydd i ategu’r gwyrddni newydd a gyflwynwyd.

Mae Cyngor Abertawe hefyd wedi sicrhau cyllid grant o fwy na £240,000, a gafwyd yn ystod 2021/22, i wella ansawdd parciau a mannau gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau plannu coed. Cyflwynwyd cais am fwy na £370,000 o gyllid ar gyfer 2022/23 i barhau â’r gwaith hwn.

**Parhau i gyflwyno rhaglen o blannu a rheoli blodau gwyllt.**

Mae rhaglen plannu blodau gwyllt y Cyngor wedi ymestyn bellach i oddeutu 40,000 o fetrau sgwâr (tua 6 chae pêl-droed) o flodau gwyllt ar draws oddeutu 190 o safleoedd. I gefnogi hyn, prynwyd peiriannau torri a chasglu newydd a ariannwyd gan grant i helpu i reoli torri gwair yn well a helpu i hybu blodau gwyllt a pheillwyr trwy gynnal llystyfiant rhywogaeth gyfoethog. Mae hyfforddiant cyflenwol wedi cael ei ddarparu hefyd, gan gynnwys rheoli glaswelltir ar gyfer parciau/lleiniau ymyl ffordd; buddion torri a chasglu; y goeden iawn yn y lle iawn ac argyfwng natur.

Ym mis Mehefin 2022, adroddodd Newyddion Bae Abertawe *yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae’r cyngor wedi denu pryfed peillio i’w leiniau ymyl ffordd, cylchfannau, parciau a thir garw trwy ganiatáu i’r gwair dyfu’n hir mewn lleoliadau dethol, sy’n caniatáu i flodau gwyllt flodeuo, a thrwy hadu gwelyau ffurfiol â chymysgedd lliwgar o flodau.*

Mae’r Cyngor bellach yn cyflwyno blodau gwyllt brodorol mewn dwsin o leoliadau o amgylch y ddinas a fydd yn blodeuo o flwyddyn i flwyddyn. Mae hadau a ddewiswyd yn benodol o ddolydd blodau gwyllt Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Sir Gaerfyrddin wedi cael eu plannu. Mae’r cam hwn yn cefnogi ymrwymiad y cyngor i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth trwy hyrwyddo bywyd planhigion a phryfed, ar ben y ffyrdd newydd o dorri gwair sy’n hybu peillwyr a pharciau a lleiniau ymyl ffordd amgylcheddol iach.

Astudiaeth Achos 12: Ffyrdd newydd o dorri gwair.

Diolch i grantiau gan Lywodraeth Cymru (Lleoedd Lleol ar gyfer Natur) ar gyfer offer newydd a chyngor gan yr eco-elusen Plantlife, mae’r Cyngor yn defnyddio ffyrdd newydd o dorri gwair sy’n hybu peillwyr, blodau gwyllt a pharciau a lleiniau ymyl ffordd amgylcheddol iach.
Mae’r cam hwn yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu at fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth trwy hyrwyddo bywyd planhigion, ac mae’n ychwanegol at ei fenter plannu blodau gwyllt sy’n boblogaidd iawn.
Dywedodd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wella’r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd yn 2021/22:
"Gwnaethom arwain y ffordd ymhlith awdurdodau lleol gyda’r fenter blodau gwyllt, gan greu noddfa i bryfed a oedd hefyd yn ychwanegiadau lliwgar at gymunedau ac ymylon ffyrdd.
"Ar yr un pryd, gwnaethom hefyd leihau torri gwair er mwyn caniatáu i bryfed a blodau gwyllt ffynnu mewn parciau ac ar ymyl ffyrdd. Rydym bellach yn bwriadu rhoi hwb arall i amrywiaeth leol trwy ein rhaglen rheoli gwair newydd, sef torri a chasglu.
"Mae ein dull newydd o dorri gwair yn ychwanegol at yr hyn rydym eisoes yn ei wneud ac mae’n sicrhau’r gorau o ddau fyd oherwydd ei fod yn annog cynnal llystyfiant rhywogaeth gyfoethog mewn parciau a lleiniau ymyl ffordd. Mae hefyd yn ffrwyno twf planhigion goresgynnol sy’n gallu meddiannu cynefinoedd weithiau.

"Ond y peth gorau amdano yw ein bod yn torri'r gwair ddwywaith yn y tymor ar adegau penodol fel bod blodau'n gallu cwblhau eu cylch oes a dosbarthu hadau'n naturiol yn barod ar gyfer y tro nesaf.
"Mae'r dull hwn o dorri ardaloedd glaswelltog yn llai aml ac yn hwyrach yn ailgyflenwi'r banc hadau, yn adfer amrywiaeth flodeuog, ac yn darparu cynefin i beillwyr ar draws y sir."
Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cynllun gyda chyllid grant ar gyfer offer torri arbenigol a pheiriannau newydd. Mae'n torri a chasglu gwair ar yr un pryd â chael gwared ar lystyfiant marw arall yn ofalus i ganiatáu i aer a glaw gyrraedd y pridd fel bod yr hadau'n cael lle i egino.

**Ymgysylltu â chymunedau lleol i annog gwirfoddoli a'u cynorthwyo i weithredu i wella a chynnal eu mannau gwyrdd a'u safleoedd bywyd gwyllt lleol.**

Er gwaethaf effaith y pandemig, mae cydweithio â grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill wedi parhau a chynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gyda Phartneriaeth Natur Leol Abertawe, Gwirfoddolwyr Cymunedol Clun, Chwarel Rosehill, amryw Grwpiau Cyfeillion Parciau a Chanolfan yr Amgylchedd.

Crëwyd swydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr yr Amgylchedd Naturiol a ariennir gan grant yn 2022 i ailsefydlu a chefnogi cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli amgylcheddol, gan fod gweithgareddau o'r fath wedi cael eu cwtogi gan Covid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Cymryd camau gweithredu sy'n helpu i reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol.**

Mae'r Tîm Cadwraeth Natur yn gyfrifol am reoli 6 Gwarchodfa Natur Leol a nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINCs) y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. Mae hefyd yn rhoi cyngor i staff eraill y Cyngor sydd â chyfrifoldebau rheoli tir. Mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau a chytundebau rheoli, gwaith rheoli a chynnal a chadw safle ymarferol, mynd i'r afael â Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (RHAY), rheoli contractwyr a chynorthwyo cymunedau a gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn darparu bioamrywiaeth.

Mae'n gallu cymryd hyd at 5 mlynedd i glirio RhAY o safle ac mae rhaglenni clirio treigl yn mynd rhagddynt sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ystadau tai'r Cyngor i wella ansawdd yr amgylchedd lleol. Ond hefyd, eleni, trwy gynigion llwyddiannus am gyllid grant, mae'r gwaith hwn yn ymestyn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr, gan gynnwys prosiect £10,000 i ddileu clymog Japan o Goed Ilston, yn ogystal â gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddileu rhywogaethau anfrodorol ymledol o safleoedd a reolir fel Parc Gwledig Clun.

**Cymryd amrywiaeth o gamau i wella ansawdd aer a dŵr.**

Mae Cyngor Abertawe yn cyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn sy'n cynghori ar asesu ansawdd aer amgylchynol yn unol â chrynodiadau amcan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Tîm Rheoli Llygredd a Thai Sector Preifat yn parhau i fonitro ansawdd aer ar draws yr awdurdod, gan weithio gydag adrannau eraill y Cyngor. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor i ddarparu mewnbwn ac asesu effeithiau ansawdd aer ar gyfer cynlluniau priffyrdd. Yn rhan o gydweithio â'r Tîm Cadwraeth Natur, mae 'Sgrin Werdd' wedi cael ei gosod ar hyd Ffordd Fabian.

Er bod Abertawe'n cydymffurfio ag Amcanion Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn parhau i weithio tuag at leihau amlygiad lle y bo'n bosibl.

Cynhaliwyd adolygiad ac asesiad aml-gam o ansawdd aer yn Abertawe i amlygu'r ardaloedd hynny a fyddai'n torri'r safonau a'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Mae data amser real am ansawdd aer yn cael ei bostio ar-lein ac ar y safle mewn perthynas â'r safleoedd hyn (https://www.abertawe.gov.uk/ansawddaer).

Mae ansawdd dŵr ymdrochi'n cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae traethau Gŵyr yn rhagori ar y safonau'n rhwydd. Fodd bynnag, mae Bae Abertawe yn fwy cymhleth ac yn newid drwy gydol y dydd. Felly, mae'r Cyngor yn postio gwybodaeth hyd at 3 gwaith y dydd ar y safle ac yn darlledu ar gyfryngau cymdeithasol hefyd. (https://www.abertawe.gov.uk/dwrymdrochi)

Astudiaeth Achos 14: Cysgodfannau bysiau 'gwyrdd' newydd

Mae Cyngor Abertawe yn y broses o amnewid mwy na 100 o hen gysgodfannau bysiau ar draws y ddinas, y gosodwyd llawer ohonynt 30 mlynedd yn ôl. Mae'r cysgodfannau newydd yn cael eu darparu gan Bus Shelters Ltd.
Bydd rhan o'r gwaith uwchraddio ar draws y ddinas yn cynnwys 10 cysgodfan fysiau 'to gwyrdd' newydd, yn cynnwys planhigion naturiol ar eu pen, a all helpu i hidlo gronynnau llwch allan a chyfrannu at well ansawdd aer.
Bydd y cysgodfannau bysiau 'gwyrdd' yn cael eu gosod ar hyd ymyl y ffordd yn Heol y Mwmbwls, Heol Ystumllwynarth, Quay Parade, Heol Walter a Heol San Helen.
Dywedodd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd yn 2021/22:
"Mae ein stoc bresennol o gysgodfannau bysiau wedi bod yn eu lle ers degawdau ac mae angen eu huwchraddio.
"Rydym yn trefnu i fwy na 100 o gysgodfannau newydd gael eu gosod yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.
"Rydym hefyd wedi penderfynu cyflwyno nifer o gysgodfannau bysiau ecogyfeillgar ar hyd rhai o'n llwybrau bysiau prysur yn y ddinas. Er y gallent ymddangos yn anghyffredin i rai – byddant yn sicr yn helpu ein gwaith ehangach i wella ansawdd aer a gobeithir y byddant yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd isadeiledd gwyrdd pan fydd y cyhoedd yn eu gweld.
"Bydd y cysgodfannau bysiau gwyrdd newydd hefyd yn ategu ein datblygiad Parc Arfordirol y Bae Copr, lle rydym yn cyflwyno man gwyrdd i'r cyhoedd ei fwynhau."
Bydd cam cychwynnol y rhaglen uwchraddio hon yn cynnwys symud cysgodfannau bysiau presennol ymaith. Yna, bydd cysgodfannau newydd yn cael eu gosod yn fuan wedi hynny.

**Gwneud gwelliannau (dethol neu wedi'u targedu) i fannau gwyrdd yn rhan o raglen waith amgylcheddol i fodloni ein hymrwymiad i Safon Ansawdd Tai Cymru.**

Mae gwella mannau gwyrdd wedi bod yn broses barhaus dros y 4 blynedd diwethaf fel rhan o'r rhaglen waith amgylcheddol i fodloni ymrwymiad y Cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru a mynd i'r afael â diffygion mewn mynediad at fannau gwyrdd naturiol.
https://www.abertawe.gov.uk/satc

Ataliwyd y broses o adrodd ar Safon Ansawdd Tai Cymru i Lywodraeth Cymru yn 2020 o ganlyniad i Covid. Ar 31 Rhagfyr 2020, roedd 7,753 o gartrefi'n cydymffurfio'n llwyr ac mae 5,795 o gartrefi sy'n cynnwys un methiant derbyniol o leiaf yn Abertawe. Mae hyn yn golygu bod 57.2% yn cydymffurfio'n

llwyr a bod gan 42.8% fethiannau derbyniol. Bydd lefelau cydymffurfio'n llwyr yn cynyddu a bydd methiannau derbyniol yn lleihau wrth i'r rhaglenni gwella sy'n weddill barhau.

Mae Cyngor Abertawe wedi cwblhau'r prosiect ôl-osod yng Nghraig-cefn-parc gydag Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd. Dyma'r cynllun ôl-osod cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n cynnwys 6 byngalo sydd wedi cael inswleiddio waliau allanol, rendro newydd, a ffenestri a drysau newydd sy'n arbed ynni. Mae pob eiddo wedi cael ei osod â thechnolegau adnewyddadwy, gan gynnwys pympiau gwres o'r ddaear, toeon integredig â phaneli solar, storfeydd batri Tesla ac unedau Adfer Gwres trwy Awyru Mecanyddol (MVHR).

Mae hyn wedi trawsnewid y byngalos yn rhai o'r cartrefi sy'n defnyddio ynni'n fwyaf effeithlon yng Nghymru, gan wella gwres a chysur y byngalos yn sylweddol. Mae cryn dipyn yn llai o alw am ynni, gan felly leihau biliau ynni i'r preswylwyr.

**Defnyddio llai o gynhyrchion a deunyddiau na ellir eu hailgylchu, ac ailgylchu mwy o wastraff.**

Y data blynyddol dros dro ar gyfer 2021 sy'n mesur y gwastraff trefol a gasglwyd ac a ailddefnyddiwyd a/neu a ailgylchwyd oedd 63.68%. Mae'r data dros dro o ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn cyfnodau adrodd/data ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r gyfradd ailgylchu gymharol ychydig yn is na ffigurau'r llynedd o ganlyniad i effaith barhaus Covid, mae mwy o fagiau du yn cael eu gosod wrth ymyl y ffordd ac mae gwastraff masnachol wedi cynyddu bron iawn i lefelau cyn Covid.

3. Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr ac yn y tymor hir)?

Mae'r camau gweithredu sy'n ofynnol yn amcanion tymor hir neu'n gamau gweithredu parhaus, yn bennaf, y gellir eu mesur mewn degawdau mewn rhai achosion e.e. di-garbon net erbyn 2030, cynyddu'r gorchudd canopi coed penodol erbyn 2044, ac ati. Nid yw'r rhain yn gamau gweithredu addas i'w monitro'n chwarterol neu hyd yn oed yn flynyddol mewn nifer o achosion. Er bod rhaid iddynt barhau i fod yn ymrwymiadau parhaus, yn amlwg, mae angen rhai targedau penodol CAMPUS.

Gan ddefnyddio map llwybr Llywodraeth Cymru i sero net, bydd Cyngor Abertawe yn cyd-fynd â'i egwyddorion, gan wybod beth y mae angen ei wneud yn awr, erbyn 2022-26 pan fydd carbon isel yn dod yn arfer, ac erbyn 2030 pan fydd dewis carbon sero'n arferol. Bydd yr amcan hwn yn allweddol i ymateb yn effeithiol i'r duedd a amlygwyd yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru – Iechyd y Blaned a Chyfyngiadau.




Ar sail Adroddiad 2020 y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd Cyngor Abertawe yn ceisio canolbwyntio ar y meysydd canlynol a dylai:

- Ddangos dinasyddiaeth fyd-eang ac arweinyddiaeth trwy gefnogi ymddygiad cynaliadwy a gwneud y cysylltiadau.
- Cyfrannu at sicrhau bod Cymru yn groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.
- Ymrwymo i fuddsoddi a gwaredu teg a moesegol – gwneud y penderfyniadau ariannol iawn yn awr i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu.
- Sicrhau bod cadwyni cyflenwi'n deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy.
- Sicrhau bod Abertawe yn deall pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon er mwyn cyfrannu at les byd-eang.

O fewn y Cyngor, dangosir dealltwriaeth glir o ateb yr heriau tymor hir, er enghraifft:

- *Datgarboneiddio* – Ym mis Hydref 2021, cyflwynodd Cyngor Abertawe ei adroddiad allyriadau cyntaf i Lywodraeth Cymru. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn ddi-garbon net erbyn 2030 ac Abertawe erbyn 2050. Paratôdd a chyflwynodd y Cyngor adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019 (Adroddiad Monitro Adran 6) yn amlinellu'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Fioamrywiaeth Adran 6. https://democracy.swansea.gov.uk/documents/s62825/11%20-%20Section%206%20Biodiversity%20Monitoring%20Report%20Dec%202019.pdf

- *Addewid Hinsawdd* – Gellir dangos gweithio ar y cyd i ddylanwadu ar newid ymddygiad ar draws Abertawe trwy gyflwyno addewid hinsawdd, y ffaith bod busnesau mawr ledled Abertawe wedi llofnodi ein siarter hinsawdd, gwaith parhaus gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithio ar y cyd â phartner amgylcheddol, ysgolion, grwpiau cymunedol a busnesau. Mae risgiau'n cael eu monitro trwy'r gofrestr risg gorfforaethol ac roedd Abertawe wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Mehefin 2019, Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2021 a Hysbysiad o Gynnig Argyfwng Ynni ym mis Ionawr 2022.

Sut byddwn yn gwneud yn well – Byddwn yn

- Monitro’r broses o gyflawni’r Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol Adran 6, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a nod Cymru Gydnerth trwy ddulliau cynllunio busnes ac adrodd blynyddol hyd at 2027. Byddwn yn adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd yn unol â’n Dyletswydd Fioamrywiaeth.
- Ymsefydlu Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur a monitro’r broses o gyflawni Cynlluniau Gweithredu unigol hyd at 2027
- Parhau i fonitro ansawdd aer, dŵr a phridd.
- Monitro’r broses o gyflawni targedau’r Cynllun Gweithredu ar Ynni a gynigiwyd hyd at 2027.
- Amlinellu mesurau newydd ar gyfer monitro effaith y ffordd rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn unol â phecyn cymorth mesur carbon sy’n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.
- Ymsefydlu a chyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy hyd at 2027.
- Parhau i adrodd ar nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd hyd at safonau di-garbon net ac amlinellu mesurau newydd ar gyfer cofnodi datgarboneiddio ein stoc bresennol yn unol â chanllawiau sy’n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.
- Adrodd am y broses o gyflawni Strategaeth Lleihau Gwastraff.
- Sicrhau grantiau a chyllid allanol arall i helpu i gyflawni’r uchod.

4. Casgliad – i ba raddau y mae’r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau’n effeithiol

Mae adolygiad o’r dystiolaeth ynglŷn â ph’un a yw’r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau’n effeithiol mewn perthynas â’i flaenoriaeth Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth yn awgrymu ei fod yn gwireddu ei uchelgais.

| *Amcanion lles* | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth* | | | | *x* | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau'n cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu’n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

Mae’r dystiolaeth yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gymryd y camau sy’n ofynnol i gyflawni’r amcan lles hwn ac, ar lefel strategol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf trwy ddatgan argyfyngau hinsawdd a natur, sefydlu bwrdd rhaglen gorfforaethol cysylltiedig a grŵp llywio aelodau. Mae pwyllgorau craffu’n goruchwylio cynnydd o ran mynd i’r afael â materion yn ymwneud â’r hinsawdd a natur, ac mae gan y Cyngor Gynllun Adran 6 bellach i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Ddyletswyddau Bioamrywiaeth. Mae mwy o gysylltiad â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill sy’n gyfrifol am faterion yn ymwneud â’r hinsawdd a natur. Mae adnoddau staff ychwanegol wedi cael eu darparu/yn cael eu darparu i helpu i gyflawni prosiectau

sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn lleol, tra bod mwy o grantiau'n cael eu cynnig gan ddarparwyr cyllid dros gyfnodau hwy i gydnabod nad oes ateb cyflym.

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.*

Mae Cyngor Abertawe yn cynyddu ei gyfraniad at ei nodau lles a'r nodau cenedlaethol i'r eithaf, gan ymsefydlu natur wrth wraidd Abertawe trwy sicrhau bod isadeiledd gwyrdd yn agwedd allweddol ar ddarparu gwasanaethau a bod cymunedau'n cael eu galluogi i ffurfio eu lleoedd. Mae partneriaid yn gweithredu ar y cyd i leihau allyriadau carbon trwy rannu asedau a gwybodaeth, yn ogystal â gweithio ar y cyd trwy fentrau lleol.

- *Cymru lewyrchus* – Mae amgylchedd naturiol unigryw Abertawe a'i Hardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnal miloedd o swyddi yn y sector twristiaeth sy'n werth £440 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.
- *Cymru gydnerth* – Mae cadernid ein hamgylchedd naturiol yn cael ei wella trwy adfer cynefinoedd sydd wedi diraddio a thrwy greu cynefin a gwella cysylltedd.
- *Cymru iachach* – Mae coed yn cyflawni rôl bwysig wrth hidlo gronynnau niweidiol allan o aer, gan leihau cyflyrau anadlol, tra bod effaith fuddiol mannau naturiol ar iechyd meddwl wedi cael ei chofnodi.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* – Mae cymryd rhan mewn hyfforddiant a gwirfoddoli amgylcheddol yn datblygu sgiliau sydd ar gael i bawb.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae'r buddion cymdeithasol sy'n dod yn sgil gwella canran y gorchudd coed a'r mannau agored naturiol yn Abertawe yn creu cymunedau croesawgar y mae pobl yn falch o berthyn iddynt a lle mae eu hansawdd bywyd yn well.
- *Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Mae mannau gwyrdd a thraethau hygyrch sy'n cael eu rheoli yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, tra bod daearyddiaeth ffisegol a lleoliad morol Abertawe wedi ysbrydoli hunaniaeth ddiwylliannol leol gyfoethog.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* – Lleihau ein heffaith ar y blaned, gan symud tuag at Gymru 'un blaned' nad yw'n defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau.

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r Cyngor yn gweithio'n gynaliadwy yn unol â'r pum ffordd ganlynol o weithio sy'n angenrheidiol i gyrff cyhoeddus gyflawni'r amcan lles a'r nodau lles cenedlaethol.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* – Rydym yn gweithio i ddeall ein hôl troed carbon yn well, yn unol â chanllawiau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer adrodd ar nwyon tŷ gwydr yn y sector cyhoeddus. Rydym wedi adolygu polisïau'r cyngor mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd ac yn integreiddio strategaethau addasu a lliniaru i lywio'r holl raglenni gwaith yn y dyfodol rhwng 2021 a 2030.
- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* – Mae'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth wedi cael eu lliniaru ac mae mesurau addasu wedi cael eu cymryd trwy flaenoriaethu a buddsoddi mewn isadeiledd gwyrdd a dylunio carbon isel. Mae hyn yn cynnig dull ataliol o leihau ein hallyriadau carbon ac yn gwella rhagolygon economaidd canol y ddinas trwy ailbwrpasu'r ardal fel cyrchfan werdd. Er mwyn deall effeithiau tymor hir a diogelu ein hamgylchedd a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae mesurau wedi'u rhoi ar waith ac astudiaethau wedi'u comisiynu i fesur a gweithredu er mwyn lleihau effeithiau ymwelwyr ar fioamrywiaeth a'r dirwedd hanesyddol, e.e. yng Nghefn Bryn a Phorth Einon.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – Mae'r Cyngor wedi ffurfio perthnasoedd agos â sefydliadau cenedlaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn ogystal â rhai lleol fel Fforwm Amgylcheddol Abertawe, Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe a Chanolfan yr Amgylchedd Abertawe. Mae datblygu offer a chanllawiau strategol ar gyfer datblygwyr yn arwain at weithio'n agosach gyda'r sector preifat.
- *Cysylltu pethau ac osgoi gwrthdaro* – Datblygwyd Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Canol Abertawe ar y cyd â CNC i sicrhau bod y dull yn cyd-fynd ag amcanion cyffredin ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r dull integredig hwn yn cael ei ymestyn trwy ddatblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer y sir gyfan y bydd amrywiaeth o bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â hi i sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddatblygu sy'n cyfateb blaenoriaethau ac yn mynd i'r afael â gwrthdaro posibl. Mae'r Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd yn darparu fforwm lle mae polisi'r Cyngor yn gorgyffwrdd, gellir amlygu bylchau a synergedd o ran isadeiledd gwyrdd a gweithgarwch arall sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a natur.
- *Cynnwys pobl* – Er mwyn dod yn Ddinas a Sir Abertawe Sero Net erbyn 2050, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen i bawb gyfrannu, felly dechreuodd broses ymgysylltu tymor hir yn ystod y cyfnodau clo. Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Abertawe ofyn yn benodol i breswylwyr am eu hagweddau at y newid yn yr hinsawdd. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn arbennig o uchel, gyda mwy na 1000 o ddinasyddion yn cymryd rhan mewn arolwg, arolwg barn cysylltiedig ar Twitter a thrafodaethau. Roedd yr ymateb cadarnhaol iawn, a oedd yn dangos pryder helaeth ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd ac awydd i weithredu, yn darparu sail gadarn i ddatblygu gweithgarwch cynnwys ehangach parhaus.

**Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol**

1. Pam mae hyn yn Amcan Lles a sut beth fydd llwyddiant?

- Rydym am foderneiddio a thrawsnewid y Cyngor drwy ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. Yn y tymor byr, bydd hyn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ac ymyriadau sy'n gysylltiedig â Covid-19, gan gynnwys sut yr ydym yn dod drwyddi ac yn adfer wedi'r pandemig. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd y rhaglen yn meithrin ymhellach yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig a sut gallwn ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd i helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw a lleihau cyllidebau refeniw.
- Yn ystod y pandemig bu'n rhaid i wasanaethau'r Cyngor symud i lwyfannau ar-lein a ffôn. Rydym am gynnal y dull hwn lle mae trigolion yn gallu defnyddio sianeli ar-lein yn gyntaf, gan leihau gwasanaethau gweinyddu a chefn swyddfa. Byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth gofal ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd lle bo angen i sicrhau cynhwysiad. Rydym am greu incwm ychwanegol i dalu am wasanaethau a helpu teuluoedd yn gynharach fel y gallwn leihau costau yn nes ymlaen.
- Rydym am wella effeithlonrwydd a lleihau costau rheoli a chymorth busnes ymhellach. Rydym hefyd am barhau i adolygu ein holl wasanaethau i sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y ffordd orau ac arbed arian drwy weithio gyda phartneriaid fel yr heddlu ac iechyd, neu atal yr angen i bobl gael at wasanaethau statudol costus lle mae modd diwallu'r angen yn rhywle arall.
- Rydym am i'r cyhoedd chwarae eu rhan drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau a helpu i'w gweithredu, fel y cynllun llwyddiannus lle mae bowlwyr yn cynnal eu lawntiau bowlio, neu drwy gynyddu ailgylchu gartref.
- Rydym am gynnwys mwy o bobl ym musnes y Cyngor ac yn y broses o wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnyn nhw a'u teuluoedd a'u cymunedau.
- Rydym am fuddsoddi yn ein blaenoriaethau fel canol y ddinas, gwella ystafelloedd dosbarth, gwella ac ymestyn ein stoc tai ynni effeithlon, a chyflenwi'r Fargen Ddinesig gyda'r potensial i greu 10,000 o swyddi.

2. Pa mor dda ydym ni'n gweithredu – a sut ydym ni'n gwybod?

**Diweddaru cynllun trawsnewid y Cyngor i raglen newydd Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd er mwyn trawsnewid gwasanaethau a chyflenwi'n well**

Rydym wedi parhau i ddatblygu a gweithredu rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor. Penodwyd rheolwr rhaglen newydd i oruchwylio datblygiad y rhaglen ym mis Mehefin 2021. Mae gweithgareddau adfer wedi hen ddechrau a'r rhaglen wedi symud i gyfnod 'ailffocysu' y rhaglen, gan edrych ymlaen at drawsnewid mwy hirdymor. Yn ystod 2021/22, canolbwyntiodd y gweithgareddau adfer ar ein staff a'r sefydliad ac roeddent yn cynnwys ail-lansio'r hwb Arwain a'r hwb Syniadau i annog staff i gymryd rhan. Cynhaliwyd hefyd nifer o weithdai ymgysylltu â staff a datblygwyd llawlyfr Staff newydd. Rydym wedi adnewyddu ein Polisi Gweithio Ystwyth ac wedi parhau i sicrhau bod gan staff amgylchedd gweithio diogel gartref, yn ein swyddfeydd a'n hadeiladau ac mewn mannau cyhoeddus. Rydym hefyd wedi datblygu amserlen raglen ar gyfer ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac wedi monitro canlyniadau ein Cronfa Adfer Economaidd wrth i ni adfer wedi'r pandemig.

Ymhlith y gweithgareddau adfer i'n dinasyddion, roedd ehangu ein gwasanaethau Cydgysylltu Ardal Leol ledled y Sir a datblygu Pecynnau Cymorth a hyfforddiant Gwirfoddoli. Parhawyd ein gwaith i ailffocysu ein gwasanaethau cefn swyddfa a chynyddu ein defnydd o awtomeiddio. Daliwyd ati i ddatblygu dull cydweithredol a chyfannol o ymdrin ag adfer drwy ddatblygu gweithio agosach rhwng adrannau fel Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. datblygu dealltwriaeth gyffredin o feini

prawf bregusrwydd ar gyfer plant sy'n agored i niwed ac un pwynt cyswllt. Rydym hefyd wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid eraill a'r trydydd sector i ddatblygu dulliau arloesol, fel prosiect Galw Cymunedol yn darparu ffonau clyfar a llechi i unigolion sydd heb fynediad digidol. Yn ogystal, datblygwyd Cynllun Adfer Economaidd COVID-19 gennym, sydd wedi cefnogi busnesau lleol, diogelu swyddi lleol a sicrhau buddsoddiad newydd yn y ddinas.

Mae gan ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd fframwaith rheoli rhaglenni a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith. Caiff gweithgareddau adfer eu rheoli a'u goruchwylio gan y Grŵp Llywio a chaiff materion strategol a risgiau eu huwchgyfeirio at Fwrdd. Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd archwiliad mewnol i archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y rhaglen a daeth i'r casgliad bod y rhaglen yn dangos lefel o 'sicrwydd uchel' gyda system gadarn o reoli mewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y rhaglen. Parhaodd Pwyllgor y Rhaglen Graffu hefyd i graffu ar effeithiolrwydd y rhaglen gan edrych ar y cynnydd ym mis Hydref 2021.

Mae'r rhaglen wedi dechrau edrych y tu hwnt i 2022, a bydd yn ystyried blaenoriaethau'r cyngor, y Prif Weithredwr a'r Cynllun Corfforaethol newydd. Wrth baratoi ar gyfer y cam nesaf a dod â gwaith cyflwyno cam 2 i ben, byddwn yn gweithio tuag at y canlynol:

- Datblygu'r fframwaith ar gyfer y rhaglen gyflawni ar gyfer y dyfodol – Cam 3 Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd – Ail-lunio.
- Sicrhau bod strategaethau a chynlluniau gweithredu (tai, ysgolion, yr economi, gofal cymdeithasol) wedi'u gwreiddio a bod newid yn weladwy ac yn cyflymu.
- Cynllun corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.
- Sicrhau mai diwylliant y sefydliad yw gweithio er mwyn cyd-fynd â chyflwyno'r cynllun corfforaethol.
- Sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth blaenoriaeth fodelau newydd ar gyfer cyflwyno aeddfedrwydd.
- Cyflwyno cyllideb gytbwys a CATC (Cynllun Ariannol Tymor Canolig) sy'n gynaliadwy.

Pan fydd Cabinet newydd wedi'i benodi ym mis Mai 2022, byddwn yn "adolgu'r strategaeth trawsnewid Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd a nodau'r rhaglen".

Bydd adborth o sesiynau arweinyddiaeth a gwrando ar arweinwyr ffrydiau gwaith yn llywio strwythur llywodraethu adolygedig ar gyfer cam nesaf y rhaglen. Er enghraifft, codwyd amseroldeb y cyfarfodydd; ystyrir hyn fel rhan o'r adolygiad.

Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod strwythurau a llywodraethu'n helpu i osgoi dyblu neu ddrysu cyfrifoldebau ac atebolrwydd neu ychwanegu biwrocratiaeth ddiangen.

**Rhoi Strategaeth Datblygu Sefydliadol y Cyngor ar waith i ddarparu gwasanaethau wedi'u trawsnewid, fel bod gennym y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir, yn enwedig yn sgil Covid-19.**

Cyflwynodd pandemig COVID-19 bwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ar weithlu'r Cyngor. Sefydlwyd Gweithgor Craffu i adolygu'r newidiadau a'r cymorth yr oedd eu hangen yn ystod y pandemig ac wrth inni adfer. Yn ystod 2021/22 fe wnaethom barhau i adolygu ein polisi gweithio Ystwyth a gweithio tuag at ddatblygu model hybrid. Rydym hefyd wedi parhau i wella ein cymorth ar gyfer gweithio Ystwyth drwy ddarparu cymorth 1-2-1 i staff, cyfarfodydd tîm, offer a gwybodaeth am sut i hawlio rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref yn ôl.

Yn ystod 2021/22, parhawyd i ddatblygu Strategaeth Gweithlu gynhwysfawr ar gyfer 2022-27, yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag Aelodau, Uwch Arweinwyr, Undebau Llafur a thrawstoriad o'r

gweithlu o bob Cyfarwyddiaeth. Yn ogystal â datblygiad parhaus ein Strategaeth Gweithlu, rydym wedi ail-strwythuro'r holl swyddogaethau adnoddau dynol o dan un Pennaeth Adnoddau Dynol a Chanolfan Gwasanaethau. Mae ein Strategaeth Gweithlu yn cyd-fynd yn agos â'n rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd ac mae'n rhan o drydydd cam a cham terfynol ailffurfio'r rhaglen. Yn y Strategaeth ceir pedair thema allweddol, sef Arwain a Rheoli, Gweithlu Sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol, bod yn Gyflogwr Dethol a Lles a Chynhwysiant, a naw ffrwd a chamau gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys ail-achredu ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd gyda'r bwriad o weithio tuag at statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gydag Undebau Llafur ac wedi cynnal gweithdy ar ddatblygu gweithdy Partneriaeth Gymdeithasol ac wedi adolygu ein siarter "Marw i Weithio". Sefydlwyd Grŵp Cydraddoldeb y Gweithlu newydd gennym hefyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau Cydraddoldeb, wedi darparu pecyn e-ddysgu gorfodol newydd ar Gydraddoldeb ac wedi datblygu fframwaith arfaethedig ar gyfer sgiliau Cymraeg. Eleni buom hefyd wrthi'n datblygu strategaeth Hyfforddi a Mentora ac yn ailfrandio'r Hwb Arwain sy'n rhoi amrywiaeth o wahanol gyfleoedd i staff ddysgu am arwain a diwylliant sefydliadol.

Er bod nifer y diwrnodau salwch y pen ymhlith y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu rhywfaint yn ystod 2021/22, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, darparwyd adnoddau ychwanegol i adnoddau dynol a datblygiad sefydliadol ac iechyd galwedigaethol i reoli absenoldeb a salwch. Eleni rydym hefyd wedi penodi tri Swyddog Rheoli Absenoldeb i gefnogi Cyfarwyddiaethau wrth reoli absenoldeb oherwydd salwch ac wedi cyfrannu at gwtogi 25% ar nifer yr achosion Ymddeol Cynnar heb eu penderfynu ar draws y Cyngor. Yn ogystal, rydym yn gweithio i recriwtio mwy o Wirfoddolwyr Help Llaw a datblygu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion yn seiliedig ar fodel Help Llaw a datblygu ystod o adnoddau i reolwyr fel Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, sesiynau Ymwybyddiaeth am Straen a gweithdai a phecynnau cymorth ataliol eraill.

**Ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau drwy rwydwaith o Gynrychiolwyr Cydraddoldeb a benodwyd ym mhob gwasanaeth a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-23 ar gyfer y Cyngor.**

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-24 yn 2020. Yn ystod 2021/22 rydym wedi parhau i weithredu'r cynllun ac wedi adolygu ein cynnydd blynyddol trwy ein Hadolygiad Blynyddol o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020-21, yn ogystal ag adrodd ar y bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a chyhoeddi adroddiad gan y Gweithlu. Mae ein grŵp sy'n cynrychioli staff Cydraddoldeb wedi parhau i gyfarfod yn ystod 2021/22 ac wedi trafod ystod o bynciau megis dogfennau Hawdd eu Darllen, Cymraeg/Saesneg Clir, Safonau'r Gymraeg ac wedi parhau i hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo ystod o wahanol ddigwyddiadau a grwpiau cydraddoldeb a hyfforddiant cydraddoldeb. Mae'r grŵp yn gweithio dan nawdd y Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol – Bwrdd Strategol a sefydlwyd i oruchwylio'r gwaith o gyflenwi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Penodwyd cydlynydd i'r Bwrdd ac mae'n gweithio tuag at wneud Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol. Fel rhan o'n strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, rydym hefyd wedi sefydlu grŵp Cydraddoldeb y Gweithlu, sy'n cynnwys staff sydd â nodweddion gwarchodedig. Sefydlwyd y grŵp hwn er mwyn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn y gweithlu, megis gwella'r broses o gasglu data am staff gyda nodweddion gwarchodedig, a sicrhau ein bod yn cadw at Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu LHDT+.

Yn ystod y flwyddyn sydd ar ddod, bydd y Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol Strategol yn monitro cynydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Bydd gwelliannau pellach yn cynnwys gwreiddio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDT+, y mae'r ddau ohonynt yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn datblygu’r gwaith o ran sut gallwn weithio tuag at fabwysiadu Model Cymdeithasol o Anabledd i helpu i wneud ein gwasanaethau’n fyw hygyrch trwy ddileu rhwystrau presennol. Byddwn hefyd yn gwreiddio hawliau dynol ar draws y Cyngor i sicrhau ein bod yn cyflawni’n rhwymedigaethau fel Dinas Hawliau Dynol.

Astudiaeth Achos 1: Dinas Hawliau Dynol

Mae Cyngor Abertawe, mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, yn gweithio tuag at ddatgan Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol ym mis Rhagfyr 2022. Ein nod yw creu dinas lle mae pawb yn gyfartal. Grymuso pobl i ddeall eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill. Sefydlwyd grŵp llywio ym mis Medi 2021 a oedd yn cynnwys cynrychiolydd o bob sefydliad bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i sbarduno’r uchelgais hwn, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Louise Gibbard. Ar 10 Rhagfyr 2021, sef Diwrnod Hawliau Dynol, datganodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BCG) Abertawe’n gyhoeddus ei fwriad o fod yn Ddinas Hawliau Dynol. Cafwyd ymgysylltu helaeth ledled Abertawe er mwyn rhannu'r uchelgais ac ennyn cefnogaeth. Ym mis Hydref 2021 lansiwyd arolwg i ddysgu am yr hyn y mae trigolion ac ymwelwyr o Abertawe yn credu y dylai'r blaenoriaethau fod wrth ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac i grisialu ymwybyddiaeth sylfaenol o wybodaeth ac ymwybyddiaeth am Hawliau Dynol yn y Ddinas. Cynhaliwyd digwyddiad Fforwm Partneriaeth BGC ym mis Tachwedd 2021 gyda ffocws ar Ddinas Hawliau Dynol. Bu dros 60 o gynrychiolwyr o sefydliadau’r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n gweithredu ledled Abertawe yn cymryd rhan, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau yng Nghyngor Abertawe. Datblygwyd cynllun gweithredu lle byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymgysylltu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod pa raglenni, mentrau a pholisïau sy'n digwydd eisoes ym mhob sefydliad BGC ledled Abertawe mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

**Adolygu dull caffael y Cyngor er mwyn sicrhau buddion economaidd a chymunedol lleol, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy**.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi parhau i adeiladu ar ein dull caffael cynaliadwy, ac ymgorffori egwyddorion caffael cynaliadwy yn seiliedig ar Bolisi Caffael diwygiedig Cymru a gyhoeddwyd yn 2021. Mae ein dull gweithredu yn galluogi ein Swyddogion Caffael i ymgysylltu â gwasanaethau yn ystod y camau caffael cynharaf un ac ystyried gwerth o bob cam o brosiect o’r cynllunio, y cychwyn ac i'r cwblhau. Yn ogystal, mae ein dull caffael yn ystyried gwerthoedd cymdeithasol ehangach fel diogelu, cydraddoldeb a materion amgylcheddol, yn ogystal â chostau ariannol a meini prawf traddodiadol gwerth am arian. Eleni cychwynnwyd prosiect peilot i adolygu Gwerth Cymdeithasol gwell ymhellach yn seiliedig ar adroddiad 2021 i gaffael cyhoeddus a luniwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod y prosiect peilot yw profi nifer o offer / methodolegau dadansoddi (e.e. y model Themâu a Chanlyniadau a ddatblygwyd gan y 'Porth Gwerth Cymdeithasol' annibynnol gyda chyfraniad CLlLC) ac ystyried a oes arfer gorau pellach y gellir wedyn ei integreiddio i'n model caffael. Rhagwelir y bydd y prosiect peilot yn dod i ben ddiwedd eleni gydag argymhellion i'w dwyn ymlaen i'w hadolygu a'u hystyried. Arweinir y grŵp llywio ar gyfer y rhaglen beilot gan y Gwasanaethau Masnachol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o’r Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol, Priffyrdd a Chludiant, Canol y Ddinas a Chynllunio gan gynnwys tîm Buddion Cymunedol y Cyngor. Yn ogystal â chynnwys buddion cymunedol a chymalau gwerth cymdeithasol yn ein contractau, buom hefyd yn gweithio i sicrhau bod gan gontractwyr posibl bolisïau i ystyried materion fel Caethwasiaeth Fodern, Cyfle Cyfartal, y Gymraeg a Diogelu.

Mae ein Polisi Buddion Cymunedol wedi meithrin ymhellach lwyddiant ein menter Tu Hwnt i Frics a Morter sydd wedi gwireddu gwerth cymdeithasol drwy waith adeiladu ac adfywio i gwmpasu holl brosiectau caffael y Cyngor. Bu ein Tîm Tu Hwnt i Frics a Morter a'n Tîm Caffael Corfforaethol yn

gweithio i nodi gofynion budd cymunedol holl brosiectau'r Cyngor, gyda chaffael yn rhan o asesiad risg cynaliadwyedd y Cyngor, a thrwy hynny'n helpu i osod targedau priodol sy'n canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi, mentrau cadwyn gyflenwi, offeryn budd cymunedol Llywodraeth Cymru a buddion cymunedol eraill. Yn ystod 2021/22, roedd 21 prosiect gyda chymalau budd cymdeithasol a meini prawf Tu Hwnt i Frics a Morter wedi'u hymgorffori yn eu contractau a chrëwyd dros 7,800 o wythnosau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu.

Rydym hefyd wedi diwygio ein Cyfansoddiad er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio cyflenwyr lleol i ddiwallu ein hangen am nwyddau a gwasanaethau ac annog cwmnïau lleol i ymgeisio am brosiectau penodol a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i Bunt Abertawe drwy ddatblygu'r Economi Sylfaenol. Cymerodd y Cyngor ran yng nghynllun peilot Llywodraeth Cymru hefyd i ddatblygu'r Economi Sylfaenol, gan weithio ar faterion yn ymwneud â chaffael lleol a chanolbwyntio ar y sector adeiladu. Ymhlith y gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot roedd newidiadau i ddull caffael cyffredinol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall busnesau bach a lleol wneud cais am gontractau'r Cyngor a chynyddu'r arian sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn lleol.

**Parhau i ymgorffori strategaeth "Digidol yn Gyntaf" fel y gall dinasyddion gael at fwy o wasanaethau'r Cyngor a gwybodaeth ar-lein.**

Rydym wedi parhau i weithredu ein strategaeth Digidol yn Gyntaf i sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael at wasanaethau a gwybodaeth y Cyngor mewn pryd i gyd-fynd â'u hanghenion. Yn ystod 2021/22 rydym wedi diwygio a diweddaru ein Strategaeth Digidol yn Gyntaf i ystyried y gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r strategaeth yn gosod y map trywydd ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac yn tynnu ar Strategaethau Digidol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Ganolog, a Llywodraeth Leol.

Mae'r defnydd o'r wefan, ffurflenni ar-lein, taliadau ar-lein, a'r Cyfrif Cwsmer newydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn ystod 2020/21. Parhaodd y newid i sianeli digidol dyfu yn ystod 2021/22. Mae nifer y taliadau ar-lein a nifer y ffurflenni a lenwyd ar-lein ar gyfer prosesau cwbl awtomataidd wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig. Er bod cyfanswm y ffurflenni blynyddol a gafodd eu llenwi ar-lein yn ystod 2021/22 yn is na'r flwyddyn flaenorol, mae'r nifer yn dal yn uwch na'r cyfanswm cyn y pandemig. Mae'r gostyngiad i'w ddisgwyl ac o ganlyniad i geisiadau yn ystod anterth y pandemig lle cafodd gwasanaethau casglu arferol fel llyfrgelloedd eu cau.

Mae awtomeiddio'n parhau i helpu gyda thasgau rheolaidd a gallu staff, e.e. mae cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chynllunio i gyd yn defnyddio prosesau awtomataidd newydd ar gyfer ymholiadau syml. Eleni rydym wedi parhau i uwchraddio'r gwaith o ddarparu Cyfrifon Cwsmeriaid Abertawe drwy alluogi pobl i wneud cais am brydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol ar-lein. Datblygodd ein Gwasanaethau Maes Oracle broses ar-lein i bobl drefnu apwyntiadau ar gyfer atgyweirio tai ac i denantiaid roi adborth ar ôl cwblhau'r gwaith.

Astudiaeth Achos 2: Awtomeiddio Proses Robotig (RPA)

Mae RPA ac awtomeiddio'r gweithlu yn feddalwedd sy'n dynwared ymddygiad pobl er mwyn cyflawni gwaith swyddfa. Caiff gweithwyr rhithwir eu 'hyfforddi' i ddefnyddio systemau a chymwysiadau. Caiff gweithdrefnau eu dyblygu mewn ffrydiau gwaith a bydd y gweithiwr rhithwir yn eu cyflawni ar gais neu yn ôl amserlen wedi'i diffinio ymlaen llaw. Bydd RPA ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn i gwblhau tasgau cyffredin, ailadroddus, toreithiog sy'n rhoi'r gallu i staff dynol ganolbwyntio ar dasgau mwy cymhleth. Hyd yn hyn rydym wedi arbed 3.85 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn neu ryw £128k - mwy na'r gost o ddatblygu'r platfform. Yn sgil arbed yr

amser hwn, gall staff gyflawni tasgau mwy ystyrlon neu gallwn osgoi costau sy'n gysylltiedig â gorfod cyflogi staff ychwanegol. Mae'r broses wedi helpu'r tîm Cyfieithu Cymraeg i brosesu ceisiadau cyfieithu. Proses 'prawf cysyniad' gynnar oedd hon i brofi'r dechnoleg a phrofi 'celfyddyd y posib'. Gan ddefnyddio cymhwysiad 'Déjà vu', mae hyn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r tîm cyfieithu dynol traddodiadol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r baich gwaith heriol. Rydym hefyd wedi awtomeiddio'r broses o archebu bagiau ailgylchu gan drigolion sy'n defnyddio cymhwysiad 'Civica Flare'. Rydym hefyd wedi diweddaru cofnodion disgyblion â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig Addysg yn awtomatig gan ddefnyddio cofnodion CapitaONE, gan arbed dros 600 awr o amser a meddalwedd cymhwysiad cynllunio wedi'i ddiweddaru (Idox DMS) i'r cyhoedd adael sylwadau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio, gan arbed 10 i 15 awr o waith yr wythnos i'r adran.

Mae ein prosiect e-ddemocratiaeth yn mynd rhagddo'n dda, ac mae Siambr y Cyngor yn Neuadd y Dref bellach yn fyw. Mae adolygiad ar y gweill i fapio a blaengynllunio teledu cylch cyfyng a WiFi Ward. Eleni rydym hefyd wedi datblygu ap Lle i Anadlu - i helpu'r Cyngor gefnogi cwsmeriaid gyda dyled ar draws y Cyngor a gwella cyfathrebu diogel rhwng gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth yn ogystal â darparu ateb digidol ar gyfer cofnodi a chymeradwyo gwybodaeth gofnodi ddyddiol. Rydym hefyd wedi disodli ciosgau canolfannau cyswllt at ddefnydd hunanwasanaeth cyhoeddus, datblygu arwyddion digidol ar gyfer Theatr y Grand a gwneud nifer o welliannau i wefan y Cyngor gan gynnwys gwell offer chwilio a hygyrchedd a modiwlau archebu a thalu. Parhaodd y Cyngor i weithio gyda phartneriaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Fel rhan o Raglen Ddigidol y Fargen Ddinesig, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i nodi a thargedu cyfleoedd isadeiledd yn y dyfodol, gan ddechrau gydag asedau cyhoeddus ac adeiladau. Rydym hefyd yn gweithio ar y prosiect Rhyngrwyd Pethau i wella gwasanaethau i breswylwyr ar draws Abertawe.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Digidol a chael at wasanaethau ar-lein drwy ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes i ddinasyddion ymgymryd â hyfforddiant a chyrsiau cyfrifiadurol am ddim.**

Daliwyd ati i hyrwyddo Cynhwysiant Digidol a chael at wasanaethau ar-lein trwy ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu. Yn ystod 2021/22 defnyddiwyd dull dysgu cyfunol o ymdrin â hyfforddiant a chymorth Cynhwysiant Digidol. Yn ystod y flwyddyn hon roedd 1250 o ddysgwyr unigryw wedi'u cofrestru ar Gyrsiau Dysgu Gydol Oes gan gynnwys Llythrennedd Digidol, Sgiliau Hanfodol a Dysgu am Oes. Eleni creodd y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes system archebu digwyddiadau newydd ac mae'n parhau i gynnig gwasanaeth Cymorth TG dyddiol dros y ffôn, a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig. Mae'r gwasanaeth ffôn yn cefnogi trigolion i gael at wasanaethau ar-lein ac yn cyfeirio unigolion at sefydliadau cymorth eraill lle bo angen.

Rydym wedi parhau â'n rhaglen Dewch Ar-lein Abertawe a chyrsiau Digidol a TG sylfaenol i gynorthwyo dysgwyr lefel isel a dechreuwyr, a allai ei chael yn anodd cael at gyflenwad ar-lein. Yn ystod 2021/22, cymerodd 196 o bobl ran yn rhaglen Dewch Ar-lein Abertawe. Cynigiwyd cyrsiau gennym ar lefel mynediad hyd at Lefel 2 i unigolion sy'n dymuno cael achrediad neu wella eu Sgiliau Digidol ar gyfer gwaith a bywyd. Bu'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd i ddatblygu cyrsiau a gweithdai cyflenwi Digidol pwrpasol i aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau Digidol i gefnogi rhagolygon cyflogadwyedd.

Darparwyd nifer o ddosbarthiadau Digidol hefyd yn y gymuned i gefnogi pobl sy'n defnyddio eu llechi neu ddyfeisiau eu hunain i gael at wasanaethau a gwella sgiliau cyfathrebu a chydweithio digidol. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig offer TG ar fenthyg i unigolion sydd am ddefnyddio ein rhaglen ddysgu. Bu'r cynllun benthyg o fudd mawr i unigolion gan alluogi mynediad at gyfleoedd dysgu, cymorth ac achrediad. Mae ein Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes hefyd wedi gweithio gyda'n Tîm Cyflogadwyedd, ein Gwasanaeth Trechu Tlodi a Phartneriaid y Trydydd Sector i gefnogi dosbarthu

gliniaduron wedi'u hadnewyddu a ffonau clyfar gyda chredyd wedi'i dalu ymlaen llaw i bobl fregus yn y gymuned.

**Archwilio cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill a rhannu gwasanaethau, gan gynnwys rhai cefn swyddfa, i arbed costau a gwella gwasanaethau i ddinasyddion.**

Parhawyd i archwilio cyfleoedd i gydweithio i rannu gwasanaethau, arbed costau cefn swyddfa a gwella gwasanaethau. Dyfarnwyd i bartneriaeth ranbarthol rhwng Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Chastell-nedd a Phort Talbot y cylch nesaf o Arian Trawsnewid Digidol i ddatblygu gallu Rhyngrwyd Pethau. Mae agwedd rhaglen Ddigidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe'n parhau i wneud cynnydd da gyda phartneriaid yn cymryd rhan mewn gweithdy 5G a hwylusir gan Deloitte, ac yn cydweithio ar gais Cyflymydd Isadeiledd Cysylltedd (DCIA). Ym mis Ebrill 2021, cafodd y Rhaglen Ddigidol gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â diweddaru a mireinio'r Achos Busnes a chyflwynwyd y fersiwn ddiweddaraf i Fwrdd Rhaglen Isadeiledd Digidol SBCD a'i cymeradwyodd ym mis Ebrill 2022.

Astudiaeth achos 3: Hwb digidol mawr i weledigaeth 'dinas glyfar' Abertawe

Mae gweledigaeth Abertawe i fod yn 'ddinas glyfar' sydd wedi'i chysylltu'n hynod yn datblygu'n gyflym, yn sgil hwb ariannol gwerth miliynau o bunnoedd. Am fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo rhaglen isadeiledd digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n werth £55 miliwn, gall Abertawe adeiladu ymhellach ar welliannau cysylltedd sylweddol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd buddsoddiad y Fargen Ddinesig yn helpu Cyngor Abertawe i gyflwyno cysylltedd ffibr llawn mewn parciau busnes ac ardaloedd yng nghanol y ddinas.
Bydd hyn yn helpu busnesau i wneud y gorau o'r technolegau digidol diweddaraf, wrth helpu defnyddwyr symudol i ffrydio cynnwys a chael at wybodaeth yn gyflymach. Bydd rhwydwaith diwifr mynediad agored, amrediad hir hefyd yn helpu i wneud y gorau o'r 'Rhyngrwyd Pethau' drwy gysylltu technoleg fel synwyryddion â'r rhyngrwyd, a fydd yn galluogi penderfyniadau gwell ac effeithlonrwydd gwell. Gallai hyn gyflymu'r defnydd o dechnoleg synwyryddion yn Abertawe er mwyn gwella llif y traffig, monitro pan fydd angen gwagio biniau neu amlygu pan fydd angen cymorth ar bobl oedrannus neu fregus gartref. Gallai Cyngor Abertawe hefyd ddefnyddio cyllid y Fargen Ddinesig i roi hwb i'r nifer sy'n manteisio ar gynlluniau talebau band eang mewn cymunedau gwledig a fyddai'n rhoi gwell cysylltiad rhyngrwyd i aelwydydd a busnesau yno.

**Ymgysylltu effeithiol wedi'i dargedu i ddatblygu mwy o gydweithio a gwaith partneriaeth gan weithio gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau'r Cyngor a rhai a rennir.**

Dangosodd data o Hwb Data'r Trydydd Sector, CGGC fod dros 2,100 o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn gweithredu yn Abertawe yn ystod 2021/22 a bod 28.5% o breswylwyr yn Abertawe yn dweud eu bod yn wirfoddolwyr. Rydym wedi parhau i gefnogi ac adeiladu ar ein gwaith gyda'r Trydydd Sector trwy ein grŵp Cyswllt Compact. Mae'r Grŵp Cyswllt Compact yn cynnwys Swyddogion perthnasol y Cyngor a chynrychiolwyr y Trydydd Sector. Nid yw'r Grŵp yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau ond mae'n adolygu materion polisi sy'n effeithio ar y sector Statudol a'r Trydydd sector ac yn cynghori arnynt. Yn ystod 2021/22, chwaraeodd y Grŵp Cyswllt Compact rôl allweddol wrth ddatblygu rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth, isadeiledd a hyfforddiant gwirfoddoli. Yn rhan o'r trefniadau, mae'r Cyngor wedi gweinyddu nifer fawr o grantiau i sefydliadau'r Trydydd Sector i gefnogi gwasanaethau

cymunedol, adnoddau, fel grantiau ar gyfer Tlodi Bwyd, Urddas Mislif, Siediau Dynion, digwyddiadau cymunedol fel Gaeaf o Les a Haf o Hwyl a darparu grantiau i gefnogi gwasanaethau i Blant, Pobl Ifanc a'u teuluoedd, Gofalwyr, Dioddefwyr Cam-drin Domestig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd Gwledig.

**Adolygu gwaith gyda chymunedau, sefydliadau a grwpiau 'ffrindiau' i annog a galluogi mwy o berchnogaeth gymunedol ar asedau a gwasanaethau a sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor.**

Rydym wedi parhau i weithio gyda chymunedau, sefydliadau a grwpiau 'ffrindiau' i annog a chynnal mwy o berchnogaeth gymunedol ar asedau a gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae 37 o grwpiau Cyfeillion Parciau a gyfansoddwyd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor. Mae'r rhwydwaith o wirfoddolwyr yn gaffaeliad pellgyrhaeddol ac amhrisiadwy. Mae grwpiau ffrindiau yn ymrwymo i hyrwyddo arferion cynhwysol drwy eu cyfansoddiadau, ac oedolion o bob oed yn cymryd rhan ac yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc hefyd. Cefnogir grwpiau sy’n agored i niwed hefyd i gymryd rhan (e.e. City of Sanctuary yn gweithio gyda Chyfeillion Parc Ravenhill). Ar hyn o bryd, mae tua 630 o wirfoddolwyr yn helpu i weithredu’r 40 adeilad cymunedol ar draws Dwyrain Abertawe, Gorllewin Abertawe a chanol y ddinas.

Cafwyd Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol llwyddiannus ym mhob un o'r tair etholaeth etholiadol ar draws Abertawe; Dwyrain Abertawe (Pafiliwn Bowlio Parc Jersey; Cae Chwaraeon a Phafiliwn Trallwn), Gorllewin Abertawe (Clwb Bocsio Amatur Gwent; Man Gwyrdd yn Y-Llwyni) a Phenrhyn Gŵyr (Caeau Chwarae Graig y Coed; Parc Underhill). Rydym hefyd wedi ymrwymo i Siarter gyda Chynghorau Tref / Cymuned sy'n nodi'r ffordd y maent yn anelu at gydweithio er budd cymunedau lleol gan gydnabod eu cyfrifoldebau priodol fel cyrff statudol.

**Ymateb i Ddeddf Llywodaeth Leol ac Etholiadau 2021 a pharhau i foderneiddio ymgysylltu â'r cyhoedd mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau'r Cyngor drwy amseroedd cyfarfod hygyrch, darlledu ar y we, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau.**

Yn ystod 2021/22, buom yn gweithio i weithredu'r dyletswyddau newydd ar Awdurdodau Lleol, o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ymhlith y gwaith paratoi a wnaed fu hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Ran 6 o'r Ddeddf, adolygu'r arfer gorau ar hunanasesu, sefydlu grŵp llywio hunanasesu a sefydlu dull corfforaethol o hunanasesu. Rydym hefyd wedi cynnal Sesiynau Briffio gyda’r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y gofynion perfformiad newydd. O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rydym wedi diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu newid yn y cylch gorchwyl, rôl ac aelodaeth ac enw'r Pwyllgor Archwilio i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn ystod 2021/22, gwnaethom hefyd sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a chynnal dau gyfarfod - yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd.

Rydym wedi parhau i weithio tuag at foderneiddio ymgysylltu â'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor. Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â Rheoliadau Covid cynharach yn caniatáu i bob cyfarfod gael ei gynnal o bell yn ystod 2021/22. Maent yn gweithio'n dda ac mae datblygiadau ar y gweill yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Dref a hefyd yn Ystafell Caerloyw, a fydd yn gam sylweddol ymlaen i gynorthwyo gydag ymrwymiad y Cyngor i gyfarfodydd aml-leoliad. Mae cyfarfodydd hybryd wedi galluogi cynghorwyr ac aelodau’r cyhoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd pan na allant fod yn gorfforol bresennol yr adeilad, h.y. oherwydd COVID neu resymau eraill. Sefydlwyd e-Bleidleisio ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a Chyfarfodydd y Cabinet (nid yw’n ofynnol ar gyfer y Pwyllgorau eraill o ystyried eu bod yn gymharol fach). Gwnaed gwaith paratoi ar gyfer creu e-Ddeisebau a bydd yn cael ei gyflawni o fis Mai 2022. Anogwyd ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd drwy gwestiynau'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor a’r Pwyllgor Craffu. Rydym hefyd wedi cyflwyno trefniadau i ymestyn pleidleisio ar gyfer pobl ifanc 16 i

17 oed a dinasyddion tramor cymwys. Rydym hefyd yn paratoi i ddatblygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ac mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chynllun e-ddeisebau, y bydd y ddau ohonynt yn hwyluso ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd.

Ar y cyfan, mae tystiolaeth dda o raglenni gwaith effeithiol, cyfarfodydd craffu a gweithgareddau, lefelau da o ymgysylltu â'r Cynghorwyr, adborth cadarnhaol yn fewnol ac yn allanol a mwy o sylw yn y cyfryngau a chyfranogiad y cyhoedd. Mae Aelodau'r Cabinet wedi'u dwyn i gyfrif trwy ystod o weithgareddau trwy Bwyllgor y Rhaglen Graffu, Paneli Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen, Paneli Perfformiad parhaus, a Gweithgorau untro, gan gynnwys craffu cyn penderfynu, gydag argymhellion wedi'u gwneud i Aelodau'r Cabinet trwy lythyrau ac adroddiadau. Mae gwaith Craffu yn dryloyw ac yn hygyrch. Mae pecynnau agenda craffu ar gael ar dudalen we 'agenda a chofnodion' y Cyngor. Hefyd, mae pob llythyr craffu a anfonwyd at Aelodau'r Cabinet yn dilyn cyfarfodydd ac ymatebion.

**Parhau i gryfhau'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y Cyngor drwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol i staff rheng flaen.**

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Cyngor ei adroddiad blynyddol ar y Gymraeg, gan dynnu sylw at enghreifftiau o waith da a gyflawnwyd ochr yn ochr ag argymhellion i gryfhau'r Gymraeg o ran hyrwyddo a chydymffurfio ar draws y Cyngor. Gwnaed gwaith hefyd mewn perthynas â datblygu fframwaith arfaethedig ar gyfer y Gymraeg ac rydym wedi recriwtio Swyddog Safonau i arwain ar hyrwyddo'r Gymraeg a gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi sefydlu Grŵp Hyfforddi Cymraeg sydd wedi nodi anghenion hyfforddi i gefnogi'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys datblygu cynllun mentora i gefnogi dysgwyr Cymraeg. Cynhaliwyd cyrsiau ar lefel Mynediad Lefel 1 (blynyddoedd 1 a 2) a Sylfaen lefel 2 (blwyddyn 1). Yn ystod 2021/22, buom hefyd yn cynnal sesiwn "Flasu" ragarweiniol i annog cyfranogiad yn y dyfodol ac mae gwaith wedi dechrau mewn perthynas ag asesu'r potensial am gyrsiau "wyneb yn wyneb" i staff rheng flaen nad ydynt yn defnyddio TG. Rydym hefyd wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg gan adolygu gwefan y Cyngor i wella mynediad at wybodaeth, ffurflenni ar-lein, a thaliadau i drigolion a sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu ynghyd â'u cynrychiolwyr beth yw eu blaenoriaethau lleol.**

Yn ystod 2021/22 roedd gan bob Aelod Ward gyllideb Gymunedol o £10,000 y flwyddyn i gefnogi darparu mesurau lleol bach sy'n flaenoriaeth i Gynghorwyr unigol a'u cymuned leol ond nad ydynt yn cael eu hariannu gan unrhyw un o gyllidebau eraill y Cyngor. Roedd y cynllun yn rhoi i bob Cynghorydd gyllideb wedi'i gosod ar hyn o bryd ar £10,000 y flwyddyn ac sydd wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng pob un o'r 72 o Gynghorwyr etholedig i'w defnyddio ar gefnogi mentrau yn eu Ward. Ymhlith yr enghreifftiau o waith a wnaed mae atgyweirio llochesi bysiau, rhoddion i'w hysgolion lleol neu elusennau cymunedol, gosod diffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus, atgyweiriadau i fân lwybrau troed neu welliannau i'r ffordd, arddangosiadau blodeuog, plannu coed, adfer neu ddarparu goleuadau stryd ychwanegol yn ogystal ag amrywiaeth o offer mewn parciau lleol.

**Rhoi'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut mae polisïau'n cael eu hysgrifennu a gwasanaethau'n cael eu darparu drwy ddatblygu Fframwaith Strategol Cyd-gynhyrchu Corfforaethol a Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddiwygiedig**

Cynhyrchwyd strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddiwygiedig ddrafft; fodd bynnag, mae ymgynghoriad yn parhau mewn perthynas â diweddaru'r strategaeth i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o COVID-19. Cafodd y strategaeth ei llywio gan Bwyllgor Datblygu'r Polisi Adferiad a Chenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n cyd-fynd yn agos â Fframwaith Corfforaethol y Cyngor ar Gyd-

gynhyrchu. Gwnaethpwyd cynnydd da gyda datblygu a gweithredu strategaeth Cyd-gynhyrchu Rhanbarthol y Cyngor a ddatblygwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae gwaith ar y gweill i feithrin y dull hwn ymhellach ac i sicrhau cyllid o'r gronfa Adfer Economaidd i ddatblygu ein dull corfforaethol ymhellach o gyd-gynhyrchu a meithrin gallu ar draws y sefydliad.

Rydym wedi parhau i gefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd i wneud penderfyniadau drwy gwestiynau cyhoeddus mewn Pwyllgorau Cabinet, Cyngor, Craffu a Datblygu Polisi. Mae mwyafrif cyfarfodydd y Cyngor ar agor i'r cyhoedd a gall unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Abertawe awgrymu pwnc i graffu arno. Ceir cyfleoedd hefyd i unrhyw un awgrymu cwestiynau, a chyflwyno barn. Mae gennym bresenoldeb da ar y cyfryngau cymdeithasol ac rydym yn cyhoeddi e-gylchlythyr misol yn ogystal â blog cyhoeddus, gan wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd am graffu a'i gwneud hi'n haws cysylltu â ni.

Caiff y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ei mabwysiadu dros y misoedd nesaf a phan fydd wedi’i mabwysiadu, bydd yn darparu gwasanaethau gyda mwy o eglurder ar yr egwyddorion y mae angen eu dilyn pan fyddant yn gwneud gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Dylai hyn arwain at ragor o gyfleoedd i’r cyhoedd gyfrannu at lunio gwasanaethau a pholisïau’r cyngor. Yn ystod y 12 mis nesaf, byddwn yn gweithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i ddatblygu a chyflwyno strategaeth cydgynhyrchu y gall pob gwasanaeth ei mabwysiadu. Pan fydd y strategaeth wedi’i mabwysiadu, bydd yn darparu eglurder a chyfleoedd i weithio gyda chymunedau a grwpiau wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau mewn ffordd gydgynhyrchiol.

3. Beth allwn ni ei wneud yn well a sut (yn awr a dros y tymor hir)?

Er bod cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni ein blaenoriaeth o ran Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol, mae nifer o feysydd i’w gwella a’u datblygu o hyd. Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau cwsmeriaid. Er bod ein rhaglen Ddigidol a'r defnydd cynyddol o awtomeiddio wedi cynhyrchu rhywfaint o effeithlonrwydd a mwy o gapasiti, mae galw gan gwsmeriaid a chymhlethdod y galw yn cynyddu. Ar gyfartaledd roedd nifer y galwadau a'r e-byst a gafwyd yng nghanolfan alwadau’r cyngor bob mis yn ystod 2021/22 dros 15,000 a 6,000 yn y drefn honno - sef cynnydd oddi ar lefelau cyn y pandemig. Mae ymateb i'r pandemig wedi dargyfeirio adnoddau i weithgareddau newydd a chefnogi cwsmeriaid mewn ffyrdd gwahanol. Mae angen adolygu cyflwyniad a safonau’r gwasanaethau cwsmeriaid a chyflymu datblygiad tîm gwasanaeth cwsmeriaid aml-fedrus. Mae angen cymorth ar rai cwsmeriaid o hyd wrth ddefnyddio sianeli ar-lein ac mae datblygu Hybiau Cymunedol ar draws Abertawe yn flaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn nesaf. Er bod cyflwyno ein rhaglen Ddigidol wedi gwneud cynnydd da fel y tystir mewn perthynas â chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a dangos mwy o effeithlonrwydd, mae heriau'n parhau mewn perthynas â gallu staff a chadw staff mewn marchnad hynod gystadleuol. Mae hefyd angen i ni adolygu dyluniad a hygyrchedd gwasanaethau ar-lein; nid yn unig y rheini sy’n eiddo i’r cyngor ond hefyd wasanaethau cenedlaethol a gwasanaethau ein partneriaid. Mae angen i wasanaethau ar-lein fod yn hawdd eu defnyddio ar gyfer ein preswylwyr, neu bydd hyn yn cynyddu’r galw ar gyfer canolfan gyswllt a llyfrgelloedd y cyngor gan bobl sy’n ymweld yn bersonol ac sy’n cysylltu dros y ffôn. Y nod fyddai cynnwys adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn yr adolygiad hwn.

Mae angen i'n strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fynd i'r afael â'r broses o recriwtio a chadw staff mewn meysydd allweddol sy'n hanfodol i drawsnewid a datblygu'r Cyngor yn y dyfodol. Canfu'r Ymchwiliad Craffu ar Gaffael a gynhaliwyd yn 2021/22 fod cynnydd da wedi'i wneud, ond nodwyd bod heriau o hyd o ran datblygu'r dull i ymdrin â holl feysydd caffael y Cyngor. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Rhan 2 o'r Adolygiad.

4. Casgliad - i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol

Mae adolygiad o'r dystiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol mewn perthynas â'i flaenoriaeth Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol yn awgrymu ei fod yn gwireddu ei uchelgais.

| *Amcanion Lles* | *Dechrau arni* | *Gwneud newidiadau syml* | *Bod yn fwy anturus* | *Gwireddu ein huchelgais* | *Arwain y ffordd* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* | | | | *x* | |

Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn camu y tu hwnt i feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau'n cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor, mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

*Cynnydd wrth gymryd y camau i gyflawni'r Amcan Lles*

Ar y cyfan mae cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni ein blaenoriaeth Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol. Mae ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd wedi sicrhau lefel uchel o sicrwydd o'n Harchwiliad Mewnol ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau a pholisïau wedi'u halinio fel y cynllun Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn gwneud cynnydd da ac ar y trywydd i gyrraedd ein targed.

Yn sgil ein rhaglen Ddigidol, bu modd trawsnewid llawer o drafodion cwsmeriaid a modd darparu gwasanaethau, gan sicrhau y gall ein preswylwyr gael at wybodaeth a gwasanaethau mewn pryd ac yn effeithlon, ar adeg ac mewn lle sy'n gweddu i'w hanghenion. Am fod awtomeiddio'n cael ei ddefnyddio mwyfwy ar gyfer gweithdrefnau safonedig, crëwyd capasiti ychwanegol, gan ryddhau amser ac adnoddau staff. Mae ein rhaglen Cynhwysiant Digidol yn cynnig cymorth i amrywiaeth o wahanol gwsmeriaid mewn ffyrdd a lleoliadau gwahanol er mwyn sicrhau y gall cynifer â phosibl o bobl elwa ar drawsnewid ein gwasanaethau'n ddigidol. Mae technoleg hefyd wedi trawsnewid ein gweithle, gan roi mwy o ystwythder i rai gweithwyr yn y gweithle a manteision gweithio o bell, yn agosach at breswylwyr a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae'r newid hwn wedi galluogi rhai gweithwyr i gael gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a/neu helpu gyda chyfrifoldebau gofalu, gan gyfrannu felly at gyfraddau gwell o ran cadw cyflogeion.

Ar y cyfan, rhoddodd y Cyngor drefniadau da ar waith i gefnogi ei weithlu yn ystod y pandemig a thrwy'r adfer. Nododd y Pwyllgor Craffu nifer o enghreifftiau o arfer da o ran cefnogi lles staff drwy ehangu gwasanaeth Help Llaw, datblygu pecynnau offer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a mesurau ataliol eraill, sydd ar hyn o bryd yn cael eu diwygio a'u teilwra i sectorau penodol eraill o'r gweithlu megis Addysg ac Ysgolion. Gwnaethpwyd cynnydd da hefyd gyda datblygu'r Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, sefydlu gweithgorau yn seiliedig ar faterion, e.e. Cydraddoldeb a buddsoddi ac ailstrwythuro swyddogaethau Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol ac Iechyd Galwedigaethol.

Yn ystod 2021/22, daeth Ymchwiliad Craffu manwl i Gaffael i'r casgliad fod dull caffael y Cyngor yn dda ac nid yn unig wedi adeiladu ar flynyddoedd lawer o arfer da, fel cynllun arobryn Tu Hwnt i Frics

a Morter, ond hefyd wedi esblygu i ymgorffori egwyddorion caffael cynaliadwy newydd ac wedi ystyried lle bynnag y bo modd Fuddion Gwerth Cymdeithasol ehangach a buddion posibl eraill fel yr Economi Sylfaenol.

- Gweler Rhan 2 – Meysydd ar gyfer Gwelliant Parhaus

*Cyfrannu at gyflawni'r holl nodau lles cenedlaethol.*

Mae’r Cyngor yn gweithio i gynyddu ei gyfraniad tuag at y nodau lles cenedlaethol i’r eithaf wrth fodloni ei flaenoriaeth lles Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol:

- *Cymru lewyrchus* - Cefnogi a hyfforddi gweithlu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau wedi'u trawsnewid sy'n darparu'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i drigolion.
- *Cymru Gydnerth* - Mae Strategaeth Rheoli'r Presennol a Llywio'r Dyfodol, Cyngor Abertawe – O Adfer i Drawsnewid yn sail i'n hadferiad wedi Covid-19 a'i nod yw trawsnewid gwasanaethau, sicrhau canlyniadau gwell i breswylwyr a sicrhau cynaliadwyedd ariannol gydag ôl troed carbon llai.
- *Cymru Iachach* - Annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar barciau a gweithio gyda sefydliadau 'ffrindiau parciau' i sicrhau cynaliadwyedd a rheolaeth hirdymor parciau a mannau cyhoeddus.
- *Cymru fwy Cyfartal* - Rhoi'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar y ffordd y caiff polisïau eu hysgrifennu a gwasanaethau eu datblygu drwy ddatblygu strategaeth gyd-gynhyrchu.
- *Cymru o Gymunedau Cydlynus* - Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu ynghyd â'u cynrychiolwyr beth yw eu blaenoriaethau lleol.
- *Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu* - Parhau i gryfhau'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y Cyngor drwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol i staff rheng flaen.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - Parhau i foderneiddio ymgysylltu â'r cyhoedd mewn democratiaeth a phenderfyniadau'r Cyngor drwy amseroedd cyfarfod hygyrch, darlledu ar y we, pleidleisio electronig a deisebau.

*Gweithio'n gynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r Amcan Lles hwn:*

Mae'r cyngor yn gweithio'n gynaliadwy yn unol â'r pum ffordd ganlynol o weithio wrth gyflawni ei amcan lles o ddiogelu pobl rhag niwed:

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir*. Mae ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd wedi symud o gyfnod 'ailffocysu' y rhaglen, gan edrych ymlaen at ymateb i heriau mewnol ac allanol yn y tymor hwy. Wrth ddatblygu ein Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, nod y Cyngor yw mynd i'r afael â'r anghenion a'r bylchau tymor hir a ragwelir yn y gweithlu a sut gellir mynd i'r afael â hyn. Nod gwaith caffael y Cyngor yw dod o hyd i ffyrdd o gefnogi a meithrin y gymuned o gyflenwyr lleol, fel ei bod yn wydn yn y tymor hwy. Nod ein rhaglen ddigidol yw cyflawni mwy o brosiectau digidol sy'n helpu trigolion i gael at wasanaethau bob awr o’r dydd drwy sianeli digidol, wrth gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn y dyfodol. Mae ein dull o ymdrin â'r Gymraeg yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws y Cyngor ac mewn cymunedau erbyn 2050.
- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.* Nod ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yw atal problemau rhag gwaethygu ac fe'i lluniwyd i sicrhau gwydnwch a darpariaeth hirdymor gwasanaethau'r Cyngor. Cynlluniwyd ein Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd i ragweld heriau cynllunio'r gweithlu e.e. recriwtio a chadw staff. Nod ein

dull Cynhwysiant Digidol yw cefnogi trigolion i fynd ar-lein a chael at ystod o wasanaethau a gwybodaeth yn gynnar ac atal problemau rhag gwaethygu.

- *Integreiddio – cysylltu pethau ac osgoi dyblygu / blaenoriaethau croes.* Mae ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yn mabwysiadu dull trawsbynciol corfforaethol o ymdrin â newid a thrawsnewid ac ni chafodd ei datblygu mewn seilo. Datblygwyd ein Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol drwy weithio ar draws pob Cyfarwyddiaeth ac mae wedi cymryd golwg gyfannol gorfforaethol ar y gweithlu, amgylcheddau mewnol ac allanol, partneriaid a rheoleiddwyr. Mae cydberthyniad agos rhwng llawer o'r camau i gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Llifa ein rhaglen Ddigidol o'r strategaeth Ddigidol sy'n gosod technoleg fel galluogwr allweddol o ran integreiddio, gan ailddefnyddio technolegau ar draws nifer o wasanaethau, gan arwain at arbedion maint graddfa ac osgoi dyblygu.
- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.* Nod ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yw dysgu oddi wrth arfer gorau sefydliadau eraill ac mae llawer o'r prosiectau'n cynnwys nifer o bartneriaid i sicrhau canlyniadau integredig. Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru i sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i ddod â chydlyniad at lywodraethu rhanbarthol a chyflawni swyddogaethau rhanbarthol, gan gynnwys cynllunio datblygu strategol, cynllunio cludiant rhanbarthol ac i hyrwyddo lles economaidd.
- *Cynnwys pobl.* Mae ein rhaglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yn dylunio mewn modd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr lle bynnag y bo modd, er mwyn i wasanaethau adlewyrchu anghenion preswylwyr a / neu staff. Mae'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi cynnwys ystod eang o staff, Undebau Llafur, Uwch Reolwyr a Chynghorwyr. Yn ystod ein gwaith caffael, cafwyd cyfres o ymgynghoriadau â chyflenwyr allanol posibl er mwyn adolygu a datblygu ein dull caffael a pholisïau a chanllawiau perthnasol. Wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ceisiwyd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Canlyniad ymgynghori**

Cynhaliodd y cyngor arolwg o'r cyhoedd, busnesau lleol, staff y Cyngor ac undebau llafur yn 2021/22.

Ni chafwyd fawr o ymateb i'r arolwg - o dan 100 ymateb - er bod y Cyngor wedi gwneud ei orau i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg, gan gynnwys anfon e-byst uniongyrchol at randdeiliaid. Gallai'r gyfradd ymateb isel i'r arolwg fod wedi effeithio ar hyder yn y canlyniadau.

Holwyd yr ymatebwyr i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Abertawe ar y cyfan yn gwneud ei waith yn effeithiol?

Roedd bron 40% o'r ymatebwyr (39% $n$ = 26) yn cytuno bod Cyngor Abertawe ar y cyfan yn gwneud ei waith yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd cyfran debyg sef 39% ($n$ = 11) yn anghytuno bod Cyngor Abertawe yn gwneud ei waith yn effeithiol. Roedd 21% pellach ($n$ = 15) heb fod yn cytuno nac yn anghytuno bod Cyngor Abertawe yn gwneud ei waith yn effeithiol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno bod y Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei amcanion; diogelu pobl rhag niwed, gwella addysg a sgiliau, trawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd, mynd i'r afael â thlodi, cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe a thrawsnewid a datblygu'r Cyngor yn y dyfodol.

Cytunodd y gyfran fwyaf o'r cyfranogwyr ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran trawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd (42% *n* = 30), ac yna cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe (38% *n* =27), a diogelu pobl rhag niwed (34% *n* =14). Credai bron i draean o'r cyfranogwyr (32% *n* = 23) fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â gwella addysg a sgiliau ac roedd ychydig o dan chwarter (23% *n* = 16) o'r farn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran trawsnewid a datblygu Cyngor y dyfodol. Roedd y gyfran leiaf o bobl (20% *n*=14) yn credu bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â thlodi.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Chwilio am ffyrdd o wella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a gwella cyfraddau ymateb ar gyfer yr hunanasesiad blynyddol.

**Casgliad i Ran 1**

Mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Dengys y dystiolaeth yn Rhan 1 o'r asesiad hwn mai'r graddau y mae'n arfer ei swyddogaethau yw ei fod yn **gwireddu ei uchelgais** wrth gyflawni ei amcanion lles, sef blaenoriaethau allweddol y Cyngor ar gyfer cyflenwi. Golyga hyn fod y Cyngor yn camu allan o feddylfryd 'busnes fel arfer' ac yn gweithredu i newid sut mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae'n arwydd o gynnydd cynnar i newid ehangach gyda mwy o rannau o'r Cyngor a sefydliadau'n cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn cymryd mwy o risgiau wedi'u rheoli'n dda, gan estyn allan at sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllid neu staffio. Yn ôl y Cyngor mae ei ddull gweithredu'n un uchelgeisiol ac mae staff yn gweithio ar draws sectorau ac yn helpu i ddylanwadu ar newid.

## Rhan 2 – Sut mae'r Cyngor yn defnyddio'i Adnoddau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i'r cyhoedd i ddefnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Golyga hyn ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo mewn modd diwastraff, effeithlon ac effeithiol. Hynny yw, rhoi gwerth am arian i'r cyhoedd; ond mae hefyd yn golygu gwneud hynny mewn ffordd sy'n deg ac yn gynaliadwy fel bod gwasanaethau ar gael i bawb heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Pan fyddwn yn siarad am yr 'adnoddau' sydd ar gael i'r Cyngor, rydym yn gyffredinol yn cyfeirio at gyllideb y Cyngor, ei weithlu a'i asedau eraill, fel adeiladau. Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol pan fydd y canlynol yn digwydd:

- Mae'n cwtogi cymaint â phosibl ar yr adnoddau a ddefnyddir (Diwastraff).
- Mae'r canlyniadau arfaethedig yn cyfateb i'r canlyniadau gwirioneddol (Effeithiol).
- Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr adnoddau a ddefnyddir ac allbynnau / canlyniadau, h.y. bodlonir y meini prawf diwastraff ac effeithiol (Effeithlon).
- Mae mynediad teg at wasanaethau ac mae anghenion yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol (Tegwch a chynaliadwyedd).

Defnyddir yr adnoddau hyn drwy'r meysydd canlynol:

- Cynllunio Ariannol.
- Cynllunio'r Gweithlu.
- Caffael.
- Rheoli Perfformiad (a meincnodi).

- Rheoli asedau.

Yn y rhan hon o'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, asesir i ba raddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddiwastraff, yn effeithlon ac effeithiol. Asesir hynny drwy adolygu a gwerthuso'n feirniadol sut y defnyddiwyd yr adnoddau hyn drwy gynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu, caffael, rheoli perfformiad a rheoli asedau. Mae Rhan 1 o'r asesiad hwn, sy'n ystyried pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau, hefyd yn mesur y defnydd effeithiol o adnoddau, h.y. i ba raddau y mae'r canlyniadau arfaethedig yn cyfateb i'r canlyniadau gwirioneddol ac y dylid eu darllen felly hefyd.

**Sut hwyl ydyn ni'n ei chael arni a sut ydyn ni'n gwybod?**

Cynhaliodd y Cyngor hunanasesiad ac asesiad sicrwydd o effeithiolrwydd ei ddefnydd o'r adnoddau a'r trefniadau llywodraethu ar waith. Roedd yr asesiad yn ystyried pa drefniadau oedd ar waith yn ystod 2021/22, pa mor effeithiol oedden nhw a'r dystiolaeth.

| | Tystiolaeth ac effeithiolrwydd cyflenwi | Maint y dystiolaeth ac effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| 1 | Ddim ar waith | Dim tystiolaeth o gyflenwi effeithiol. |
| 2 | Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd | Rhywfaint o dystiolaeth o gymhwyso, ond prin yw effeithiolrwydd y cyflenwi. |
| 3 | Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg | Tystiolaeth gymysg o gymhwyso effeithiol, gyda rhywfaint o dystiolaeth dda a rhai bylchau mewn cymhwyso neu dystiolaeth. |
| 4 | Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf | Tystiolaeth glir o gymhwyso effeithiol. |
| 5 | Wedi'i sefydlu | Tystiolaeth glir o gymhwyso effeithiol wedi'i sefydlu |

**Defnyddio adnoddau – strategaeth a gweledigaeth**

Roedd hunanasesiad y Cyngor yn profi a oes digon o gynllunio strategol ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

<table>
<tr><th colspan="5">Meini prawf</th></tr>
<tr><td colspan="5">Mae cynlluniau / strategaethau cynhwysfawr ar waith ar gyfer y gweithlu, cyllid, caffael ac asedau. Mae'r cynlluniau hyn yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at amcanion y Cyngor.</td></tr>
<tr><th colspan="5">Hunanasesiad</th></tr>
<tr><th>1. Ddim ar waith</th><th>2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd</th><th>3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg</th><th>4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf</th><th>5. Wedi'i sefydlu</th></tr>
<tr><td>☐</td><td>☐</td><td>☐</td><td>☒</td><td>☐</td></tr>
</table>

**Tystiolaeth**
Mae gan y Cyngor Gynllun Corfforaethol, sy'n disgrifio chwe amcan lles y Cyngor. Yr amcanion lles yw blaenoriaethau allweddol y Cyngor a'u nod yw sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y Cyngor at y nodau cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a gwella lles pobl Abertawe mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n diwallu anghenion pobl leol heb gyfaddawdu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan y Cyngor gyfres gyflenwol o gynlluniau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Strategaeth Refeniw a Strategaeth Gyfalaf, a phob un yn cydredeg â darparu cyllideb gynaliadwy a chyfyngiadau arian refeniw ar gyfer cyfarwyddiaethau a gwasanaethau i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol dros y tymor byr, canolig a hir. Mae'r rhain wedyn yn cydredeg â chynlluniau gwasanaeth adrannol ar gyfer darparu'r gwasanaethau er mwyn bodloni amcanion y cynllun corfforaethol - Gweler yr adran Cynllunio Ariannol isod am ragor o fanylion.

Datblygodd y Cyngor Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer 2022 i 2027, sy'n cyfrif am gynlluniau lefel gorfforaethol a gwasanaeth, gweledigaeth y cyngor ac amcanion allweddol. Datblygwyd y strategaeth gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Trawsnewid Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor i gefnogi gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sydd â'r gallu a'r gallu a'r capasiti i gyflawni amcanion y Cynghorau. Bydd strategaeth y gweithlu yn cael ei monitro a'i hadolygu ar gyfer effeithiolrwydd yn erbyn amcanion ar ôl ei chyflwyno fesul dipyn o fis Ebrill 2022 – gweler adran Strategaeth y Gweithlu isod am fwy o fanylion.

Mae gweithdrefnau Caffael y Cyngor yn dilyn y rheolau perthnasol a nodir yn y cyfansoddiad. Mae egwyddorion caffael cynaliadwy fel y'u nodir yn Natganiad Polisi Caffael diwygiedig Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn sail i arferion caffael y Cyngor. Cafodd strategaeth gaffael y Cyngor ei hadolygu ar gyfer effeithiolrwydd yn erbyn amcanion arfaethedig wrth graffu yn ystod 2021/22 - gweler yr adran Caffael isod i gael rhagor o fanylion. Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau a fabwysiadwyd. Mae cydweithio'n nodwedd gynyddol ar y ffordd yr ydym yn rheoli ein hystâd. Mae'r Bwrdd Eiddo Lleol yn galluogi cyrff cyhoeddus i gydweithio i ganfod atebion sy'n diogelu asedau er budd ein cymunedau yn y tymor hir.

**Rheoli Ariannol**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae mecanweithiau cadarn ar waith i gyflawni'r gyllideb gan fonitro a rheoli'r gyllideb mewn modd cryf ac effeithiol. | | | | |
| Mae cynigion arbed a gosod cyllideb yn cael eu monitro i nodi unrhyw effaith andwyol, gan gynnwys effaith andwyol ar gydraddoldeb ac ar les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Gosodir cyllidebau yn y Cyngor bob blwyddyn yn dilyn proses helaeth o osod cyllidebau, sy'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus eang. Cafodd y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2021/22 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 4 Mawrth 2021. Roedden nhw'n parhau i nodi rhaglen uchelgeisiol barhaus o gynlluniau gwariant cyfalaf cymeradwy a chynlluniau gwario cyfalaf yn y dyfodol wedi'u cynnal gan fenthyca digymorth. Ar y pryd, roedd ansicrwydd parhaus ynghylch yr effaith barhaus yn sgil COVID-19 ar raddfa gwariant ychwanegol, colli incwm, a'r trefniadau cyllido ar gyfer ad-daliad yn rhannol, neu'n llawn, a wynebai'r awdurdod wrth ymateb i'r pandemig.

Cymeradwywyd y Cyllidebau Cyllid a Chyfalaf ar gyfer 2022/23 yn y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 lle mae'r benthyca digymorth i ariannu'r cynlluniau gwariant cyfalaf cymeradwy ac yn y dyfodol bellach wedi'i allanoli'n llawn ar gyfraddau sefydlog am hyd at 50 mlynedd yn dadrisgio amlygu'r gronfa gyffredinol i symudiadau cyfraddau llog yn y dyfodol, er wrth gwrs bydd yr amgylchedd cyfraddau llog uwch sy'n bodoli ar hyn o bryd yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch buddsoddi a benthyca yn y dyfodol. Byddai ymrwymiadau presennol yn gofyn bod arbedion cyllideb cymedrol yn unig yn cael eu gwneud i helpu i hwyluso'r buddsoddiad cyfalaf mawr hwnnw ac ysgogiad adfywio economaidd; mae'n debygol y bydd effeithiau crychdonnau parhaus COVID-19 yn effeithio ar y cynlluniau hyn o hyd. Bydd penderfyniadau buddsoddi newydd, y mae angen benthyciadau drutach ar eu cyfer, yn anos o lawer i'w cyflawni ar yr un pryd, gan fod y rhagolwg ar gyfer cyllidebau cyhoeddus gwirioneddol, ar ôl chwyddiant, wedi gwaethygu'n gyflym iawn.

Ar ôl ei gosod, mae'r gyllideb wedyn yn cael ei monitro mewn nifer o grwpiau, pwyllgorau a chyfarfodydd llywodraethu a sicrwydd. Ar lefel gorfforaethol cynhyrchir adroddiadau monitro cyllideb chwarterol ar gyfer Tîm Rheoli Corfforaethol a Chabinet y Cyngor. Mae'r adroddiadau monitro cyllideb hyn yn destun craffu gan uwch reolwyr mewn Cyfarfodydd Monitro Ariannol a Pherfformiad misol, ym Mhanel Perfformiad Gwella Gwasanaeth a Chraffu ar Gyllid y Cyngor ac yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae rheolaethau gwariant trylwyr ar waith fel rhan o drefniadau monitro'r gyllideb i reoli, lleihau, gohirio ac oedi gwariant cyn belled ag y bo modd, gan roi sylw priodol i'r gyllideb bresennol y cytunwyd arni a blaenoriaethau gwleidyddol i geisio cyfyngu serch hynny ar orwario gwasanaethau a chymryd camau cywiro.

Roedd yr adroddiadau monitro cyllideb chwarterol yn 2021/22 yn gyson yn nodi rhai achosion o orwario cyllideb refeniw gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, wedi'u sbarduno'n arbennig gan wariant Covid, er eu bod yn lleihau drwy gydol y flwyddyn. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, daeth cyflymder a maint ad-dalu costau a cholli incwm treth a gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru yn fwyfwy amlwg ac, o ganlyniad, mewn sawl diweddariad geiriol ar sefyllfa'r trydydd chwarter i'r Cabinet, y Cyngor, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phaneli craffu, roedd y Swyddog A151 yn cynghori bod disgwyl tanwariant alldro sylweddol yn gyffredinol. Mae cyfanswm tanwariant gwasanaeth bellach wedi'i gadarnhau (sef ychydig dros £41m) ac mae'n ganlyniad arbennig o dda. Mae'r tanwariant cyffredinol net ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i danwariant y gwasanaethau a ragwelwyd ac a gynlluniwyd ynghyd â nifer o ffrydiau ariannu ychwanegol hwyr gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys y Grant Cymorth Refeniw, cyllid diffyg y Dreth Gyngor a chynllun Cymorth Costau Byw ar gyfer 2022-23 fel cyfraniad untro y mae'r ddau olaf wedi'u cynnwys fel rhan o'r "Costau/incwm corfforaethol untro".

Gwna'r Cabinet a'r Cyngor benderfyniadau ar arbedion cyllideb waeth beth yw cyngor y swyddogion, sy'n destun pwyso a mesur gan Aelodau wrth wneud penderfyniadau. Mae arbedion i'r gyllideb yn destun ymgynghoriad ag undebau llafur, staff a'r cyhoedd. Caiff yr holl arbedion eu dogfennu, y cyllidebau cyfarwyddiaeth eu rhewi ac arbedion eu hamlygu mewn cyngor ariannol gan swyddogion. Caiff targedau arbedion eu monitro a'u hadolygu yn y Bwrdd Ail-lunio a Gosod Cyllideb a sefydlwyd yn rhan o strategaeth drawsnewid Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor. Yn ogystal, mae gwaith monitro ac adolygiadau mewn cyfarfodydd Perfformiad a Monitro Ariannol misol yn nodi unrhyw broblemau gydag arbedion neu gynhyrchu incwm ac yn rhoi camau cywiro ar waith. Yn ystod 2021/22, o ganlyniad i COVID-19, peidiodd y Cyngor â defnyddio mecanwaith olrhain er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y cynigion arbedion penodol sydd yn cael eu cynnwys o fewn cynigion cyllideb gwasanaeth a chyffredinol. Ni chafodd y mecanwaith olrhain ei gwblhau yn ystod y cyfnodau clo amrywiol ac ymateb brys i bandemig COVID 19 fel rhan o broses bragmatig ac ymarferol o ail-flaenoriaethu gwaith hanfodol (canolbwyntio ar alldro, cau, datganiad o gyfrifon, cynnal llinellau cyflenwi ar gyfer y gyflogres, cyfrifon taladwy, symiau derbyniadwy a dosbarthu cymorth grant brys). Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhywfaint o arbedion digolledu ychwanegol wedi'u gwneud yn ystod

y flwyddyn lle'r oedd arbedion penodol wedi'u gohirio neu heb eu cyflawni. Yn ogystal, roedd pob cyfarwyddiaeth wedi tanwario yn 2021/22 adeg alldro ac felly cyflwynwyd arbedion gwerth cyfartal neu gywerth gan gynnwys rhai penodol. Bydd y broses olrhain arbedion ac adolygu effeithiolrwydd yn ailddechrau yn 2022/23.

Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb corfforaethol i weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac i barhau'n ariannol gadarn dros y tymor byr, canolig a hirach. Un o'r prif arfau sydd ar gael i'r Awdurdodau wrth reoli ei faterion yw creu a defnyddio cronfeydd Cyffredinol ac Wedi'u Clustnodi i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau dros gyfnod hirach nag un flwyddyn ariannol. Cwtogir cymaint â phosibl ar fenthyca a defnyddio cronfeydd heb gynllunio gwneud hynny, yn unol â llywodraethu da. Cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), drwy Banel Cyfrifyddu'r Awdurdod Lleol, fwletin ym mis Gorffennaf 2014 (LAAP 99) gyda'r bwriad o roi arweiniad i Awdurdodau Lleol ar reoli ac adolygu cronfeydd wrth gefn; ystyrir y bwletin hwn yn arfer gorau o ran gweinyddu ariannol yr Awdurdod Lleol ac mae'n rhaid ei ddilyn i bob pwrpas. O fewn y fframwaith statudol a rheoleiddio presennol, cyfrifoldeb Prif Swyddogion Ariannol yw cynghori Awdurdodau Lleol ar lefel y cronfeydd wrth gefn y dylid eu cynnal a sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio. Ni ddylid dal cronfeydd wrth gefn heb bwrpas clir. Dyletswydd y Prif Swyddog Ariannol yw adrodd yn benodol am gadernid amcangyfrifon a chronfeydd wrth gefn pan fydd y Cyngor yn ystyried ei ofyniad cyllideb; fel y cyfryw, roedd y Gyllideb Refeniw a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn gwneud cyfeiriadau penodol at ddigonolrwydd cronfeydd wrth gefn ar y pryd. Er gwaethaf y gofyniad statudol penodol hwnnw, dyletswydd y Prif Swyddog Cyllid yw adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd ynghylch cronfeydd wrth gefn sydd ar gael. Caiff hyn ei fonitro drwy Dîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r tîm Craffu fel rhan o drosolwg corfforaethol wrth adrodd ar gyllidebau a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn ogystal, adroddir am unrhyw newidiadau i gronfeydd wrth gefn drwy'r Cabinet / pwyllgor priodol.

Cyflwynwyd yr adroddiad ysgrifenedig ar yr Adolygiad o Gronfeydd Wrth Gefn i'r Cyngor ar 7 Hydref 2021, a ddarparodd asesiad strategol â ffocws o berfformiad ariannol y flwyddyn gyfredol a diweddariad ar dybiaethau cynllunio strategol dros y tair blwyddyn ariannol nesaf. Daeth y Datganiad i'r casgliad gallai'r Cyngor o bosibl ei chael hi'n anodd cyflenwi o fewn yr adnoddau cyffredinol a nodwyd i gefnogi'r gyllideb yn 2022/23 a'r tu hwnt oni bai bod y setliad llywodraeth leol yn llawer gwell ac yn aml-flwyddyn os yn bosib. Cadarnhawyd yn briodol fod y cwantwm yn llawer gwell erbyn mis Mawrth 2022 ac, yn galonogol, roedd yn setliad tair blynedd er ei fod yn helaeth ar y dechrau cyn gollwng yn sylweddol. Bydd effeithiau'r cwymp sylweddol hwn o ran arian yn cael eu chwyddo'n sylweddol oherwydd chwyddiant sy'n uwch na'r disgwyl, dyfarniadau cyflog uwch, costau benthyca uwch a chefnogaeth ariannol gan y llywodraeth a all fod naill ai'n sefydlog neu hyd yn oed yn is yn awr. Roedd yr alldro tebygol a ragwelwyd yn dibynnu ar allu'r Cyngor i leihau a chyfyngu ar wariant parhaus ar draws pob maes, ei allu i adennill gwariant ac incwm a gollwyd gan Lywodraeth Cymru a'i ddibyniaeth barhaus ar strategaethau ariannu cyfalaf gweithredol i wneud y gorau o'r arbedion tymor byr er mwyn cryfhau'r gronfa cydraddoli cyfalaf ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, gan gydnabod y prif ymrwymiadau cyfalaf yn y dyfodol sydd eisoes wedi'u gwneud yn ddiymdroi gan benderfyniadau'r Cyngor ar faint y rhaglen gyfalaf a benthyca cysylltiedig.

Nid oedd yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Hydref 2021 yn adolygu cronfeydd wrth gefn yn cynnig unrhyw drosglwyddiadau ychwanegol, bryd hynny, rhwng cronfeydd wrth gefn at y rhai a amlygwyd yn yr adroddiadau monitro chwarterol. Serch hynny, yn seiliedig ar y sefyllfa Refeniw net sy'n deillio o'r sefyllfa alldro derfynol wirioneddol, yn sgil y tanwariant parhaus sylweddol a gynlluniwyd yn llawn i'r un graddau ar ariannu cyfalaf a hapddigwyddiadau, chwyddiant canolog ac eitemau corfforaethol eraill gan gynnwys grantiau Covid ychwanegol Llywodraeth Cymru, bu modd ychwanegu symiau at y gronfa adfer, y gronfa cydraddoli cyfalaf, y gronfa gyffredinol a rhai i'w dwyn ymlaen unwaith eto wrth gefn, sy'n ffordd ddoeth o gynllunio ar gyfer costau cynyddol sicr y dyfodol

o ran ariannu'r rhaglen gyfalaf canol tymor uchelgeisiol ac ansicrwydd COVID-19, a mynd i'r afael â rhai ohonynt. Dywedodd y Swyddog Adran 151 yn yr un adroddiad ei fod o'r farn nad oes lle mewn cronfeydd Cyffredinol i ariannu unrhyw wariant ychwanegol gan y Cyngor o ystyried y risgiau presennol sy'n wynebu'r Cyngor o ran pwysau gwario parhaus, chwyddiant ac ansicrwydd gwir werth ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Golyga hynny fod yn rhaid i bob gwariant fel arall gael ei gynnwys o hyd yn gyfan gwbl o fewn y cyllidebau presennol neu ei fodloni gan y cronfeydd penodol wedi'u clustnodi sydd eisoes yn sylweddol iawn a sefydlwyd yn rhan o'r adroddiad alldro. Mae'r holl gynigion cyllideb ac arbedion cyllideb yn destun Asesiad o Effaith Integredig ac mae ymgynghori helaeth â'r cyhoedd, undebau llafur a staff y cyngor. Mae asesiadau effaith integredig (AEI) yn ofyniad cyfreithiol yn y Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru). Mae'r AEI yn asesu cynigion cyllideb ac arbedion i archwilio a oes risg y byddent yn effeithio'n andwyol ar unrhyw unigolyn neu unigolion. Gwellwyd AEI Cyngor Abertawe er mwyn ystyried blaenoriaethau a materion allweddol eraill, megis tlodi ac allgau cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, gofalwyr a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Gymraeg.

Mae'n hysbys o flynyddoedd blaenorol fod effaith yn debygol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, oherwydd maint y gostyngiadau yn y gyllideb. Wrth asesu effaith y cynigion cyllideb, mae'r Cyngor yn parhau i geisio sicrhau nad yw unrhyw effaith yn anghymesur a bod ffocws parhaus ar liniaru lle bynnag y bo modd. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi'r canlynol: lle mae AEI yn dangos effaith sylweddol bosibl heb unrhyw liniaru posibl, cyfeirir y cynigion hyn i'w hystyried ymhellach; ar gyfer yr asesiadau hynny lle mae effaith sylweddol bosibl wedi'i nodi a lle bu lliniaru'n bosibl, mae'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn cael eu monitro a'u hadolygu. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau i holl ddinasyddion Abertawe, a llawer o'r rhain o fudd arbennig i'r meysydd a gwmpesir gan ein proses AEI. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sydd fwyaf pwysig i bobl Abertawe, mynd i'r afael â thlodi a gofalu am y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Bydd y Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gyflawni'r ymrwymiad heriol hwn o ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n ei wynebu. Fodd bynnag, efallai bydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd wahanol yn unol â strategaeth trawsnewid 'Abertawe – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd'.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Parhau i reoli, lleihau, gohirio ac oedi gwariant cyn belled ag y bo modd, gan roi sylw priodol i'r gyllideb bresennol y cytunwyd arni a blaenoriaethau gwleidyddol i geisio cyfyngu er hynny ar orwariant gwasanaethau a chymryd camau cywiro.
- Ailsefydlu gwaith olrhain (a ataliwyd o ganlyniad i Covid) i sicrhau bod targedau arbedion yn cael eu monitro a'u hadolygu yn y Bwrdd Ail-lunio a Gosod Cyllideb a sefydlwyd fel rhan o strategaeth trawsnewid Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor.

**Caffael**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r strategaeth a'r dull caffael yn ceisio sicrhau'r effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol orau posibl yn sgil penderfyniadau gwario. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

Mae'r Cyngor yn gwario tua £290 miliwn y flwyddyn ar ystod amrywiol o nwyddau, gwaith a gwasanaethau gan ein sefydliadau partner allanol. Yn ogystal ag ateb yr her o sicrhau cyfarpar diogelu personol hanfodol a chyflenwadau eraill yn effeithiol, gan weithio i gefnogi isadeiledd gofal y Cyngor - ein cyflenwyr a'n gweithlu - a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, roedd ymateb y Cyngor i Covid 19 hefyd yn cynorthwyo adrannau i gael gafael ar grantiau lleddfu Covid, yn paratoi ystod fawr o amrywiadau contract oherwydd yr aflonyddwch enfawr a achoswyd gan Covid-19, ac felly'n cefnogi ein gofal cymdeithasol a'n hadfywiad drwyddi draw.

Mae newidiadau pwysig a gynorthwyodd i ymateb i'r pandemig, ond sydd hefyd yn creu gwasanaeth mwy cadarn a chynaliadwy, yn cynnwys y broses gaffael hunanwasanaeth gwerth isel newydd, gyda phecyn a chanllaw ar gyfer adrannau i hunanreoli contractau gwerth isel a chyflwyno meddalwedd Docusign, sydd (er enghraifft) yn galluogi cyflenwyr i roi a llofnodi contractau electronig yn uniongyrchol. Arweiniodd hyn at argraffu 24,000 yn llai o dudalennau yn y Gwasanaethau Masnachol yn unig gyda buddion cysylltiedig, ac at alluogi parhad hanfodol y gwasanaeth yn ystod y pandemig.

Mae egwyddorion caffael cynaliadwy fel y'u nodir yn Natganiad Polisi Caffael diwygiedig Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn sail i arferion caffael y Cyngor. Bydd swyddogion caffael yn gweithio gyda gwasanaethau ar gamau cynharaf y broses gaffael fel y gellir datblygu manylebau gan reolwyr sy'n ystyried gwerth-am-arian ar sail bywyd cyfan (ystyrir costau sy'n ymwneud â chynnal a chadw, gwaredu a nwyddau traul). Mae hyn yn cynnwys gwaith a wnaed ar Ddogfen Canllawiau Caffael ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chaffael, sy'n rhoi cyngor ymarferol i staff i sicrhau eu bod yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar y cyfle cyntaf. Mae Holiaduron Addasrwydd Cyflenwyr hefyd yn cynnwys adran ar gynaliadwyedd sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol, ond hefyd yn mynd i'r afael â chydraddoldebau a diogelu yn ogystal â meini prawf technegol ac economaidd mwy traddodiadol. Mae'r gwaith gwerth cymdeithasol hwn, sy'n cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu cyflenwyr lleol, yn ddarn datblygu allweddol ar gyfer y Gwasanaeth ac mae model newydd o ystyried gwerth cymdeithasol yn cael ei ddatblygu, gan weithio gyda CLlLC a Llywodraeth Cymru, gyda manylion pellach isod.

Menter arobryn yw Tu Hwnt i Frics a Morter dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Lle, sy'n sicrhau buddion cymdeithasol o weithgarwch adeiladu ac adfywio ar draws sectorau yn Ninas a Sir Abertawe er budd parhaol y gymuned. Mae ein Polisi Budd Cymunedol wedi ehangu'r dull hwn i gwmpasu holl brosiectau caffael y Cyngor. Gwna hyn y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau gwerth ychwanegol ac i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant o ganlyniad i wariant sector cyhoeddus yn Abertawe. Cymerwyd camau ychwanegol hefyd tuag at integreiddio dull economi gylchol gydag adolygiad a wnaed gyda WRAP, gan weithio gyda Gwasanaethau Masnachol.

Mae'r Cyngor wedi addasu ei Gyfansoddiad i roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio cyflenwyr lleol i ddiwallu ein hangen am nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael eu gwahodd i gynnig am brosiectau penodol; ac rydym hefyd wedi ceisio sicrhau'r gwerth gorau posibl i Bunt Abertawe trwy ddatblygu'r Economi Sylfaenol. Cymerodd y Cyngor ran yng nghynllun peilot Llywodraeth Cymru hefyd i ddatblygu'r Economi Sylfaenol, gan weithio ar faterion yn ymwneud â chaffael lleol a chanolbwyntio ar y sector adeiladu. Mae dull peilot o ran dylunio a manyleb contractau i'r Cyngor wedi caniatáu i fusnesau bach wneud cais am gontractau cyhoeddus a chynyddu faint o arian sy'n cael ei wario'n lleol gan y Cyngor. Roedd y dull peilot yn canolbwyntio ar newid y dull caffael ar gyfer tri chontract sy'n seiliedig ar adeiladu; mae'r gwersi a ddysgwyd o'r broses honno yn cael eu defnyddio i newid y strategaeth gaffael gyffredinol o fewn y Cyngor. Mae'r

'Sylfeini ar gyfer Llwyddiant Lleol' yn ceisio datblygu contractau gyda chyflenwyr lleol i gyflenwi a gosod paneli solar ffotofoltaig, cyflenwi a gosod pympiau gwres ffynhonnell aer a gwneud gwaith amgylcheddol allanol.

Cynhelir mentrau parhaus ar y cyd â'r Swyddog Rhaglen Ariannu Allanol i annog mwy o fusnesau bach a chanolig lleol i dendro am waith i'r Cyngor. Mae hyn yn golygu siarad â chontractwyr lleol i ganfod unrhyw rwystrau canfyddedig rhag tendro iddynt, rhannu contractau'n lotiau llai o faint i fod yn fwy deniadol a pherthnasol i fusnesau bach a chanolig a symleiddio dogfennau.

Mae'r Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach i holl gaffael y Cyngor. Er enghraifft, cynhaliwyd ymarfer ar gontract Mwy o Gartrefi Parc yr Helyg i ganfod pellter yr holl gyflenwyr a'r isgontractwyr a ddefnyddiwyd ar y prosiect i ffwrdd o'r safle; ac rydym yn gweithio i adolygu sut y gallwn ymgorffori gwerth cymdeithasol ychwanegol ymhellach, gan greu system well i integreiddio gwerth o'r fath. Er bod y Cyngor yn ceisio rhoi digon o bwys i ystyriaethau bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a diwylliant ac iechyd, mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r ffordd y gellir ehangu'r dull gweithredu hwn yn unol ag egwyddorion gwerth cymdeithasol.

Yn ogystal â chynnwys cymalau gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol yn ein contractau, bu'r Cyngor hefyd yn gweithio i sicrhau bod ymgynghorwyr a chontractwyr posibl yn profi eu hymrwymiad i'r canlynol, a bod ganddynt bolisïau cwmni yn eu lle ar gyfer y canlynol: Caethwasiaeth Fodern, Cyfle Cyfartal, y Gymraeg a Diogelu (Cymunedau Cydlynus). Rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwyr a chynhaliodd Abertawe y digwyddiad Cwrdd â'r Prynwyr rhithwir cyntaf o'i fath yng Nghymru, gan baratoi'r ffordd i Awdurdodau Lleol eraill ddilyn yr un trywydd gan ddefnyddio'r model a grëwyd gan Abertawe gyda'r porth a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob cyfle caffael yng Nghymru sef GwerthwchiGymru.

Cynhaliodd y Cyngor ymchwiliad craffu i gaffael yn ystod 2021/22. Bu'r ymchwiliad yn ystyried sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan fframweithiau cyfreithiol ac yn sicrhau ei fod yn gweithio i gaffael yn lleol, yn foesegol ac yn wyrdd wrth sicrhau bod ei brosesau'n gost-effeithiol ac yn dryloyw. Roedd y Panel yn fodlon bod caffael yn amlwg wedi'i gynnwys yng nghynlluniau adfer y Cyngor wrth symud ymlaen, gyda'i weithgarwch caffael yn cydredeg ag amcanion allweddol y Cyngor. Roedd yr ymchwiliad yn argymell bod y Cabinet yn datblygu mecanwaith ar gyfer mesur effaith gwariant ar ymrwymiadau polisi mewn perthynas, er enghraifft, â budd cymdeithasol, caffael lleol, yr amgylchedd naturiol a newid yn yr hinsawdd. Argymhellodd hefyd fod y Cabinet yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o fesur effaith ymrwymiadau cenedlaethol allweddol ledled Cymru a rhannu arferion da caffael ledled Cymru.

Roedd yr Ymchwiliad yn cydnabod bod amrywiaeth helaeth o weithgaredd caffael yn digwydd ar draws gwasanaethau niferus y Cyngor ac roedd felly am sicrhau bod y Cyngor yn cael y gwariant gorau o bwrs y wlad. Dylai hyn gynnwys gwerth am arian ond hefyd ansawdd y gwasanaethau neu'r eitemau rydyn ni'n eu caffael. Roedd y Panel yn fodlon mai rhan o rôl y tîm caffael canolog oedd sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni a bod pŵer prynu yn cael ei optimeiddio rhwng ansawdd a chost pan fydd gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal. Roedd yr Ymchwiliad yn falch o ganfod nad yw cael y gwerth gorau am arian wrth gaffael yn golygu cael y pris isaf yn unig a bod y Cyngor yn gwerthuso tendrau a dyfynbrisiau yn seiliedig ar feini prawf gwerthuso penodol sy'n dibynnu ar bob contract a gall hynny fod yn ôl pris/cost, ansawdd neu yn ôl pris/cost ac ansawdd.

Amlygodd yr Ymchwiliad effeithiau tymor hwy ac felly anhysbys gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gost ac argaeledd deunyddiau yn ogystal ag ar y gweithlu'n lleol, sydd wedi'u dwysáu gan bandemig Covid; pwysleisiodd yr Ymchwiliad bwysigrwydd parhau i ystyried a monitro'r risg hon.

Yn ôl yr Ymchwiliad, awgryma tystiolaeth fod yn Abertawe ymrwymiad clir i'r economi leol, a'i datblygiad, gyda chefnogaeth i gyflenwyr lleol yn amlwg ers nifer o flynyddoedd. Clywodd y Panel fod menter y Tu Hwnt i Frics a Morter wedi'i datblygu nôl yn 2009 gyda'r bwriad o sicrhau buddion ychwanegol o brosiectau adfywio dan arweiniad y Cyngor. Buddion cymunedol yw'r rhain sy'n deillio o gyflenwyr ac yn cael eu mynegi drwy gontractau. Ymhlith y buddion cymunedol o'r fath, mae nodi cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau, datblygu cadwyni cyflenwi mwy lleol a buddion cymunedol ehangach, e.e. ymgysylltu ag ysgolion, colegau a chyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol.

Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad fod y Cyngor yn adolygu ei brosesau yn rheolaidd er mwyn iddo sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cywirdeb a gweithdrefn a pheidio â chael rhwystrau diangen i rai contractwyr llai. Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Rob Stewart wrth yr Ymchwiliad y bydd yr agwedd leoliaeth yn parhau i fod yn ffocws allweddol er mwyn sicrhau bod yr arian rydym yn ei wario yn aros mor lleol â phosib a'i bod yn agwedd allweddol ar strategaeth gaffael y Cyngor. Clywodd y Panel am ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' sy'n cael eu cynnal i annog ymgysylltu gan ddarparwyr ar brif gontractau'r Cyngor ac i gefnogi datblygiad y farchnad. Hoffai'r Panel weld nifer y diwrnodau agored yn cael eu hehangu er mwyn annog cwmnïau lleol i dendro am waith y cyngor ac annog adborth gan gyflenwyr. Roeddent hefyd o'r farn y gallai'r digwyddiadau gael eu gwneud mewn nifer o ffyrdd gan ddibynnu ar ofynion y contract, er enghraifft, a gallent gynnwys er enghraifft digwyddiadau penodol i gontract a/neu fasnach, sioeau teithiol a gweminarau ac ati. Cydnabyddir nad yw busnesau lleol bob amser yn ymwybodol o ddiwrnodau neu ddigwyddiadau agored posibl, felly mae angen i'r Cyngor ddatblygu a chynnal cysylltiadau uniongyrchol gyda busnesau lleol gan gynnwys datblygu sianeli cyfathrebu priodol i'w rhybuddio am gyfleoedd caffael sydd ar y gweill. Croesawodd yr Ymchwiliad y canllaw cyflenwyr newydd i ddarpar gyflenwyr sydd wedi ei ddatblygu i'w cynorthwyo i ddeall prosesau caffael y Cyngor. Clywodd yr Ymchwiliad fod y Cyngor hefyd wedi diweddaru ei wefan allanol er mwyn ymgysylltu'n well â chyflenwyr a gwneud gwybodaeth ar gael iddynt yn well. Roedd yr Ymchwiliad yn cydnabod y gwelliannau a wnaed yn y maes hwn ond pwysleisiodd fod angen parhau i adolygu dogfennau a dylunio contract yn rheolaidd i annog busnesau bach a chanolig ymhellach i dendro am waith y cyngor.

Er bod gwaith rhagorol yn cael ei wneud yn Abertawe o ran gwella budd cymunedol a chaffael lleol, roedd yr Ymchwiliad yn gobeithio y bydd newidiadau i ddod mewn deddfwriaeth yn caniatáu i Gynghorau adeiladu ar y gweithgaredd caffael lleol hwn; ein bod yn ystyried sut rydym yn gweithio gyda'r trydydd sector, yn enwedig y sefydliadau llai, ac y dylai'r anawsterau sy'n eu hwynebu gael eu cydnabod a'u hystyried yn ein proses gaffael lle bo modd. Clywodd yr Ymchwiliad fod y rheoliad a'r polisi o ran caffael ar fin mynd drwy gyfnod o newid sylweddol gyda'r disgwyl i Reoliadau Contract Cyhoeddus y DU gael eu diwygio; gall hyn ganiatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ystyried, er enghraifft, gwell meini prawf gwerth cymdeithasol. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd fod effaith diwygio Caffael Llywodraeth y DU yn ffactor anhysbys ar hyn o bryd; roedd y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn nodi dileu'r drefn lai manwl o'r rheolau newydd, a allai roi pwysau ychwanegol ar adnoddau caffael y Cyngor ac y dylid adolygu'r rhain yn unol â hynny.

Clywodd yr Ymchwiliad fod Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i 'Gymru fwy cyfartal', a hon yn gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod prynwyr yn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau. Sicrhawyd yr Ymchwiliad o glywed bod cydymffurfio â'r Ddeddf yn rhan annatod o holl ddogfennau a fframweithiau tendro'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys y

fframweithiau a ddefnyddir i gontractwyr sy'n nodi gofynion clir i brofi ymrwymiad i bolisïau ar gyfer cyfle cyfartal, yn ogystal â buddion cymunedol/gwerth cymdeithasol, caethwasiaeth fodern, y Gymraeg a diogelu, ac i gynnal y polisïau hyn.

Awgryma tystiolaeth i'r Ymchwiliad fod gweledigaeth gan y Cyngor mewn perthynas ag arferion amgylcheddol a moesegol gyda nodau ac amcanion o fewn cynlluniau corfforaethol y Cyngor, y gweithredir yn eu cylch yn ddyddiol mewn gweithgareddau caffael adrannol. Roedd yr Ymchwiliad yn fodlon bod arferion amgylcheddol a moesegol da ar waith, y gellid eu meithrin a'u gwreiddio ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai dull y Cyngor o ymdrin â gwerth cymdeithasol, lleoliaeth, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol gael ei integreiddio a'i ehangu ymhellach yn unol ag egwyddorion allweddol a chynllun peilot presennol y Cyngor yn adolygu'r mater hwn; ymchwilio i ffyrdd y gellir mesur effaith ôl troed carbon contract, a; defnyddio mwy o atebion sy'n seiliedig ar natur yn arfer caffael y Cyngor.

Roedd y Panel yn falch o weld tystiolaeth sy'n awgrymu bod y Cyngor yn wir yn gweithio ar draws adrannau, gyda'i bartneriaid ac eraill ar drywydd buddion o arbedion maint, gan sicrhau effeithlonrwydd o ran defnyddio adnoddau ac, mewn rhai achosion, gallu sicrhau arbedion. Roedd yr Ymchwiliad yn falch o glywed y sylwadau cadarnhaol gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe yn crybwyll bod y trefniadau Compact yn dod yn fforwm cryf ar gyfer y trydydd sector. Roedd yr Ymchwiliad am weld hyn yn ehangu ymhellach a'r arfer da a ddysgwyd yn cael ei rannu a'i ddefnyddio mewn mannau eraill yn y Cyngor lle bo hynny'n briodol.

Er mwyn caffael yn effeithiol, roedd yr Ymchwiliad o'r farn bod angen fframwaith da ar gyfer monitro perfformiad a mesur llwyddiant sy'n hanfodol ar gyfer gwella'n barhaus. Roedd yr Ymchwiliad yn awyddus i weld y wybodaeth yn cael ei chasglu ac yna'n cael ei hadolygu a'i defnyddio i wella'n barhaus.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad Craffu i gaffael - gan gynnwys ffocws ar ystyriaethau gwerth cymdeithasol gwell yn y maes caffael yn unol â deddfwriaeth newydd y mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn ei datblygu (pan gyhoeddir y ddeddfwriaeth honno a phan ddaw ei heffaith yn hysbys), i gynnwys ystyriaethau datblygu cynaliadwy, datblygu'r sylfaen gyflenwyr leol a'r gweithgarwch cyd-gynhyrchu, h.y. cynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau, a hefyd ffocws ar unrhyw feysydd diffyg cydymffurfio mewn gweithgarwch caffael.

**Cynllunio'r Gweithlu**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth gweithlu sy'n galluogi gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol, yn hyblyg ac yn wydn a chanddo ddigon o allu a chapasiti i ateb galw'r presennol a'r dyfodol. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Sefydlwyd strwythurau brys a blaenoriaethwyd adnoddau tuag at weithgareddau Covid-19 yn ystod y pandemig wrth orfod hefyd cynnal llawer o weithgareddau busnes yn ôl yr arfer. Mae staff, ar y cyfan, wedi dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol wrth i wasanaethau ailddechrau ond cydnabyddir y gallai fod gofyn gweithgareddau gweithlu pellach pe bai aflonyddwch gan Covid yn y dyfodol.

Sefydlwyd Gweithgor Gweithlu yn 2021 i gefnogi'r trefniadau llywodraethu ac adolygu hyn, a arweiniodd at gyflwyno adroddiadau ym mis Mawrth 2021 ac adroddiad diweddaru ym mis Chwefror 2022.

Cyn y pandemig roedd Cyngor Abertawe eisoes wedi dechrau gweithredu strategaeth gweithio ystwyth yn llwyddiannus. Roedd hyn yn galluogi pontio di-dor bron i weithio gartref i'r mwyafrif helaeth o staff yn ystod Covid. Mae polisi gweithio ystwyth diwygiedig yn rhoi mwy o bŵer i'r cyflogai weithio mewn modd hyblyg, gan sicrhau bod anghenion y busnes yn parhau i gael eu diwallu. Mae hyn bellach yn llywio penderfyniadau ar strategaeth llety'r dyfodol, a fydd yn parhau i weld gostyngiad yn yr ystâd swyddfeydd ond yn sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y model gweithio hybrid sy'n esblygu. Clywodd y Gweithgor Craffu fod staff a oedd yn cael hyn yn anodd yn cael eu cefnogi a bod rheolwyr wedi cadw cysylltiad rheolaidd â'u staff drwy gyfarfodydd tîm ac un-ac-un. Darparwyd llawer o wybodaeth am weithio gartref a darparwyd y cyfarpar diweddaraf. Roedd y Gweithgor Craffu hefyd yn falch bod gwybodaeth am sut i hawlio arian yn ôl gan y swyddfa dreth am weithio gartref ar gael yn rhwydd i staff mewn amrywiol ffyrdd.

Yn ystod naw mis cyntaf 2020/21 a hyd at fis Rhagfyr 2021, roedd y cyfrif pennau a’r nifer cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu ym mhob Cyfarwyddiaeth, a hynny’n bennaf o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn rolau hyfforddeiaeth (yn enwedig mewn Rheoli Gwastraff), recriwtio staff Profi, Olrhain, Diogelu a brechu ychwanegol, staff arlwyo a glanhau ysgolion a staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol; mae recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau cymdeithasol yn heriol o hyd. Clywodd y Gweithgor Craffu fod polisi recriwtio a datblygu wedi'i ddatblygu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, nad yw’n ymwneud a chyflogau yn unig ond hefyd defnyddio sianeli gwahanol ar gyfer recriwtio, gweithio ar forâl staff a chynnig hyblygrwydd a chydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Ni chafodd y pandemig unrhyw effaith sylweddol ar oedran na phroffil rhywedd y gweithlu. Mae'r proffil oedran yn parhau i ogwyddo tuag at yr ystodau oedran 40 i 59 oed; bydd hyn yn cael sylw drwy'r strategaeth gweithlu newydd. Ac eithrio'r Prif Swyddogion, Penaethiaid Gwasanaeth, athrawon Soulbury ac athrawon a gyflogir yn ganolog, mae 60% o swyddi wedi’u llenwi gan fenywod, a 40% gan ddynion. Mae'r niferoedd yng ngraddau 5 a 6 bron yn gyfartal. Yr unig raddau sy’n cynnwys mwy o ddynion na menywod yw Gradd 7 a Gradd 12 (ond mae bron yn rhaniad cyfartal).

Clywodd y Gweithgor Craffu fod y defnydd o weithwyr asiantaeth mewn rhai amgylchiadau wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Dywedodd swyddogion y bydd wastad angen rhai staff asiantaeth i gyflenwi salwch mewn gwasanaethau hanfodol, ond bod mesurau'n cael eu cymryd i leihau nifer y gweithwyr asiantaeth ac y byddant yn cael y cyfle i ymgeisio am rolau hyfforddeiaeth a rolau eraill os dymunant. Clywodd y Gweithgor Craffu hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael sicrwydd bod rheolwyr llinell yn cydymffurfio â’r polisi gweithwyr asiantaeth a bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae adnodd pwrpasol penodol bellach ar waith i gefnogi rheolwyr wrth reoli achosion o absenoldeb oherwydd salwch. Gwellodd nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith cyflogai cywerth ag amser llawn a gollwyd yn sgil absenoldeb oherwydd salwch o 11.85 i 9.23 yn 2020/21 ond mae wedi cynyddu i 12.66 yn 2021/22 oherwydd absenoldebau cysylltiedig â straen a Covid. Darparwyd adnoddau ychwanegol i'r adrannau adnoddau dynol a datblygu sefydliadol ac iechyd galwedigaethol i gefnogi a chynghori wrth reoli achosion salwch. Yn ystod y pandemig, roedd y gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Rheoli Straen a Chwnsela yn parhau i gael eu darparu o bell i gefnogi'r gweithlu, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Clywodd y Gweithgor Craffu fod y tîm iechyd galwedigaethol yn cael ei gryfhau gyda chyllid ychwanegol ar gael.

Nod y cynllun gweithredu corfforaethol iechyd galwedigaethol ar gyfer 2022/23 yw recriwtio mwy o Wirfoddolwyr Help Llaw ar draws yr Awdurdod. Yn ogystal, maent yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg i ddarparu peilot cymorth ffisiolegol, mwy o fynediad at gwnsela, gwefan arbenigol a rhwydwaith o wirfoddolwyr (Model Help Llaw) ar draws pob ysgol. Bwriedir hefyd dod o hyd i Ymgynghorwyr a Chwnselwyr Rheoli Straen er mwyn cyflenwi: diwrnodau Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl gorfodol i Reolwyr y flwyddyn; sesiynau ac adroddiadau Asesu Risg Straen; diwrnodau hyfforddiant Iechyd a Lles Gweithwyr; ystod ragweithiol o weithdai a gweithgareddau atal i leihau straen a gwella lles gweithwyr drwy'r Gwasanaeth Help Llaw o fewn yr adnoddau sydd ar gael; Caffis Cymorth Menopos; ffeiriau iechyd y flwyddyn i wella lles, ymwybyddiaeth a chyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd Arolwg Staff. Fe wnaeth 993 o bobl gwblhau'r arolwg gan ddarparu ymateb o 14%, sydd 10% yn llai o'i gymharu â chyfradd ymateb o 24% y tro diwethaf. Gallai'r gostyngiad hwn yn y gyfradd ymateb fod o ganlyniad i fwy o staff yn gweithio gartref ac yn teimlo llai o gysylltiad â'r Cyngor. Gallai hefyd fod o ganlyniad i faterion baich gwaith wrth i ni adfer wedi'r pandemig. Bydd angen edrych ar fesurau i gynyddu'r gyfradd ymateb i arolygon yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfodydd â chynrychiolwyr undebau llafur i drafod y gyfradd ymateb isel i'r arolwg ac i gael eu barn am ffyrdd posibl o wella hyn yn y dyfodol. Gofynnwyd i staff raddio eu lles cyn ac ar ôl Covid: dywedodd 57% eu bod yn hapus, yn fodlon, wedi ymlacio o gymharu â 63% cyn Covid. Datgelodd y canlyniadau hefyd: newid enfawr i weithio gartref o ganlyniad i'r pandemig, sydd i'w ddisgwyl; bod angen rhoi rhai mesurau ar waith i gynyddu hyder staff wrth ddychwelyd i weithio yn y swyddfa/ar y safle; bod 96% o'u cymharu â 92% yn 2020/21 yn teimlo bod ffydd ynddynt i wneud eu gwaith. Yn gyffredinol roedd nifer y staff sy'n dweud eu bod wedi cael profiad o aflonyddu, bwlio neu gam-drin wedi gostwng o gymharu â'r arolwg diwethaf.

Roedd y Gweithgor Craffu hefyd yn falch o glywed y bydd swyddogaethau adnoddau dynol yn cael eu dwyn ynghyd o dan un Pennaeth Adnoddau Dynol a Chanolfan Gwasanaeth. Mae pedair Thema Allweddol a naw Ffrwd Allweddol yn perthyn i'r Strategaeth Gweithlu. O dan bob Ffrwd mae cyfres o weithgareddau y cytunwyd arnynt gyda cherrig milltir allweddol a meini prawf llwyddiant wedi'u nodi. Mae'r Strategaeth yn cynnwys Ffrwd benodol ar "Ddatblygu'r Gweithlu" a gwnaethpwyd cynnydd eisoes ar weithgareddau, megis datblygu fframwaith coetsio. Datblygwyd fframwaith coetsio i roi cyfle i staff ymgymryd â choetsio a mentora ac i helpu i atgyfnerthu arferion a datblygiad da. Cafodd yr Hwb Arweinyddiaeth ei ailfrandio i "Dewch i Drafod" ac mae'n cynnig cyfle i staff glywed gan arweinwyr a dysgu am arweinyddiaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau mewn amgylchedd diogel. Mae'r Awdurdod wedi cyd-gynhyrchu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyda Choleg Gŵyr ac mae'n cefnogi datblygiad prentisiaethau mewn meysydd ar draws y cyngor, er mwyn helpu i dyfu ein gweithlu ein hunain. Clywodd y Gweithgor Craffu fod strategaeth y gweithlu yn cynnwys Ffrwd benodol "Cydraddoldeb yn y Gweithle", sydd wedi sefydlu Grŵp Cydraddoldeb y Gweithlu i ddatblygu a chyflawni gwelliannau i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb y gweithlu. Bydd ffrwd allweddol bellach "Cefnogi ein Gweithlu" yn cyflawni ac yn monitro gwelliannau i faterion lles y gweithlu.

Datblygwyd Strategaeth y Gweithlu yn dilyn ymgynghoriad trylwyr ag aelodau etholedig, timau arwain, Undebau Llafur a gweithwyr ac mae wedi cyfrif am gynlluniau lefel corfforaethol a gwasanaeth, gweledigaeth y cyngor ac amcanion allweddol. Ar ôl cael canlyniadau'r Arolwg Staff, cynhaliwyd Grwpiau Ffocws gyda Chynrychiolwyr Undebau Llafur a thrawstoriad o weithwyr ar bob un o'r Themâu Allweddol. Cafwyd sesiynau ymgynghori hefyd ag aelodau etholedig drwy'r Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau’r Dyfodol. Dyma'r negeseuon allweddol o'r ymarferion hyn:

- Roedd gweithwyr yn croesawu'r ymgysylltu ac am gael mwy ohono.
- Y Themâu a'r Ffrydiau Allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Gweithlu yw'r rhai cywir.
- Cydnabuwyd bod angen i Egwyddorion, Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Cyngor gael eu hadolygu a'u hadnewyddu.
- Ystyriwyd bod Cynllunio'r Gweithlu yn allweddol i ddatblygu gweithlu'r dyfodol, yn enwedig wrth gynllunio olyniaeth.
- Roedd angen cysondeb wrth gymhwyso arferion arwain da ar draws y Cyngor.
- Mae angen trafodaethau gwell a mwy cyson am berfformiad a datblygiad gyda staff.
- Dylid manteisio ar y cyfle i geisio effeithlonrwydd traws-Gyngor yn y strwythur sefydliadol.
- Roedd cyflog a graddio yn fater allweddol yn yr ystyr nad oeddem yn gystadleuol nac yn ddeniadol ac roedd angen disodli'r cynllun gwerthuso swyddi presennol.
- Byddai arferion a phrosesau recriwtio yn cael eu gwella. Nid ydym yn gwerthu ein hunain yn dda.
- Mae angen mwy o fuddsoddiad a chysondeb yn y ddarpariaeth Dysgu a Datblygu.
- Cydnabuwyd bod angen buddsoddi mewn iechyd a lles - nid oedd yn ddigon rhagweithiol yn ystod Covid.
- Mae angen mwy o ymgysylltu â chymunedau cydraddoldeb.

Mae'r sylwadau hyn i gyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu’r Strategaeth Gweithlu.

Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus

- Ymateb i'r negeseuon allweddol o ymarferion ymgysylltu a chwblhau'r Strategaeth Gweithlu.
- Ceisio gwella nifer yr ymatebion i'r arolwg staff.
- Lleihau salwch staff.

**Rheoli Asedau**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caiff asedau eu rheoli a'u defnyddio er mwyn defnyddio adnoddau mewn modd mor ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol â phosibl i gyflawni nodau ac amcanion a sicrhau’r lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol gorau posibl heddiw ac yn y dyfodol. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi’i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**

Mabwysiadwyd Cynllun Rheoli Asedau newydd 2021/25 yn y Cyngor ar 1 Gorffennaf 2021. Mae'r cynllun newydd yn cynrychioli dull corfforaethol o reoli asedau ac mae'n ddatblygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau blaenorol a oedd yn cwmpasu cyfnod estynedig o bedair blynedd 2017/21. Mae’r Cynllun Rheoli Asedau yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n cefnogi cyflawni amcanion lles y Cyngor yn ei gynllun corfforaethol. Bydd asedau'n cael eu rheoli er budd hirdymor pobl a chymunedau a byddan nhw’n cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu defnyddio.

Mae agweddau allweddol ar y Cynllun Rheoli Asedau wedi'u cynnwys o fewn chwe blaenoriaeth.

- Landlord Corfforaethol
- Gwaredu
- Buddsoddiadau Eiddo
- Adfywio a Datblygu Economaidd
- Rhaglen Gyfalaf
- Cydweithio

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol ym mhob un o'r chwe blaenoriaeth hyn dros y pedair blynedd ddiwethaf ac mae'r Cynllun Rheoli Asedau newydd yn mapio sut y byddant yn cael eu datblygu dros y pedair blynedd nesaf. Cynhelir portffolio mawr ac amrywiol gan y Cyngor o hyd, a hwnnw o gryn werth ond hefyd, yn ymarferol, o gryn atebolrwydd. Mae sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau i fod yn un o gyfyngu tymor hwy disgwyliedig ar gyfalaf a refeniw ond manteisir i’r eithaf o hyd ar gyfleoedd i ddatblygu buddsoddiad, trawsnewidiad a defnydd asedau yn y tymor agosach gan ddibynnu ar gyfraddau benthyca manteisiol yn arbennig, cronfeydd wrth gefn penodol gwydn, cyllid grant a chyfleoedd partneriaeth.  Mae portffolio ehangach y Cyngor yn cynorthwyo'r Rhaglen Gyfalaf ehangach, ond mae hefyd iddo atebolrwydd parhaus buddsoddiad cyfalaf. Cynorthwyir y gyllideb refeniw gyda'r asedau cynhyrchu incwm sy'n codi tua £7.4m i'r Cyngor, ond mae her o hyd ynghylch gostyngiad parhaus yr ymrwymiadau refeniw ar gyfer y portffolio gweithredol ehangach. Am fod y broses o waredu safleoedd mwy o faint yn cael ei hoedi dros dro yn disgwyl penderfyniad ar feddiannu safleoedd i’r Cyfrif Refeniw Tai i alluogi Prosiect Mwy o Gartrefi, mae'n debygol y bydd effaith wrth broffilio derbyniadau cyfalaf yn y tymor byr o fewn y rhaglen waredu.

<u>Landlord Corfforaethol</u>

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cyflwyno’r Rhaglen Gweithio Ystwyth yn raddol wedi creu gweithlu hyblyg ac, o ganlyniad, bu'r Cyngor yn gallu lleihau ei ôl troed yn y Ganolfan Ddinesig. Yn sgil y pandemig presennol, cyflymwyd y ffyrdd newydd hyn o weithio yn sydyn ac, o ganlyniad, lleihawyd yr angen am le swyddfa traddodiadol yn y tymor hwy. Mae'r gostyngiad hwn mewn lle wedi caniatáu i'r Cyngor fanteisio ar gyfleoedd masnachol a lletya tenantiaid, gan ddwyn buddion ariannol sylweddol. Bu’n bwysig gallu lletya llawer o'r tenantiaid hyn am mai’r cynnig presennol yw y byddant yn symud gyda'r Cyngor i Hwb Sector Cyhoeddus newydd, gan wneud yr achos busnes dros ddatblygiad newydd yn fwy ymarferol.

Canolbwynt y strategaeth llety ar gyfer y 12 mis nesaf fydd cwblhau'r gwaith o gyflwyno Gweithio Ystwyth yn Neuadd y Dref yn unol â'r polisi gweithio ystwyth diwygiedig a pharhau i archwilio cyfleoedd masnachol yn y Ganolfan Ddinesig. Yn ogystal â hynny, bydd Hybiau Cymunedol a Sector Cyhoeddus yn cael eu datblygu yng nghanol y ddinas a fydd yn gartref posibl i'r llyfrgell, hanes teuluol ac Archifau ynghyd â hwb cyflogadwyedd ac elfennau cyswllt y Cyngor sydd yn y Ganolfan Ddinesig ar hyn o bryd.

<u>Gwaredu</u>

Dull masnachol fu dull gwaredu'r Cyngor, gan sicrhau'r elw mwyaf posibl wrth hefyd cefnogi menter 'Mwy o Gartrefi' y Cyngor i adeiladu mwy o dai Cyngor. Mae'r prif weithgarwch yn cynnwys rhoi mwy o sicrwydd ynghylch derbyniadau cyfalaf disgwyliedig a sicrhau'r elw mwyaf posibl a'r oedi lleiaf posibl wrth gwblhau. Targedwyd gwaredu ychwanegol drwy nodi safleoedd perthnasol o fewn y CDLl drafft wedi'i adneuo a gweithio i fyny'r ymchwiliadau safle a dichonoldeb cyfnod er mwyn gwaredu yn ôl amserlen o fewn rhaglen pedair blynedd. Nododd yr adolygiad cyffredinol ehangach y bydd nifer o gyfleoedd ar raddfa lai a fydd, er eu bod yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf is, hefyd yn lleihau ymrwymiadau refeniw.

Un gwelliant pellach wedi'i gynllunio fydd ymchwilio, adrodd a chytuno ar y cyfle i'r cyngor fod yn ddatblygwr, a fydd, er ei fod yn tynnu rhai safleoedd o'r rhaglen waredu, yn ychwanegu gwerth trwy adennill elw unrhyw ddatblygwr.

<u>Buddsoddiadau Eiddo</u>
Roedd un darn mawr o waith a wnaed yn ymwneud â'r adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan JLL, a ddilysodd y dull gweithredu presennol o ran y portffolio buddsoddi. Prif ganfyddiadau'r adroddiad oedd bod y strategaeth bresennol i reoli'r ystâd yn gadarn ac yn dangos meysydd mawr o arfer da. Nododd yr adolygiad hwn hefyd y dylid creu cronfa buddsoddi eiddo i gryfhau sefyllfa strategol y Cyngor gymaint â phosibl. Byddai creu cronfa, gan adeiladu ar wybodaeth am farchnad eiddo Abertawe ynghyd â'r gallu i fenthyca ar gyfraddau buddiol, yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa fanteisiol. Sefydlwyd hyn ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran nodi cyfleoedd a chynyddu trafodaethau. Ers ei sefydlu yn 2017, mae'r Cyngor wedi caffael tri eiddo buddsoddi am gost o £8m gan ddychwelyd £660k o incwm blynyddol. Mae'r holl fuddsoddiadau a brynwyd hyd yma yn fwy na'r gost fenthyca ac yn darparu cyfraniad net at y gyllideb refeniw gyffredinol. A'r model buddsoddi bellach wedi'i brofi, mae angen adolygu'r mandad cychwynnol gwerth £5m fel y gall y Cyngor fynd ar drywydd lotiau mwy o faint sy'n aml yn gallu dwyn gwell elw.

<u>Adfywio a Datblygu Economaidd</u>
Mae gwaith Bae Copr wedi parhau i wneud cynnydd gweladwy sylweddol. Cwblhawyd y gwaith o adeiladu arena gyda chapasiti o 3,500 ochr yn ochr â chwblhau safle Bae Copr. Dyfarnwyd i Ambassador Theatre Group y contract i weithredu'r Arena. Mae'r bont newydd dros Heol Ystumllwynarth, maes parcio aml-lawr newydd a'r parc arfordirol 1.1 erw hefyd wedi agor i'r cyhoedd. Mae elfennau eraill y cynllun, gan gynnwys y bloc preswyl, maes parcio aml-lawr y Gogledd, a neuadd yr eglwys i gyd wedi'u datblygu'n sylweddol ac ar fin cael eu cwblhau'n ymarferol.

Mae gwaith hefyd wedi dechrau bellach ar adeilad Hwb Cyflogaeth Ffordd y Brenin i adeiladu datblygiad mawr newydd o swyddfeydd uwch-dechnoleg a fydd yn darparu lle i 600 o swyddi yng nghanol dinas Abertawe. Bwriedir ei gwblhau tua dechrau 2023, a bydd y datblygiad pum llawr yn cynnwys 114,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr masnachol, gan ddarparu cyfleoedd cydweithio a swyddfa hyblyg i fusnesau technoleg, digidol a chreadigol arloesol. Bydd y datblygiad yn garbon sero ac yn werth £32.6 miliwn y flwyddyn i economi Abertawe. Bydd yn cynnwys cysylltedd digidol o'r radd flaenaf, teras to, gwyrddni a balconïau sy'n edrych dros ganol y ddinas a Bae Abertawe.

Cafwyd cynnydd sylweddol hefyd ym mhrosiect Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod gyda gwaith craidd a chragen i'w gwblhau ar gyfer mis Gorffennaf 2022 yn ôl y targed. Mae Peiriandy eiconig Musgrave wedi'i adfer a gwaith atgyweirio wedi dechrau ar Beiriandy Vivian. Mae'r gwaith hefyd wedi parhau ar y Bont Wrthbwys, sy'n 110 oed, gan weithio'n agos gyda Cadw. Prynwyd y Palace Theatre hanesyddol ond diffaith gan y Cyngor gan achub rhan o dreftadaeth Abertawe a sbarduno gwaith adfywio Pen Uchaf y Stryd Fawr; sicrhawyd arian grant ac mae gwaith dylunio ac adnewyddu ar y gweill. Bydd y lle gwaith digidol arloesol yn cynnig cartref i fusnesau sy'n tyfu yn y sectorau

technoleg, digidol a chreadigol; mae Penawdau’r Telerau eisoes wedi'u llofnodi gyda'r prif denant Tramshed Tech.

Rhaglen Gyfalaf

Bu cynnydd sylweddol yn y dyraniad cyllidebol o’r tu mewn i’r Cyngor ac o Lywodraeth Cymru a arweiniodd at leihau'r ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer sefydliadau addysg. Yn 2018, cynghorodd Faithful a Gould fod y ffigur ôl-groniad cynnal a chadw Addysg tua £43 miliwn; dros y tair blynedd ddiwethaf gwariwyd tua £15 miliwn ar eiddo addysgol sy'n dangos bod ffigur yr ôl-groniad cynnal a chadw presennol tua £30 miliwn. Yn yr un modd mae cyllideb cynnal a chadw Cyfalaf Tai wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn gan ganiatáu i'r awdurdod ganolbwyntio ar faterion digartrefedd, yr argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio. Mae'r holl brosiectau ym Mand A Rhaglen QEd/ Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a thri phrosiect (yr Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ac adeiladu dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg) o Fand B wedi'u cyflawni. Disgwylir cwblhau’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym mis Mai 2022, ac ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg erbyn mis Mai 2023 i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn elwa ar ysgolion o safon dysgu'r 21ain ganrif sydd mewn cyflwr da ac yn cynnwys adeiladau addas a mannau awyr agored priodol.

Ym mis Chwefror 2021, mae'r ôl-groniad cynnal a chadw o fewn asedau Cyngor Abertawe oddeutu £211M. Bydd prosiectau'n cael eu dewis ar sail blaenoriaeth. Roedd y meini prawf ar gyfer dewis (oni nodir yn wahanol) yn seiliedig ar sgôr cyflwr, cydymffurfio â deddfwriaeth, arwyddion iechyd a diogelwch, tebygolrwydd methiant a pharhad busnes. Bydd y Grŵp Rheoli Asedau yn adolygu ac yn llywio'r Strategaeth Gyfalaf sy'n dod i'r amlwg.

Cydweithio

Mae gwaith y Cyngor wedi cynnwys cydleoli Gwasanaethau Tai/Llyfrgell yng Ngorseinon; treial o wersi a ddysgwyd yn Hwb Clydach i lywio Hwb Cymunedol newydd Canol y Ddinas. Mae'r Cyngor yn gweithredu fel corff arweiniol i Ystadau Cymru ym Mae Abertawe; a hyrwyddir cyfleoedd Hwb Cymunedol a Hwb y Sector Cyhoeddus i sicrhau cynlluniau cydweithio o bwys.

Ymhlith y camau nesaf, mae ffurfioli'r Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol a pharhau i drafod ynghylch trosglwyddiadau parhaus o’r fath. Mae cydlynu'r Bwrdd Eiddo Lleol, fel rhan o fenter Ystadau Cymru i sicrhau cysylltiadau â'r weledigaeth, yn parhau i sicrhau mynediad cynaliadwy a gwell at wasanaethau'r Cyngor gan ddefnyddio asedau lleol presennol "mewn ffordd wahanol"; mae hyn yn helpu i rymuso dinasyddion i ddarparu a chefnogi’r hyn sydd ei angen arnynt yn eu cymuned. Mae hyn yn cynnwys cwblhau Hwb Cymunedol Canol y Ddinas i lywio'r model a'r brandio ar gyfer rhwydwaith o gyfleusterau Cymunedol sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol y cymunedau hynny. Bydd pob adeilad a nodir yn cael ei weithredu yn y model Hwb Cymunedol a fabwysiadir i fod yn effeithiol o fewn bywyd y Cynllun Rheoli Asedau. Cynhelir hefyd adolygiad o'r polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol i sicrhau ei fod yn cydredeg â'r rheolau trafodion tir.

Covid-19

Ar 15 Hydref 2020, cymeradwyodd y Cabinet y strategaeth ar adferiad cychwynnol y Cyngor a'r blaenoriaethau uniongyrchol yn sgil argyfwng COVID-19, y cynllun tymor hwy o adfer i fframwaith i ddisodli Strategaeth Abertawe Gynaliadwy ag Abertawe – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. Bydd sawl agwedd ar Gynllun Rheoli Asedau 2021/25 yn sicrhau cymorth parhaus i gydnerthedd o fewn Gwasanaethau'r Cyngor gyda phwyslais arbennig ar yr amgylchedd adeiledig ac adfywio'r economi ehangach. Bydd angen newidiadau i ymateb i heriau'r ansicrwydd, yn enwedig ynghylch yr economi a'r sefyllfa ariannol leol.

O ganlyniad i bandemig COVID, gostyngodd rhenti masnachol y Cyngor yn sylweddol yn ystod y cyfnod 2020/21, a hynny’n bennaf oherwydd yr anwadalwch o fewn y farchnad eiddo lleol a'r anallu

cyffredinol i denantiaid fasnachu.  Er mwyn cefnogi ei denantiaid, cynigiodd y Cyngor gymorth ariannol yn ystod y cyfnod hwn (i denantiaethau cymwys) ar ffurf cyfnodau di-rent er mwyn cwtogi cymaint â phosibl ar fethiant tenantiaid ac eiddo gwag cysylltiedig, wrth hefyd geisio diogelu swyddi i'r economi leol.  Arweiniodd ysgogiad ariannol y Cyngor at ostyngiad cyffredinol yn yr incwm a gafwyd o'r portffolio eiddo masnachol ond roedd angen hyn i ddiogelu ffrydiau incwm hirdymor.  Er bod y risgiau uniongyrchol wedi'u lliniaru, mae effeithiau tymor byr/canolig COVID yn dal i fod yn gymharol anhysbys ac felly anodd iawn yw rhagweld yr effaith y gallai hyn ei chael nes bod y farchnad yn cael cyfle i wella.  Gan fod cryn dipyn o bortffolio masnachol y Cyngor yn cael ei brydlesu yn y tymor hir, nid yw'r refeniw a gaiff trwy'r Prif drosiant/geriad prydlesu o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor ac felly rhagwelir y bydd lefel yr incwm yn debygol o amrywio hyd nes y gellir ei ragweld.

<u>Newid Hinsawdd</u>
Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Cyngor Abertawe argyfwng hinsawdd. Mewn ymateb i hyn mae rhaglen o weithgarwch yn cael ei datblygu i gefnogi darparu Cyngor Carbon Sero Net erbyn 2030 ac Abertawe Sero Net erbyn 2050.  Er mwyn cyflawni sero-net erbyn 2030 mae angen i'r cyngor leihau neu wrthbwyso ei gyfanswm allyriadau presennol sy'n cyfateb i 27,500TCo2 ar gyfer 2019/20. Mae hyn yn cynnwys: Adeiladau'r Cyngor - mae'r Strategaeth Ynni a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 19 Tachwedd 2020, yn manylu ar fentrau i gefnogi'r daith carbon sero-net e.e. cynyddu cyflymder a graddfa rhaglen Re:Fit Cymru, gydag adnoddau a chyllid sydd ar gael yn cael eu darparu; ymrwymiad i adeiladu ysgolion newydd ac adeiladau dinesig yn y dyfodol i safon carbon sero-net.  Gallai effaith gyfunol y ddau ymrwymiad hyn fod yn gyfystyr ag 20% o ostyngiad mewn allyriadau sy'n cyfateb i 20% neu 4000T Co2. Bydd y bwriad i gynyddu gorchudd coed a mesurau eraill fel rhan o gynllun bioamrywiaeth y cyngor, fel gosod isadeiledd gwyrdd newydd, hefyd yn cefnogi gwrthbwyso allyriadau carbon.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Gweithredu Cynllun Rheoli Asedau 2021/25 a monitro ac adrodd ar gynnydd.

**Rheoli Perfformiad**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae cyfres gyflenwol o gynlluniau a strategaethau corfforaethol a lefel gwasanaeth ar waith sy'n nodi gweledigaeth ac amcanion allweddol y Cyngor | | | | |
| Mae targedau perfformiad a chanlyniadau i gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol a gwasanaeth yn cael eu nodi a'u mesur gyda goruchwyliaeth ddemocrataidd i sbarduno camau gwella | | | | |
| Mae perfformiad a chanlyniadau wedi'u meincnodi gyda chymaryddion priodol i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**Tystiolaeth**

Cyhoeddodd Dinas a Sir Abertawe ei chynllun corfforaethol yn 2017 yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys crynodeb o'i datganiad llesiant a'i blaenoriaethau allweddol, a elwir 'Amcanion Lles'; adnewyddwyd y cynllun corfforaethol bob blwyddyn ers hynny. Yng nghynllun corfforaethol y cyngor, disgrifir y camau a gymerir i gyflawni ein Hamcanion Lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Yn y Cynllun hefyd nodir sut y cyfrannwn gymaint â phosibl at ein Hamcanion Lles a'r nodau cenedlaethol trwy ein ffordd o weithio, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a hirdymor.
- Atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd a'u bod yn ategu rhai cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

Dengys ein cynllun corfforaethol fod ein holl Amcanion Lles gyda'i gilydd a'r camau a gymerwn i'w cyflawni yn dangos ein cyfraniad at bob un o'r saith nod cenedlaethol ac at lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Nid yn ein cynllun corfforaethol yn unig y mynegir ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol a llesiant Abertawe a Chymru. Mae'r cynllun corfforaethol yn disgrifio ein Hamcanion Lles a'n cyfraniad allweddol ond mae'n rhan o'n Fframwaith Gwella Perfformiad ehangach, sy'n cynnwys Cynlluniau Gwasanaeth adrannol; mae'r Cynllun Corfforaethol ynghyd â Chynlluniau Gwasanaeth yn disgrifio ein cyfraniad llawn.

Mesurir perfformiad drwy adroddiadau monitro perfformiad corfforaethol. Mae Adroddiadau Monitro Perfformiad Corfforaethol chwarterol a blynyddol i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor a'r Cabinet yn olrhain cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor (Amcanion Lles) a nodir yn y Cynllun Corfforaethol; caiff yr holl adroddiadau monitro perfformiad chwarterol a blynyddol eu hadolygu adeg Craffu fel rhan o'r oruchwyliaeth ddemocrataidd ar berfformiad a gwelliant. Caiff data perfformiad ei feincnodi ar lefel gwasanaeth drwy aelodaeth o rwydweithiau perfformiad y Gymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE). Prin oedd y cyfleoedd am gymariaethau cenedlaethol eraill ar ôl i Lywodraeth Cymru gael gwared ar y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae Data Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio set ddata perfformiad hunanasesu i helpu i geisio llenwi'r bwlch hwn.

Cafodd monitro ac adrodd perfformiad corfforaethol ei atal ym mis Mawrth 2020 tra bod swyddogion yn brysur fel arall neu'n teimlo effaith y cyfnod clo mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cafwyd adferiad ym mis Mehefin 2020 ond cafodd ei atal eto wedyn ym mis Ionawr 2021 yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Monitro Perfformiad Ch1 2020/21 o ganlyniad i ail don COVID-19. Cafodd adroddiadau am berfformiad eu hadfer eto mewn pryd ar gyfer Ch1 2021/22 ond ni osodwyd targedau perfformiad, cadwyd y dangosyddion perfformiad presennol ac ni chawsant eu hadolygu tra bod pandemig Covid yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, cynhaliwyd y gwaith o fesur gwelliant a aseswyd yn erbyn y cyfnod adrodd cymharol blaenorol pan ailddechreuodd yr adroddiadau.

Cyflwynwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn ystod 2021/22. Fel rhan o'r dyletswyddau newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf, fe wnaeth y cyngor gryfhau a sefydlu trefniadau newydd ar gyfer hunanasesu. Nod hunanasesu, sy'n arwain at yr adroddiad hunanasesu blynyddol, yw bod y Cyngor yn herio ei hun yn barhaus i wneud yn well ac yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn ei gynlluniau a'i drefniadau, gan helpu i sbarduno gwelliant parhaus. Y dull a fabwysiadwyd gan

Abertawe oedd integreiddio hunanasesu i weithgarwch gwella ac asesu presennol, gan gynnwys o fewn yr adroddiadau monitro perfformiad chwarterol a blynyddol trwy gyflwyno Offeryn hunanfyfyrio, wedi'i addasu o'r offeryn a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn Ch2 ac ar ddiwedd y flwyddyn. Mantais y dull hwn yw ei fod yn osgoi sefydlu proses gyfochrog newydd ar wahân ar gyfer hunanasesu corfforaethol a'i fod, yn hytrach, yn ei gynnwys yn yr hyn sydd eisoes yn bodoli, sy'n cael ei nodi'n ddymunol o fewn y canllawiau statudol.

Bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r dull integredig hwn yn cael ei defnyddio bob blwyddyn i ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a'i Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, sy'n ymgorffori'r Adroddiad Llesiant Blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Adroddiad Hunanasesu fel sy'n ofynnol gan Ran 6 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

Dylai canlyniad y broses hunanasesu a gynhelir adeg hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn gan lunio'r adroddiad blynyddol, drwy'r broses rheoli perfformiad a chraffu, geisio penderfynu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Cyngor a nodi ffyrdd o'u gwella. Yna dylid sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r broses hon yn cyfrannu at gynlluniau ac at wella effeithiolrwydd trefniadau.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o'r trefniadau sydd gan bob Cyngor yn eu lle ar gyfer ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad fod nifer o briodoleddau cadarnhaol i ddull Cyngor Abertawe gan gynnwys:

- addasu offeryn Hunanfyfyrio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi dull integredig o gasglu'r dystiolaeth i bennu cynnydd yn erbyn amcanion lles y Cyngor ac i gyflawni ei gyfrifoldebau hunanasesu newydd;
- ymwybyddiaeth glir gorfforaethol ac Aelodau am y dull newydd arfaethedig ac ymrwymiad clir iddo;
- gwella proses Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn broses Rheoli a Sicrhau Gwasanaeth;
- defnyddio dadansoddiad SWOT o fewn ei Gynllunio Gwasanaeth Blynyddol i ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer y broses Hunanasesu;
- integreiddio'r allbwn hunanasesu terfynol i adolygiad blynyddol y Cyngor o'i amcanion lles, sef ei Adolygiad Blynyddol o Berfformiad sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2022;
- ffrâm amser clir ar gyfer cwblhau'r hunanasesiad ac ar gyfer sut a phryd y bydd llywodraethu, goruchwylio a chraffu yn rhan o gynllunio a chymeradwyo.

O ran gwella, nododd Archwilio Cymru fod y gyfradd ymateb i'r arolwg ymgynghori cyhoeddus yn isel a bod nifer o ganlyniadau heriol i rai o gwestiynau'r arolwg, fel y rhai ynghylch trefniadau llywodraethu da gan y Cyngor. Efallai bod y gyfradd ymateb isel wedi gwyro canlyniadau'r arolwg. Crybwyllodd Archwilio Cymru y bydd yn bwysig sicrhau bod yr allbwn ar gyfer hunanasesiad y Cyngor yn adlewyrchu'r adborth o'r arolwg cyfan. Nododd Archwilio Cymru fwriad y Cyngor i gynnal gwerthusiad o'r broses ar ddiwedd yr iteriad cyntaf a dysgu unrhyw wersi a gwella'r dull gweithredu. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y gweithgaredd ymgynghori a gweithio i wella faint o adolygu, craffu a herio sydd i'r broses hunanasesu.

Cyfarfu Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r cyngor i drafod adroddiad hunanasesu'r cyngor a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 ar 8 Tachwedd 2022 ac 14 Rhagfyr 2022 yn y drefn honno. Cynigiodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r canlynol, sydd wedi'u rhoi ar waith neu, lle bo'n berthnasol, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod adolygiad 2022/23:

- Ystyried dulliau a methodolegau ar gyfer 2022/23 yn rhan 1, 2 a 3. Eir i'r afael â hyn yn asesiad 2022/23.
- Cysylltu'r asesiadau perfformiad a risg ar gyfer 2022/23. Eir i'r afael â hyn yn asesiad 2022/23.
- Cydnabod y gwelliannau y byddai angen eu cyfleu yn yr adroddiad ynghylch dadansoddiad cryfach. Mae hyn wedi cael ei gydnabod yn yr Adolygiad ac eir i'r afael ag ef fel maes gwella parhaus, gan ddechrau yn 2022/23.
- Cydberthynas rhwng rhannau 1, 2 a 3 gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r cyngor ac os nad ydynt yn cyd-fynd, amlinellu'r rhesymau pam. Mae rhannau gwahanol yr asesiad yn gyson ac mae rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt, er mae'r pwyslais ym mhob un yn wahanol.
- Sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei brawf ddarllen cyn ei gyflwyno i'r cyngor. Mae hyn wedi'i gwblhau.
- Gwella'r cysylltiadau rhwng ymgynghori a chynnwys/ cyfeirio rhanddeiliaid. Eir i'r afael â hyn yn asesiad 2022/23.

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022, caiff Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2023 i 2027 ei ddatblygu yn ystod 2022, a bydd hefyd yn cynnwys adolygiad o'r dangosyddion perfformiad corfforaethol i helpu i fesur cynnydd. Disgwylir i'r Cynllun Corfforaethol newydd a'i ddangosyddion perfformiad cysylltiedig fod ar waith erbyn 1 Ebrill 2023. Yn y cyfamser, caiff y gyfres bresennol o ddangosyddion perfformiad corfforaethol ar gyfer adroddiad 2022/23 eu hadolygu ar gyfer perthnasedd parhaol, gan wneud newidiadau hanfodol yn unig wrth i waith gael ei wneud ar y cynllun corfforaethol newydd a'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig; caiff targedau perfformiad blynyddol hefyd eu hailsefydlu ar gyfer adroddiadau diwedd blwyddyn 2022/23.

Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus

- Adolygu'r gyfres bresennol o ddangosyddion perfformiad corfforaethol ar gyfer perthnasedd parhaus ar gyfer adrodd 2022/23 a gosod targedau blynyddol ar gyfer adrodd diwedd blwyddyn.
- Datblygu Cynllun Corfforaethol a dangosyddion perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2023/27.
- Chwilio am ffyrdd o wella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer yr hunanasesiad blynyddol.
- Adolygu a gweithio i wella faint o adolygu, craffu a herio sydd i'r broses hunanasesu.
- Rhoi'r argymhellion a'r awgrymiadau Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer newid sy'n weddill ar waith yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

**Canlyniad ymgynghori**

Cynhaliodd y cyngor arolwg o'r cyhoedd, busnesau lleol, staff y Cyngor ac undebau llafur yn 2021/22.

Ni chafwyd fawr o ymateb i'r arolwg - o dan 100 ymateb - er bod y Cyngor wedi gwneud ei orau i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg, gan gynnwys anfon e-byst uniongyrchol at randdeiliaid. Gallai'r gyfradd ymateb isel i'r arolwg fod wedi effeithio ar hyder yn y canlyniadau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Abertawe yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr lleol?

Roedd bron i draean o'r ymatebwyr (29%) yn cytuno bod Cyngor Abertawe yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr lleol. Fodd bynnag, roedd dros hanner yr ymatebwyr (58%) yn anghytuno â'r datganiad. Nid oedd 13% pellach o'r ymatebwyr yn cytuno nac

yn anghytuno a oedd Cyngor Abertawe yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol i roi gwerth am arian i drethdalwyr lleol.

Ymatebodd ychydig llai na hanner yr holl ymatebwyr (49%) i gwestiwn penagored ynghylch beth arall y gallai'r Cyngor ei wneud i ddefnyddio ei adnoddau'n fwy effeithiol i roi gwerth am arian i drethdalwyr lleol.

Ymhlith yr awgrymiadau a roddwyd oedd: canolbwyntio ar fwy o wasanaethau rheng flaen, ymgynghori ac ymgysylltu'n well â'r cyhoedd, buddsoddi mwy mewn tai, ffyrdd, twristiaeth, canolbwyntio ar rannau difreintiedig o Abertawe a gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus

- Chwilio am ffyrdd o wella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a gwella cyfraddau ymateb ar gyfer yr hunanasesiad blynyddol.

**Casgliad i Ran 2**

Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol pan fydd y canlynol yn digwydd:

- Mae'n cwtogi cymaint â phosibl ar yr adnoddau a ddefnyddir (Diwastraff).
- Mae'r canlyniadau arfaethedig yn cyfateb i'r canlyniadau gwirioneddol (Effeithiol).
- Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr adnoddau a ddefnyddir ac allbynnau / canlyniadau, h.y. bodlonir y meini prawf diwastraff ac effeithiol (Effeithlon).
- Mae mynediad teg at wasanaethau ac mae anghenion yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol (Tegwch a chynaliadwyedd).

Dengys y dystiolaeth yn Rhan 2 o'r asesiad hwn y canlynol:

Mae **adnoddau'n cael eu cymhwyso'n gryf a'u defnyddio'n effeithiol** ynghylch rheoli ariannol, caffael a rheoli asedau.

Mae **tystiolaeth gymysg o gymhwyso effeithiol**, gyda rhywfaint o dystiolaeth dda a rhai bylchau mewn cymhwyso neu dystiolaeth ynghylch cynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad.

**Rhan 3 – effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu'r Cyngor**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 gynnal adolygiad o'i drefniadau llywodraethu, a hynny'n flynyddol o leiaf. Bwriad yr adolygiad yw dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gôd Llywodraethu Corfforaethol.

Daw'r adolygiad llywodraethu at ei gilydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) sydd i gyd-fynd â Datganiad Blynyddol o Gyfrifon y Cyngor. Mae'r DLlB yn ddogfen allweddol sy'n cael ei llywio gan nifer o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol.

Nid yw'r rhan hon o'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad i fod i efelychu'r DLlB ond dylid ei darllen ar y cyd ag ef. Bwriad y rhan hon o'r adolygiad yw asesu a phrofi effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cynghorau wrth helpu i gyflawni ei swyddogaethau a rhoi gwerth am arian.

Mae gan y Cyngor lywodraethu effeithiol pan fydd yn effeithiol yn cymhwyso egwyddorion craidd llywodraethu da fel y'u nodir gan CIPFA / SOLACE yn *Delivering Good Governance in Local Government*:

- A – Ymddwyn ag unplygrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth cyfraith.
- B – Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
- C - Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr adnoddau a ddefnyddir ac allbynnau / canlyniadau, h.y. bodlonir meini prawf diwastraff ac effeithiol (Effeithlon).
- Mae mynediad teg at wasanaethau ac mae anghenion yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol (Tegwch a chynaliadwyedd).
- D – Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
- E - Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion o'i fewn.
- F – Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reoli mewnol cadarn a rheoli ariannol cyhoeddus cryf.
- G – Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Cymhwysir yr egwyddorion craidd hyn yn y Cyngor drwy'r trefniadau llywodraethu canlynol:

- Gweledigaeth, strategaeth a pherfformiad.
- Llywodraethu, Moeseg a Gwerthoedd Sefydliadol.
- Arweinyddiaeth sefydliadol.
- Cynnwys ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned.
- Rheoli Risg a Pharhad Busnes.
- Llywodraethu cydweithio / partneriaeth.
- Amgylchedd Rheoli Mewnol.
- Twyll ac Amhriodoldeb Ariannol.
- Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau.
- Arloesi a Rheoli Newid.

**Sut hwyl ydyn ni'n ei chael arni a sut ydyn ni'n gwybod?**

Cynhaliodd y Cyngor hunanasesiad ac asesiad o sicrwydd effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu. Roedd yr asesiad yn ystyried pa drefniadau oedd ar waith yn ystod 2021/22, pa mor effeithiol oedden nhw a'r dystiolaeth.

| | Tystiolaeth ac effeithiolrwydd cyflenwi | Maint y dystiolaeth ac effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| 1 | Ddim ar waith | Dim tystiolaeth o gyflenwi effeithiol. |
| 2 | Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd | Rhywfaint o dystiolaeth o gymhwyso, ond prin yw effeithiolrwydd y cyflenwi. |
| 3 | Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg | Tystiolaeth gymysg o gymhwyso effeithiol, gyda rhywfaint o dystiolaeth dda a rhai bylchau mewn cymhwyso neu dystiolaeth. |
| 4 | Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf | Tystiolaeth glir o gymhwyso effeithiol. |
| 5 | Wedi'i sefydlu | Tystiolaeth glir o gymhwyso effeithiol wedi'i sefydlu |

**Gweledigaeth, strategaeth a pherfformiad**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae cyfres gyflenwol o gynlluniau a strategaethau corfforaethol a lefel gwasanaeth cynaliadwy ar waith sy'n gosod gweledigaeth y Cyngor a'i amcanion allweddol | | | | |
| Mae targedau perfformiad a chanlyniadau i gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol a gwasanaeth yn cael eu nodi a'u mesur gyda goruchwyliaeth ddemocrataidd i sbarduno camau gwella | | | | |
| Mae perfformiad a chanlyniadau wedi'u meincnodi gyda chymaryddion priodol i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus. | | | | |
| Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant sefydlu ac arfarniad blynyddol ac maen nhw'n glir am eu hamcanion a'u hanghenion hyfforddi a datblygu. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**Tystiolaeth**

Mae gan y Cyngor gynllun corfforaethol sy'n cynnwys datganiad llesiant, sy'n nodi chwe blaenoriaeth allweddol y cyngor, neu ei amcanion lles, a'i werthoedd a'i egwyddorion. Cwmpesir cyfnod o bum mlynedd gan y cynllun corfforaethol a chaiff ei adnewyddu bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol. Cyflenwir pob amcan lles trwy nifer o gamau, sydd â'r nod o sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl at wella lles yng Nghymru ac Abertawe. Mae'r cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl at wella lles drwy weithio'n gynaliadwy i gymryd y camau. Gwna hyn trwy gynllunio tymor hir, atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu, cydweithio ag eraill, osgoi dyblygu a gwrthdaro â blaenoriaethau eraill a chynnwys eraill. Roedd y cynllun corfforaethol yn ymwneud ag ymgysylltu â nifer o randdeiliaid yn ystod ei ddatblygiad, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

Mesurir cyflenwi'r cynllun corfforaethol drwy'r adroddiadau monitro perfformiad chwarterol a blynyddol a thrwy ei Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, sy'n bodloni ei ddyletswyddau i lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ac adroddiad llesiant blynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y drefn honno. Gweler Rhan 1 – perfformiad - am hunanasesiad y cyngor ar gynnydd o ran cyflawni ei swyddogaethau gan fodloni ei amcanion lles yn y cynllun corfforaethol; a Rhan 2 - rheoli perfformiad - am fwy o wybodaeth am y graddau y mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol.

Mae gan bob gwasanaeth gynllun sy'n mynegi ei flaenoriaethau ei hun ac sy’n dangos sut mae pob gwasanaeth yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol. Adolygir cynlluniau gwasanaeth bob blwyddyn ac mae cynnydd yn cael ei adolygu gan wasanaethau ac yn helpu i lywio gwerthusiadau a chyfarfodydd un-ac-un drwy eu trefniadau eu hunain. Nid oes unrhyw oruchwyliaeth gorfforaethol ar gyflenwi cynlluniau gwasanaeth; ond cafodd hunanasesiad ei gynnwys yn y broses cynllunio gwasanaeth yn ystod 2021/22 fel rhan o'r ymdrech ehangach i ddatblygu trefniadau hunanfyfyrio, sy'n fodd i wasanaethau fyfyrio a nodi llwyddiannau, rhwystrau a meysydd i'w gwella. Oedwyd y broses werthuso flynyddol yn unol â chanllawiau corfforaethol yn ystod y pandemig ond parhaodd y staff i gael cyfarfodydd tîm ac un-ac-un; mae'r broses werthuso’n cael ei hailddechrau a’i hadolygu fel y cofnodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22.

Mae cyfres o strategaethau a chynlluniau cyflenwol i'r cynllun corfforaethol. Nod "Abertawe – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, Strategaeth Trawsnewid a Fframwaith Rhaglen" yw sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn effeithiol o ran y gwasanaethau y mae’n eu darparu a sut. Yn ogystal â nodi'r blaenoriaethau yn y tymor byr a chanolig, nod fframwaith Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd yw gosod y sylfeini ar gyfer sefydlu siâp tymor hwy'r cyngor, gan edrych ymlaen at yr 20 mlynedd nesaf hyd at 2040. Rhennir y rhaglen yn dri cham: cam 1 yw’r adfer ar ôl Covid; cam 2 yw ailffocysu (hyd at fis Mai 2022), a; cham 3 yw ail-lunio (ar ôl Mai 2022). Mae cynnydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n fisol gan y Bwrdd Adfer, Ail-lunio a Strategaeth y Gyllideb. Mae'r cyfnod Ailffocysu wedi gosod cyllideb 2022/23 ac adnewyddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig - gweler Rhan 2 Rheoli Ariannol. Bydd cam 3 - Ail-lunio yn edrych y tu hwnt i 2022 a bydd yn destun cynllun corfforaethol newydd 2023/27.

Mae cyllideb y cyngor a’i Gynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau ariannol cysylltiedig wedi'u hen sefydlu ac yn cysylltu â'r cynllun corfforaethol, Cyflawni’n Well Gyda'n Gilydd, setliad cenedlaethol, telerau ac amodau grant a chynlluniau eraill y cyngor – gweler rhan 2 Rheoli Ariannol. Datblygodd y Cyngor Strategaeth Gweithlu newydd ar gyfer 2022 i 2027, sy'n cyfrif am gynlluniau lefel gwasanaeth a chorfforaethol, gweledigaeth y cyngor a’i amcanion allweddol – gweler Rhan 2 Cynllunio'r Gweithlu. Mae’r Cynllun Rheoli Asedau yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n cefnogi cyflawni amcanion lles y Cyngor yn ei gynllun corfforaethol - gweler Rhan 2 Rheoli Asedau.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Gweler Rhan 2 - gan gynnwys rheoli ariannol, rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu.

**Llywodraethu, Moeseg a Gwerthoedd Sefydliadol.**

| **Meini prawf** |
|---|
| Mae fframweithiau a chodau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer llywodraethu, moeseg a gwerthoedd sy'n cael eu cymhwyso a'u harsylwi'n gyson |
| Mae cymhwyso moeseg a gwerthoedd yn amlwg yn y ffordd y mae opsiynau'n cael eu gwerthuso a phenderfyniadau'n cael eu gwneud. |
| Ceir gwaith cynhyrchiol gyda rheoleiddwyr allanol a chydymffurfio cadarn â'u hargymhellion a'u cynigion ar gyfer gwella |
| Caiff pob penderfyniad ei asesu am effaith a'i ddogfennu i roi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb a chynaliadwyedd gwasanaethau ac maent yn cwmpasu anghenion cenedlaethau'r dyfodol a phobl â nodweddion gwarchodedig. |
| **Hunanasesiad** |

| 1. Ddim ar waith | 2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd | 3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg | 4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf | 5. Wedi’i sefydlu |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Gosodwyd moeseg llywodraethu a Chodau o fewn cyfansoddiad y cyngor, y Cynllun Corfforaethol a’r Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn dilyn arferion gorau o ran swyddogaethau statudol, fel CIPFA ar gyfer rheoli ariannol ac Archwilio. Nodir ymddygiad a disgwyliadau gan swyddogion/aelodau yn y Cyfansoddiad, Côd Ymddygiad Aelodau a Phrotocol Cysylltiadau Swyddogion/Cynghorwyr. Mae'r Swyddog Monitro yn darparu hyfforddiant ar y côd ymddygiad ac yn sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf gan yr awdurdod, aelodau a swyddogion - gan gynnwys defnyddio adnoddau’r Cyngor. Y Pwyllgor Safonau sy’n gyfrifol am fonitro a chraffu ar safonau'r Aelodau.

Yn y Cyfansoddiad amlinellir egwyddorion awdurdod dan arweiniad Aelodau gyda hyfforddiant i uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi gofynion ynglŷn â rhoddion a lletygarwch a chylchredir nodiadau atgoffa rheolaidd ymhlith y swyddogion a'r aelodau. Mabwysiadwyd protocol datrys anghydfodau rhwng aelodau. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Caffael a Gweithdrefnau Ariannol cynhwysfawr.

Mae'r swyddogion Statudol a'r Aelodau yn sicrhau y cydymffurfir â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddio drwy fframwaith cadarn gan gynnwys cynllun dirprwyo, hyfforddiant sefydlu, gweithdrefnau sefydlog a rheolau a nodir yn y Cyfansoddiad. Caiff adroddiadau i Bwyllgorau dderbyniad cyfreithiol/cyllid ac mae'n rhaid iddynt fod yn destun Asesiad o Effaith Integredig i asesu goblygiadau penderfyniadau i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chenedlaethau'r dyfodol. Ceir swyddogaeth gadarn ar gyfer Craffu a Galw i Mewn a her gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ceir her allanol gan archwilwyr, yr Ombwdsmon ac asiantaethau allanol eraill. Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â statud ac yn adrodd am unrhyw gamweinyddu.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor ar 2 Rhagfyr 2021. Roedd yr Adroddiad yn adlewyrchu barn y Pwyllgor bod ymddygiad yr aelodau, ar y cyfan, yn uchel, heb fod y Pwyllgor ond yn gorfod ystyried un gŵyn yn erbyn cynghorydd cymuned.

Yn eu Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i ofynion. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn awyddus yn 2021/22 i sicrhau bod holl argymhellion Archwilio Cymru yn cael eu cofnodi a'u holrhain am ymateb priodol mewn ffordd gyson.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod argymhellion Archwilio Cymru yn cael eu cofnodi a'u holrhain mewn ffordd gyson.

**Arweinyddiaeth sefydliadol.**

| **Meini prawf** |
|---|

<table>
<tr><td colspan="5">Ceir perthnasoedd gwaith ac arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref ac effeithiol.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ceir model gweithredu sefydliadol a diwylliant gwaith sy'n cael ei ffafrio, sy'n effeithiol</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae trefniadau a hyfforddiant ar waith i ddatblygu capasiti a gallu arweinwyr i ddiwallu anghenion a gofynion heddiw ac yn y dyfodol ac sy'n cefnogi ffyrdd cynaliadwy o weithio</td></tr>
<tr><td colspan="5">Hunanasesiad</td></tr>
<tr><td>1. Ddim ar waith</td><td>2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd</td><td>3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg</td><td>4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf</td><td>5. Wedi’i sefydlu</td></tr>
<tr><td>☐</td><td>☐</td><td>☐</td><td>☒</td><td>☐</td></tr>
</table>

**Tystiolaeth**
Mae'r Cabinet a’r tîm rheoli corfforaethol yn cydweithio'n agos. Ceir perthynas waith ragorol rhwng y gwasanaeth ac aelodau'r Cabinet ac arweinwyr Grŵp ac aelodau etholedig ehangach. Dogfennir y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau a'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y Cyfansoddiad a thrwy'r rheolau gweithdrefn. Bu’r berthynas rhwng aelodau a swyddogion yn destun trafodaethau diweddar a alluogwyd gan barti allanol; roedd hyn yn canolbwyntio ar ddeall rolau gwleidyddol a swyddogion i’r graddau helaethaf posibl.

Mae uwch swyddogion yn cwrdd yn wythnosol fel Tîm Rheoli Corfforaethol. Yn y tîm hwn mae’r swyddogion hynny â swyddogaethau statudol sy'n darparu arweiniad proffesiynol. Penodir i swyddi proffesiynol h.y. penaethiaid gwasanaeth ac uwch, yn ôl teilyngdod ac mae’n dibynnu ar gymwysterau priodol. Mae gan benaethiaid gwasanaeth yr adnoddau priodol i ddarparu arweiniad proffesiynol i'w staff. Bydd y tîm rheoli corfforaethol a phenaethiaid gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cydweithio mewn cyfarfodydd tîm arwain. Cynhelir cyfarfodydd misol un-ac-un rhwng cyfarwyddwyr a/neu benaethiaid gwasanaeth ac aelodau'r cabinet.

Ceir cyfarfod ar y cyd rhwng y cabinet a'r tîm rheoli corfforaethol bob pythefnos. Caiff y byrddau neu'r grwpiau llywio, fel bwrdd trawsnewid Cyflawni’n Well Gyda’n Gilydd, eu cadeirio gan arweinwyr gwleidyddol. Mae'r cynllun corfforaethol a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig, megis y strategaeth gweithlu, yn cynnwys aelodau yn eu datblygiad, megis trwy'r Pwyllgorau Datblygu Polisi, ac fe’u cymeradwyir gan y cabinet neu'r cyngor.

Mae'r cabinet yn cydredeg â'r gwahanol gyfarwyddiaethau a gwasanaethau ac mae adroddiadau'n cael eu cymeradwyo gan aelodau a chyfarwyddwyr y cabinet. Bydd aelodau'r cabinet yn rhoi arweinyddiaeth a chyfarwyddyd yn gynnar ar y cyd yn niwrnodau Cwrdd i Ffwrdd y tîm rheoli corfforaethol/Cabinet ac mewn cyfarfodydd un-ac-un gyda chyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth. Mae aelodau'r cabinet yn arwain ar adroddiadau yng nghyfarfodydd y Cabinet. Ceir cysylltiadau amlwg o'r gwasanaeth hyd at arweinyddiaeth wleidyddol mewn cyfarfodydd rheolaidd ag aelodau'r cabinet a'r Arweinydd a hefyd drwy'r prosesau democrataidd.

Darperir cyngor clir gan swyddogion yn ffurfiol ym mhob adroddiad. Rhoddir cyngor clir ffurfiol ac anffurfiol yn aml gan swyddogion yn y termau cryfaf i aelodau. Yn y pen draw, yr aelodau sy'n penderfynu ond mae cyngor swyddogion statudol, fel Cyfarwyddwyr, y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a staff cyfrifol yn cael ei roi’n agored heb ofn lleisio barn o gwbl. Dengys arolygon ac adborth staff fod mwyafrif y staff yn teimlo eu bod wedi’u gwerthfawrogi, eu rheoli a'u harwain yn dda gan yr uwch dîm arwain.

Ceir perthynas onest gynhyrchiol agored â'r holl aelodau ac yn aml iawn ceir achosion gonest iawn o gyfnewid barn, er bod hynny'n digwydd yn anffurfiol yn amlach nag mewn sesiynau ffurfiol wedi'u tystiolaethu. Pan fydd angen rhoi cyngor swyddog ffurfiol, mae'n digwydd mewn adroddiadau ffurfiol i'r cabinet neu'r cyngor; mae enghreifftiau'n cynnwys y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Ceir model gweithredu clir o fewn y cyngor, yn seiliedig ar y gwerthoedd corfforaethol a'r gofynion llywodraethu. Mae strwythur rheoli wedi'i wreiddio. Mae'r strwythur rheoli wedi ei wreiddio yn y cyfansoddiad a bu'n destun adolygiad diweddar gan y Prif Weithredwr / Cyngor.

Mae trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn eu lle. Gofynnir i bob swyddog wneud hyfforddiant ac e-ddysgu gorfodol fel y'u diffinnir yn rôl ei swydd. Yn ogystal, cefnogir unrhyw swyddog proffesiynol y mae angen iddo ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus i gynnal ei gymhwyster i wneud hynny. Mae ychydig bach o gyllideb hyfforddi ar gael ar draws y cyngor ac mae hwn yn faes y mae angen ei adolygu.

Mabwysiadwyd fframwaith datblygu hyfforddi er mwyn galluogi cymorth a datblygiad ar draws y cyngor. Rhoddir hyfforddiant ymwybyddiaeth a chyngor mewnol i staff e.e. cwblhau asesiadau effaith integredig, mesurau rheoli risg a sesiynau ymwybyddiaeth dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Bu nifer o aelodau o staff ar hyfforddiant arweinyddiaeth a manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu staff drwy ddirprwyo ac ati ar gyfer uwch gydweithwyr.

Ceir cynlluniau hyfforddi anffurfiol ond nid yw'r rhain wedi'u dogfennu'n dda ac fe wnaeth Covid gyfyngu ar y cyfleoedd i'w datblygu; dylai'r strategaeth gweithlu helpu'r cyngor i fwrw ymlaen â hyn. Mae cyfleoedd i hyfforddi, er bod hyn yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol. Mae pob uned wasanaeth yn annog hyfforddiant a sylwir ar anghenion hyfforddi mewn gwerthusiadau a chyfarfodydd un-ac-un. Amlygwyd rhai pryderon ynglŷn â chyfleoedd hyfforddi yn yr arolwg staff, a hwnnw'n faes a fydd yn cael sylw trwy'r strategaeth gweithlu.

Rhoddwyd hyfforddiant i rai sy'n gwneud penderfyniadau gan gynnwys y tîm rheoli corfforaethol, y Tîm Arwain ac Aelodau ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Diweddarwyd y rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig ar ôl mis Mai 2022 i adlewyrchu'r gofynion hyfforddiant, ynghyd â'r pwyllgorau amrywiol y mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi effeithio arnynt, megis y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ymgorfforir hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y cynllun gweithredu er mwyn cyflawni'r strategaeth gweithlu.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Gweler Rhan 2 – cynllunio'r gweithlu.

**Cynnwys ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned.**

| **Meini prawf** |
|---|
| Mae strategaethau / cynlluniau / polisïau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned a'u cynnwys. |
| Mae adborth a chyfranogiad cwsmeriaid a'r gymuned yn cael eu defnyddio'n effeithiol wrth adolygu perfformiad a llywio gwasanaethau. |
| Mae ymgysylltu da â rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig, wrth fframio polisi ac wrth wneud penderfyniadau polisi gwasanaethau allweddol |
| **Hunanasesiad** |

| 1. Ddim ar waith | 2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd | 3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg | 4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf | 5. Wedi'i sefydlu |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Mae gan y Cyngor strwythurau priodol ar waith i annog cyfranogiad y cyhoedd sy'n cael eu defnyddio i lywio cynigion a phenderfyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu.
- Fframwaith Cyd-gynhyrchu.
- Ymgynghoriadau "Dweud eich Dweud" ar y wefan.
- Mae Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn gwahodd cyfraniadau a chyfranogiad rhanddeiliaid.
- Arolwg Staff gydag ymatebion yn cael eu hystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol/Uwch Reolwyr.
- Polisi Cwynion ac Adroddiad Blynyddol i asesu dysgu a newid sefydliadol.
- Penodi Cynghorwyr Hyrwyddwyr sy'n rhoi llais i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Asesiad Effaith Integredig i asesu'r effeithiau cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol a chynaliadwyedd ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chenedlaethau'r dyfodol.
- Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus newydd sydd ar y gweill.

Ceir ymgynghori ac ymgysylltu priodol yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gan gynnwys ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb, cyd-gynhyrchu, ymgysylltu ag undebau llafur ac ymgysylltu â chymunedau anabledd ac LHDT. Ystyrir canlyniadau ymarferion ymgynghori yn llawn gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gydag ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u nodi mewn adroddiadau. Cynhaliodd y cyngor ymgynghoriad ar ei berfformiad ac ar ei gynllun corfforaethol yn 2021/22, a oedd yn cynnwys y cyhoedd, pobl â nodweddion gwarchodedig, busnesau lleol, staff y cyngor ac undebau llafur. Cafwyd cyfradd ymateb isel i'r arolwg ond adlewyrchir canlyniadau'r arolwg yn yr adroddiad hwn a bydd ffyrdd o wella'r gyfradd ymateb yn cael eu hadolygu.

Caiff perfformiad ei fonitro drwy adrodd am sylwadau, cwynion ac achwynwyr i gyfarfodydd rheoli ariannol a pherfformiad a rheoli adrannol.  Mae adrannau penodol sy'n wynebu cwsmeriaid yn cynnal arolygon neu'n monitro safonau. Caiff rhai cwsmeriaid mewnol hefyd arolwg am foddhad, e.e. adroddir yn fisol am berfformiad desg gwasanaeth Gwasanaethau Digidol, sy'n rhoi perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ac adborth a chanmoliaeth cwsmeriaid; mae'r tîm craffu'n anfon holiaduron yn rheolaidd at y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth o ran sut hwyl a gawsant arni. Nodir targedau cwynion yn y polisïau ac adroddir amdanynt yn rhan o'r adroddiad cwynion blynyddol. Roedd targedau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn destun adolygiad yn 2021/22 o ganlyniad i'r pandemig, a newidiodd y ffordd y mae cwsmeriaid yn cael at wasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid o ran prosesau a ffyrdd o weithio yn cael ei gyfleu'n ôl i wasanaethau.

Adolygwyd y Polisïau Cwynion Corfforaethol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a Safonau'r Gymraeg. Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021 o ganlyniad i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd i roi sicrwydd ynghylch prosesau trin cwynion y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad ond nodwyd ei bod yn bwysig peidio â gorgyffwrdd â gwaith y Pwyllgor Craffu. Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor y Rhaglen Graffu ar 15

Mawrth 2022. Yn ogystal, cafodd adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol yn adlewyrchu'r pwyslais parhaus ar ddatrys cwynion yn brydlon ac yn cynnwys canmoliaeth am wasanaethau. Gwnaed 73 o gwynion i'r Ombwdsmon gan gynnwys cwynion corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol (cafwyd 92 achos yn 2019/20). Caewyd 67 ohonynt cyn pen blwyddyn, ac roedd naw ohonynt yn destun ymyriad (datrysiad cynnar / setliad gwirfoddol (5) neu eu cadarnhau (4)). Lleihaodd cwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'u cymharu â'r 92 a gaewyd yn 2019/20. Sicrhawyd nad oedd adroddiadau Budd Cyhoeddus a16 o gwbl yn ystod y flwyddyn.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Gweler Rhan 2 – rheoli perfformiad.
- Parhau i ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Rheoli Risg a Pharhad Busnes.**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae polisi a fframwaith rheoli risg cynhwysfawr a gynhelir ar waith. | | | | |
| Rheolir yr holl risgiau perthnasol yn unol â Pholisi a Fframwaith Rheoli Risg cymeradwy'r Cyngor. | | | | |
| Mae cynlluniau Parhad Busnes ar waith ac yn cael eu diweddaru a'u profi'n rheolaidd. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Cafodd Fframwaith Rheoli Risg Corfforaethol ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Awst 2017 a chyflwynwyd system TG Rheoli Risg newydd ar draws y Cyngor yn 2020/21. Cofnodir pob risg corfforaethol, cyfarwyddiaeth a lefel gwasanaeth yn y gofrestr risgiau corfforaethol. Mae risg yn eitem sefydlog mewn cyfarfodydd adrannol a pherfformiad a chyllid misol. Rhoir adroddiad misol ar risg i'r tîm rheoli corfforaethol ac adroddir am statws risgiau corfforaethol yn y cyngor bob chwarter i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol adolygu pob Risg a diweddaru'r statws Coch/Ambr/Gwyrdd bob mis. Caiff risgiau eu "dadactifadu" o fewn y Gofrestr Risg gan Swyddogion Cyfrifol pan fydd angen, a dim ond swyddogion sydd â mynediad priodol i'r system sy'n gallu gwneud hyn; rhaid darparu'r rhesymau dros ddadactifadu risgiau.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar reoli risgiau corfforaethol yn 2021/22. Cadarnhaodd yr adroddiad canfyddiadau fod adroddiadau ar risgiau wedi'u hadolygu bob mis gan y tîm rheoli corfforaethol yn ystod 2021/22 a'u bod yn cynrychioli adolygiad cynhwysfawr o statws yr holl risgiau yng Nghofrestr Risg y Cyngor, sy'n cynnwys uwchgyfeirio / isgyfeirio risg. Cadarnhawyd hefyd fod adroddiadau ar Risgiau Corfforaethol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer holl chwarteri cyflawn 2021/22. Dangosodd adolygiad o'r holl Risgiau Corfforaethol fel ym mis Mawrth 2022 (18 i gyd) fod y cyfan wedi'i ddiweddaru o fewn y mis diwethaf, yn ôl y gofyn. Gwiriwyd y 18 Risg Corfforaethol i gyd hefyd i benderfynu a gafodd diweddariadau eu cofnodi bob mis yn ystod y tri mis diwethaf. Datgelodd hyn fod 17 allan o'r 18 risg wedi'u diweddaru; er bod 1 allan o'r 18 wedi'i

ddiweddaru ym mis Chwefror a mis Ionawr 2022, cyn hynny nid oedd wedi'i ddiweddaru ers mis Hydref 2021. Gwiriwyd i gadarnhau bod rheswm wedi'i ddarparu lle'r oedd Risgiau wedi'u dadactifadu. Archwiliwyd y cyfan a chanfuwyd bod rheswm wedi'i ddarparu ym mhob achos.

Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021 ar ddigonolrwydd y Mesurau Rheoli a gofnodwyd yn y gofrestr ar gyfer Risgiau Corfforaethol. O ganlyniad, yn ystod 2021/22, bu'n ofynnol i Gyfarwyddwyr fynychu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail gylchdroadol i amlinellu'r rheolaethau llywodraethu a rheoli risg o fewn eu cyfarwyddiaeth; rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol ar Fesurau Rheoli i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth a'r holl Swyddogion Cyfrifol yn 2021/22. Cafodd y Mesurau Rheoli ar gyfer yr holl Risgiau Corfforaethol eu hadolygu hefyd ym mis Ionawr 2022 a darparwyd adborth i'r tîm rheoli corfforaethol ynghylch a ydynt yn rhai "CAMPUS" – Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol. Yn rhan o'r archwiliad, cynhaliwyd prawf ar yr holl Fesurau Rheoli ar gyfer yr holl Risgiau Corfforaethol i gadarnhau eu bod yn briodol, yn gyflawn ac yn rhai "CAMPUS"; canfuwyd bod pob un yn foddhaol ar wahân i 3 risg.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn gweithredu system o lefelau Sicrwydd sy'n rhoi barn ffurfiol am gyflawni amcanion rheoli'r system/gwasanaeth. Mae'r lefelau Sicrwydd yn amrywio dros bedwar categori: 'Uchel', 'Sylweddol', 'Cymedrol' a 'Cyfyngedig'. Yn seiliedig ar y profion archwilio a wnaed, canfuwyd bod bron y rhan fwyaf o weithdrefnau'n gweithredu'n foddhaol, a dim ond angen gwella nifer fach o faterion. O ganlyniad, rhoddwyd Lefel Sicrwydd **'Sylweddol'**. Dengys hyn 'fod system gadarn o reoli mewnol ond bod rhywfaint o le i wella gan y gallai'r rheolaethau aneffeithiol beryglu amcanion y system'.

Caiff risgiau prosiect eu rheoli a'u monitro drwy eu Byrddau / grwpiau llywio neu drefniadau llywodraethu. Mae cynlluniau parhad busnes yn eu lle ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Gweithredu argymhellion o Adroddiad Archwilio Mewnol 2021/22 ar reoli risg i barhau â diweddariadau rheolaidd a sicrhau bod mesurau rheoli yn parhau i fod yn rhai CAMPUS.

**Llywodraethu cydweithio / partneriaeth.**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau a chyfranogiad llywodraethu gweithredol ac effeithiol mewn partneriaethau a chydweithrediadau sy'n helpu i gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol. | | | | |
| Mae'r partneriaethau allweddol a'r cydweithrediadau y mae'r gwasanaeth / cyngor yn gyfrifol (ar y cyd) amdanynt yn perfformio'n dda yn erbyn eu nodau a'u hamcanion | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Mae'r cyngor yn rhan o fwy na chant o gydweithrediadau gweithredol ond mae pum Partneriaeth a chydweithrediad allweddol a sylweddol sef: Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru; Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe; Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg; Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA), a phartneriaeth addysgol ranbarthol Partneriaeth.

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi trosolwg o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y pum partneriaeth a chydweithrediad sylweddol hyn, gan gynnwys gwaith a wnaed yn ystod 2021/22, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022; yn yr un cyfarfod, cafodd y pwyllgor hefyd adroddiad penodol am gynnydd o ran sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Partneriaeth ranbarthol newydd yw'r Cydbwyllgor hwn a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Y nod yw dod â chydlyniad i lywodraethu rhanbarthol. Mae gan y Cydbwyllgor swyddogaethau cyfyngedig: cynllunio datblygu strategol; cynllunio cludiant rhanbarthol; hyrwyddo lles economaidd. Er eu bod yn cael eu trin fel cyrff corfforaethol ar wahân, dylid eu hystyried yn 'rhan o deulu llywodraeth leol'. Mae Cyngor Abertawe yn aelod o Gydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, ynghyd â Chynghorau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot - ynghyd â Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

Cafodd nifer o bethau eu datrys yng nghyfarfod cyntaf Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ym mis Ionawr 2022:

- Cafodd Arweinydd Cyngor Abertawe ei benodi'n Gadeirydd.
- Cymeradwywyd cyfansoddiad.
- Mabwysiadwyd rheolau sefydlog i lywodraethu'r Cydbwyllgor.
- Penodwyd i rolau statudol: Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot – i gylchdroi); Swyddog Adran 151 (Cyngor Sir Gaerfyrddin); Swyddog Monitro (Cyngor CNPT).
- Crëwyd is-bwyllgorau.
- Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Crëwyd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Dynodwyd Pwyllgor Safonau CNPT i weithredu ar ran y Cydbwyllgor Corfforaethol.
- Cymeradwywyd Côd Ymddygiad Aelodau.
- Cymeradwywyd Rheolau Gweithdrefnau.
- Cytunwyd ar Reolau Gweithdrefnau Cael at Wybodaeth.
- Sefydlwyd cyllideb ddrafft a Chytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau cymorth corfforaethol.

Mae'r Cydbwyllgor wedi gosod cyllideb ariannol o sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ac fe gytunodd na fydd unrhyw ardoll yn cael ei chodi yn erbyn cynghorau cyfansoddol am y flwyddyn honno; serch hynny, er mwyn sicrhau tegwch ledled y rhanbarth, byddai cyllid rhanbarthol y Cydbwyllgor yn cael ei osod drwy ddosraniad ardoll yn ôl maint y boblogaeth. Mae cyfran Abertawe o hyn yn cyfateb i £200k ac fe gafodd ei chyllidebu yn unol â hynny. Nid yw sefyllfa ariannol y Parciau Cenedlaethol wedi'i benderfynu eto ond dylid nodi bod eu cyfraniad ariannol yn estyn i gefnogi'r agwedd cynllunio strategol ar y Cydbwyllgor Corfforaethol yn unig. Yn ystod 2022/23 bydd y flaenraglen ar gyfer 2023/24 yn cael ei datblygu a bydd hyn yn ei dro yn cysylltu'n uniongyrchol â gofynion y gyllideb yn y dyfodol.

Sefydlwyd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg yn 2016 ac arferai gael ei galw'n Fae'r Gorllewin. Partneriaeth statudol ydyw a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ac mae'n gydweithrediad rhwng Cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a'r Bwrdd Iechyd lleol. Mae'r partneriaid yn cydweithio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol da ar draws y rhanbarth. Yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellir y ffaith bod Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg bellach yn canolbwyntio ar dri maes 'trawsnewid', a phob un â'i brosiectau a'i ffrydiau gwaith

cysylltiedig yn cael eu darparu yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

- Y Bwrdd Trawsnewid Oedolion (a'i flaenoriaethau allweddol yn cynnwys Oedolion Hŷn, y Rhaglen Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth, Dementia, Fframwaith Strategol Iechyd Meddwl, Fframwaith Strategol Anabledd Dysgu).
- Y Bwrdd Trawsnewid Plant ac Oedolion Ifanc (a'i flaenoriaethau allweddol yn cynnwys y Gwasanaeth Cymorth Lleoliadau Aml-asiantaeth, Plant ag Anghenion Cymhleth a'r Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol).
- Y Bwrdd Trawsnewid Integredig (a'i flaenoriaethau allweddol yn cynnwys Gofalwyr, Trawsnewid Digidol, Trawsnewid mewn Rhwydweithiau a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru).

Mae Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn crybwyll diogelu ymhlith y prif flaenoriaethau corfforaethol o hyd a bod hyn wrth wraidd y modd y mae gwasanaethau'r cyngor yn cael eu blaenoriaethu. Yn ôl yr adroddiad, mae'r cyngor wedi llwyr groesawu'r angen i'r cyngor weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol byth gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau iechyd a gofal yn ddiogel ac effeithiol. Dywedir wedyn yn yr adroddiad fod yr ethos hwn o gydweithio yn llywio gwaith partneriaeth lleol y cyngor a'i ymrwymiad i weithio gyda Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg a thrwyddo.

Roedd adroddiad i Banel Perfformiad Craffu ar Wasanaethau Oedolion ym mis Mawrth 2022 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith rhaglen Gorllewin Morgannwg ers mis Mawrth 2021. Yn yr adroddiad dywedir bod Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, ym mis Mehefin 2021, wedi dechrau cyfnod o adfer o drefniadau COVID-19 a bod y Rhaglen Drawsnewid wedi'i hailddechrau i gefnogi sefydlogi ac ailadeiladu'r rhanbarth. Yn ystod mis Medi 2021, cytunwyd gan y Byrddau Trawsnewid y byddai'r agendâu'n fwy hyblyg ac yn symud at amserlen bythefnos. Byddai hyn yn caniatáu i'r holl Raglenni Trawsnewid adrodd bob pythefnos ar eu hymateb i'r argyfwng trwy Gyfnod y Gaeaf. Cytunwyd i ad-drefnu rhaglen drawsnewid gyfredol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ganolbwyntio ar argyfwng (gan gynnwys cynllunio at y Gaeaf) gan ganolbwyntio ar y camau gorau i gefnogi'r boblogaeth a'n system iechyd/ gofal cymdeithasol dros y 5 mis nesaf. Cytunwyd o'r cychwyn cyntaf fod y rhanbarth wedi dysgu gwersi o don gyntaf y pandemig a chytunwyd i gynnwys pob carfan wrth ddatblygu a chynllunio ar gyfer yr Argyfwng / Gaeaf.

Cytunwyd i sefydlu cronfa gyfun i gefnogi mentrau cynllun y gaeaf / argyfwng, gan ddefnyddio unrhyw gyllid rhanbarthol sydd heb ei ddyrannu. Prif ffocws y Bwrdd Trawsnewid ers mis Tachwedd 2021 fu gweithio'n bennaf i atal gwasanaethau cymunedol rhag methu; mae hyn yn cynnwys cyfarfod ddwywaith yr wythnos drwy'r Bwrdd Trawsnewid a Chyfarfod Arian Cymunedol. Canolbwyntiodd y cyfarfod Arian Cymunedol ar y Fframwaith Uwchgyfeirio Integredig Rhanbarthol, sy'n amlygu'n fanwl y pwysau a'r materion ar draws Gwasanaethau Cymunedol. Yn ystod mis Rhagfyr 2021, cynyddodd y pwysau cyn penderfynu yn y Bwrdd Trawsnewid ar 21 Rhagfyr 2021 y byddai'r cyfarfodydd yn parhau i fod yn wythnosol ond gan ganolbwyntio ar Bwysau'r Gaeaf a'r Argyfwng yn unig er mwyn cynllunio senarios ar gyfer y cymhlethdodau mwyaf eithafol ac i ganiatáu i'r grŵp ganolbwyntio ymhellach ar ddatblygu capasiti i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn ogystal â gweithio ar yr argyfwng mae Swyddfa Drawsnewid Gorllewin Morgannwg yn canolbwyntio ar ddatblygu Achosion Busnes ar gyfer y rhaglen yn unol â'r drefn ariannu newydd ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y 5 mlynedd nesaf sy'n dechrau ym mis Ebrill 2022. Ym mis Hydref 2021, cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y fframwaith llywodraethu newydd gyda diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl.

Cymeradwywyd y Fframwaith Llywodraethu Rhanbarthol diwygiedig ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ym mis Chwefror 2022; mae hyn yn cynnwys cylch gorchwyl, penodi aelodau'r Bwrdd a'r amryw rolau a chyfrifoldebau. Mae Cynrychiolwyr Dinasyddion a Gofalwyr yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a dylent allu dangos sut maent wedi ymgysylltu â dinasyddion a gofalwyr ar bob lefel gan gynnwys asesu angen, cynllunio strategol, cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr y Trydydd Sector a'r Darparwyr Gofal hefyd yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau integredig a chymryd rhan yn hyn.

Cymeradwywyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) yn 2017; mae'n fuddsoddiad gwerth £1.3 biliwn yn yr economi ranbarthol. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Cynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'n cynnwys 9 o raglenni a phrosiectau, gan gynnwys prosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau dan arweiniad Cyngor Abertawe. Mae Bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - sef Bwrdd Gweithredu Twf a Dinasoedd Cymru - yn goruchwylio cynnydd. Sefydlwyd Cydbwyllgor i fonitro Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gwnaed Cytundeb Cydbwyllgor rhwng y partneriaid i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu rhwymedigaethau i'w gilydd. Arweinydd Cyngor Abertawe sy'n cadeirio'r Cydbwyllgor. Mae Bwrdd Rhaglen yn goruchwylio gweithrediadau'r Fargen Ddinesig. Corff ymgynghorol sector preifat yw Bwrdd Strategaeth Economaidd sy'n gweithredu fel llais busnes.

Mae Cydbwyllgor Craffu yn rhoi cyngor, her a chymorth i'r Cydbwyllgor ac yn cynnwys dau aelod etholedig o bob un o'r pedwar awdurdod lleol rhanbarthol. Cyngor Abertawe sy'n cynnal y Cydbwyllgor a'r holl wasanaethau cyfreithiol a democrataidd (ac sy'n darparu'r Swyddog Monitro). Cyngor Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol fel corff atebol am y portffolio cyfan gan sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni (ac sy'n darparu Swyddog Adran 151). Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am yr holl weithgaredd archwilio ar gyfer y portffolio cyfannol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sydd â chyfrifoldeb rhanbarthol am graffu ar y portffolio a'i raglenni a'i brosiectau cyfansoddol. Mae Cyfarwyddwr Portffolio'r Fargen Ddinesig a Swyddfa Rheoli Portffolio'r Fargen Ddinesig yn sicrhau gweithredu diffwdan a llywodraethu cadarn. Mae cofrestr risg, cynllun monitro a gweithredu a chynlluniau eraill ar waith i sicrhau cyflenwi a llywodraethu.

Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022, clywyd bod elfennau penodol Abertawe o raglen y fargen ddinesig yn datblygu'n dda gydag Arena Abertawe yn gyflawn ac yn weithredol, a gweddill yr agweddau i fod i'w cwblhau yn ddiweddarach yn 2022/23. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo'n dda gydag ardal ddigidol 71/72 Ffordd y Brenin, a'r prosiectau sy'n cyd-fynd sy'n cael eu gwneud gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn gwneud cynnydd da. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect rhanbarthol o dalent a sgiliau, Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, a ffrwd ddigidol rhaglen BDdBA.

Partneriaeth newydd a sefydlwyd yn 2021 ac a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022 yw Partneriaeth, ar ôl tranc ERW, sef trefniadau partneriaeth ranbarthol newydd ar gyfer gwella addysg. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Cynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac mae'r gwaith o weithredu yn cael ei reoli gan gytundeb cyfreithiol. Goruchwylir y bartneriaeth gan Gydbwyllgor dros yr aelodau cyfansoddol. Mae Arweinydd Cyngor Abertawe yn aelod o'r Cydbwyllgor. Mae Grŵp Cynghorwyr Craffu ar y Cyd wedi'i sefydlu. Darperir gwasanaethau hefyd i awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol: sef Cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion a Phowys. Bydd Grŵp Strategol yn gyfrifol am ymgymryd â rhai materion gweithredol a bydd yn adrodd i'r Cydbwyllgor. Bydd Grŵp Gweithrediadau a Grŵp Rhanddeiliaid yn adrodd i'r Grŵp Strategol. Bydd y Cydbwyllgor yn gyfrifol am sefydlu Is-bwyllgorau, sefydlu cylch gorchwyl ac aelodaeth fel y gwêl yn dda o fewn cyfyngiadau'r cytundeb partneriaeth cyfreithiol. Bydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ar y Cyd

yn cael ei sefydlu er mwyn darparu swyddogaeth graffu anffurfiol i sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus ynghylch penderfyniadau a wneir gan y Cydbwyllgor ac unrhyw rai o'i is-bwyllgorau.

Cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ei sefydlu o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: ei nod yw gwella lles yn Abertawe. Aeth y Bwrdd hwnnw ati i ddiwygio a chytuno ar ei gylch gorchwyl ym mis Ebrill 2019. Mae aelodaeth statudol y Bwrdd yn cynnwys: Cyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyfranogwyr a wahoddwyd yn cynnwys: Gweinidogion Cymru, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, y Gwasanaeth Prawf, cynrychiolydd sefydliadau gwirfoddol ac unrhyw unigolion eraill y gallai fod yn ofynnol i'r Bwrdd eu gwahodd o dan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Nid yw cyfranogwyr a wahoddwyd yn aelodau o'r Bwrdd ac nid oes gofyn iddynt dderbyn y gwahoddiad. Cadeirydd y BGC yw Dirprwy Arweinydd Cyngor Abertawe, y Cynghorydd Andrea Lewis.

Mae'r Cydbwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu Cynllun Llesiant y BGC drwy bedair ffrwd waith, gyda phob un wedi’i harwain gan un o'r aelodau statudol: Y Blynyddoedd Cynnar – Prifysgol ABM; Byw’n Dda, Heneiddio'n Dda – Cyngor Abertawe; Gweithio gyda Natur – Cyfoeth Naturiol Cymru, a; Chymunedau Cryfach – Tân ac Achub. Mae grwpiau cyflenwi gorchwyl a gorffen yn cyflenwi pob ffrwd waith. Cyngor Abertawe sy’n darparu gwasanaethau democrataidd a gweinyddol i’r BGC. Caiff mwyafrif y gwaith a wneir gan BGC Abertawe ei wneud o fewn cyllidebau presennol y Partneriaid Statudol, a hynny’n amodol ar drefniadau sefydliadau unigol. Darperir grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i ariannu rhai costau. Mae Fforwm Partneriaeth yn darparu mecanwaith er mwyn i amrywiaeth o gyfranogion o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gymryd rhan yng ngwaith y BGC.

Mae Pwyllgor Rhaglen Graffu (PRhG) Cyngor Abertawe yn craffu ar waith y BGC. Gwnaeth y Pwyllgor hwnnw nifer o gynigion ar gyfer gwella yn ystod 2021/22, gan gynnwys: gwella'r fframwaith perfformiad i brofi’n well y gwahaniaeth pendant y mae'r BGC yn ei wneud (gan gynnwys mesuriadau gwell o gynnydd wrth gyflawni amcanion lles); gwella eglurder camau gweithredu a chanlyniadau o gyfarfodydd y BGC; gwella gwelededd / negeseuon cyhoeddus am waith y BGC (yn rhan o strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd); myfyrio ynghylch llywodraethu’r BGC yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2021/22 y BGC ym mis Awst 2022; mae'r adroddiad yn rhoi gwybod y diweddaraf am y gwaith a wnaed yn 2021/22, gan gynnwys cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion lles a ddisgrifir yng Nghynllun Llesiant y BGC. Bu llawer o'r ffocws lleol ac adnoddau partner ynghylch mesur llesiant yn ystod 2021/22 ar ail Asesiad o Lesiant Lleol Abertawe, a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 i gwrdd â gofynion deddfwriaethol. Mae'r ddogfen yn darparu asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Abertawe a bydd yn cael ei defnyddio i lywio'r Cynllun Llesiant lleol nesaf ym mis Mai 2023.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Parhau â'r gwaith o fynd i'r afael â'r holl gynigion ar gyfer gwella gweithredu'r BGC a wnaed gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

**Amgylchedd Rheoli Mewnol.**

| **Meini prawf** |
|---|
| Mae systemau Rheoli Mewnol cryf ar waith ac yn cael eu cymhwyso drwy’r Cyngor i gyd |
| **Hunanasesiad** |

| 1. Ddim ar waith | 2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd | 3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg | 4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf | 5. Wedi'i sefydlu |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Darperir sicrwydd ar gymhwyso'r Côd Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn y cyngor drwy gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cael ei adrodd am sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn. Mae'r system rheoli mewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i cynlluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethiant o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly dim ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei wneud. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, i werthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau hynny'n cael eu gwireddu ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwastraff.

Mae Dinas a Sir Abertawe'n adolygu'n flynyddol pa mor effeithiol yw ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheoli mewnol. Gwna hyn drwy: Ddatganiadau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, Swyddogion Statudol, y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; sefydliadau allanol h.y. Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr, a; thystiolaeth graidd wedi'i mapio i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Ar sail y rhaglen o waith archwilio a wnaed yn 2021/22, barn y Prif Archwilydd a nodwyd yn y Datganiad am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol y Cyngor yw ei fod yn effeithiol heb unrhyw wendidau sylweddol a nodwyd yn 2021/22 a fyddai'n cael effaith berthnasol ar faterion ariannol y Cyngor neu ar gyflawni ei amcanion.

**Twyll ac Amhriodoldeb Ariannol.**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae gan y Cyngor reolaethau cadarn ar waith i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a'u canfod yn brydlon. | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth ac mae ganddo Bolisi Atal Twyll a Llygredigaeth a Pholisi Chwythu'r Chwiban. Caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad blynyddol ar y swyddogaeth dwyll a'r Cynllun Atal Twyll. Cymeradwyir y Cynllun Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ar 20 Ebrill 2021 cafodd y Pwyllgor Gynllun Blynyddol Swyddogaeth Dwyll 2021/22. Cafwyd Adroddiad Blynyddol Atal Twyll 2020/21 yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021. Cyflwynwyd adroddiad ychwanegol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn argymhellion yn adroddiad

Archwilio Cymru 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru' ym mis Mawrth 2021 gyda diweddariad am y cynnydd ym mis Tachwedd 2021. Nododd y Pwyllgor fod angen rhywfaint o waith pellach i fynd i'r afael â'r holl argymhellion hynny. Mae gan y cyngor risg lefel gorfforaethol ar leihau a mynd i'r afael â thwyll ar ei gofrestr risg corfforaethol, sy'n cynnwys nifer o fesurau lliniaru a rheoli sy'n cael eu hadolygu bob mis.

Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus

- Parhau i weithio i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.

**Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rheolir pob rhaglen a phrosiect gan ddefnyddio methodoleg rheoli prosiectau a rhaglenni cadarn ac yn unol â chanllawiau corfforaethol a rheolau gweithdrefnol gan dynnu sylw priodol at risgiau/tramgwyddau posibl | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi'i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Mae prosiectau a rhaglenni risg mawr neu uchel yn dilyn methodoleg y cytunwyd arni gan ddechrau gyda'r achos busnes cychwynnol a gymeradwywyd gan yr Uwch Berchennog Cyfrifol neu'r tîm rheoli corfforaethol/ Cabinet (yn ddibynnol ar faint y prosiect), strwythur llywodraethu, cofnod risg a phroses adrodd.

Mae gan raglen drawsnewid y cyngor, sef Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, adroddiad ar y prif bwyntiau, sy'n cael ei gyflwyno mewn grŵp llywio, ac yna adroddiad pellach ar y prif bwyntiau o'r grŵp llywio a gyflwynir i Fwrdd y rhaglen drawsnewid ynghyd â meysydd ychwanegol o bwysigrwydd strategol, risg a chynnydd. Roedd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2022 yn dangos bod cyfnod ailffocysu'r rhaglen wedi hen ddechrau a bod y gweithgorau yn eu lle ac yn gweithio drwy'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'u hagendâu. Daeth y papur i'r pwyllgor i'r casgliad fod y mecanweithiau adrodd a'r byrddau llywodraethu yn eu lle a'u bod yn gweithio'n dda.

Caiff pob achos busnes i gael at arian o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ei ddatblygu'n effeithiol i gael cymeradwyaeth briodol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnodau achos busnes amlinellol a llawn. Mae pob achos busnes yn destun craffu cadarn a cheir adborth cadarnhaol o hyd gan swyddogion LlC sy'n ystyried eu bod yn enghreifftiau o arfer da. Caiff buddion ariannol ac anariannol eu diffinio'n glir mewn achosion busnes, a'u monitro drwy gydol cylchoedd bywyd prosiect. Erbyn hyn, mae Gwerthuso Ôl-feddiannaeth yn ddarn o waith sy'n datblygu. Craffwyd droeon ar drefniadau llywodraethu ar gyfer rhaglen QEd (gan gynnwys Estyn ac Archwilio Cymru ac adolygiad Porth allanol) a chydnabyddir eu bod yn effeithiol gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol, a hefyd eu bod yn benodol yn elfen allweddol o'r 'model busnes pum achos' sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth i gyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol.

Cyflwynwyd adroddiad sy'n rhoi trosolwg o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y pum partneriaeth a chydweithrediad sylweddol, gan gynnwys trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau ar gyfer y partneriaethau sefydledig, i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022. Hwylusir trawsnewidiad cyffredinol rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol trwy isadeiledd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mabwysiadwyd methodoleg rheoli prosiectau gadarn a chyson ar lefel ranbarthol, leol, cyfarwyddiaeth a gwasanaeth gydag adnoddau arbenigol pwrpasol wedi'u dyrannu i sicrhau bod prosesau cychwyn prosiect, cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig, rheoli risg a phontio i fusnes fel arfer yn cael eu rheoli'n briodol. Mae buddsoddiad rhanbarthol a lleol mewn capasiti rheoli prosiectau wedi talu ffordd yn amlwg a bu’n arbennig o werthfawr wrth gefnogi newid cyflym i wasanaethau iechyd a gofal i liniaru effeithiau eithafol y pandemig.

Mabwysiadodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) Strategaeth Rheoli Risg Portffolio newydd yn 2020. Sefydlodd hefyd Gofrestr Risg Portffolio a Log Problemau, ac mae’n adrodd yn rheolaidd ar risgiau wedi'u blaenoriaethu trwy'r strwythurau llywodraethu. Crisialir risgiau allweddol mewn Cofrestr Risg Portffolio BDdBA. Mae Swyddfa’r Portffolio yn adolygu ac yn monitro'r broses rheoli risg yn rheolaidd. Er mwyn cefnogi ymhellach y gwaith o reoli risgiau a materion cysylltiedig posibl, datblygodd swyddfa Rheoli’r Portffolio reolaeth newid ym mis Chwefror 2021. Datblygodd BDdBA Gynllun Monitro a Gwerthuso ym mis Mehefin 2020. Mae timau prosiect yn cyfrannu at adroddiadau misol ar y prif bwyntiau ac adroddiadau monitro chwarterol, adroddiad blynyddol a gwerthusiadau carreg filltir wedi'u cynllunio. Yn yr adroddiadau hyn amlinellir gweithgarwch wedi'i gynllunio a'i gwblhau, gwaith cyflwynedig allweddol, risgiau, materion a chyllid ar lefelau prosiect, rhaglen a phortffolio. Mae gan naw prosiect a rhaglen BDdBA i gyd hefyd Gynlluniau Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig wedi’u sefydlu, sy'n cael eu diweddaru a'u rhannu'n rheolaidd gyda phwyllgorau a byrddau llywodraethu BDdBA. Mae Portffolio a phrosiectau BDdBA hefyd yn destun Adolygiadau Porth OGC (Swyddfa Masnach y Llywodraeth) i sicrhau dilyniant llwyddiannus a darparu'r portffolio a phrosiectau a rhaglenni cysylltiedig yn gyffredinol. Caiff yr adolygiadau porth eu cychwyn a'u harwain gan y Portffolio neu'r Prosiect/Rhaglenni. Mae’r holl Raglenni a Phrosiectau a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu mandadu gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i lenwi ffurflen Asesu Potensial Risg i’w hadolygu/gwerthuso gan y Swyddfa Cyflawni Prosiectau.

**Arloesi a Rheoli Newid**

| **Meini prawf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae gan y Cyngor hanes sicr o arloesi a rheoli newid | | | | |
| Mae rhaglenni newid a thrawsnewid yn gwneud y Cyngor yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Cyngor | | | | |
| Mae trefniadau ar waith a thystiolaeth i ddangos bod staff, cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gallu arloesi a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella, a’u bod yn gwneud hynny | | | | |
| Mae risgiau ac effaith o weithgaredd trawsnewidiol yn cael eu monitro i nodi unrhyw effaith andwyol, gan gynnwys effaith andwyol ar gydraddoldeb ac ar les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol | | | | |
| **Hunanasesiad** | | | | |
| **1. Ddim ar waith** | **2. Prinder cymhwyso ac effeithiolrwydd** | **3. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cymysg** | **4. Cymhwyso ac effeithiolrwydd cryf** | **5. Wedi’i sefydlu** |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Tystiolaeth**
Daeth pandemig COVID-19 â heriau a newidiadau enfawr i'r Cyngor, ei wasanaethau a'i weithlu. Nid yw'r Cyngor erioed wedi cyflawni cymaint o newid mewn cyn lleied o amser nac mewn amgylchiadau mor heriol. Ataliwyd nifer o wasanaethau dianghenraid er mwyn symud adnoddau i feysydd lle'r oedd eu hangen fwyaf. I grynhoi, ers mis Mawrth 2020, mae'r Cyngor wedi trawsnewid y ffordd y mae'n gweithio i reoli effaith y pandemig. Llwyddwyd i symud miloedd o staff i weithio o bell a/neu gartref o fewn ychydig wythnosau. Cymerodd hyn ymdrech enfawr gan ein tîm TGCh i ddarparu'r newidiadau angenrheidiol gan alluogi staff a chynghorwyr i gael cysylltiadau rhwydwaith llawn yn eu hoff leoliad. Mae newidiadau eraill yn cynnwys:

- Bod ymhlith y cynghorau cyntaf yng Nghymru i symud cyfarfodydd, pwyllgorau a chyngor ar-lein.
- Cyflwyno gweithio ystwyth, a gefnogodd y pontio i weithio o gartref a gweithio ystwyth i'r gweithlu cyfan yn ystod y pandemig.
- Cefnogi Rhaglen Warchod Llywodraeth Cymru drwy sefydlu canolfan alwadau newydd a darparu cymorth dyddiol i filoedd o bobl agored i niwed.
- Canolbwyntio gofal gwasanaethau cymdeithasol ar y bobl fwyaf agored i niwed, ailagor cartref gofal a chefnogi'r sector gofal preifat.
- Goruchwylio'r gwaith o gynllunio ac adeiladu Ysbyty Maes y Bae ar Ffordd Fabian.
- Ailwampio ysgolion yn lleoliadau gofal i blant gweithwyr allweddol.
- Darparu prydau bwyd i leoliadau gofal a dosbarthu prydau ysgol am ddim.
- Darparu banciau bwyd ledled y ddinas a'r sir.
- Darparu cymorth ariannol dros £100 miliwn i filoedd o fusnesau.
- Sefydlu swyddogaeth Tracio, Olrhain a Diogelu a darparu canolfannau profi cymunedol.
- Paratoi ar gyfer brechu torfol yn ein cymunedau.

Roedd adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2022 yn rhoi gwybod am gynnydd diweddaraf rhaglen drawsnewid gorfforaethol Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd y Cyngor. Prif bwrpas y Rhaglen hon yw sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn effeithiol o ran y gwasanaethau y mae’n eu darparu a sut, gyda'r dinesydd wrth wraidd y cyfan. Yn ogystal â nodi'r blaenoriaethau yn y tymor byr a chanolig, nod fframwaith Cyflawni’n Well Gyda’n Gilydd yw gosod y sylfeini i ffurf y cyngor yn y tymor hwy, gan edrych ymlaen at yr 20 mlynedd nesaf hyd at 2040 - adfer yn gyntaf, wedyn ailffocysu ac yna ail-lunio'r cyngor.

Clywodd y pwyllgor fod gwaith camau Adfer ac Ailffocysu'r rhaglen hon wedi parhau drwy gydol y pandemig a bod y cyngor wedi cynnal gwasanaethau drwy gydol y pandemig ond hefyd wedi hen gychwyn ar ei daith i'r ail gam ailffocysu. Mae'r cam Ailffocysu wedi gosod cyllideb cyngor 2022/23 ac adnewyddu Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor. Bydd Cam 3 - Ail-lunio - yn edrych y tu hwnt i 2022, a bydd yn destun etholiadau a blaenoriaethau 2022 y cyngor newydd. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y cyfnod ailffocysu wedi hen ddechrau a bod y gweithgorau yn eu lle ac yn gweithio drwy'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'u hagendâu. Mae Rhaglen Cyflawni’n Well Gyda’n Gilydd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a’r amcanion lles corfforaethol yn y cynllun corfforaethol. Bu Pwyllgorau Datblygu Polisi’r cyngor yn rhoi cymorth i'r rhaglen a'r ffrydiau gwaith; bu’r Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau’r Dyfodol yn cefnogi rhaglen waith gyffredinol Cyflawni’n Well Gyda’n Gilydd. Yn ddiweddar, cafodd y pwyllgor penodol hwnnw sesiwn ar gyd-gynhyrchu yn ddiweddar, diweddariad ar y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu a gweithdy ar ffrwd waith y Gweithlu yn ystod 2021/22; mae'r rhain i gyd yn brosiectau o fewn ffrwd waith y Gweithlu a Chydraddoldeb. Bu arweinwyr y ffrydiau gwaith yn gweithio'n agos gyda phwyllgorau datblygu polisi eraill ar eu prosiectau, cynlluniau a pholisïau unigol.

Mae gan raglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd log o risgiau a phroblemau sy'n cael eu nodi yn y Grŵp Llywio ac ym Mwrdd y rhaglen ei hun; caiff unrhyw broblem hefyd ei huwchgyfeirio at y tîm rheoli corfforaethol neu ei rhoi ar y gofrestr risg os oes angen. Mae'r llywodraethu a'r sicrwydd o fewn y fframwaith rheoli prosiect ar gyfer pob trawsnewidiad yn cynnwys matrics risg a phroses uwchgyfeirio. Mae pob gweithgaredd trawsnewidiol yn destun Asesiad Effaith Integredig er mwyn sicrhau nad oes effeithiau negyddol ar bobl, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Cynhaliodd tîm archwilio mewnol Cyngor Abertawe archwiliad o'r rhaglen, y llywodraethu a'r strwythur yn ystod 2021/22. Dyfarnwyd Lefel 'Uchel' o Sicrwydd. Dengys hyn fod 'system gadarn o reoli mewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y rhaglen a bod y rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson'. Ni chafwyd argymhellion yn dilyn yr archwiliad.

Datblygwyd y Strategaeth Gweithlu i fodloni gofyniad trwy'r cyngor cyfan ar gyfer recriwtio, cadw a datblygu staff er mwyn galluogi hyblygrwydd a'u gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynigion i wella a datblygu ymgysylltiad ac arloesedd staff. Mae gan y cyngor Hwb Syniadau, sef platfform ar-lein  sy'n rhoi cyfleoedd i staff gyflwyno syniadau arloesol i raglen Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. Mae menter 'Dewch i Drafod' a gyflwynwyd yn 2021/22 sy'n adeiladu ar gymuned flaenorol yr Hwb Arweinyddiaeth yn darparu digwyddiadau gweithdy misol sy'n cyfuno cyflwyniadau a sgyrsiau megis cyfweliad gan arweinwyr ag ystod eang o brofiadau ar draws gwahanol sefydliadau.

**Canlyniad ymgynghori**

Cynhaliodd y cyngor arolwg o'r cyhoedd, busnesau lleol, staff y Cyngor ac undebau llafur yn 2021/22.

Ni chafwyd fawr o ymateb i'r arolwg - o dan 100 ymateb - er bod y Cyngor wedi gwneud ei orau i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg, gan gynnwys anfon e-byst uniongyrchol at randdeiliaid. Gallai'r gyfradd ymateb isel i'r arolwg fod wedi effeithio ar hyder yn y canlyniadau.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Abertawe yn cael ei lywodraethu'n dda. Roedd ychydig llai na thraean o'r ymatebwyr (30% n= 21) yn cytuno bod Cyngor Abertawe yn cael ei lywodraethu'n dda. Fodd bynnag, roedd dros 40% o'r ymatebwyr (*n* = 29) yn anghytuno ei fod yn cael ei lywodraethu'n dda. Nid oedd tuag un rhan o bump o'r ymatebwyr (20% *n*= 17) yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad ac nid oedd dau ymatebydd arall (2.9%) yn gwybod a oedd yn cael ei lywodraethu'n dda, ai peidio.

Ymatebodd ychydig dros 40% o'r cyfranogwyr (*n*= 30) yn yr arolwg i gwestiwn penagored ynghylch sut y gallai'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n cael ei lywodraethu. Ymhlith yr awgrymiadau roedd: gwella systemau TG diwylliant y Cyngor, cynyddu effeithlonrwydd staff, cysylltu mwy o adrannau â'i gilydd, ymgynghori mwy â'r cyhoedd a staff, cadw mwy o wasanaethau "yn fewnol", gwella cyfathrebu, lleihau'r rheolaeth ac ail-flaenoriaethu adnoddau.

<u>Meysydd ar gyfer gwelliant parhaus</u>

- Chwilio am ffyrdd o wella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a gwella cyfraddau ymateb ar gyfer yr hunanasesiad blynyddol.

**Casgliad i Ran 3**

Mae gan y Cyngor lywodraethu effeithiol pan fydd yn cymhwyso egwyddorion craidd llywodraethu da fel y'u nodir gan CIPFA / SOLACE yn *Delivering Good Governance in Local Government*.

Dengys y dystiolaeth yn Rhan 3 o'r asesiad hwn y canlynol:

Ceir **cymhwyso ac effeithiolrwydd llywodraethu cymysg** ynghylch gweledigaeth, strategaeth a pherfformiad.

Ceir **cymhwyso ac effeithiolrwydd llywodraethu cryf** ym mhob un o'r meysydd eraill.

**Ble i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu drwy: E-bost: improvement@swansea.gov.uk Ffôn: 01792 637570.